# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH, 8 MAWRTH, 2022 am 2.00 o'r gloch yp** | **TUESDAY, 8 MARCH, 2022 at 2.00 p.m.** |
| **CYFARFOD RHITHIOL WEDI'I FFRYDIO'N FYW (AR HYN O BRYD NID OES MODD I'R CYHOEDD FYNYCHU)** | **VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING (AT PRESENT MEMBERS OF THE PUBLIC ARE UNABLE TO ATTEND)** |
| **Swyddog Pwyllgor — Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516** | **Committee Officer** |

**<u>AELODAU / MEMBERS</u>**
Cynghorwyr / Councillors:-

**<u>Y Grwp Annibynnol / The Independent Group</u>**

Gwilym O. Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**<u>Plaid Cymru / The Party of Wales</u>**

T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts

**<u>Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents</u>**

Kenneth P Hughes, R.Ll.Jones

**<u>Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party</u>**

Glyn Haynes **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Sedd Wag/Vacant Seat (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Mr. Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) a Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gasglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 18 Ionawr, 2022.

**4 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYDRADDOLDEB - 2020/21** (Tudalennau 7 - 50)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Dros Dro.

**5 ASESIAD ANGHENION Y BOBLOGAETH: DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014** (Tudalennau 51 - 212)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

**6 BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS: CRAFFU CYNNYDD AR WIREDDU'R CYNLLUN LLESIANT / ASESIAD LLESIANT DRAFFT YNYS MÔN** (Tudalennau 213 - 352)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

**7 ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETH CYNLLUNIO ARGYFWNG RHANBARTHOL: 2020/21** (Tudalennau 353 - 368)

Cyflwyno adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

**8 EITEM ER GWYBODAETH** (Tudalennau 369 - 394)

Adroddiad Cynnydd Chwarter 3: 2021/22 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2022

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, R Ll Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts a Margaret M Roberts. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (eitem 4),<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc (eitem 4),<br>Rheolwr Gwasanaeth Diogelu ac Ansawdd (AH) (eitem 4),<br>Uwch Reolwr – Lles (GMH) (eitem 4),<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Rheolwr Craffu,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig Rufeinig).<br><br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth Dros Dro (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Arweinydd y Cyngor – Y Cynghorydd Llinos M Huws (eitem 4),<br>Y Cynghorydd R Meirion Jones – Deilydd Portffolio – Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant a Phobl Ifanc,<br>Y Cynghorydd Alun Mummery – Deilydd Portffolio – Tai a Chefnogi Cymunedau,<br>Y Cynghorydd Dafydd R Thomas – Deilydd Portffolio – Corfforaethol.<br><br>Ms Daron Owens – Swyddog Gweithredu a Phrosiectau (eitem 5). |

---

Llongyfarchodd y Cadeirydd Mr Dylan Williams ar ei benodiad yn Brif Weithredwr a dymunodd yn dda iddo.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Fel y ndowyd uchod.

### 2 DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd, 2021 yn gywir.

**4 TREFNIADAU DIOGELU CORFFORAETHOL**

Cyflwynwyd – adroddiad gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â throsolwg o waith y Bwrdd Diogelu Corfforaethol.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor mai cyfrifoldeb holl wasanaethau'r Cyngor yw Diogelu Corfforaethol. Er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Cynllun Gweithredu Diogelu, sefydlwyd Bwrdd Diogelu Corfforaethol Gweithredol gyda phencampwyr diogelu yn dod o'r holl wasanaethau'r Cyngor. Dywedodd hefyd mai adroddiad yw hwn i roi sicrwydd i'r Aelodau Etholedig o effeithiolrwydd trefniadau diogelu'r Cyngor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr Awdurdod wedi sefydlu Byrddau Diogelu Corfforaethol Strategol a Gweithredol sydd ag agenda cadarn ar waith sy'n cynnwys data pwysig sy'n cael ei rannu â'r Byrddau. Roedd yn derbyn bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth helaeth a bod angen crynhoi'r wybodaeth yn yr adroddiad nesaf i'r Pwyllgor hwn. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ymhellach fod trefniadau partneriaeth a llywodraethu eraill ar waith megis Byrddau Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer Plant ac Oedolion, ar gyfer ymdrin â materion diogelu arbenigol. Mae gan y Cyngor ddyletswydd i gyfrannu at weithredu'r Byrddau hyn ar lefel ranbarthol. Mae Bwrdd Herio (CONTEST) Rhanbarthol a'r Dirprwy Brif Weithredwr, Mr Dylan Williams yw cynrychiolydd yr Awdurdod hwn. Partneriaeth Diogelu Cymunedol Gwynedd a Môn sy'n gyfrifol am oruchwylio rhaglenni Atal (PREVENT) o fewn gwasanaethau'r bartneriaeth. Y Bwrdd Rhanbarthol ar gyfer Bregusrwydd a Cham-fanteisio sy'n goruchwylio materion Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ac mae'r Rheolwr Gwasanaeth Diogelu ac Ansawdd yn cynrychioli'r Awdurdod hwn ar y bwrdd hwn.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaeth y prif bwyntiau canlynol:-

- Codwyd cwestiynau ynghylch a yw'r sefydliadau partner yn cytuno ynghylch y blaenoriaethau gyda'r trefniadau diogelu ac a ydynt yn rhannu gwybodaeth. Cyfeiriodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol at Gam-drin Domestig a nododd fod Heddlu Gogledd Cymru yn rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau partner ar draws Gogledd Cymru; mae hyn yn caniatáu i wersi gael eu dysgu os bydd meysydd penodol yn gweld cynnydd yn ffigurau Cam-drin Domestig ac i fynd i'r afael â'r mater a rhoi gwasanaethau yn eu lle i ddelio â'r mater. Gwerthusir ar sail amlasiantaethol a chynhelir trafodaethau hefyd o fewn y Bwrdd Bregusrwydd a Cham-fanteisio o ran Cam-drin Domestig. Nododd fod gan yr Awdurdod hwn wasanaeth 'un drws ffrynt' mewn perthynas ag atgyfeiriadau cam-drin domestig sy'n ymdrin ag achosion cam-drin domestig lefel isel hyd at lefel uchel; ymdrinnir ag achosion mewn ymyriad cynnar i atal

problemau posibl rhag cyrraedd lefel uchel o gam-drin a hefyd o ran rhoi plant mewn gofal os bydd y sefyllfa'n gwaethygu. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd fod gan yr Awdurdod hwn weithwyr sy'n delio'n benodol â theuluoedd lle mae cam-drin domestig yn digwydd a bod perthynas waith dda hefyd gyda Gorwel sy'n rhoi cymorth i bobl sy'n dioddef cam-drin domestig neu gymorth i bobl sydd mewn perygl o golli eu cartrefi ac atal digartrefedd;

- Codwyd cwestiynau ynghylch a oes angen blaenoriaethu unrhyw wasanaeth o fewn y Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod gwersi wedi'u dysgu o ran y pandemig a bod angen canolbwyntio a blaenoriaethu'r gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw yr effeithiwyd arnynt gan y pandemig. Dywedodd y gallai blaenoriaethau o fewn y Cynllun Gweithredu blaenorol fod wedi bod yn rhy uchelgeisiol gan y bydd angen adolygu trefniadau diogelu'n barhaus er mwyn mynd i'r afael â ffactorau a fydd yn codi wrth i anghenion pobl newid;
- Codwyd cwestiynau ynghylch a yw pob gwasanaeth yn blaenoriaethu hyfforddiant staff. Cyfeiriwyd at y data yn yr adroddiad mewn perthynas â'r gwasanaeth addysg gyda 52% yn cael hyfforddiant ar seiberddiogelwch. Mewn ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, pan fydd staff yn gallu dychwelyd i Swyddfeydd y Cyngor, y gobaith yw y gellir cynnull y sesiwn hyfforddi mewn grŵp a all ganolbwyntio ar ddiogelu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod y Gwasanaeth Addysg yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol o ran diogelu ond bod gan ysgolion strwythur ar waith hefyd o ran diogelu. Nododd fod diogelu yn flaenoriaeth o fewn ymweliadau Estyn ag ysgolion i sicrhau bod strwythurau diogelu ar waith i amddiffyn y plant a'r bobl ifanc;
- Cyfeiriwyd at arolygiad AGC o'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd ym mis Mehefin 2021. Derbyniwyd sylwadau ynglŷn â'r materion recriwtio Cenedlaethol ac yn benodol o fewn y Gwasanaethau i Oedolion ar Ynys Môn. Codwyd cwestiynau ynghylch a yw problemau recriwtio'n parhau ac a yw'n ffactor risg i'r gwasanaeth. Dywedodd y Cadeirydd fod problemau recriwtio o fewn y Sector Gofal wedi bod yn broblem ers nifer o flynyddoedd a holodd a oedd cyflog y swyddi hyn yn ffactor wrth geisio denu pobl ifanc i wneud cais am swyddi o'r fath. Mewn ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol nad yw cyflog ar gyfer swyddi o'r fath bob amser yn broblem wrth recriwtio ar gyfer staff. Nododd ei bod yn gofyn am weithwyr cymorth gofalgar sy'n gallu rhoi cymorth a gofal personol i bobl sy'n agored i niwed a all fod yn heriol ar adegau. Dywedodd hefyd fod rhoi amodau gwaith da hefyd yn ffactor pwysig wrth recriwtio staff gofal; mae'r Awdurdod wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Choleg Menai i gynnig profiad gwaith o fewn Cartrefi Gofal;
- Codwyd cwestiynau ynglŷn â'r dirywiad yn yr asesiadau risg yn y Gwasanaethau Plant ac Oedolion. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth Diogelu ac Ansawdd fod hyn yn ymwneud ag ymarfer hunan-sicrwydd nid â dirywiad mewn cynnal asesiadau risg er mwyn sicrhau gweithlu diogel. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth Diogelu ac Ansawdd y dylai pob gwasanaeth gael proses ar gyfer cynnal asesiadau risg os oedd problem neu bryder mewn perthynas ag aelod o staff. Mae angen i wasanaethau hefyd fod â phrosesau ar waith i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Pholisi Diogelu Corfforaethol yr Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Gweithredu hefyd yn cynnwys dau weithgaredd sicrwydd y flwyddyn i'w cynnal gan bob gwasanaeth a'u hadrodd ar sail gorfforaethol.

Roedd y cynllun presennol yn cynnwys gweithgaredd sicrwydd i asesu risg gweithwyr mewn rhai sefyllfaoedd. Y sicrwydd hwn na chafodd ei gwblhau o fewn yr amserlen arfaethedig.

**PENDERFYNWYD nodi'r trefniadau sydd yn eu lle, yn ogystal â'r meysydd y mae'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol yn canolbwyntio arnynt i sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni'r dyletswyddau statudol yn y maes hwn.**

**GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.**

**5 ADRODDIAD BLYNYDDOL - PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL GWYNEDD AND YNYS MÔN**

Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn.

Dywedodd Deilydd y Portffolio – Tai a Chefnogi Cymunedau ei fod yn falch bod presenoldeb yn y cyfarfod wedi gwella ers cynnal cyfarfodydd rhithwir a bod trafodaethau manwl wedi'u cynnal o fewn y Pwyllgorau.

Cyfeiriodd y Cadeirydd fod dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, a diwygiadau dilynol yn sgil Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2002 a 2006, i weithio mewn partneriaeth â'r Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Tân ac Achub, i fynd i'r afael â'r agenda diogelwch cymunedol lleol.

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol bellach wedi bod yn eu lle ers 22 mlynedd, yn fwyaf diweddar, fel partneriaeth sirol ar y cyd rhwng Gwynedd ac Ynys Môn. Nododd mai dyma’r meysydd cyfrifoldeb o hyd:-

- Trosedd ac Anhrefn;
- Camddefnyddio Sylweddau;
- Lleihau aildroseddu;
- Cynnal asesiad strategol i nodi blaenoriaethau (gwaith sydd bellach yn cael ei wneud yn rhanbarthol);
- Rhoi cynlluniau ar waith i ddelio â'r blaenoriaethau hyn (mae cynllun bellach yn bodoli ar sail ranbarthol a lleol)

Mae gweithio rhwng partneriaid yn hanfodol i ddiogelwch cymunedol ac mae wedi galluogi'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i rannu data ac arfer da. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr ymhellach fod y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn parhau i ganolbwyntio ar Gam-drin Domestig. Cytunodd partneriaid, yn ogystal â'r cyfarfodydd rhithwir misol MARACs (Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol) y byddai cyfarfodydd rhithwir wythnosol hefyd yn cael eu cynnal, er mwyn gallu delio â'r ffactorau risg uwch yn gyflym. Mae'r Bartneriaeth hefyd wedi cyfrannu at y Cynllun Atal sy'n gynllun i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth. Lansiwyd Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol Gogledd Cymru ym mis Mawrth 2020 ac mae'r

Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi cefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth yn Ynys Môn drwy fynychu'r cyfarfodydd rhanbarthol a diweddaru blaenoriaethau a chamau gweithredu perthnasol wrth iddynt godi. Mae Seiberdroseddu hefyd wedi cynyddu yn sgil gweithgareddau rhithwir a darparwyd hyfforddiant gan Heddlu Gogledd Cymru gan fod twyll wedi'i nodi gan y Bartneriaeth.

Dywedodd Ms Daron Owens, y Swyddog Gweithredu a Phrosiectau fod y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi wynebu llawer o newidiadau dros y blynyddoedd a rhai o'r prif newidiadau yw colli grantiau lleol a cholli cydlynwyr lleol; fodd bynnag, mae'r Bartneriaeth yn canolbwyntio ar gynnal aelodaeth agos a phwrpasol o'r grwpiau rhanbarthol, ac y mae'n hyderus fod anghenion lleol yn rhan annatod o'r holl gynlluniau a gweithgarwch rhanbarthol. Dywedodd hefyd fod y Bartneriaeth yn gweithio ar sail Cynllun Blynyddol a bod saith blaenoriaeth wedi'u nodi gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Nodir y rhain yn yr adroddiad. Mae'r blaenoriaethau hyn yn seiliedig ar asesiad strategol rhanbarthol, Cynllun Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Cynllun Cymunedau Diogelach rhanbarthol. Mae'r Heddlu'n edrych ar ffigurau troseddu yn gyson, ac yn adolygu'r holl newidiadau ar sail ranbarthol a lleol. Yna bydd ardaloedd problemus yn cael eu hadolygu gyda chynlluniau Plismona yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r materion. Mae'r Bartneriaeth yn derbyn data ar lefelau troseddu bob chwarter. Cafodd y data troseddau diweddaraf ar gyfer Ynys Môn ar gyfer Mis Ionawr 2022 ei gynnwys yn yr adroddiad i'r Pwyllgor. Yn ystod rhan gyntaf y llynedd, oherwydd sefyllfa'r cyfyngiadau symud, bu gostyngiad yn nifer yr holl droseddau a adroddwyd i'r Heddlu. Fodd bynnag, mae ffigurau Cam-drin Domestig wedi codi ar draws ardal Heddlu Gogledd Cymru ac ystyrir yr achosion hyn drwy MARAC fel y nodwyd yn flaenorol gan y Dirprwy Brif Weithredwr. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Ynys Môn hefyd wedi cynyddu yn hanner cyntaf 2021/22, a hefyd ar draws Gogledd Cymru. Mae cynnydd drwy'r wlad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â phobl ifanc ers diwedd cyfnod y cyfyngiadau symud a chynnydd tebyg wedi'i nodi yn y grwpiau gorchwyl aml-asiantaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol misol ledled Gogledd Cymru. Dywedodd y Swyddog Gweithredu a Phrosiectau ymhellach fod rhai o'r gweithgareddau yng Nghynllun 2020/21 heb eu cyflawni oherwydd y pandemig a bod hyn wedi arwain at fethu â chyflawni'n llawn 5 o'r 28 o gamau gweithredu ar ddiwedd y flwyddyn.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaeth y prif bwyntiau canlynol:-

- Codwyd cwestiynau ynghylch a yw colli grantiau wedi effeithio ar effeithlonrwydd y Bwrdd Diogelwch Cymunedol. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Gweithredu a Phrosiectau nad yw colli grantiau wedi cael effaith sylweddol ar weithgareddau'r Bwrdd gan fod y dyraniad ariannol bellach wedi'i roi'n rhanbarthol;
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod y Bartneriaeth yn gweithio ar sail Cynllun Blynyddol ac mae ganddi saith blaenoriaeth a nodwyd gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Codwyd y cwestiwn a yw'r Bwrdd yn adolygu ei flaenoriaethau ac yn enwedig yn ystod y pandemig lle bu cynnydd mewn Cam-drin Domestig. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Gweithredu a Phrosiectau fod blaenoriaethau'r Bwrdd yn cael eu llywio gan yr Adolygiad Strategol gan Heddlu Gogledd Cymru a Bwrdd Rhanbarthol Gogledd Cymru Mwy Diogel, PCB a'r Cynllun Trechu Troseddu gan Lywodraeth Cymru;

- Codwyd cwestiynau ynghylch i ba raddau y mae'r sefydliadau partner o fewn y Bwrdd yn cytuno o ran y blaenoriaethau sy'n seiliedig ar y broses asesu anghenion lleol ac a oes materion eraill y mae angen eu blaenoriaethu. Mewn ymateb, dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr ei fod yn credu bod y sefydliadau partner yn cytuno â'r blaenoriaethau a nodwyd gan fod y data strategol yn cael ei lywio gan y blaenoriaethau hyn. Nododd fod sefydliadau partner yn canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth ac nad oes unrhyw newidiadau yn digwydd i'r blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn gyfredol. Fodd bynnag, gall y ffocws a'r gweithgareddau newid os yw data'n dangos yr angen i flaenoriaethu cynnydd penodol mewn trosedd benodol mewn cymunedau;
- Codwyd cwestiynau ynglŷn â'r sefyllfa o ran problemau llinellau sirol yn y Sir mewn cymunedau lleol. Mewn ymateb, dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio i leihau problemau'n ymwneud â llinellau Sirol a bu cryn lwyddiant yn ddiweddar i ddelio â phroblem masnachu cyffuriau. Nododd, yng nghyfarfod diweddar y Bwrdd Diogelwch Cymunedol, adroddwyd nad oes unrhyw ymgyrch masnachu mewn cyffuriau ar yr Ynys ar hyn o bryd sydd i'w chroesawu.

Mae'r Dirprwy Brif Weithredwr yn dymuno nodi, er bod y ffigurau data yn yr adroddiad yn goch ar hyn o bryd, rhaid sylweddoli fodd bynnag, bod angen cymharu'r data mewn perthynas â ffigurau data 2019 'fesul blwyddyn' oherwydd y cyfyngiadau symud yn sgil y pandemig a bydd pobl yn dychwelyd i'w patrwm arferol o weithio a chymdeithasu. Cyfeiriodd hefyd y dylai ffigurau data gael eu gwerthuso yn ôl ffigurau poblogaeth yn yr haf a'r gaeaf ar yr Ynys oherwydd y mewnlifiad o ymwelwyr.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a chefnogi blaenoriaethau a chyfeiriad gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn y dyfodol.**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

## 6 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini fod y Cadeirydd wedi cytuno y bydd y cyfarfod y bwriedir ei gynnull ar 8 Chwefror, 2022 yn cael ei ganslo oherwydd nad oes eitemau i'w trafod.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cytuno ar y fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2021/2022;**
- **Nodi'r cynnydd hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.**

Daeth y cyfarfod i ben yn 3.30 pm

**Y CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**CADEIRYDD**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**
**Templed Adroddiad Sgriwtini**

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 8 Mawrth 2022 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2020/21 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Cyflwyno'r adroddiad er sylwadau cyn ei gyflwyno am gymeradwyaeth dirprwyiedig i'w gyhoeddi. |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Rhys Hughes, Cyfarwyddwr Swyddogaeth dros dro – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Ffreuer Owen, Rheolwr Polisi a'r Gymraeg<br>01248 752561<br>FfreuerOwen@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

Gwahoddir y Pwyllgor i gyflwyno sylwadau ar yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2020/21 cyn ei gyflwyno am gymeradwyaeth dirprwyiedig gan y Deilydd Portffolio i'w gyhoeddi.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Er mwyn dangos ein hymrwymiad i brif ffrydio cydraddoldeb o fewn y Cyngor - ac yn unol â'n ymagwedd 'Un Cyngor' tuag at ddarparu gwasanaethau - rydym wedi ceisio cynnal cysylltiadau agos rhwng ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 a Chynllun y Cyngor 2017-2022. Mae'r adroddiad blynyddol yma yn ceisio parhau'r cysylltiadau hyn.

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio

- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1 - Pa gamau a roddwyd yn eu lle er mwyn sicrhau nad yw plant / pobl fregus yn dioddef anghydraddoldeb yn sgil pandemig Covid-19?

2 - Sut bwriedir sicrhau y bydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn dod yn rhan annatod o waith y Cyngor?

3 - I ba raddau mae'r Cyngor wedi cyflawni'r amcanion cydraddoldeb yn llwyddiannus?

4 - Pa ddangosyddion perfformiad neu ddata a ddefnyddir er mwyn mesur a monitro cydraddoldeb ar draws yr ynys?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

Mae'n ofynnol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus bod pob awdurdod cyhoeddus a restrir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 Dyletswyddau Statudol (Cymru) 2011 yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb erbyn 31 Mawrth yn y flwyddyn sy'n dilyn y cyfnod adrodd. Prif bwrpas yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb yw cefnogi'r awdurdod i gwrdd â'i ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol i:

- Diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Rhaid i'r adroddiad gynnwys gwybodaeth yn ymwneud â chyflogaeth ac adrodd ar gynnydd yn erbyn cyflawni'r amcanion cydraddoldeb sydd wedi'u hadnabod yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor. Fe gyflwynwyd y Cynllun Strategol drafft ar gyfer 2020-2024 i'r Pwyllgor hwn er sylwadau ar 4 Chwefror 2020 ac fe'i gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2020.

Yn unol â'r gofynion, mae'r wybodaeth ar gyflogaeth yn yr adroddiad blynyddol eleni yn seiliedig ar y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021. Mae gweddill yr adroddiad yn amlinellu cynnydd hyd at fis Rhagfyr 2021, er mwyn rhoi darlun mwy diweddar o'r sefyllfa.

| 6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Pwrpas yr adroddiad blynyddol yw edrych yn ôl ar sut mae'r Cyngor wedi bod yn cwrdd â'i ddyletswyddau o ran cydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys amlinelliad o gynnydd yn erbyn y gwaith sy'n gysylltiedig a'n blaenoriaeth i sefydlu proses gorfforaethol effeithiol er mwyn sicrhau bod effeithiau'n cael eu hasesu'n barhaus ar draws y gwasanaethau (Amcan 8, Blaenoriaeth 8.2) |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Gweler uchod. |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Gweler uchod. |

| 7 – Goblygiadau Ariannol |
|---|
| Amherthnasol |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2020/21 (drafft) |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024. |

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2020/21

## Mawrth 2022

### DRAFFT



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

## Sut i gysylltu â ni

Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau, awgrymiadau neu adborth am yr Adroddiad Blynyddol hwn ar Gydraddoldeb. Cysylltwch â ni:

E-bost: cydraddoldeb@ynysmon.gov.uk
Rhif Ffôn: 01248 752520 / 752561

Gwasanaethau Democrataidd (Cydraddoldeb)
Busnes y Cyngor
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Rydym hapus hefyd i ddarparu'r ddogfen hon mewn fformatau gwahanol ar gais. Defnyddiwch y manylion uchod i gysylltu â ni.

# Mynegai

| | Tudalen |
|---|---|
| Sut i gysylltu â ni | 2 |
| Rhagarweiniad a Chefndir | 4 |
| Deddf Cydraddoldeb 2010 | 4 |
| Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) | 5 |
| Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb | 5 |
| Blaenoriaethau'r Cyngor | 5 |
| Adnabod, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol | 6 |
| Ein Cymunedau | 6 |
| Ein Staff | 7 |
| Asesu Effaith | 15 |
| Hyrwyddo Cydraddoldeb | 16 |
| Cydweithio | 16 |
| Ein Hamcanion Cydraddoldeb | 17 |
| Atodiad 1 – Blaenoriaethau CCS 2020-2024: Cynnydd hyd at Rhagfyr 2021 | 18 |
| Atodiad 2 – Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau | 40 |


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

# Rhagarweiniad a Chefndir

## Deddf Cydraddoldeb 2010

Pwrpas Deddf Cydraddoldeb 2010 yw sicrhau tegwch ac mae'n diogelu'r nodweddion canlynol (sy'n cael eu galw hefyd yn 'grŵpiau gwarchodedig'):

- Oed
- Anabledd
- Rhyw
- Newid rhyw
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred, gan gynnwys diffyg cred
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Priodas a phartneriaeth sifil

Nid yw hyrwyddo a defnyddio'r iaith Gymraeg wedi'i gynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010 gan fod gofynion **Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011** yn rhoi sylw i hyn. Fodd bynnag, mae'n bwysig cynnwys yr iaith Gymraeg ochr yn ochr â'r nodweddion gwarchodedig uchod er mwyn annog ymagwedd holistaidd tuag at anghenion pob cymuned wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

### Y Ddyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol

Mae'r Ddeddf yn gosod Dyletswydd Gyffredinol ar gyrff cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r canlynol wrth weithredu eu swyddogaethau:

- Diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

### Dyletswyddau Penodol

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddyletswyddau penodol i helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gyfarfod â'r ddyletswydd gyffredinol. Mae'r dyletswyddau penodol hyn yn cynnwys gofyniad i ddatblygu a chyhoeddi **amcanion cydraddoldeb** a **Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol** o leiaf unwaith bob pedair blynedd. Hefyd, rhaid cynhyrchu **adroddiadau blynyddol ar gydraddoldeb** (hy yr adroddiad hwn) erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae'r adroddiadau hyn yn dangos sut yr ydym wedi cwrdd gyda'n dyletswyddau cyffredinol a phenodol o ran cydraddoldeb.

### Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Daeth y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (Adran 1 o'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021. Nod cyffredinol y Ddyletswydd yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rheini sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd y Ddyletswydd yn cefnogi hyn drwy sicrhau bod y rheini sy'n gwneud penderfyniadau strategol:

- yn ystyried tystiolaeth ac effaith posibl drwy ymgynghori ac ymgysylltu,
- yn deall barn ac anghenion y rhai y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt, yn enwedig y rheini sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol
- yn croesawu her a chraffu
- yn sbarduno newid yn y ffordd y caiff penderfyniadau eu gwneud a'r ffordd y mae llunwyr penderfyniadau yn gweithredu

Rydym yn egluro sut y gwnaethom baratoi ar gyfer y Ddyletswydd newydd yma yn Atodiad 1 (Amcan 7).

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Cyhoeddodd y Cyngor ei drydydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2020-2024) ym mis Mawrth 2020. Gellir gweld y Cynllun a dogfennau perthnasol eraill ar ein gwefan.

## Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb

Yr adroddiad hwn yw'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb, a'i brif bwrpas yw dangos sut yr ydym yn cydymffurfio gyda'n dyletswyddau o ran cydraddoldeb.

Mae'r data cyflogaeth yn yr adroddiad yma'n ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021. Mae gweddill yr adroddiad yn cynnwys amlinelliad o ddatblygiadau hyd at Rhagfyr 2021 er mwyn rhoi darlun mwy cyfredol.

## Blaenoriaethau'r Cyngor

### Cynllun y Cyngor 2017-2022

Nod y Cyngor, fel a nodir yn ein Cynllun Cyngor, yw y byddwn yn gweithio tuag at Ynys Môn sy'n iach ac yn llewyrchus ble gall teuluoedd ffynnu. Er mwyn diwallu'r nod hwn, amcanion y Cyngor ar gyfer 2017-2022 yw:

(1) Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir
(2) Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl

(3) Gweithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau i'w galluogi i ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau wrth warchod ein hamgylchedd naturiol

Rydym wedi ceisio cadw cysylltiadau agos rhwng ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol a Chynllun y Cyngor 2017-2022, sy'n sylfaen i'r broses gwneud penderfyniadau ar bob lefel yn y Cyngor.

Mae'r Cyngor hefyd yn cyhoeddi:

- **Dogfen Gyflawni Flynyddol** sy'n hoelio sylw ar y gwaith a wneir gennym i wireddu'r targedau a nodir yn y Cynllun Corfforaethol.

- **Adroddiad Perfformiad Blynyddol** sy'n edrych ar berfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol yn erbyn y gwelliannau a'r blaenoriaethau a nodir yn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer yr un flwyddyn.

**Cynllun Trosiannol**

Bu i'r Cyngor gymeradwyo Cynllun Trosiannol ar 7 Rhagfyr 2021. Mae'r Cynllun yn amlinellu blaenoriaethau a dyheadau allweddol, sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng gweinyddiaeth bresennol y Cyngor a'r weinyddiaeth newydd yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022.

Mae cynnal a moderneiddio gwasanaethau cymunedol hanfodol megis gofal ac addysg ar draws yr ynys yn un o dri amcan strategol ôl-bandemig y Cynllun.

# Adnabod, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol

## Ein Cymunedau

Rydym o'r farn ein bod yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i adnabod a chasglu gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chynnwys o fewn ystod eang o strategaethau, cynlluniau gwasanaeth a chorfforaethol ac adroddiadau pwyllgor a gyhoeddir ar ein gwefan. Mae copïau papur neu fformatau amgen eraill ar gael hefyd ar gais - defnyddiwch y manylion cysylltu ar dudalen 2 i gysylltu â ni os gwelwch yn dda.

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu a gwella'n barhaus y wybodaeth sydd gennym am grwpiau a warchodir ar Ynys Môn a byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid ac ymrwymo pobl i gyflawni hyn.

# Ein Staff

## Gwybodaeth am Gyflogaeth

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweld data fel teclyn hanfodol i gyflawni ei ddyletswyddau sector gyhoeddus mewn perthynas â chyflogaeth i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, helpu i ddileu camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth. Mae'r Awdurdod yn ymdrechu'n barhaus i gasglu gwybodaeth gywir am ei staff ac yna dadansoddi'r data am y grwpiau cydraddoldeb a warchodir, a hynny drwy'r system Adnoddau Dynol electronig.

Mae'r data a ddelir yn ymwneud â 3,031 o weithwyr y Cyngor (yn cynnwys staff dysgu) a rhoddwyd ystyriaeth i'r nodweddion a warchodir o ran rhyw, oedran, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol ac anabledd ymhlith staff presennol, lle mae'r wybodaeth honno gennym ac wedi'i rhannu â'r Awdurdod. Ceir hefyd ddadansoddiad o'r rheiny sydd wedi gwneud cais am swyddi gweigion o fewn yr Awdurdod âr ol y wybodaeth am staff cyfredol.


Mae'r graffiau gwybodaeth ganlynol yn amlinellu'r wybodaeth am gyflogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn:


Sylwer: Nid yw'n orfodol i weithwyr neu ymgeiswyr ddarparu data ynghylch anabledd, hil, crefydd neu gred, na chyfeiriadedd rhywiol. Mae'r categori 'anhysbys' yn y graffiau canlynol yn nodi nifer yr unigolion sydd wedi dewis peidio â darparu unrhyw ddata ynghylch y nodwedd warchodedig benodol honno.


**Pobl a gyflogwyd gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2021**


| Dynion | Merched | Cyfan swm | Oed <25 | Oed 26-34 | Oed 35-44 | Oed 45-54 | Oed 55-64 | Oed 65+ | * Anabl | *DLIE ** | *LHD *** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 742 | 2289 | 3031 | 243 | 262 | 678 | 750 | 612 | 186 | 80 | 8 | 28 |


*O'r rhai hynny sydd wedi datgan, dyma'r dadansoddiad
**DLIE – Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig
***LHD – Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol


Proffil Oedran y Staff a gyflogwyd ar 31 Mawrth
900
800
700
600
500
400
300
200
100
0
314
243
574
562
643
678
777
750
602
612
167
186
2020
2021



Rhyw y staff a gyflogwyd ar 31 Mawrth
2500
2000
1500
1000
500
0
31/03/2020
31/03/2021
B
G


Crefydd y staff a gyflogwyd ar 31 Mawrth
2000
1800
1600
1400
1200
1000
800
600
400
200
0
1 2
727 750
1 1
3 4
400 429
20 21
74 80
1851 1744
BWDHYDD
CRISTION
HINDW
IDDEW
DIM CREFYDD NA CHRED
ARALL
GWELL GENNYF BEIDIO A DWEUD
ANHYSBYS
31/03/2020
31/03/2021


Staff gyda Baner Anabledd ar 31 Mawrth
80
86
2020
2021



Tarddiad ethnig staff a gyflogwyd ar 31 Mawrth
2000
1800
1600
1400
1200
1000
800
600
400
200
0
1825
1712
2 2
7 5
3 3
1230 1299
1 1
ANHYSBYS
TSIEINIAIDD
CYMYSG
ARALL
GWYN
DU
31/03/2020
31/03/2021

Cyfeiriadedd rhywiol staff a gyflogwyd ar 31 Mawrth
2000
1800
1600
1400
1200
1000
800
600
400
200
0
16 16
4 3
1076 1126
8 9
103 111
1870
1766
DEURYWIOL
HOYW
HETERORYWIOL
LESBIAD
GWELL GENNYF BEIDIO A DWEUD
ANHYSBYS
31/03/2020
31/03/2021

Mae'r wybodaeth arall sydd ar gael ar hyn o bryd yn cynnwys y canlynol:

| **Pobl sydd wedi llwyddo i newid swydd o fewn yr Awdurdod yn 2020/2021**<br><br>Bydd y ffigyrau hyn yn cynnwys y rhai sydd wedi cael dyrchafiad, wedi newid rol ar yr un lefel neu wedi cymryd ail swydd gyda'r Awdurdod | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dynion | Merched | Cyfan swm | Oed <25 | Oed 26-34 | Oed 35-44 | Oed 45-54 | Oed 55-64 | Oed 65+ | * Anabl | *DLIE ** | *LHD *** |
| 106 | 429 | 535 | 104 | 144 | 122 | 103 | 51 | 11 | 11 | 0 | 9 |
| *Nid oes rhaid i weithwyr nag ymgeiswyr ddarparu'r wybodaeth yma. O'r rhai hynny sydd wedi datgan, dyma'r dadansoddiad<br>**DLIE – Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig<br>***LHD – Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol | | | | | | | | | | | |

| **Data Hyfforddiant** | | |
|---|---|---|
| Hyfforddiant a gwblhawyd | Dynion sydd wedi cwblhau hyfforddiant | Merched sydd wedi cwblhau hyfforddiant |
| 767 | 248 | 519 |

**Cwynion**

Mae gweithdrefn ffurfiol ar gyfer codi materion sy'n peri pryder na ellir eu datrys yn anffurfiol. Mae'r tabl isod yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â gweithwyr sydd wedi ymwneud â'r drefn ffurfiol datrys cwynion, un ai fel yr achwynydd neu fel y person y gwnaed cwyn yn eu herbyn, a hynny rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 ac fe'i chyflwynir ar gyfer pob un o'r nodweddion a warchodir.

| **Nifer y cwynion -** 0 | |
|---|---|
| **Oed** | 16-24 – d/b (ddim yn berthnasol)<br>25-34 – d/b<br>35-44 – d/b<br>45-54 – d/b<br>55-64 – d/b<br>65+ - d/b |
| **Anabledd** | d/b |
| **Newid Rhyw** | d/b |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | d/b |

| | |
|---|---|
| **Hil** | d/b |
| **Crefydd neu Gred** | d/b |
| **Rhyw** | Gwrywaidd - d/b<br>Benywaidd – d/b |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | d/b |


**Disgyblu**


Mae’r tabl isod yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â gweithwyr sydd wedi ymwneud â’r drefn ddisgyblu, a hynny rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 ac fe’i chyflwynir ar gyfer pob un o’r nodweddion a warchodir:


| **Nifer y gweithwyr a oedd yn ddarostyngedig i’r drefn ddisgyblu - 18** | |
|---|---|
| **Oed** | 16-24 – 1<br>25-34 – 4<br>35-44 – 4<br>45-54 – 2<br>55-64 – 7<br>65+ - 0 |
| **Anabledd** | Fflag anabledd – 1<br>Dim anabledd – 1<br><br>(Gwybodaeth wedi’i chofnodi ar gyfer 2 allan o 18) |
| **Newid rhyw** | Dim wedi’i gofnodi |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Dim wedi’i gofnodi |
| **Rhyw** | Gwyn – 9<br><br>(Gwybodaeth wedi’i chofnodi ar gyfer 9 allan o 18) |
| **Crefydd neu Gred** | Cristion – 3<br>Dim crefydd na chred – 5<br>Gwell gennyf beidio â dweud - 1<br><br>(Gwybodaeth wedi’i chofnodi ar gyfer 9 allan o 18) |
| **Rhyw** | Gwrywaidd - 5<br>Benywaidd - 13 |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Heterorywiol – 9<br><br>(Gwybodaeth wedi’i chofnodi ar gyfer 9 allan o 18) |

Gwybodaeth mewn perthynas ag ymgeiswyr i swyddi gweigion a hysbysebwyd gan yr Awdurdod

| Pobl sydd wedi gwneud ceisiadau am swyddi gyda'r Awdurdod yn ystod 2020/21 | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyn-ion | Merched | Cyfan-swm | Oed <25 | Oed 26-34 | Oed 35-44 | Oed 45-54 | Oed 55-64 | Oed 65+ | *An-abl | *DLIE ** | *LDH *** |
| 476 | 884 | 1360 | 146 | 161 | 126 | 81 | 59 | 7 | 28 | 14 | 35 |
| *Nid oes rhaid i weithwyr nag ymgeiswyr ddarparu'r wybodaeth yma. O'r rhai hynny sydd wedi datgan, dyma'r dadansoddiad,<br>** DLIE – Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig<br>***LHD – Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol | | | | | | | | | | | |






Mae gan yr Awdurdod system recriwtio arlein sy'n gweithredu'n llawn ac yn cysylltu data monitro cydraddoldeb yr ymgeisydd gyda'u cofnod staff electronig. Mae'r ffurflen hefyd yn cynnwys yr opsiwn i staff nodi 'gwell gennyf beidio â dweud'. Wrth symud ymlaen, golygai hyn felly y bydd y wybodaeth am y rhai sy'n dewis ei darparu o ran cydraddoldeb yn cael ei adlewyrchu yn y data ar gyfer y gweithlu.

Mae'r system hunan-wasanaeth, My View, yn caniatau staff o ddiweddaru eu gwybodaeth monitro cydraddoldeb eu hunain, yn ôl eu hwylustod. Er bod rhai bylchau'n parhau yn y data yma, mae gwaith wedi'i wneud ynghylch hyn. Mae yna ymrwymiad i barhau i sicrhau bod y wybodaeth a ddelir mor gyfredol a phosibl.

**Hyfforddiant**

Yn unol â'r Strategaeth Bobl, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu gweithwyr ac aelodau etholedig i sicrhau bod y rhai hynny sy'n cael eu cyflogi ac yn gweithio gyda'r Awdurdod â sgiliau, wedi'u hyfforddi ac yn barod i gwrdd yn frwdfrydig ag anghenion heriol ac amrywiol y gymuned. Gall cyfleoedd hyfforddiant a datblygu gynnwys cymwysterau ac achrediadau, dysgu yn yr ystafell ddosbarth, e-ddysgu, dysgu cyfunol, dysgu hunangyfeiriedig, cysgodi a dysgu yn y gwaith.

Er mwyn darparu ein gwasanaethau'n effeithiol, mae angen i'r holl staff ac Aelodau Etholedig fod yn ymwybodol o'r Dyletswyddau Cydraddoldeb cyffredinol a phenodol er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ystyriaeth fel rhan o'r gwaith y maent yn ei wneud.

Oherwydd y pandemig, roedd angen addasiadau i'r amserlen hyfforddi arfaethedig a hyrwyddwyd modiwlau e-ddysgu i sicrhau bod y wybodaeth a'r wybodaeth yn cael ei rhannu â staff perthnasol ac Aelodau Etholedig. Roedd y flwyddyn ddiwethaf hon yn cynnwys:

- Modiwl e-ddysgu Cydraddoldeb yn y Gweithle I staff ac Aelodau Etholedig (a gwblhawyd gan 182 o bobl)
- Rhan ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn y sesiynau anwytho corfforaethol ar gyfer gweithwyr newydd

Yn ystod y flwyddyn, cymerwyd camau cadarnhaol i ymgysylltu ymhellach â hyfforddwyr er mwyn ehangu ar y ddarpariaeth hyfforddi a gynigir er mwyn gallu cyflwyno sesiynau hyfforddi rhithwir hyd nes y gallai hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth ailddechrau'n ddiogel.

Ar y cyfan, mae'r Awdurdod yn parhau i gymryd camau cadarnhaol tuag at hyrwyddo a datblygu cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y sefydliad, a bydd yn parhau i ddatblygu ac esblygu dulliau presennol i sicrhau bod cynnydd yn parhau.

## Asesu Effaith

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gofyniad statudol i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb ac mae hyfforddiant ar gael i unrhyw aelodau o staff sy'n teimlo eu bod angen rhagor o arweiniad wrth ddefnyddio templedi'r Awdurdod ar gyfer asesu'r effaith ar gydraddoldeb.  Y nod yw i'r broses yma cael ei phriflifo i'r gwaith dydd i ddydd o lunio polisiau, arferion cyflogaeth, darparu gwasanaethau a swyddogaethau eraill o fewn y sefydliad.  Ymddengys bod hyn yn symud ymlaen yn gadarnhaol, gyda mwy a mwy o feysydd yn adnabod yr angen am asesiadau effaith ar gydraddoldeb a thystiolaeth, sy'n dangos bod y canllawiau a'r templedi sydd ar gael yn cael eu defnyddio.

## Hyrwyddo Cydraddoldeb

Ceir enghreifftiau o ran sut yr ydym yn hyrwyddo cydraddoldeb o fewn ein cymunedau o dan ‘Newyddion’ ar ein gwefan:

https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Newyddion/Newyddion.aspx#/

O ran ein gweithlu, mae uchafbwyntiau eleni yn cynnwys:

- Mae **cynllunio'r gweithlu** yn rhan annatod o brosesau busnes ac mae monitro data'r gweithlu yn rhan annatod o'r broses hon.

- Parhau i fod yn **Gyflogwr Ymrwymedig Hyderus o ran Anabledd** drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau, i ddangos ymrwymiad i gyflogi, cefnogi a hyrwyddo pobl anabl yn y gweithle.

- Mae gan yr Awdurdod **fwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau** o 11.24% ar gyfer y cyfnod 31/3/2021, sy'n ostyngiad bach ar y flwyddyn flaenorol ac yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

- Creu **Polisi Gweithio Hybrid** i hyrwyddo diwylliant gweithio hyblyg i gydbwyso anghenion busnes gyda chydbwysedd bywyd a gwaith

## Cydweithio

Grŵp o swyddogion cydraddoldeb yw’r Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru, o’r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae’r grŵp wedi bod yn cydweithio ers 2010 pan ddaeth y Ddeddf Cydraddoldeb i rym. Yn ystod 2011/12, datblygodd y Rhwydwaith gyfres o gydamcanion a gytunwyd gan bob partner. Fe adolygwyd yr amcanion hyn i gyd-fynd â pharatoi Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016-20 a 2020-2024.

Bydd aelodau’r Rhwydwaith yn parhau i weithio gyda’i gilydd er mwyn rhannu arfer dda a gwneud y mwyaf o’r adnoddau sydd ar gael.

## Ein Hamcanion Cydraddoldeb 2020-2024

### Yr hyn yr ydym wedi ei wneud hyd yma

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 yn amlinellu ein hamcanion cydraddoldeb, sut y gwnaethom eu dewis a'r camau gweithredu a nodwyd i helpu i'w cyflawni. Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys rhai dangosyddion o'r hyn y dylem ddisgwyl ei weld os yw'r camau gweithredu yn cael eu cwblhau'n llwyddiannus erbyn 2024.

Mae **Atodiad 1** yn rhoi amlinelliad o'r cynnydd a wnaed hyd at Rhagfyr 2021. Er gwaethaf rhywfaint o oedi mewn rhai meysydd oherwydd heriau ychwanegol y pandemig, credwn fod y wybodaeth hon yn dangos ein bod yn dal ar y trywydd iawn.

Nid yw ein hymrwymiad i gydraddoldeb wedi'i gyfyngu i'r amcanion sydd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn unig. Mae llawer mwy o enghreifftiau o sut mae'r Cyngor yn cyfrannu at wella bywydau pobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig i'w gweld yng Nghynllun y Cyngor a chynlluniau a strategaethau corfforaethol eraill.

### Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud nesaf

Byddwn yn parhau i adrodd yn flynyddol ar y cynnydd a wnawn ac yn manteisio ar bob cyfle i symud cydraddoldeb ymlaen trwy ein gwaith ar bob lefel yn y Cyngor, er mwyn ein cynorthwyo i adeiladu cymdeithas decach i'n holl ddinasyddion. Rydym yn parhau i ymrwymo, o fewn gallu a dylanwad y Cyngor Sir, i:

- ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
- feithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt

**Mawrth 2022**

# Amcan 1: Mae canlyniadau o ran cyrhaeddiad Addysgol a llesiant mewn ysgolion yn gwella

## Blaenoriaeth 1.1: Byddwn yn lleihau'r bwlch sydd rhwng y gwahanol grwpiau o ran cyrhaeddiad addysgol

Mae'r adroddiad eleni yn wahanol i'r arfer o ganlyniad i'r cytundeb sydd wedi ei wneud yn genedlaethol i beidio cyhoeddi data perfformiad cyrhaeddiad yn ystod y cyfnod Covid. Mae ysgolion yn parhau i fonitro data yn fewnol ac yn defnyddio'r data yma i adrodd ar gynnydd disgyblion yn ystod y flwyddyn. Mae'r data yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion i gynllunio ymyrraeth benodol, ar gyfer lleihau unrhyw fwlch mewn cyrhaeddiad, ac mae rôl allweddol y Llywodraethwyr yn parhau i fod yn bwysig o ran herio hyn. Mae ymweliadau a chyfarfodydd gydag ymgynghorwyr cefnogi gwelliant ysgolion wedi parhau, ac yn cefnogi ysgolion i graffu ar y data yn finiog a chefnogi unrhyw weithredu pellach.

### 1.1.1 Cynnal perfformiad disgyblion sydd â gofynion dysgu ychwanegol ar lefel TGAU fel nad oes unrhyw fwlch sylweddol mewn cyrhaeddiad addysgol:

Dros gyfnod y pandemig, rhoddwyd sylw brys i sicrhau bod gan yr holl ddisgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) fynediad at liniadur neu offer electroneg dderbyniol arall, i alluogi dysgu cyfunol da. Bu i'r ysgolion ynghyd ag athrawon cefnogol, ymgysylltu gyda'r disgyblion yn gyson er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd priodol gyda'r tasgau. Mae gwefan pwrpasol gan Strategaeth Môn a Gwynedd i gefnogi ac mae'r wefan ar gael i ysgolion, disgyblion a'u rhieni - rydym yn parhau i uwchlwytho adnoddau newydd ar y wefan yn rheolaidd.

Yn ystod y cyfnod adrodd, penderfynwyd cynnal asesiadau sefydliad, ac roedd hyn yn disodli'r angen am arholiadau allanol arferol. Golygai hyn bod cymharu canlyniadau a pherfformiad eleni gyda'r blynyddoedd blaenorol yn anodd. Yn ychwanegol i hyn nid yw canlyniadau perfformiad disgyblion mewn TGAU a Lefel A yn cael eu cyhoeddi bellach ac felly nid oes modd cymharu data rhwng awdurdodau yn yr un modd ag yn y gorffennol.

Cafodd grant hwb llynedd ei ddefnyddio i ariannu 2,700 o Chromebooks. Cafodd y Chromebooks eu rhannu ar draws ysgolion Môn a chydweithiodd ysgolion, swyddogion lles a'r Gwasanaeth Dysgu er mwyn sicrhau bod y dyfeisiadau yn cael eu rhannu gyda'r teuluoedd perthnasol oedd angen dyfeisiadau. Llwyddodd hyn i sicrhau bod disgyblion heb ddyfeisiadau ddim o dan anfantais ac yn gallu parhau i ddysgu yn effeithiol yn ystod cyfnodau clo. Cafodd 150 o 'wifi dongles' eu hariannu hefyd a chafwyd eu dosbarthu i deuluoedd lle nad oedd wifi ar gael yn y cartref.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

Yn ogystal â’r grant hwb cafodd grantiau eraill ychwanegol eu dyrannu er mwyn ceisio sicrhau bod ysgolion yn gallu lleihau bylchau dysgu ac addysgu gan gynnwys Grant Carlam.  Cafodd y grant yma ei ddefnyddio ar gyfer creu capasiti ychwanegol oddi fewn ysgolion i gefnogi dysgwyr oedd angen cymorth ychwanegol yn dilyn y cyfnodau ble oedd ysgolion ar gau.

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithredu Ysgol a Mwy | 16 | 22 | 38 | 58 | 42 | 36 | 17 | 15 | 4 | | 11 | | **259** |
| Ar ddatganiad | 4 | 5 | 14 | 2 | 8 | 26 | 13 | 17 | 6 | 3 | 3 | | **101** |
| **Cyfanswm Popeth** | **811** | **834** | **1400** | **1511** | **625** | **454** | **213** | **189** | **106** | **31** | **91** | **8** | **6273** |

## 1.1.2 Lleihau'r bwlch cyrhaeddiad addysgol rhwng bechgyn a merched sy'n cyflawni Sgôr 9 wedi’i gapio ar adeg gadael ysgol, lle mae'n fwy na 10% a pharhau i fynd i'r afael â'r mater hwn ar draws pob ysgol:

Gan gofio nad oedd “arholiadau” allanol eto, rhoddwyd sylw gofalus i weithdrefnau a phrosesau asesiadau sefydliadau (Ysgolion yn cefnogi ei gilydd a chefnogaeth ar gael drwy CBAC).  Cyflwynwyd amrywiaeth o ddulliau asesu graddau, gan gynnwys profion, ynghyd ag asesiadau parhaus, er mwyn sicrhau cymorth fod pawb yn derbyn yr un tegwch.

## 1.1.3 Gweithredu cynlluniau i leihau'r gwahaniaeth ym mherfformiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol (PYD) am ddim a'r rhai nad ydynt, trwy ddefnyddio cyllid Grant Datblygu Disgyblion yn effeithiol ar lefel ysgol unigol:

Mae ysgolion yn cynllunio’n ofalus i ddefnyddio’r Grant Datblygu Disgyblion i sicrhau nad yw disgyblion sydd gyda’r hawl i ginio am ddim yn cael eu heffeithio’n andwyol oherwydd tlodi. Mae pob ysgol yn gweithredu cynllun gwariant sy’n dangos y gynhaliaeth ychwanegol a roddir i’r cohort yma o ddisgyblion i leihau effaith tlodi ar gyflawniad.  Mae’r cynllun gwariant, adnoddau a’r ddarpariaeth yn cael ei drafod yn rheoliadd gyda’r Ymgynghorydd Cefnogi GwE, sydd wedyn yn ei dro yn  rhaeadru’r wybodaeth i’r Awdurdod drwy gyfarfodydd rheolaidd Bwrdd Ansawdd.

| | A* | A | B | C | D | E | F | G | P | Q | U | X | **Cyfanswm Popeth** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dim PYD | 741 | 751 | 1229 | 1323 | 513 | 368 | 146 | 122 | 81 | 15 | 58 | 5 | **5352** |
| PYD | 70 | 83 | 171 | 188 | 112 | 86 | 67 | 67 | 25 | 16 | 33 | 3 | **921** |
| **Cyfanswm** | **811** | **834** | **1400** | **1511** | **625** | **454** | **213** | **189** | **106** | **31** | **91** | **8** | **6273** |

Dros gyfnod y pandemig, mae nifer o ddisgyblion sydd gyda hawl i ginio am ddim wedi cynyddu. Ym mis Mawrth 2020 roedd 1,545 o ddisgyblion Môn yn hawlio cinio am ddim, ond erbyn diwedd Rhagfyr 2021 mae'r ffigwr wedi cynyddu i 2,030. Mae'r ffigyrau yma yn dangos bod canran y nifer o ddisgyblion gyda hawl i ginio am ddim wedi cynyddu 31%.

Gyda mwy o ddisgyblion PYD ar gofrestr ysgolion Môn, mae cydweithio traws adran gan yr Awdurdod wedi bod yn effeithiol i sicrhau bod y grŵp yma o blant yn parhau i gael darpariaeth dros y cyfnodau clo, cyfnodau hunan ynysu a dros gwyliau ysgol . Trwy gydweithio'n agos gyda'r adran budd-daliadau a'r ysgolion, mae pob teulu cymwys PYD yn derbyn taliadau ariannol electroneg yn uniongyrchol i gyfrif banc.

## Blaenoriaeth 1.2: Byddwn yn lleihau bwlio yn seiliedig ar hunaniaeth mewn addysg

### 1.2.1 Cynorthwyo ysgolion i weithredu argymhellion canllawiau Llywodraeth Cymru, *Hawliau, Parch, Cydraddoldeb:*

Mae'n ofyn statudol ar ysgolion i adrodd yn dymhorol ar achosion o fwlio i'w Corff Llywodraethu ac i'r Awdurdod. Mae Adroddiad Blynyddol Diogelu Ysgolion i'r Corff Llywodraethu yn crynhoi nifer yr achosion bwlio yn flynyddol mewn ysgol ac yn dangos yn glir y gwahanol fathau o achosion bwlio sydd wedi cymryd lle, ee seibrfwlio, hiliol, corfforol ayyb. Mae'r Awdurdod yn derbyn copi o'r adroddiad blynyddol gan bob ysgol ac yn monitro'r achosion drwy chwilio am dueddiadau. I'r dyfodol mae'r Awdurdod yn symud i system electroneg fydd yn rhoi trosolwg byw o sefyllfa achosion o fwlio.

Mae'r Awdurdod wedi cynnal sesiwn briffio i'r Penaethiaid i'w cynnal a'u cefnogi gyda'u cynlluniau cydraddoldeb.

### 1.2.2. Cylchredeg gwybodaeth i ysgolion yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb Cymru Gyfan a gynhelir yn flynyddol (Hydref):

Mae cylchredeg gwybodaeth i ysgolion yn ystod wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb Cymru Gyfan yn parhau yn gyfle gwych i ddod â'r testun pwysig hyn i sylw ysgolion. Mae rhannu adnoddau fel Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth, Schoolbeat.cymru ac adnoddau gan NSPCC yn galluogi ysgolion i roi sylw blaenllaw i'r maes. Fodd bynnag, rydym yn tynnu sylw ysgolion nad yw'r wythnos ymwybyddiaeth yn ddigwyddiad sydd wedyn yn cael ei anghofio am weddill y flwyddyn. Rydym yn annog ysgolion i sicrhau bod y themâu pwysig yma yn derbyn ystyriaeth barhaus draws cwricwlaidd o fewn ein hysgolion.

Mae tair ysgol gynradd a thair ysgol uwchradd wedi cwblhau hyfforddiant P4C. Bellach mae’r 6 ysgol sydd wedi cwblhau hyfforddiant P4C yn cael eu cefnogi gan y Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREN) i ddatblygu adnoddau a chynlluniau gwaith sy’n rhoi sylw priodol at atal troseddau casineb ac i annog goddefgarwch. Mae’r gwaith yma yn berthnasol iawn i feysydd dysgu a phrofiad Dyniaethau ac Iechyd a Lles. Mae’r ysgolion sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect yn ganmoliaethus o’r hyfforddiant ac mae’r athrawon yn gwerthfawrogi'r gynhaliaeth sydd ar gael iddynt i gyflwyno adnoddau addas ar lawr y dosbarth. Mae'r cynllun peilot wedi cael effaith cadarnhaol ar godi hyder grŵp penodol o athrawon i ddarparu sesiynau o’r fath. Serch hynny mae hi’n gynamserol i werthuso deilliant ar gynnydd sgiliau disgyblion.

# Amcan 2: Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn gyflogwr teg ac yn lleihau bylchau mewn cyflogau

## Blaenoriaeth 2.1: Byddwn yn nodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran prosesau recriwtio, cadw staff, hyfforddiant a dyrchafiadau.

2.1.1 Ymdrechu'n barhaus i ddatblygu strategaethau pellach i gynorthwyo staff i weithio'n hyblyg a pholisïau eraill sy'n gyfeillgar i deuluoedd:

Mae effaith y pandemig ar arferion gwaith wedi parhau eleni. Mae staff wedi cael eu hannog i weithio adref lle bo modd ac yn unol ag anghenion busnes. Yn dilyn arolwg staff, canfuwyd bod yr hyblygrwydd hwn i rai aelodau o staff wedi cefnogi eu cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, ond roedd yn well gan staff eraill strwythur amgylchedd swyddfa. Yn unol ag arfer gorau, mae Polisi Gweithio Hybrid wedi'i fabwysiadu a disgwylir iddo gael ei lansio yn 2022.

## Blaenoriaeth 2.2: Byddwn yn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau cyflog rhwng pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol

2.2.1 Parhau i annog mwy o staff i ddarparu gwybodaeth bersonol fel y gall yr Awdurdod gael darlun mwy cyflawn o'r nifer o weithwyr y Cyngor fesul nodwedd a ddiogelir:

Mae'r Awdurdod yn annog staff i ddarparu gwybodaeth bersonol ac mae wedi creu sawl sianel i gefnogi staff i rannu'r wybodaeth hon. Yn ystod y broses recriwtio, gellir trosglwyddo data o gais yr ymgeisydd llwyddiannus i ffeiliau personol electronig eu cyflogai pan fyddant yn dechrau gyda'r Awdurdod. Mae cyfle hefyd iddynt ddiweddaru'r wybodaeth hon yn gyfrinachol ar unrhyw adeg gan ddefnyddio system hunanwasanaeth yr Awdurdod, My View.

## 2.2.2 Dadansoddi’r data gweithlu blwyddyn ar ôl blwyddyn a darparu adroddiadau blynyddol yn cynnwys y wybodaeth a ddadansoddwyd – rhaid i adroddiadau ar fylchau cyflog rhwng y rhywiau a gwybodaeth ynghylch cyflogaeth gael eu cyhoeddi erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn (gan adrodd ar ddata fel yr oedd ar 31 Mawrth y flwyddyn flaenorol):

Mae’r data gweithlu blynyddol wedi’i goladu a’i ddadansoddi, gan adrodd ar ddata ar 31 Mawrth, 2021.

Yn debyg i'r dadansoddiad y llynedd, bu cynnydd yn y ddau ystod uchaf (55-64 a 65+). Fodd bynnag, y newid mwyaf arwyddocaol fu gostyngiad yn yr ystod oedran isaf (o dan 25). Mae'n gadarnhaol gweld yr Awdurdod yn gallu denu a chadw staff profiadol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod angen canolbwyntio ymhellach ar ddenu pobl iau i chwilio am yrfaoedd gyda'r Awdurdod. Oherwydd y pandemig, ni fu’n bosibl ymgymryd â Chynllun Denu Talent na mynychu digwyddiad gyrfaoedd, a gallai hyn roi rhywfaint o’r rheswm dros y newid hwn.

Mae gan bob gwasanaeth gynllun gweithlu i ddadansoddi gwybodaeth y gweithlu ac i fynd i'r afael â materion megis cynllunio olyniaeth i sicrhau trosglwyddo gwybodaeth a bod staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ar gael pan fydd staff yn dymuno ymddeol.

Mae'r proffil rhyw eto'n cadarnhau bod yr Awdurdod yn cyflogi llawer mwy o fenywod na gwrywod, sy'n duedd gyson ar draws llawer o awdurdodau lleol. Mae'r data ynghylch nodweddion gwarchodedig yn ymddangos yn sefydlog. Mae hyn yn awgrymu bod angen gwneud rhagor o waith i hyrwyddo'r system hunanwasanaeth i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r rhesymau dros gasglu'r data hwn a'r modd y caiff ei gadw a'i reoli'n gyfrinachol.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

# Amcan 3: Byddwn yn cymryd camau i wella safonau byw pobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig

## Blaenoriaeth 3.1: Byddwn yn gwella mynediad ffisegol at wasanaethau, trafnidiaeth, yr amgylchedd adeiledig a mannau agored

3.1.1 Parhau, lle mae hynny'n bosibl, i wella arosfannau bysus ar yr ynys i'w gwneud yn hygyrch:

Gwaith parhaus i wella cyfleusterau arosfannau bysiau ar draws yr Ynys yn dilyn cyllid gan Lywodraeth Cymru yn 2020/21 a 2021/22.

3.1.2 Parhau i ddarparu cyrbinau isel a chyfleusterau croesi cyffyrddol addas fel rhan o gynlluniau gwella troedffyrdd:

Mae nifer o fannau croesi i gerddwyr wedi'u gwella ers yr adolygiad diwethaf, wedi'u hariannu gan grant cyfalaf diogelwch ffyrdd a chronfa adfer Covid-19. Mae cyrbiau isel newydd wedi'u darparu mewn wyth lleoliad ar draws yr Ynys ynghyd â gosod tri man croesi sebra newydd ger safleoedd ysgolion.

3.1.3 Ymateb fel y bo'n briodol i gwynion a dderbynnir gan aelodau o'r cyhoedd trwy ddefnyddio ein pwerau o dan ddeddfwriaeth rheoli traffig i gadw palmentydd a chroesfannau yn glir rhag rhwystrau a achosir gan geir wedi'u parcio:

Cynhaliwyd patrolau a chymerwyd camau gorfodi parcio mewn ymateb i alwadau a dderbyniwyd gan y cyhoedd am gerbydau sy'n rhwystro mannau croesi i gerddwyr. Gwaith parhaus i baratoi ar gyfer cyflwyno gwaharddiad cenedlaethol ar barcio ar balmentydd gan Lywodraeth Cymru yn 2022.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

## Blaenoriaeth 3.2: Byddwn yn parhau i weithio tuag at sicrhau cartrefi mwy addas a fforddiadwy yn y llefydd iawn i gwrdd ag anghenion lleol

### 3.2.1 Parhau i asesu eiddo presennol y Cyngor ac eiddo landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i bobl anabl:

Dechreuodd Therapydd Galwedigaethol ein Gwasanaethau Tai (ThG) ar ei waith ym mis Medi 2020. Prif nodau'r rôl hon yw cynghori a chefnogi tenantiaid presennol y Cyngor a thenantiaid sy'n dod i mewn ynghylch anghenion iechyd a lles a gofynion addasu o fewn ffrydiau gwaith amrywiol y tu mewn i'r Gwasanaethau Tai.

Mae ThG yn sicrhau gwerth am arian ac yn gwneud y defnydd gorau o stoc Tai Cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig presennol ac yn y dyfodol ar Ynys Môn. Rhoddir pwyslais ar ddiwrnodau cwblhau unedau gwag er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o ddyddiau gwag. Gall y rôl a’r swyddogaeth hon gefnogi nifer o ffrydiau gwaith o fewn y Gwasanaethau Tai, fel yr adroddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol y llynedd.

Hyd yma, mae tua 250 o ymgeiswyr ar y gofrestr tai wedi cael eu hasesu ar gyfer bandio meddygol. Mae hyn yn cynnwys unigolion â heriau iechyd meddwl a iechyd corfforol.

Mae’r Gwasanaeth Tai wedi darparu dau dŷ i’r Gwasanaethau Plant eu defnyddio fel Cartrefi Grŵp Bach (Cartrefi Clyd Môn) ac ar hyn o bryd yn y broses o brynu dau eiddo pellach i alluogi’r Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflawni eu gofynion llety ar gyfer cleientiaid sydd wedi’u lleoli y tu allan i’r sir ar hyn o bryd.

Mae'r arolwg tai gwarchod a phobl hŷn wedi'i gwblhau, gyda chyfradd ymateb o 44%. Mae'r gyfradd ymateb hon yn cael ei chydnabod fel agwedd gadarnhaol o ganiatáu i'r Gwasanaethau Tai ddatblygu ymhellach ddulliau llety gyda lles tenantiaid a chymunedol yn flaenllaw yn ein darpariaeth gwasanaeth.

3.2.2 Parhau i fuddsoddi mewn mân waith addasu a gwaith addasu mawr ar gyfer eiddo cyngor - tai cymdeithasol - trwy'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT), yn unol â Chynllun Busnes y CRT a chyllideb flynyddol y CRT:

Mae llety ar gyfer grwpiau penodol, er enghraifft pobl hŷn, pobl â phroblemau iechyd meddwl yn cael ei gynnwys fel blaenoriaeth yng Nghynllun Busnes y CRT.

Mae'r Gwasanaethau Tai yn parhau i fuddsoddi mewn addasiadau i eiddo'r Cyngor. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion i flaengynllunio'r angen a'r galw posibl am addasiadau, gan sicrhau ein bod yn ymyrryd cyn gynted â phosibl er budd a lles ein preswylwyr ag anghenion Iechyd a Lles.

3.2.3 Parhau i fonitro lefelau perfformiad chwarterol o ran y nifer o ddiwrnodau a gymerir i gwblhau Ceisiadau Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer gwelliant parhaus:

| **Canlyniadau Dangosyddion Perfformiad** | | **2021-22** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Ch1** | | | **Ch2** | | | | |
| **Cyf** | **Dangosydd** | **Ebr** | **Mai** | **Meh** | **Gor** | **Awst** | **Medi** | **Targed 2021-22** | **Perfformiad** |
| PAM/015 | Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau I'r Anabl | | | 178.54 | | | 177 | **170** | ↑ |
| PAM/015 | Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau I'r Anabl ar gyfer | | | | | | | | |
| | A) Plant a Phobl Ifanc | | | 132.25 | | | 132.25 | **300** | |
| | B) Oedolion | | | 186.91 | | | - | **170** | |

## Amcan 4: Byddwn yn gwella canlyniadau o ran iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol

## Blaenoriaeth 4.1: Byddwn yn cynyddu’r nifer o bobl ym mhob sector o’r gymuned, yn enwedig pobl nad ydynt yn cael eu cynrychioli’n llawn, sy’n dewis ffyrdd iach o fyw.

4.1.1 Symud ymlaen i sicrhau Dyfarniad Aur Insport erbyn Ebrill 2021: Mae cyflawniadau hyd yn hyn yn cynnwys:

Cwblhaodd dros 70 o staff Hamdden y cwrs Awtistiaeth ar-lein DSW.
- Cwblhaodd pob athro nofio Hyfforddiant Cynhwysiant Anabledd Dŵr.
- Enillodd clwb hwylio cynhwysol yng Nghanolfan Conwy (S.E.A.S.) grant i addasu cychod ar gyfer defnydd anabledd. Cyflwynwyd y Clwb ar gyfer Gwobr Chwaraeon Anabledd Cymru a chafodd sylw ar raglen ‘Countryfile’ y BBC.
- Daeth canolfannau gofal haf yn y gymuned yn flaenoriaeth oherwydd Covid-19. Bu staff hamdden yn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Ieuenctid i redeg chwe chanolfan i blant agored i niwed, gan gynnwys rhai â chyflyrau fel awtistiaeth, dyslecsia ac anawsterau dysgu.
- Cwblhawyd ymarfer ymgynghori: dosbarthwyd cwestiynau arolwg i'r grwpiau canlynol:
• Cleientiaid anabl ar Gynllun Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff Ynys Môn;
• Disgyblion a staff Canolfan Addysg y Bont;
• Aelodau o Glwb Anabledd Annibynwyr Môn;
• Pob clwb insport wedi'i gofrestru ar gronfa ddata Ynys Môn;
• Rhannu ar gyfryngau cymdeithasol Môn Actif a chopïau caled ar gael mewn canolfannau hamdden.

O’r arolwg, mae nodau’r Wobr Aur wedi’u gosod fel a ganlyn:

• Gwella gwasanaethau i bobl anabl ar Ynys Môn.
• Rhoi cyfle i bobl anabl (a’r gwasanaethau sy’n eu cefnogi) ‘ddweud eu dweud’.
• Adnabod unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth anabledd ar yr ynys.
• Ehangu darpariaeth chwaraeon cynhwysol ar Ynys Môn trwy weithio gyda chyrff llywodraethu cenedlaethol a nodwyd i gyflawni hyn.

Y prif gamau gweithredu ar gyfer 2022 felly fydd:
• Sefydlu fforwm chwaraeon anabledd.
• Mapio cyfleoedd presennol yn erbyn lleoliad a grwpiau nam.
• Gweithio gyda 6 chorff llywodraethu cenedlaethol i ehangu'r ddarpariaeth ar yr Ynys.

### 4.1.2 Parhau i gynnig Cynllun Cyfeirio Ynys Môn, gan weithio tuag at y targedau NERS cenedlaethol isod:

- Canran y cleientiaid NERS sy'n cwblhau'r rhaglen ymarfer corff (50% ac uwch)

Mae 232 o bobl wedi mynychu eu sesiwn gyntaf ar y cynllun Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff. O'r rhain, mae 55 wedi mynd ymlaen i gwblhau'r cynllun. Mae'r nifer hwn yn cynyddu'n wythnosol wrth i fwy o bobl ddod i ddiwedd eu rhaglen 16 wythnos. Oherwydd Covid-19 cafodd y cynllun ei ohirio am y rhan fwyaf o'r flwyddyn.

- Canran y cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella ar ôl cwblhau’r rhaglen ymarfer corff (80% ac uwch)

O'r rhai a gwblhaodd y cynllun, adroddodd 62% gynnydd mewn ffitrwydd, gyda 31% yn aros yr un peth/ddim yn gostwng.

Er nad ydym wedi cyrraedd y targed yn ystod Ch3, mae'n gadarnhaol bod y niferoedd yn gwella a'n bod naill ai'n uwch neu'n gyfartal â'r cyfartaledd cenedlaethol. Bydd mwy o bobl yn cwblhau'r cynllun yn y chwarter nesaf wrth i gyfraddau atgyfeirio gynyddu tua diwedd Ch2.

Yn gysylltiedig â'r gwaith hwn hefyd, rydym wedi llwyddo i ennill dau aelod ychwanegol o staff yn y misoedd diwethaf sy'n gweithio'n benodol gyda chleientiaid â dementia a chleientiaid sydd dros bwysau**.**

## Blaenoriaeth 4.2: Byddwn yn creu’r amodau i unigolion wella eu hiechyd a’u llesiant

### 4.2.1 Gweithio mewn partneriaeth gyda darparwyr iechyd sylfaenol yn Ynys Môn fel rhan o gynllun peilot i godi ymwybyddiaeth o’r gwasanaeth gwiriad iechyd blynyddol ar gyfer pobl a chanddynt namau dysgu:

Nododd yr Adolygiad o Farwolaethau Anabledd Dysgu yn 2018 fod oedolion ag anabledd dysgu yn marw ar gyfartaledd 20 mlynedd yn iau na’r boblogaeth gyffredin. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o 75% ar gyfer archwiliadau iechyd blynyddol. Roedd Ynys Môn ar 14% ac maent yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i dargedu a gwella'r nifer sy'n manteisio ar hyn. Mae hyn wedi’i lesteirio gan Covid-19 ond bydd angen ei adolygu. Cyn y pandemig Covid-19, ymgymerwyd â gwaith gyda meddygon teulu yn Ynys Môn i nodi'r rhwystrau i gynnal gwiriadau iechyd i dreialu sut i oresgyn y rhwystrau hyn. Roedd y themâu allweddol a ddaeth i’r amlwg yn cynnwys:

• yr angen i gael cofrestr dinasyddion gywir a chyfredol
• yr angen am gyswllt rheolaidd rhwng y Practis a'r Tîm Cyswllt Iechyd
• mynediad hawdd at wybodaeth hygyrch am Wiriadau Iechyd Blynyddol, a
• hyfforddiant i staff meddygfeydd.

Yn anffodus, oherwydd y pandemig, roedd angendargyfeirio adnoddau ar draws y gwasanaethau iechyd i feysydd eraill i gefnogi'r ymateb. Gan nad oedd meddygon teulu yn cynnal Gwiriadau Iechyd Blynyddol nac yn derbyn unrhyw hyfforddiant oherwydd eu hymateb i'r pandemig a'u bod yn delio ag achosion brys yn unig, ni allai cynllun peilot Ynys Môn barhau. Yn dilyn adolygiad, o 2021 ymlaen, mae cofrestrau meddygon teulu cyfredol ym mhob meddygfa yn Ynys Môn bellach. Mae nifer o ffilmiau addysg iechyd wedi'u cyd-gynhyrchu gyda Health Liaison, Conway Connect a TAPE, sydd wedi'u sgriptio a'u cydgynhyrchu gyda dinasyddion. Mae 15 Hyrwyddwr Gwiriad Iechyd (addysgwyr cymheiriaid) yng Ngogledd Cymru. Mae'r rhain yn ddinasyddion sy'n cymryd rhan mewn prosiect i addysgu dinasyddion eraill am yr hyn i'w ddisgwyl pan fyddant yn mynd am wiriad iechyd a'u hannog i fynd am archwiliad iechyd blynyddol. Mae yna nifer o ddyddiadau i unrhyw ddinesydd fynychu'r sesiynau hyn yn 2022.

Bydd y maes gwaith hwn yn cael ei adolygu yn 2022 gyda golwg ar symud ymlaen.

## 4.2.2 Parhau i hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg:

Mae disgwyliad y cynigir gwasanaeth rhagweithiol trwy gyfrwng y Gymraeg i gwsmeriaid ar draws pob maes o'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae gwasanaethau'n parhau i fonitro a sicrhau bod staff Cymraeg ar draws pob maes o'r Gwasanaethau, er mwyn gallu darparu gwasanaethau Cymraeg ar draws pob maes.

Mae gwasanaethau'n parhau i annog staff sy'n dysgu Cymraeg i gymryd rhan mewn hyfforddiant perthnasol er mwyn datblygu eu sgiliau iaith.

Mae codi ymwybyddiaeth o Fwy na Geiriau, Safonau'r Gymraeg a gofynion y Siarter Gwasanaeth Cwsmer yn parhau i fod yn elfen ofynnol o'r broses ar gyfer anwytho'r holl staff adrannol.

Anfonwyd nodyn ysgrifenedig at bob aelod o staff ar y system e-bost i'w hatgoffa am bwysigrwydd ateb ffonau yn ddwyieithog a chynnig y dewis i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac ymateb yn unol â dewis iaith y cwsmer i unrhyw ohebiaeth, yn unol â Siarter Gwasanaeth Cwsmer y Cyngor.

Mae gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu dulliau ar gyfer monitro a chofnodi’r cynnig rhagweithiol a dewis iaith defnyddwyr gwasanaeth, a hynny trwy ddefnyddio ystadegau o'r system gofnodi achosion electronig.

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi derbyn rhai canmoliaethau yn ystod y flwyddyn ynghylch darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

## Amcan 5: Byddwn yn gwella diogelwch personol a mynediad at gyfiawnder

### Blaenoriaeth 5.1: Byddwn yn cynyddu nifer y troseddau casineb ac aflonyddu sy'n cael eu riportio a chymryd camau i leihau achosion o droseddau casineb ac aflonyddu, yn cynnwys camdriniaeth a bwlio ar-lein.

5.1.1 Parhau i weithio â phartneriaid ledled gogledd Cymru er mwyn dwyn sylw at y broblem o droseddau casineb ac annog pobl i hysbysu Heddlu Gogledd Cymru neu Cymorth i Ddioddefwyr yn ystod yr Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb Cymru Gyfan a gynhelir yn flynyddol (ym mis Hydref):

Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws Gogledd Cymru, yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb Cymru Gyfan a thrwy gydol y flwyddyn, i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb a hyrwyddo adrodd i Heddlu Gogledd Cymru neu Gymorth i Ddioddefwyr.

Paratôdd y Tîm Cydlyniant Cymunedol bodlediad troseddau casineb i'w ddarlledu ar orsafoedd Radio Cymunedol ledled Cymru yn dilyn gweithdy Cymru gyfan a gynhaliwyd yn ystod yr wythnos ymwybyddiaeth troseddau casineb.

Gweler hefyd cam 1.2.2, am amlinelliad o'r hyn sy'n digwydd yn ysgolion yr ynys i godi ymwybyddiaeth a mynd i'r afael â throseddau casineb.

5.1.2 Y Gweithgor Troseddau Casineb aml-asiantaeth i ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu troseddau casineb er mwyn gwella dulliau riportio a chefnogi unigolion sy'n ddioddefwyr troseddau casineb (yn unol â'r amserlenni a nodir yn y cynllun gweithredu ar gyfer atal troseddau casineb):

Mae riportio Troseddau Casineb yn faes cyfrifoldeb parhaus ar gyfer ein Swyddogion Tai, y tîm Cydlyniant Cymunedol, Cymorth i Ddioddefwyr a Heddlu Gogledd Cymru. Rydym yn parhau i hyrwyddo dulliau o riportio'r troseddau hyn a chynyddu'r ddealltwriaeth gyffredinol o fathau a symptomau troseddau casineb yn ein cymunedau.

## Blaenoriaeth 5.2: Byddwn yn sicrhau bod gan Aelodau a Swyddogion y Cyngor y gallu i gyflawni eu dyletswyddau diogelu yn effeithiol, drwy hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n gymesur â'u rolau a'u cyfrifoldebau.

### 5.2.1 Defnyddio'r Porth Polisi er mwyn sicrhau bod yr holl staff presennol a staff newydd (y mae ganddynt gyfrifon e-bost) wedi darllen, deall a derbyn y Polisi Diogelu Corfforaethol:

Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol yn un o naw polisi allweddol yn system rheoli polisi electronig y Cyngor (Porth Polisi) y mae'n rhaid eu derbyn bob dwy flynedd gan staff sydd â chyfrif e-bost y Cyngor. Roedd ar gael am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 2018 ac mae cydymffurfiaeth yn cael ei fonitro gan y Bwrdd Diogelu Corfforaethol.

Mae'r amserlen wedi llithro, ond bydd y polisi'n cael ei ailgyflwyno i'w dderbyn unwaith y bydd wedi'i adolygu a'i ddiweddaru i ymgorffori gofynion Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019. Yn y cyfamser, mae'r polisi presennol yn dal i fod ar gael ac yn cael ei neilltuo'n awtomatig o fewn 24 awr i unrhyw staff newydd a ychwanegir at y grwpiau gwasanaeth electronig.

### 5.2.2 Sicrhau bod Staff ac Aelodau yn derbyn gwybodaeth a hyfforddiant am agweddau perthnasol o'r Polisi Diogelu Corfforaethol, yn unol â chyfarwyddyd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol:

Mae'r rhaglen dreigl ar gyfer hyfforddiant diogelu yn parhau i ddarparu'r wybodaeth hanfodol sydd ei hangen ar staff ar gyfer eu rôl. Gwahoddir staff i fynychu'r hyfforddiant perthnasol ar gyfer eu rôl bob tair blynedd, sef Diogelu Cyffredinol neu Sylfaenol. Mae yna hefyd raglen fwy arbenigol wedi'i theilwra ar gyfer staff Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cynnwys sesiynau ar sail rhanbarthol. Mae nifer o fodiwlau e-ddysgu hefyd ar gael – Prevent, (88%) VAWDASV (84%), Caethwasiaeth Fodern (89%) – ac mae cydymffurfiaeth ar draws y sefydliad (heb gynnwys ysgolion) o ran eu cwblhau yn dda. Mae hyfforddiant Grŵp 2 Gofyn a Gweithredu (rhan o fframwaith hyfforddi cenedlaethol VAWDASV) yn cael ei gyflwyno.

Rydym wedi adolygu'r Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Corfforaethol i sicrhau ein bod yn unol â'r adnoddau rhanbarthol a chenedlaethol a fydd ar gael i gefnogi gweithredu Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 ac yn gwneud y defnydd gorau ohonynt.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi lansio modiwl diogelu ar-lein newydd sydd wedi'i anelu'n bennaf at y rheini sy'n gweithio yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol. Mae'r modiwl hwn bellach ar gael i'r holl staff ei weld a'i gwblhau ar 'Learning Pool'.

## Blaenoriaeth 5.3: Byddwn yn cynyddu ymwybyddiaeth am dwyll mewn cymunedau sy'n agored i niwed

### 5.3.1 Parhau i weithio â phartneriaid er mwyn codi ymwybyddiaeth a darparu addysg i gymunedau lleol ar sut i ddelio â galwyr digroeso, troseddau stepen drws, twyll wyneb yn wyneb ac anghydfodau cyffredinol cwsmeriaid:

O ganlyniad i ail-flaenoriaethu'r cynllun gwaith er mwyn parhau i ymdrin â'r pandemig Covid-19, yn anffodus mae'r cynnydd wedi'i gyfyngu eto eleni.
Fodd bynnag, mae'r Tîm wedi cofnodi ac ymdrin ag 86 o gwynion / ymholiadau yn ymwneud â sgamiau. Hefyd:

- Anfonwyd 48 o lythyrau a phecynnau gwybodaeth at ddefnyddwyr a gydnabyddir fel "dioddefwyr" trwy'r Hyb Sgamiau Cenedlaethol.
- Anfonwyd sawl sticer 'Dim Galw Heb Wahoddiad' at unigolion bregus sy'n byw naill ai y tu mewn neu'r tu allan i Barth Dim Galw Heb Wahoddiad.
- Rhoddwyd rhybuddion a negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol ynghylch galwyr diwahoddiad a masnachwyr twyllodrus.
- Cyflawnwyd gwaith gydag asiantaethau partner (Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu) i nodi anghenion dioddefwyr posibl sgamiau.

Derbyniodd y Tîm Cyngor Defnyddwyr o fewn Safonau Masnach tua 800 o gwynion, ymholiadau a cheisiadau am gyngor gan ein partneriaid yng Ngwasanaeth Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth, a arweiniodd at ymchwiliadau ac ymyriadau pellach i ddefnyddwyr mewn anghydfodau.

# Amcan 6: Byddwn yn cynyddu mynediad at gyfranogiad er mwyn gwella amrywiaeth o ran gwneud penderfyniadau

## Blaenoriaeth 6.1: Mae cyrff gwneud penderfyniadau yn dod yn fwy cynrychiadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu

### 6.1.1 Cymryd yr holl gamau angenrheidiol yn lleol er mwyn cefnogi'r ymgyrch genedlaethol i ehangu cyfranogiad yn etholiadau lleol 2022:

Mae'r Cyngor hwn, ynghyd â holl gynghorau Cymru, wedi mabwysiadu datganiad i gynyddu amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr sy'n sefyll i fod yn gynghorwyr etholedig.

Bydd gwybodaeth am rôl cynghorwyr yn cael ei rhannu'n eang dros y misoedd nesaf er mwyn denu unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i sefyll etholiad. Bydd gwybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor a sesiynau rhithwir ar gyfer darpar ymgeiswyr yn cael eu trefnu yn y flwyddyn newydd.

### 6.1.2 Gwneud defnydd o weithredu cadarnhaol fel rhan o'r broses o recriwtio aelodau cyfetholedig:

Mae pedwar o bwyllgorau'r Cyngor yn cynnwys aelodau cyfetholedig, sy'n cael eu recriwtio am gyfnodau penodol i gynrychioli maes diddordeb penodol neu fater i'w ystyried.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i draean o aelodaeth Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelodau lleyg. Ar gyfer Ynys Môn, mae hyn yn golygu y bydd nifer yr aelodau lleyg sydd eu hangen ar y Pwyllgor yn cynyddu o ddau i bedwar.

Cymerodd y Cyngor ran mewn Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i ddatblygu ffurflen gais a hysbyseb ar gyfer recriwtio aelodau lleyg, yn ogystal â rhaglen hyrwyddo genedlaethol. Aeth yr hysbyseb yn fyw ar 10 Hydref 2021 ar wefan CLlLC, a oedd yn cyfeirio ymgeiswyr posibl at dudalen we benodol y Cyngor. Hysbysebwyd y swyddi gwag yn eang, gan gynnwys cyfryngau yr oedd pobl ifanc yn debygol o'u defnyddio, megis Facebook a LinkedIn, yn unol â dyletswydd y Cyngor i ddenu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Bydd canlyniad y broses recriwtio yn cael ei amlinellu yn ein hadroddiad cydraddoldeb blynyddol nesaf.

## Blaenoriaeth 6.2: Mae ymgynghori ac ymgysylltu yn cael ei wella drwy gryfhau cysylltiadau rhwng y sector cyhoeddus a grwpiau lleol a chenedlaethol sy'n cynrychioli pobl o'r holl grwpiau gwarchodedig

### 6.2.1 Gweithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd ymgysylltu ac ymgynghori perthnasol ymysg cynrychiolwyr o'r holl nodweddion gwarchodedig:

### 6.2.2 Y Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y Cyd i fabwysiadu Rhestr Wirio Ymgysylltu ac Ymgynghori a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan wasanaethau:

Oherwydd effaith pandemig Covid-19, ni fu'r bwrdd ymgysylltu ac ymgynghori yn weithredol tan Rhagfyr 2021 pan gafodd ei ailsefydlu o dan gyfarwyddyd ac arweinyddiaeth y Dirprwy Brif Weithredwr. Roedd y rhestr wirio hon yn parhau i gael ei defnyddio ymhlith gwasanaethau'r Cyngor yn dibynnu ar y pwnc.

Mae'r gweithgaredd ymgysylltu ac ymgynghori yn amlwg wedi'i gyfyngu i ddulliau electronig ers i Covid-19 ddechrau ond mae lle i ragweld y bydd gwaith ymgysylltu lleol yn cael ei adnewyddu a'i ddiweddaru, gan ystyried manteision digidol a'r angen am drafodaeth wyneb yn wyneb mewn modd hybrid. Rhagwelir y bydd hyn yn datblygu wrth i 2022 fynd rhagddi o dan gyfarwyddyd y bwrdd ymgysylltu ac ymgynghori ar y cyd a ailsefydlwyd.

### 6.2.3 Parhau i weithio ar ymgysylltu gyda'n partneriaid rhanbarthol (fel aelodau o NWPSEN) drwy wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael i ni:

Mae NWPSEN wedi bod yn cydweithio ers 2010 pan ddaeth y Ddeddf Cydraddoldeb i rym ac mae nifer o weithgareddau ymgysylltu rhanbarthol wedi'u cynnal i lywio ein Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ers hynny.

Mae aelodau NWPSEN wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd ar-lein yn ystod 2021 i rannu gwybodaeth ac arfer da.

## Amcan 7: Byddwn yn datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r ddyletswydd gymdeithasol economaidd (pan fydd arweiniad ar gael) er mwyn adnabod y meysydd allweddol o effaith sydd angen rhoi sylw iddynt o dan bob amcan

### 7.1 Datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r ddyletswydd cymdeithasol economaidd a sicrhau bod y ddyletswydd yn dod yn rhan annatod o'n busnes o ddydd i ddydd (unwaith y bydd arweiniad pellach ar gael):

Cynhaliwyd dwy sesiwn ym mis Ebrill 2021 i rannu gwybodaeth ar y Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol gyda swyddogion perthnasol. Hefyd, defnyddiodd y Cyngor ei system rheoli polisiau electronig (Porth Polisi) i sicrhau bod rheolwyr a staff perthnasol wedi darllen, deall a derbyn papur briffio ar ofynion y Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol. Adroddwyd ar gyfradd gydymffurfio o 93% i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 21 Medi 2021. Roedd yr holl swyddogion yn y grŵp wedi cwblhau'r dasg hon erbyn 3 Tachwedd. (89 o swyddogion).

### 7.2 Adolygu canllawiau a thempledi corfforaethol er mwyn sicrhau bod ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i'r angen i leihau anfanteision cymdeithasol-economaidd – gweler hefyd Blaenoriaeth 8.2:

Cyflwynwyd templedi diwygiedig ar gyfer adroddiadau'r Pwyllgor Gwaith a Phwyllgorau Sgriwtini ym mis Ebrill 2021 ac maent bellach yn cynnwys adrannau penodol i gofnodi unrhyw oblygiadau sy'n ymwneud â chydraddoldeb, y Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol. Hefyd, diwygiwyd canllawiau a thempledi corfforaethol ar gyfer cynnal asesiadau effaith yn unol â hynny ac maent wedi bod ar gael ar fewnrwyd y Cyngor ers mis Ebrill 2021.

### 7.3 Defnyddio ein Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol er mwyn adrodd ar ddatblygiadau a dangos sut yr ydym yn cydymffurfio â'r ddyletswydd cymdeithasol-economaidd:

Gweler uchod.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

## Amcan 8: Byddwn yn gwella gweithdrefnau'r Cyngor er mwyn sicrhau tegwch i bawb

### Blaenoriaeth 8.1: Mae rhaglen hyfforddiant staff wedi cael ei sefydlu er mwyn sicrhau bod gan y staff cywir y sgiliau cywir er mwyn darparu gwelliannau o ran amrywiaeth

8.1.1 Parhau i godi ymwybyddiaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth ymysg staff y Cyngor yn ystod sesiynau cynefino corfforaethol a drwy hysbysu staff sydd â chyfrifon e-bost y Cyngor bod angen iddynt ddarllen, deall a derbyn y Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth:

Mae'r Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn un o naw polisi allweddol yn system rheoli polisi electronig y Cyngor (Porth Polisi) y mae'n rhaid eu derbyn bob dwy flynedd gan staff sydd â chyfrifon e-bost y Cyngor. Mae'r polisi wedi bod ar gael i'w dderbyn ers mis Gorffennaf 2019 a chaiff ei neilltuo'n awtomatig o fewn 24 awr i unrhyw staff newydd sy'n cael eu hychwanegu at grwpiau gwasanaeth. Cafodd ei ailgyflwyno i'w dderbyn ym mis Awst 2021 a'r gyfradd gydymffurfio ar ddiwedd Tachwedd 2021 oedd 94%.

8.1.2 Parhau i hyrwyddo hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer yr holl staff ac ymateb yn y modd priodol lle mae anghenion penodol wedi eu hadnabod:

Mae hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn parhau i fod yn elfen allweddol o'r rhaglen hyfforddi gorfforaethol. Oherwydd y pandemig, mae hyfforddiant wedi'i ddarparu'n bennaf trwy e-ddysgu eleni. Gall staff gael mynediad i hyfforddiant cydraddoldeb trwy fodiwl e-ddysgu Cydraddoldeb yn y Gweithle sydd ar gael ar y Pwll Dysgu y gellir ei gyrchu ar unrhyw ddyfais yn y gwaith neu gartref. Mae cynlluniau yn eu lle ar gyfer sesiynau rhithwir wedi'u hwyluso gan hyfforddwr i'w cynnal ar bynciau perthnasol megis Rhagfarn Anymwybodol ac Asesiadau Effaith Cydraddoldeb.

Mae'r Broses Arfarnu Flynyddol yn darparu strwythur ar gyfer coladu anghenion hyfforddi staff a darperir hyfforddiant perthnasol yn flynyddol mewn ymateb i hyn a blaenoriaethau corfforaethol eraill neu ofynion deddfwriaethol.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

## Blaenoriaeth 8.2: Mae proses gorfforaethol effeithiol wedi'i sefydlu er mwyn sicrhau bod effaith yn cael ei asesu'n barhaus ar draws y gwasanaethau

### 8.2.1 Parhau i ddarparu cyfleoedd o ran cefnogi a datblygu aelodau a swyddogion er mwyn sicrhau bod ganddynt wybodaeth ddigonol am eu dyletswyddau tuag at bobl â nodweddion gwarchodedig:

Yn ogystal â'r hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, mae cyfle i staff perthnasol ac Aelodau Etholedig fynychu hyfforddiant effaith cydraddoldeb. Mae'r sesiwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'i pherthynas â'r angen i Asesu Effaith Cydraddoldeb.

Mae'r Strategaeth Datblygu Aelodau yn nodi y bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant a datblygiad hyblyg ac ymatebol i Aelodau Etholedig sy'n seiliedig ar anghenion unigol a sefydliadol. Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth ac effaith ar gydraddoldeb yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r hyfforddiant a ddarperir i Aelodau Etholedig.

### 8.2.2 Adolygu'r templedi canlynol er mwyn cryfhau'r cyswllt â'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a'r ddyletswydd cymdeithasol-economaidd:

- Templedi adroddiadau Sgriwtini
- Templed ac arweiniad AEC corfforaethol:

Gweler amcan 7.

### 8.2.3 Cefnogi penderfyniadau a wneir yng nghyd-destun Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol:

- Adolygu'r Strategaeth Gwestiynu ar gyfer aelodau sgriwtini
- Datblygu cyfres stoc o gwestiynau ar gyfer aelodau sgriwtini, yn seiliedig ar Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Sgriwtini a gynhyrchwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Cafodd y strategaeth holi ar gyfer aelodau craffu ei hadolygu yn ystod 2020 fel rhan o adolygiad o'n rhaglen datblygu craffu lleol a'i chynnwys yn Adroddiad Craffu Blynyddol 2019/2020.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2021

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn (CSYM) gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y bwlch cyflog rhywiol. Ar gyfer y dyddiad adrodd cipolwg o 31 Mawrth 2021, sy'n cynnwys holl weithwyr y Cyngor, ac eithrio'r rhai a gyflogir mewn ysgolion, mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

- Y bwlch cyflog cyfartalog rhwng y ddau ryw ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yw 11.24%
- Y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yw 14.65%

Gan nad yw CSYM yn talu bonws i'w weithwyr, nid yw unrhyw ddangosyddion bwlch bonws rhyw yn berthnasol.

**Beth yw achosion sylfaenol bwlch cyflog rhyw Cyngor Sir Ynys Môn?**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi'r egwyddor o gyflog cyfartal ar gyfer gwaith cyfartal o werth cyfartal ac yn cydnabod y dylai strwythur tâl a graddfeydd fod yn rhydd o ragfarn ac yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol. Mae ganddo bolisi clir o dalu gweithwyr yn gyfartal am yr un gwaith neu waith cyfatebol, gwaeth beth fo'u rhyw. Mae pob rôl swydd yn cael ei gwerthuso yn ôl yr angen i sicrhau strwythur teg. Mae CSYM yn hyderus nad yw ei fwlch cyflog rhwng y rhywiau yn deillio o dalu dynion a merched yn wahanol am yr un gwaith neu waith cyfatebol ac mae'n falch o adrodd bod ei fwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau, sef 11.24%, yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 14.9% (Ffigyrau Dros Dro ONS ASHE 2021).

Mae bwlch cyflog rhyw CSYM yn ganlyniad i'r rôlau swyddi y mae dynion a merched yn gweithio o fewn y sefydliad a'r cyflogau y mae'r swyddi hyn yn eu denu. Ar draws economi'r DU gyfan, mae dynion yn fwy tebygol na merched o fod mewn swyddi uwch, tra bo merched yn fwy tebygol o fod mewn swyddi rheng flaen ar ben isaf y sefydliad. Mae canran uwch o weithwyr rhan-amser yn ferched ac mae merched yn parhau i fod yn fwy tebygol o fod â chyfrifoldebau gofalu di-dâl na dynion. Mae dynion yn parhau i ddominyddu rhai mathau o swyddi sy'n talu'n uchel tra mae mwy o ferched yn parhau i gael eu cyflogi mewn galwedigaethau megis gofalu a glanhau, rolau sydd ddim yn sgorio'n uchel mewn cynlluniau arfarnu swyddi ac felly mae'r graddfeydd tâl yn is. Mae merched hefyd yn fwy tebygol o fod wedi cymryd seibiant o'r gwaith, sydd wedi cael effaith ar eu dilyniant gyrfa.

Adlewyrchir y patrwm cenedlaethol hwn yng nghyfansoddiad gweithlu CSYM, lle mae mwyafrif ei weithwyr yn fenywod, ac mae cyfran helaeth o'r rhain yn gweithio oriau rhan amser mewn swyddi sy'n cael lefel is o dâl, megis gofal cymdeithasol rheng flaen, glanhau, ac ati.

**Sut mae bwlch cyflog rhyw CSYM yn cymharu â sefydliadau eraill?**

Mae gan y mwyafrif helaeth o sefydliadau ac Awdurdodau Lleol fwlch cyflog rhwng y rhywiau. Y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau ar gyfer yr economi gyfan (ffigurau dros dro yr ONS ar gyfer 2021) oedd 14.9%. Ar 11.24%, mae bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau CSYM yn is na ffigur cyfartalog y DU.

**Beth mae CSYM yn ei wneud i fynd i'r afael â'i bwlch cyflog rhwng y rhywiau?**

Er bod y bwlch cyflog rhwng y ddau ryw yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, mae CSYM yn parhau i fod yn ymrwymedig i leihau'r bwlch hwn. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod ei sgôp i weithredu'n gyfyngedig gan fod ei gyfraddau cyflog yn cael eu cytuno'n genedlaethol ac felly nid oes ganddo reolaeth uniongyrchol dros gyflogau. Nid yw CSYM yn gweithredu unrhyw gynlluniau tâl na bonws ar sail perfformiad. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod rhaid i dâl a gradd pob swydd fod yn deg, dryloyw ac anwahaniaethol. Mae'n gweithredu cynllun Arfarnu Swyddi sy'n glynu at egryddorion cydraddoldeb a chynnal uniondeb a thegwch yn ei strwythur graddfeydd yn barhaus.

Mae pandemig Covid-19 wedi arwain at ffyrdd newydd o weithio i'r awdurdod a'r gobaith yw y bydd hyn yn cynyddu hyblygrwydd ac yn dileu rhwystrau i ddatblygiad merched a'r gweithlu cyfan. Bydd polisïau hyblyg a chyfeillgar i deuluoedd yn sicrhau y gall CSYM ddenu a chadw staff. Mae'r Awdurdod wedi cymryd camau i hyrwyddo amrywiaeth rhyw ym mhob maes o'i weithlu ac mae'n parhau i fonitro rhywedd i nodi unrhyw rwystrau i gydraddoldeb rhywiol e.e.

- Monitro meysydd fel y cyfrannau o ddynion a merched sy'n ymgeisio am swyddi, yn cael eu recriwtio, ac yn cael dyrchafiad;
- nifer y dynion a merched ym mhob rôl a gradd cyflog;
- cyfrannau'r dynion a merched sy'n gadael y sefydliad a'u rhesymau dros adael;
- y nifer sy'n manteisio ar drefniadau gweithio hyblyg yn ôl rhyw a lefel;
- Adolygu ei bolisïau gweithio hyblyg a pholisïau eraill sy'n ystyriol o deuluoedd;
- Adolygu ei strategaethau recriwtio a chadw a sefydlu gwahanol ddulliau o ddenu talent;
- Monitro gwybodaeth Cyflog Cyfartal;
- Monitro ymlyniad at brosesau Gwerthuso Swyddi;
- Adolygu telerau ac amodau yn rheolaidd gyda'r Undebau Llafur cydnabyddedig.

Ni fydd yr un o'r mentrau hyn, ar eu pen eu hunain, yn dileu'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac efallai y bydd sawl blwyddyn cyn inni weld effaith sylweddol. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i barhau i adrodd yn flynyddol ar yr hyn y mae'n ei wneud i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac unrhyw gynnydd pellach y mae'n ei wneud.

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 8 Mawrth 2022 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Drafft Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Derbyn sylwadau ac awgrymiadau ynghylch unrhyw welliannau i fersiwn ddrafft terfynol Adroddiad Asesiad o Anghenion Poblogaeth |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fon Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol & Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ac Arwel Owen, Pennaeth Oedolion |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Uwch-Swyddog Cyfrifol: Morwena Edwards (Cadeirydd y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol)<br><br>Emma Edwards, Rheolwr Busnes<br>01248 751887<br>Emmaedwards@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Mae'n berthnasol i'r holl Aelodau |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Argymhellion<br>a) Bod y Pwyllgor yn cytuno yr Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Mae'r gwaith a wneir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol â chyswllt â'r tri amcan a nodwyd yng Nghynllun Cyngor Sir Ynys Môn am 2017/2022. Fydd yr adroddiad yn helpu siapio'r Cynllun Cyngor Sir nesa sydd yn cael ei sgwenni ar hyn o bryd. |

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

Mae'r adroddiad wedi ystyried unigolion a chymunedol, fel ei sylfaen ar gyfer darpariaeth ein gwasanaethau yn y dyfodol ar draws y Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol gan sicrhau bod anghenion ein pobl yn cael eu diwallu'n ddigonol. Mae'r adroddiad yn cynnwys atodiad ar wahân sy'n amlinellu'r ymgynghori helaeth a gynhaliwyd ar draws y rhanbarth i gefnogi cynnwys yr adroddiad terfynol.

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

Bydd yr adroddiad terfynol yn bwydo i mewn i'r camau nesaf – yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad, a fydd yn cael ei ddrafftio dros yr ychydig fisoedd nesaf.

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Tymor Hir
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cymryd rhan

**[ffocws ar les]**

Mae'r adroddiad wedi'i lunio fel dogfen gydweithredol ar draws Rhanbarth Gogledd Cymru, a bydd yn cynorthwyo i ddatblygu'r llwybr i'r dyfodol ar gyfer ein gwasanaethau ar draws y rhanbarth.

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

Argymhellir bod aelodau'n ystyried:

**4.1** Bod y Pwyllgor yn cytuno bod yr Adroddiad Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022 yn addas?

**4.2** Beth ydy pwrpas yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a pha gynlluniau sydd ar waith i ddefnyddio'r Asesiad wrth gynllunio gwasanaethau'r dyfodol?

**4.3** I ba raddau mae'r wybodaeth a gasglwyd yn adlewyrchiad teg o asesiad anghenion gofal a chefnogaeth y boblogaeth ar Ynys Môn?

**4.4** Beth ydy'r berthynas rhwng yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a'r Asesiad Llesiant gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**Pwrpas**:
Darparu trosolwg o Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022 a luniwyd fel gofyniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Cefndir**:
Mae Adran 14 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) yn gofyn bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn asesu'r canlynol ar y cyd:

a) Y graddau y mae angen gofal a chefnogaeth ar bobl yn ardal yr awdurdod lleol.
b) Y graddau y mae angen cefnogaeth ar ofalwyr yn ardal yr awdurdod lleol.
c) Y graddau nad yw anghenion gofal a chefnogaeth pobl yn ardal yr awdurdod lleol yn cael eu diwallu.
d) Yr ystod a'r lefel o wasanaethau sydd ei angen i ddiwallu anghenion gofal a chefnogaeth pobl yn ardal yr awdurdod lleol.
e) Yr ystod a'r lefel o wasanaeth sydd ei angen i gyflawni'r dibenion yn Adran 15(2) (gwasanaethau ataliol) yn ardal yr awdurdod lleol.
f) Y camau gweithredu gofynnol i ddarparu ystod a lefel o wasanaethau a nodwyd yn unol â pharagraffau (d) ac (e) drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'n rhaid i'r adroddiad hwn drafod y themâu / grwpiau canlynol o leiaf:

- Plant a phobl ifanc
- Pobl Hŷn
- Iechyd, Anabledd Corfforol a Nam ar y Synhwyrau
- Anableddau Dysgu (Plant ac Oedolion)
- Awtistiaeth
- Iechyd Meddwl
- Gofalwyr

Mae'r asesiad yn trafod mannau diogel, digartrefedd a chyn-filwyr hefyd. Mae'r asesiad wedi cael ei lywio gan y gofynion a nodwyd yn y cod ymarfer ar gyfer asesiad o anghenion poblogaeth, ac wedi rhoi sylw dyledus i ddyletswyddau a pholisïau eraill sy'n cael effaith sylweddol ar y grwpiau a restrwyd. Mae pob pennod yn cynnwys asesiad o;

- Y Gymraeg (y 'cynnig gweithredol')
- Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Ystyriaethau economaidd-gymdeithasol
- Effaith pandemig COVID-19
- Ystyriaethau diogelu
- Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Gwerth Cymdeithasol

Cafodd yr adroddiad asesiad poblogaeth ei arwain gan ymgysylltiad. Mae'r materion allweddol a'r themâu a nodwyd yn seiliedig ar adborth gan staff, sefydliadau partner, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd, i nodi anghenion strategol ar gyfer gofal a chefnogaeth. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth o strategaethau comisiynu blaenorol ac asesiadau o anghenion. Casglodd y tîm prosiect dystiolaeth i herio'r rhagdybiaethau hyn drwy ddadansoddiad data, adolygiad o ddogfennau cefndir, adolygiadau o wasanaeth a gwaith ymgysylltu lleol ychwanegol.

Mae'r gofyniad i lunio adroddiad hygyrch, rhanbarthol mewn cyfnod amser mor fyr wedi cyfyngu beth a ellir ei gynnwys. Mae'r adroddiad yn darparu sail dystiolaeth i gefnogi sefydliadau a gwasanaethau ledled y rhanbarth, ac mae'n cael ei ddefnyddio'n benodol ar gyfer cylchredau cynllunio strategol, gan danategu integreiddiad gwasanaethau a threfniadau partneriaethau cefnogi.

Mae'r adroddiad yn edrych ar y rhanbarth, ond bydd yn adnodd defnyddiol ar gyfer cynllunwyr a chomisiynwyr awdurdodau lleol ac iechyd. Mae angen o hyd am weledigaeth a chynllun lleol ar gyfer gwasanaethau ymhob ardal. Wrth symud ymlaen, byddai'r bartneriaeth yn ceisio parhau gwaith yr asesiad o anghenion i sicrhau bod asesu anghenion ein poblogaethau'n broses barhaus.

Mae'n rhaid llunio un adroddiad rhanbarthol ar gyfer Rhanbarth Gogledd Cymru, a'i fod yn cael ei gymeradwyo gan Gyngor Llawn bob ardal awdurdod lleol (Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) a Bwrdd y Bwrdd Iechyd Lleol.

Mae'n rhaid cyhoeddi'r adroddiad dim hwyrach na mis Ebrill, 2022. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefannau pob awdurdod lleol, gwefan y bwrdd iechyd a gwefan y bartneriaeth ranbarthol yn Gymraeg a Saesneg. Bydd crynodeb o adroddiadau, fersiynau ar gyfer plant a phobl ifanc a fformatau hygyrch eraill ar gael hefyd. Bydd copi o'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru.

**Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**
Sefydlodd Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru grŵp llywio rhanbarthol i arwain ar y gwaith ar gyfer grwpiau technegol, ymgysylltu data a themâu eraill, er mwyn arwain ar dasgau penodol. Mae aelodaeth o grwpiau o bob awdurdod lleol Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartïon eraill gyda diddordeb yn yr asesiad o anghenion megis swyddogion ar gyfer y BGC. Mae strwythur llywodraethu ynghlwm fel atodiad 1.

Roedd ymgysylltiad ar gyfer yr asesiad poblogaeth yn cynnwys: holiadur ar gyfer sefydliadau sy'n gofyn am eu barn a thystiolaeth; canllaw hwylusydd at ddefnydd partneriaid er mwyn cynnal grwpiau trafodaeth gyda defnyddwyr gwasanaeth; gweithdai gyda staff a chynghorwyr a drefnwyd gan bob awdurdod lleol. Derbyniwyd cyfanswm o 350 ymateb i'r holiadur yn ystod yr ymgynghoriad, ac mae'r adborth a dderbyniwyd wedi'i gynnwys yn yr asesiad o anghenion. Mae adroddiad ymgynghoriad llawn ar gael hefyd, ac wedi'i atodi i'r prif adroddiad.

Mae map budd-ddeiliad wedi'i lunio a'i adolygu, sy'n rhestru'r holl grwpiau poblogaeth sydd efallai angen gwasanaethau gofal a chefnogaeth i sicrhau bod gymaint o bobl â phosib yn cael cyfle i leisio eu barn. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu gyda grwpiau anodd eu cyrraedd hefyd.

Copi o'r adroddiad- gweler Pwynt 8.

**Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
Mae'r asesiad o anghenion y boblogaeth yn cyfrannu at gylchredau cynllunio strategol rhanbarthol a lleol, a bydd hyn yn ei dro yn cefnogi blaenoriaethau corfforaethol awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ei boblogaeth breswyl.

Yn ychwanegol at y gofyniad i asesu anghenion gofal a chefnogaeth y boblogaeth, mae gofyniad pellach i awdurdodau lleol a byrddau iechyd asesu digonolrwydd y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir i ddiwallu anghenion y boblogaeth, ar ffurf Adroddiad Cadernid y Farchnad. Mae hyn y cynnwys asesiad o sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau gofal a chefnogaeth reoledig. Yn dilyn cyhoeddiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth, bydd adroddiad o sefydlogrwydd y farchnad yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi yn 2022.

Mae'n rhaid llunio Asesiad o Les fel gofyniad dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer pob Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yn dilyn terfynau amser tebyg i'r Asesiad Poblogaeth. Roedd yr asesiad poblogaeth yn ystyried anghenion gofal a chefnogaeth y boblogaeth, tra bo'r Asesiad o Les yn cynnwys ffyniant, iechyd, gwytnwch, cydraddoldeb, diwylliant bywiog, cyfrifoldeb cyd-eang a chymunedau cydlynol. Mae gorgyffwrdd rhwng y ddau, felly mae'r tîm prosiect ar gyfer asesiad o anghenion y boblogaeth yn ymgysylltu gyda swyddogion ar gyfer y BGC ynghylch cynnydd yr asesiad o anghenion a'r asesiadau o Les ac yn rhannu gwybodaeth lle bo'r angen.

Cam nesaf y prosiect fydd cynnwys yr asesiad poblogaeth ar gyfer datblygu cynllun ardal i'r rhanbarth. Efallai bydd gwaith ar y cynllun ardal yn y dyfodol yn cynnwys rhagor o waith ymchwil ac ymgynghori i archwilio ardaloedd blaenoriaeth yn ddyfnach, cyn cytuno ar ba ardaloedd i'w blaenoriaethu ar gyfer gwaith rhanbarthol. Bydd y cynllun ardal yn cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi yn 2023.

**Goblygiadau o ran Adnoddau / Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Mae Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru wedi ariannu'r prosiect rhanbarthol, sydd wedi cynnwys 2 rheolwr prosiect rhanbarthol er mwyn cefnogi datblygiad yr asesiad o anghenion y boblogaeth. Roedd costau cysylltiedig, megis cyfieithu ac ymgysylltiad arbenigol hefyd wedi cael ei ariannu gan y bartneriaeth.

Bu cost i'r awdurdodau lleol, BIPBC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran amser staff ac adnoddau i gefnogi'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys staff i wneud gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, staff ac aelodau etholedig a staff i gefnogi'r gwaith o ddadansoddi ac ysgrifennu'r adroddiad. Cynhaliwyd mwyafrif y gwaith hwn rhwng mis Ebrill 2021, a mis Rhagfyr 2021 ar gyfer asesiad o anghenion y boblogaeth.

Wrth symud ymlaen, bydd yr asesiad o anghenion y boblogaeth yn nodi blaenoriaethau rhanbarthol a lleol, ac efallai caiff ei nodi bod angen lefel o fuddsoddi ar y blaenoriaethu hyn, ar lefel ranbarthol neu leol.

**Risgiau ac Asesiad o Effaith**
Na fyddai'n bosibl cael cymeradwyaeth gan y chwe chyngor a Bwrdd BIPBC mewn pryd i gyhoeddi erbyn mis Ebrill 2022. I liniaru hyn, mae'r tîm prosiect yn bwriadu ymgynghori mor eang â phosib cyn y broses gymeradwyo.

**Amserlen CSYM**
Bwriedir rhannu'r adroddiad gyda'r pwyllgorau isod:
Uwch Dîm Arweinyddiaeth - 28/2/22
Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – 8/3/22
Pwyllgor Gwaith – 9/3/22
Cyngor Llawn 11/3/22

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Amherthnasol<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi dileu'r gofyniad am AEC ar yr asesiad o anghenion fel adroddiad ynddo'i hun. Mae'r asesiad anghenion yn cynnwys dadansoddiadau ac ymchwil ar gydraddoldeb, hawliau dynol a sosio-economaidd sy'n ymwneud â phob un o'r grwpiau sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad anghenion. |
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Ydi, o fewn yr adroddiad. |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Ydi, o fewn yr adroddiad. |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Ydi, o fewn yr adroddiad, |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| Fel y nodwyd uchod (5 – Goblygiadau Adnoddau / Datganiad y Prif Swyddog Cyllid). |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Copi o'r adroddiadau:<br><br>3c. PNA Consultation Report<br>PNA Ynys Mon Cymraeg.docx |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (2014): Cod Ymarfer<br>http://www.ccwales.org.uk/codes-of-practice-and-statutory-guidance/ |

This page is intentionally left blank

CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

# Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru

Adroddiad arolwg ymgynghori Hydref 2021

## Cysylltwch â ni

Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru

Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN

E-bost: northwalescollaborative@denbighshire.gov.uk

Rhif ffôn: 01824 712432

Gwefan: www.northwalescollaborative.wales

Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb | 5 |
| Beth sy'n gweithio'n dda | 5 |
| Beth y mae angen ei wella | 5 |
| Beth newidiodd yn ystod y pandemig COVID-19 | 5 |
| Profiad gwasanaethau iaith Gymraeg | 6 |
| Rhagarweiniad | 7 |
| Cefndir | 7 |
| Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus | 8 |
| Egwyddorion ymgynghori | 9 |
| Ymgynghori ac ymgysylltu | 10 |
| Y broses ymgynghori | 10 |
| Dulliau Ymgynghori | 12 |
| Cynllun Hyrwyddo | 12 |
| Adolygiad o ymgynghori ac ymgysylltu. | 14 |
| Sefydliadau a gynrychiolir yn yr arolwg ar-lein | 17 |
| Casgliadau'r Ymgynghoriad | 19 |
| 1. Gofal cymdeithasol i bobl o bob oed | 19 |
| 2. Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc | 30 |
| 3. Gofal cymdeithasol i bobl hŷn | 37 |
| 4. Cyrsiau i Ofalwyr | 46 |
| 5. Beth newidiodd yn ystod y pandemig COVID-19 | 48 |
| 6. Profiad o ddefnyddio neu o ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. | 60 |
| 7. Gwasanaethau GIG | 65 |
| Atodiad 1: Data Monitro Cydraddoldeb | 70 |

# Crynodeb

Roedd yr ymgynghoriad ar gyfer yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth a gofalwyr yn ogystal â staff sy'n gweithio i'r bwrdd iechyd, cynghorau lleol a sefydliadau trydydd sector neu wirfoddol. Fe wnaethom ddefnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth gan sefydliadau partner am anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Yn ogystal, fe wnaethom gynnal arolwg y cymerodd tua 350 o bobl ran ynddo yn ystod mis Awst a mis Medi 2021. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi casgliadau'r arolwg hwnnw.

## Beth sy'n gweithio'n dda

Mae yna enghreifftiau o wasanaethau gofal a chymorth sy'n gweithio'n dda ar draws Gogledd Cymru, yn enwedig gwasanaethau trydydd sector. Mae yna hefyd enghreifftiau o waith partneriaeth cryf, gwell mynediad at gymorth a phobl yn cael mwy o lais, dewis a rheolaeth dros y ffordd y caiff eu hanghenion eu diwallu.

## Beth y mae angen ei wella

Mae enghreifftiau o feysydd ble gellid gwella gwasanaethau yn cynnwys perthnasoedd a chyfathrebu o fewn a rhwng sefydliadau. Roedd llawer yn teimlo bod angen ailwampio'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yn llwyr a bod hefyd angen mwy o staff a mwy o gyllid. Wrth geisio dod o hyd i atebion i'r argyfwng hwn mae angen cynnwys y bobl y mae'r polisi presennol yn effeithio arnynt yn uniongyrchol, er enghraifft darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Gall mwy o wasanaethau ymyrraeth gynnar helpu pobl cyn iddynt gyrraedd y pwynt o fod mewn argyfwng.

Byddai darparwyr gwasanaethau'n hoffi cael cyllid tymor hirach fel bod modd iddynt gynllunio a gwella'u gallu i gadw a datblygu staff, yn ogystal â mwy o eglurder ynglŷn â ffynonellau o gyllid.

## Beth newidiodd yn ystod y pandemig COVID-19?

Mae'r pandemig wedi gwaethygu problemau gyda rhestrau aros, diffyg staff a gwasanaethau. Mae wedi gadael llawer o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr heb gymorth ac wedi cyfyngu'n ddifrifol ar eu bywydau gan arwain at unigrwydd, arwahanrwydd a dirywiad yn eu hiechyd. Mae'r pwysau y mae staff wedi'i wynebu wedi gwneud niwed i iechyd meddwl a iechyd corfforol staff.

Nid oedd yr holl effeithiau'n rhai negyddol. Dywedodd nifer fach o'r ymatebwyr nad oeddent wedi gweld unrhyw newidiadau mewn gwasanaethau. Roedd cyfnodau clo wedi helpu rhai i fod yn fwy annibynnol, i dreulio amser gwerthfawr gyda'u teulu ac roedd rhai disgyblion, yn enwedig rhai sydd â gorbryder cymdeithasol neu broblemau bwlio yn yr ysgol, wedi elwa o beidio â mynd i'r ysgol.

Mae'r pandemig wedi cyflymu datblygiadau i greu dulliau ar-lein o ddarparu rhaglenni ac mae wedi gwneud pobl yn fwy parod i ddefnyddio opsiynau TG. I lawer o bobl mae effaith hyn wedi bod yn gadarnhaol ond nid yw dulliau digidol o ymgysylltu'n siwtio pawb ac mae'n bosibl eu bod yn ei gwneud yn fwy anodd, yn enwedig i bobl hŷn, gael gafael ar, ac ymgysylltu â gwasanaethau.

Roedd yr ymatebwyr yn credu, yn y tymor hir, y bydd yn bwysig:

- Datrys y problemau oedd yn bodoli cyn Covid
- Cefnogi pobl i ailgysylltu â gwasanaethau
- Cefnogi dychwelyd i wasanaethau wyneb yn wyneb
- Paratoi ar gyfer galwadau newydd a chynyddol am wasanaethau
- Cynyddu cefnogaeth ym maes iechyd meddwl, yn enwedig i bobl ifanc
- Parhau i ddarparu gwasanaethau ar-lein
- Cefnogi staff a hybu recriwtio

# Profiad gwasanaethau iaith Gymraeg

Ar y cyfan roedd ymatebwyr o'r farn mai 'tameidiog' yw darpariaeth y Cynnig Gweithredol. Roedd rhai yn dweud eu bod yn gwneud hyn yn effeithiol dros ben. Roedd eraill yn dweud mai dim ond ar y pwynt pan fydd defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu hasesu y gellir gwneud y cynnig, yn hytrach na phan fyddant yn cysylltu am y tro cyntaf. Roedd rhai'n bryderus bod y cynnig, yn ymarferol, yn dal i fod yn un tocenistaidd. Mae llawer o gartrefi gofal a darparwyr gofal yn y cartref yn ei chael yn anodd gwireddu dymuniad defnyddwyr gwasanaethau am siaradwr Cymraeg; roedd ymatebwyr o'r farn bod angen gwneud mwy i ddenu siaradwyr Cymraeg i'r proffesiwn ac i gefnogi staff i wella eu Cymraeg. Dylai hyn gynnwys cyfleoedd i ddechreuwyr llwyr yn ogystal â'r rhai hynny sydd angen ennill mwy o hyder.

# Rhagarweiniad

Mae'r adroddiad hwn yn nodi sut y gwnaethom ymgynghori ac ymgysylltu â phobl sy'n darparu neu'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth er mwyn hysbysu Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru.

Bydd yr adroddiad yn ddefnyddiol ar gyfer yr Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb a fydd yn cael eu cynnal ar benderfyniadau sy'n defnyddio tystiolaeth o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi tystiolaeth o sut yr ydym yn diwallu gofynion dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

# Cefndir

Yn unol â Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 roedd yn ofynnol i bob rhanbarth, erbyn mis Ebrill 2021, gynhyrchu asesiad o anghenion gofal a chymorth pobl yn eu hardal, yn cynnwys anghenion cymorth gofalwyr. Mae chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) gyda chefnogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, wedi cynhyrchu asesiad o anghenion poblogaeth Gogledd Cymru. Hwn yw'r ail asesiad a gynhyrchwyd. Cyhoeddwyd y cyntaf ar 1 Ebrill 2017.

Bydd yr adroddiad yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer y cynllun ardal sydd wedi'i baratoi ar y cyd rhwng y bwrdd iechyd a'r cynghorau lleol o dan oruchwyliaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'n rhaid cyhoeddi'r cynllun ardal erbyn mis Ebrill 2022.

Cytunwyd gyda Llywodraeth Cymru nad oes angen cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod yr asesiad o anghenion yn rhan o'r broses o gasglu tystiolaeth fel sail ar gyfer gwneud penderfyniadau ochr yn ochr â'r broses o Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb. Bydd yr asesiad o anghenion yn cynnwys gwybodaeth am anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig, a gesglir drwy ymgynghori ac ymgysylltu, a fydd yn helpu i lunio polisïau a strategaethau newydd ac i wneud newidiadau i wasanaethau a deall eu heffeithiau posibl.

Bydd yn rhaid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gamau gweithredu a chynlluniau a ddatblygir gan ddefnyddio tystiolaeth o'r Asesiad o Anghenion y

Boblogaeth.

## Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 ddyletswydd sector cyhoeddus newydd sy'n gofyn i bob corff cyhoeddus fynd i'r afael â rhagfarn, hybu cyfleoedd cyfartal a hyrwyddo perthnasoedd da. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus roi'r sylw dyledus i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf;
- Hybu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae rhoi'r sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys:

- Dileu neu leihau'r gwahaniaethu, yr aflonyddu neu'r erledigaeth y mae pobl yn eu dioddef oherwydd eu nodweddion gwarchodedig
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill.
- Cymryd camau i feithrin cymunedau lle mae pobl yn teimlo'n hyderus eu bod yn perthyn ac gyfforddus wrth gymysgu a rhyngweithio ag eraill.

Mae ar Gynghorau yng Nghymru hefyd ddyletswyddau cyfreithiol penodol yn unol â Rheoliadau 2011 Deddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010 yn cynnwys asesu effeithiau polisïau a chynlluniau perthnasol - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Er mwyn sefydlu sail gadarn ar gyfer y strategaeth rydym wedi:

- Adolygu data mesur perfformiad a dangosyddion boblogaeth
- Ymgynghori mor eang â phosib ar draws Gogledd Cymru gyda'r cyhoedd, cydweithwyr a phobl â nodweddion gwarchodedig ymysg eraill.
- Adolygu llenyddiaeth ymchwil ac ymgynghori perthnasol yn cynnwys deddfwriaeth, strategaethau, cynlluniau comisiynu, asesiadau o anghenion ac adroddiadau ymgynghori.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y papur gwybodaeth gefndir.

Mae'r adroddiad yn nodi'r ymgynghori a wnaed ar gyfer y strategaeth:

- pwy yr ydym wedi ymgynghori â nhw;
- sut yr ydym wedi ymgynghori; a
- yr adborth o'r ymgynghoriad

# Egwyddorion ymgynghori

Rhan allweddol o'r broses yw ymgynghori â phobl y gallai'r strategaeth effeithio arnynt ac yn arbennig pobl â nodweddion gwarchodedig. Y nodweddion gwarchodedig yw:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd a Chred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Y Gymraeg

Mae cyfraith achos wedi darparu cyfres o egwyddorion ymgynghori sy'n disgrifio'r disgwyliad cyfreithiol sydd ar gyrff cyhoeddus wrth ddatblygu strategaethau, cynlluniau a gwasanaethau. Yr enw ar y rhain yw Egwyddorion Gunning:

1. Mae'n rhaid i ymgynghori ddigwydd pan fo cynnig yn dal ar y cam cychwynnol
2. Mae'n rhaid cyflwyno digon o resymau dros y cynnig i ganiatáu ystyriaeth ac ymateb deallusol.
3. Rhaid caniatáu digon o amser ar gyfer ystyriaeth ac ymateb.
4. Mae'n rhaid ystyried cynnyrch yr ymgynghoriad yn gydwybodol

Mae gan gynghorau lleol yng Ngogledd Cymru bolisi ymgysylltu â dinasyddion rhanbarthol. Mae hwn yn seiliedig ar yr egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru a'r egwyddorion cyd-gynhyrchu a lywiodd ein cynllun ymgynghori.

# Ymgynghori ac ymgysylltu

## Y broses ymgynghori

Nod yr ymgynghoriad oedd darganfod beth yw anghenion gofal a chymorth pobl yng Ngogledd Cymru a beth yw anghenion cefnogaeth gofalwyr. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru mae'n rhaid i'r adroddiad gynnwys y grwpiau poblogaeth canlynol:

- Plant gydag anghenion cymhleth
- Pobl hŷn, yn cynnwys dementia
- Iechyd, anabledd corfforol a nam ar y synhwyrau
- Anableddau Dysgu
- Awtistiaeth
- Iechyd meddwl
- Gofalwyr
- Trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Fe wnaethom weithio gyda'n partneriaid, yn cynnwys y rhai hynny oedd yn gweithio ar Asesiadau Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, i gasglu a chrynhoi casgliadau'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym wedi cyhoeddi'r casgliadau hyn yng Nghyfeirlyfr Ymgynghori Gogledd Cymru i helpu i annog defnydd ehangach o wybodaeth a gesglir yn sgil gweithgaredd ymgysylltu lleol a rhanbarthol. Yn ogystal fe wnaethom gynnal arolwg i ddynodi unrhyw faterion eraill sy'n effeithio ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth y gallem o bosibl fod wedi eu methu. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ganfyddiadau'r arolwg gan mai'r rhain ar y cyd â chanfyddiadau ymgynghoriadau a gweithgareddau ymgysylltu eraill a gynhaliwyd gan gyrff arweiniol lleol eraill a hysbysodd yr asesiad terfynol o anghenion y boblogaeth.

### Cwestiynau'r ymgynghoriad

Oherwydd yr amrywiaeth eang o grwpiau a gwasanaethau yr oeddem yn bwriadu ymgysylltu â nhw yn yr arolwg hwn, cytunodd y grŵp ymgysylltu ar nifer fach o gwestiynau pen agored fel y gallai'r rhai oedd yn ymateb rannu beth sy'n bwysig iddyn nhw. Roedd yr ymdriniaeth hon wedi gweithio'n dda mewn ymgynghoriadau

rhanbarthol blaenorol gan ddarparu ffynhonnell gyfoethog o ddata ystyrlon. Y cwestiynau ymgynghori a ofynnwyd oedd:

**Gwybodaeth am y gwasanaethau gofal a chymorth**

Mae gofal a chymorth yn cynnwys rhoi help i bobl o bob oed sy'n sâl neu ag anabledd corfforol neu feddyliol gyda thasgau byw dydd i ddydd. Mae hefyd yn cynnwys plant a phobl ifanc â phrofiad o ofal maeth neu fabwysiadu yn ogystal â gofalwyr di-dâl sy'n darparu cymorth i deulu neu ffrindiau.

1. Beth sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd yn eich barn chi?
2. Beth y gellid ei wella yn eich barn chi?
3. Sut mae'r cymorth wedi newid oherwydd Covid-19 a beth fydd effaith hirdymor hyn yn eich barn chi?

**Y Gymraeg**

Dylai'r holl wasanaethau gofal a chymorth ddarparu 'Cynnig Gweithredol'. Mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Dylai'r iaith Gymraeg fod yr un mor weledol â'r Saesneg. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i Gofal Cymdeithasol Cymru: Defnyddio gwe-dudalennau Cymraeg Gwaith. Hoffem glywed am eich profiadau o ddefnyddio a / neu ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg, gan gynnwys:

- y 'Cynnig Gweithredol'
- cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a
- peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

4. Dywedwch wrthym beth sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd a beth sydd angen ei wella.

## Amserlen y Prosiect:

Roedd yr amserlen ar gyfer datblygu'r asesiad o anghenion fel a ganlyn

| Mis cwblhau | Camau Gweithredu |
|---|---|
| Mehefin 2021 | Cynllunio'r prosiect a recriwtio |
| Hydref 2021 | Casglu a dadansoddi data |
| Hydref 2021 | Ymgysylltu â chyd-gynhyrchu gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gofalwyr, darparwyr, staff rheng flaen a rhanddeiliaid eraill |
| Rhagfyr 2021 | Ysgrifennu penodau drafft a'u rhannu er mwyn cael adborth |
| Mawrth 2022 | Cymeradwyaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y chwe awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd |
| Ebrill 2022 | Cyhoeddi |

# Dulliau Ymgynghori

Y dulliau ymgynghori a ddefnyddiwyd oedd:

- Holiadur ar-lein a ddosbarthwyd yn eang ymysg staff, sefydliadau partner, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr. Roedd fersiynau amgen yn cynnwys fersiwn Hawdd ei Ddarllen, fersiwn Iaith Arwyddion Cymru, fersiwn ar gyfer pobl ifanc a fersiwn wedi'i argraffu.
- Fe wnaethom hefyd hysbysebu'r cyfle i gymryd rhan drwy sgwrs dros y ffôn neu sgwrs ar-lein.
- Cynhaliodd sefydliadau partner ddigwyddiadau ymgynghori.
- Gofynnom i bartneriaid anfon atom unrhyw adroddiadau ar ddigwyddiadau ymgynghori neu arolygon cysylltiedig yr oeddent eisoes wedi'u cynnal yng Ngogledd Cymru ar gyfer prosiectau.

# Cynllun Hyrwyddo

Roedd yr arolwg ar agor rhwng 2 Awst 2021 ac 1 Hydref 2021, gydag estyniad tan 11 Hydref 2021 ar gyfer yr arolwg pobl ifanc.

Roedd manylion yr ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan. Fe wnaethom hyrwyddo'r ddolen drwy aelodau'r grŵp llywio (sy'n cynrychioli'r chwe awdurdod lleol, iechyd a phartneriaid eraill), i bobl ar restrau postio timau cydweithio rhanbarthol yn cynnwys aelodau'r porth darparwyr. Anfonwyd datganiad i'r wasg allan gan y Tîm Cydweithio Rhanbarthol, yr awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd. Rhannwyd amrywiaeth o negeseuon cyfryngau cymdeithasol ar ffrwd Trydar y Tîm Cydweithio Rhanbarthol yn

ogystal â thudalennau LinkedIn. Gwnaed galwadau ffôn dilynol i annog pobl i gymryd rhan.

Rhannodd swyddogion arweiniol lleol yr arolwg yn eang drwy amrywiaeth o sianelau. Rhannodd y Tîm Cydweithio Rhanbarthol ddiweddariadau wythnosol ynghylch nifer yr ymatebion a dderbyniwyd o bob ardal a gan bob grŵp poblogaeth er mwyn i swyddogion arweiniol lleol allu mynd ar ôl grwpiau wedi'u tangynyrchioli.

Yn ychwanegol, anfonwyd y ddolen at yr arolwg ar-lein at y cynghorau gwirfoddol sirol isod, yn gofyn iddynt ei ddosbarthu i'w rhwydweithiau.

- Mantell Gwynedd (Gwynedd)
- Medrwn Môn (Ynys Môn)
- Cymorth Gwirfoddol a Chymunedol (Conwy)
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir y Fflint
- AVOW (Wrecsam)

Anfonwyd gwybodaeth at aelodau'r:

- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru
- Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion Gogledd Cymru (PGOGC)
- Penaethiaid Gwasanaethau Plant Gogledd Cymru (PGPGC)
- Grŵp Anableddau Dysgu Gogledd Cymru

Rhannwyd manylion gyda chynrychiolwyr trydydd sector ar y rhwydwaith arweinwyr asesiadau poblogaeth rhanbarthol.

Cynhaliwyd digwyddiad ar 5 Hydref 2021 ar gyfer grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml a lleiafrifoedd ethnig ar y cyd â Thimau Cydlyniad Rhanbarthol y Dwyrain a'r Gorllewin a Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru gyda tua 40 o bobl wedi mynychu. Rhoddwyd yr arolwg i'r grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml a lleiafrifol ethnig ynghyd â'r cyflwyniad PowerPoint o'r gweithdy i'w rannu ac ymateb iddo – naill ai gan gynrychiolwyr y grŵp neu aelodau unigol yn uniongyrchol.

Rhannwyd yr arolwg pobl ifanc hefyd gydag Ieuenctid Pride Cymru, EYST (Lleiafrifoedd Ethnig a Thîm Cymorth Ieuenctid Cymru) Penaethiaid Addysg a grwpiau pobl ifanc eraill).

# Adolygiad o ymgynghori ac ymgysylltu.

Cwblhawyd yr arolwg gan 350 aelod o staff. Roedd tua 61% o'r ymatebion gan bobl oedd yn gweithio i sefydliad sy'n ymwneud â chomisiynu neu ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth. Cymerodd mwy o bobl ran mewn gweithgareddau ymgysylltu blaenorol a'r rhai hynny a drefnwyd gan arweinwyr lleol, ond mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ymatebion i'r arolwg.

Mae Tabl 1 yn dangos y meysydd yr oedd gan gyfranogwyr ddiddordeb ynddynt.

Tabl 1 Nifer o ymatebion y ôl maes diddordeb

| Math o ymateb | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Pobl hŷn | 150 | 44% |
| Plant a phobl ifanc | 125 | 35% |
| Iechyd meddwl | 115 | 33% |
| Anableddau Dysgu | 110 | 32% |
| Amhariadau corfforol a/neu synhwyraidd | 90 | 26% |
| Gofalwyr | 90 | 25% |
| Pobl awtistig | 70 | 21% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 350 | 100% |

Mae'n bosib y bydd rhai pobl wedi rhoi tic mewn mwy nag un bocs Mae'r niferoedd wedi'u rowndio i'r 5 agosaf er mwyn osgoi datgelu gwybodaeth bersonol.

Cyrhaeddodd yr ymgynghoriad bobl o bob rhan o Ogledd Cymru fel y dangosir isod.

Tabl 2 Nifer yr ymatebwyr yn ôl ardal cyngor lleol.

| Ardal Cyngor Lleol | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 80 | 23% |
| Gwynedd | 50 | 14% |
| Conwy | 60 | 17% |
| Sir Ddinbych | 75 | 21% |
| Sir y Fflint | 135 | 39% |
| Wrecsam | 100 | 28% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 350 | 100% |

Efallai y bydd rhai pobl wedi rhoi tic mewn mwy nag un blwch (er enghraifft os ydynt yn byw ac yn gweithio mewn siroedd gwahanol). Mae'r niferoedd wedi'u rowndio i'r 5 agosaf er mwyn osgoi datgelu gwybodaeth bersonol.

Fe wnaethom hefyd gyrraedd pobl ym mhob grŵp oedran ar wahân i bobl ifanc o dan 16, pobl anabl yn cynnwys pobl ag anableddau dysgu a phobl â salwch/cyflwr iechyd hirsefydlog, gofalwyr, siaradwyr Cymraeg a Saesneg. Cafwyd llai o ymatebion gan bobl dros 75. Cawsom ymatebion gan ferched a dynion er nad oedd cymaint o ymatebion gan ddynion. Cawsom hefyd nifer fach o ymatebion gan bobl â hunaniaeth ethnig, cenedlaethol a rhywiol gwahanol i'r mwyafrif. Dim ond ychydig o ymatebion a gawsom gan bobl drawsrywiol er y byddwn yn cynnwys casgliadau o ymchwil ac adroddiadau ymgynghori am anghenion gofal a chymorth pobl drawsrywiol yn yr asesiad o anghenion.

Byddwn yn gofalu ein bod yn defnyddio tystiolaeth o ymgynghoriadau lleol a chenedlaethol blaenorol am anghenion plant a phobl ifanc yn yr asesiad o anghenion oherwydd y nifer isel o ymatebion i'r arolwg. Byddwn hefyd yn adolygu sut yr ydym y ymgysylltu â phlant a phobl ifanc fel tîm rhanbarthol oherwydd nad yw arolwg ar-lein i'w weld yn ddull effeithiol o gynnal y math yma o ymgynghoriad.

Rydym yn gwneud y cyfyngiadau hyn yn eglur fel y gall unrhyw un sy'n defnyddio'r asesiad o anghenion fel tystiolaeth gymryd unrhyw gamau ychwanegol angenrheidiol i ddileu gwahaniaethu posibl.

Fe wnaethom ddefnyddio'r data cydraddoldeb i fonitro'r ymatebion pan oedd yr ymgynghoriad ar agor gan annog cynrychiolwyr/aelodau o grwpiau wedi'u tangynrychioli i rannu'r arolwg a chymryd rhan. Estynnwyd dyddiad cau'r ymgynghoriad o bythefnos er mwyn caniatáu mwy o amser i gyrraedd grwpiau

wedi'u tangynrychioli. Fe wnaethom hefyd roi estyniad o bythefnos i ymateb i'r arolwg pobl ifanc. Mae'r rhestr lawn o dablau gwybodaeth sy'n dangos nifer yr ymatebion gan bobl â nodweddion gwarchodedig wedi'i gynnwys yn atodiad 1.

Fel rhan o'r broses hon fe welsom bod sawl ymgynghoriad tebyg yn cael eu cynnal gan sefydliadau partner a chodwyd pryderon ynghylch syrffed ymgynghori. I helpu i gydlynu hyn fe wnaethom greu gwe dudalen i ddod â'r gwahanol arolygon a digwyddiadau yr oeddem yn ymwybodol ohonynt at ei gilydd ac i roi gwybod i gyfranogwyr ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i rannu'r casgliadau. Fe wnaethom hefyd ddatblygu Cyfeirlyfr Ymgysylltu Gogledd Cymru er mwyn ei gwneud yn haws i bobl ddod o hyd i gasgliadau'r arolygon hyn. Fodd bynnag, mae'r grŵp ymgysylltu rhanbarthol a oruchwyliodd y gwaith hwn yn cydnabod bod mwy i'w wneud i wella cydlyniad ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu. Mae angen i ni leihau dyblygu a gwneud y defnydd gorau o amser ac ymdrechion pobl sy'n rhoi adborth i'n sefydliadau.

# Sefydliadau a gynrychiolir yn yr arolwg ar-lein

Isod mae rhestr o sefydliadau y cymerodd eu staff ran yn yr ymgynghoriad ar-lein.

## Yr awdurdodau lleol ac iechyd

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

## Grwpiau a sefydliadau eraill

- Gweithredu dros Blant
- Adferiad
- Cymdeithas Tai Adra
- Age Connects Canol Gogledd Cymru
- Age Cymru Gwynedd a Môn
- Alexander's Pharmacies
- Allied Health Care
- Amber Care Ltd
- Anheddau Cyf
- AVOW (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam)
- Awel Homecare and Support
- Cyngor Cymuned Parc Caia
- Canolfan Felin Fach Centre Limited
- Gwasanaeth Allgymorth Gofalwyr
- Carerstrust Crossroads
- Cartrefi Conwy
- Castell Ventures
- Centre of Sign-Sight-Sound
- Y Ganolfan Datblygiad Plant
- Cyngor ar Bopeth
- Men's Shed Bae Colwyn
- Conwy Connect
- Co-options
- Corwen Family Practice
- Cynllun Gwên
- Digartref
- Doridale Ltd
- Double Click Design & Print CIC
- DSN
- Epilepsy Action Cymru
- Fairways Care Ltd
- Ffrindiau/Teulu
- Swyddfa Sir y Fflint yn Cysylltu
- GISDA
- Cyngor Cymuned Gresffordd
- Grŵp Cynefin
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn
- Cyngor Cymuned Gwersyllt
- Ymddiriedaeth HF
- Hollybank Home Care Ltd
- Home-Start Cymru

- Gwasanaethau Cefnogaeth Integredig i Deuluoedd
- Medrwn Môn
- Mental Health Care Ltd (Avalon)
- Menter Fachwen
- MHC
- Newcross health and social care
- Y Camau Nesaf
- MIND Gogledd Ddwyrain Cymru
- Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol Gogledd Cymru
- Rhaglen Trawsnewid Anableddau Dysgu Gogledd Cymru gyda'i gilydd
- NW Nappy Collaborative CIC (Given To Shine)
- Cyngor Cymuned Offa
- Plas Garnedd Care ltd
- Premier Care Ltd
- Q care ltd Prestatyn
- QEWC Ltd
- Gwydnwch
- Rhyd y Cleifion Ltd
- Same but Different
- Sanctuary Trust
- Stepping Stones Gogledd Cymru
- Y Gymdeithas Strôc
- Summit Care Services
- TGP Cymru
- The Wallich
- Total Care North Wales
- Towyn Capel Care Homes
- TRAC (part of North Wales Project)
- Canolfan Teuluoedd Ty Ni – Dechrau'n Deg
- Tyddyn Mon
- Vesta Specialist Family Support
- Vision Support:
- We Care Too Ltd
- Wepre Villa Homecare Ltd
- Whitehouse Residential Home
- Canolfan Sgiliau Coetir
- Y Teulu Cyfan

# Casgliadau'r Ymgynghoriad

## 1. Gofal cymdeithasol i bobl o bob oed

### (a) yn gyffredinol

#### Beth sy'n gweithio'n dda?

Ar lefel strategol, mae llif gwybodaeth a chydweithrediad ar draws Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol wedi bod yn gweithio'n dda.

Credir bod gwasanaethau trydydd sector yn effeithiol dros ben, yn ymestyn dros amrywiaeth eang o feysydd cymorth gan gyflawni rolau llawer o wasanaethau statudol ac yn ymgysylltu ac yn cysylltu'n llwyddiannus â'r rhai sydd mewn angen Mae sefydliadau trydydd sector a sector statudol yn datblygu partneriaethau cryf, yn enwedig yng Ngogledd Cymru ac wrth i'r ddau gefnogi datblygiad cymunedol. Mae'r symudiad graddol at gontractau cymdeithasol yn caniatáu i sefydliadau trydydd sector fuddsoddi yn natblygiad staff a phrosiectau cyfalaf.

Mae'r ymdriniaeth a amlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael ei dilyn yn gyffredinol. Mae cyfeirio rhwng gwasanaethau a gwell rhwydweithio wedi arwain at well mynediad at gefnogaeth. Er enghraifft os nad yw rhywun yn gymwys am wasanaeth, byddant yn cael eu cyfeirio at wasanaeth perthnasol arall er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu gadael heb gymorth.

Mae rhwydwaith lles Ynys Môn yn un enghraifft o rwydwaith effeithiol. Maent yn rhannu gweledigaeth o ddatblygu gwasanaethau yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ystyrir bod y cyd-gynllunio a'r cyd-ddarpariaeth rhwng y Bwrdd Iechyd, Clwstwr Meddygon Teulu Ynys Môn, Cyngor Sir Ynys Môn a Medrwn Môn (a'r trydydd sector ehangach) yn hynod o lwyddiannus. Mae'r Cynllun Gofal Integredig 'wedi bod yn fendith' i'r Rhwydwaith gan alluogi cynllunio effeithiol a sicrhau gwasanaethau o ansawdd.

Mae'r Pwynt Mynediad Sengl yn darparu mynediad hawdd at rai gwasanaethau ac fe allai fod yn effeithiol ar gyfer pob asesiad. Credir bod y Canolbwynt Cymunedol (Canolfan Ni) yn rhagorol.

Mae rhai pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal yn cael mwy o lais, dewis a rheolaeth dros y ffordd y mae eu hanghenion yn cael eu diwallu, yn enwedig drwy'r defnydd o daliadau uniongyrchol. Mae pobl yn cael eu cefnogi i wneud y dewisiadau sy'n gywir iddyn nhw, eu teuluoedd, eu blaenoriaethau a'u dyheadau. Mae pobl yn cymryd rhan weithredol mewn adnabod, gweithredu, monitro a rheoli eu cefnogaeth yn hytrach na bod yn dderbynyddion gwasanaeth di-lais. Mae hyn yn creu gwir gyd-gynhyrchiant o fewn y system a gwir gymhelliant i drefniadau fod yn llwyddiannus ac yn gynaliadwy.

## Beth y mae angen ei wella?

Mae angen gwella perthnasoedd rhwng y sector gwirfoddol a'r trydydd sector a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol oherwydd ei bod yn ymddangos yn aml nad yw gwasanaethau trydydd sector yn cael cael eu gwerthfawrogi'n iawn o bell ffordd gan lawer o staff iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n ymddangos nad yw materion sy'n cael eu codi gan sefydliadau trydydd sector yn cael eu cymryd o ddifri gan rai gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, yn enwedig pan fydd methiannau yn y system sy'n achosi cryn bryder i drigolion/cleifion yn cael eu hamglygu. Nid yw staff trydydd sector yn cael eu trin gyda pharch, er bod eu lefelau o ymgysylltiad a'u dealltwriaeth o'r materion yn llawer dyfnach.

Roedd teimlad bod Cydweithredfeydd Gofal Cymdeithasol yn 'rhy fawr ac yn rhoi gwasanaeth gwael iawn ar hyn o bryd'.Mae angen gwella cyfathrebu mewn a rhwng sefydliadau i gefnogi gweithrediad effeithiol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Byddai rhai hefyd yn hoffi mwy o eglurder ynghylch ffrydiau cyllido megis cyllid y Fframwaith Gofal Itegredig (FfGI) a Gofal Iechyd Parhaus. Byddai pobl sy'n gwneud cais am gyllid Gofal Iechyd Parhaus yn hoffi pe bai yna lai o waith papur a bod y cymorth yn y cais yn cael ei ddarparu, er enghraifft, drwy eu gweithiwr cymdeithasol. Yn gyffredinol roedd llawer yn credu bod gwasanaethau gofal cymdeithasol angen mwy o staff a bod y gwasanaethau eu hunain angen eu hailwampio'n llwyr. Mae lefelau o gymorth yn wael, rhestrau aros yn hir ac yn aml nid yw gwasanaethau neu gludiant i gyrraedd atynt ar gael. Wrth geisio dod o hyd i atebion i'r argyfwng hwn mae angen cynnwys y bobl y mae'r polisi presennol yn effeithio arnynt yn uniongyrchol, er enghraifft darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau.

Un ffordd arwyddocaol o symud ymlaen fyddai gwella tâl ac amodau staff er mwyn denu mwy o bobl i'r mewn i'r proffesiwn. Fel arall bydd yn amhosib cwrdd ag

anghenion cynyddol y gymuned. Yn ogystal ‘â bod heb ddigon o arian o bell ffordd’, mae’n ymddangos ‘nad yw gofal cymdeithasol yn cael ei werthfawrogi gan lawer iawn o gymdeithas’. Mae’n rhaid i bolisi’r dyfodol godi proffil y gwasanaethau hyn a gwella eu delwedd gyhoeddus i adlewyrchu eu pwysigrwydd a'u gwerth i gymdeithas:

> “Mae angen anfon negeseuon cadarnhaol sy'n cefnogi dewisiadau pobl i symud i mewn i ofal cymdeithasol. Gwybodaeth gadarnhaol am rôl Cynorthwywyr Personol, beth maen nhw’n ei roi, a hefyd beth maen nhw’n ei gael yn ôl.”

Wrth recriwtio staff gofal, awgrymodd un defnyddiwr gwasanaeth y dylai gofalwyr sy’n cael tâl ‘gael eu fetio’n fwy trylwyr’ i osgoi risgiau i bobl agored i niwed. Awgrymodd darparwr gwasanaeth fwy o arbenigo mewn rolau gofalu, er enghraifft drwy ddarparu hyfforddiant ychwanegol ar gyfer gweithio gyda gweithwyr ymfudol. Dylai fod yn bosibl trosglwyddo unrhyw hyfforddiant a gafwyd o fewn 12 neu 24 mis cyn trosglwyddo i weithio â darparwr/i gyflogwr arall yn yr un ffordd â gwiriadau DBS.

Byddai defnyddwyr gwasanaeth yn hoffi cael gwell mynediad at weithwyr cymdeithasol a gallu siarad â nhw pryd bynnag y bo angen. Roedd rhai’n teimlo y dylid rhoi mwy o amser i weithwyr cymdeithasol weithio gyda, a gwrando ar eu cleientiaid ac na ddylid caniatáu iddynt ddal swydd weithredol arall. Hefyd mae angen delio ag atgyfeiriadau i weithwyr cymdeithasol yn gynt.

Roedd defnyddwyr gwasanaeth eraill yn teimlo bod angen rhoi’r opsiwn o daliadau uniongyrchol am gymorth iechyd a gofal cymdeithasol i fwy o bobl gan mai ychydig iawn sydd â dewis a lefel o reolaeth ar hyn o bryd. Roeddent y pwysleisio bod yn rhaid i becynnau dewis gofal gynnwys y defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr/noddwr a’r gweithiwr cymdeithasol mewn ffordd ystyrlon er mwyn sicrhau gofal sy’n canolbwyntio ar y cleient. Yn ychwanegol, roedd pobl a oedd yn cyfuno’u hadnoddau'n cael deilliannau gwell gyda'i gilydd, gan helpu i adeiladu cymunedau o gefnogaeth, lleihau’r angen am gefnogaeth statudol a sicrhau mwy o effeithlonrwydd o ran costau. Fodd bynnag mae angen newid mewn diwylliant ac ymagwedd i gefnogi cyfleoedd o'r fath.

Roedd rhai ymatebwyr yn awgrymu bod angen gwneud mwy i leihau unrhyw stigma a chywilydd cysylltiedig â gofyn am help, yn enwedig i deuluoedd sy'n profi tlodi mewn gwaith.

> "Mae hwn yn wasanaeth sy'n mynd i mewn i gartrefi a theuluoedd pobl. Felly rhaid edrych arno mewn ffordd sensitif, gan ei bod yn cymryd llawer o ddewrder i ofyn am yr help yn y lle cyntaf!"

Gellid gwella mynediad at wasanaethau drwy "ledaenu gwybodaeth yn ehangach ynglŷn â sut y gall pobl heb sgiliau cyfrifiadur gysylltu â gofal cymdeithasol".

## (b) Gwasanaethau Iechyd meddwl:

### Beth sy'n gweithio'n dda:

Dywedodd sawl ymatebydd nad oes 'unrhyw beth' yn gweithio'n dda yn y gwasanaethau iechyd meddwl, gan ddweud bod 'y system wedi torri i raddau helaeth''.

Roedd defnyddwyr gwasanaeth yn poeni bod gwasanaethau'n dueddol o ganolbwyntio ar ataliaeth neu argyfwng ac nad oedd cefnogaeth ar gael i bobl ar y 'camau yn y canol'. Yn ogystal, mewn argyfyngau, mae pobl â phroblemau iechyd meddwl weithiau yn cael eu tynnu i mewn i'r system cyfiawnder troseddol gan arwain at 'labelu rhywun yn droseddwr oherwydd eu salwch'. Mae'n ymddangos na all y system gefnogi pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl o ganlyniad i drawma'r gorffennol. Mae angen i lawer o wasanaethau fod yn fwy gwybodus am drawma.

Soniwyd fod rhai gwasanaethau'n darparu cefnogaeth gadarnhaol yn cynnwys:

- Tîm Dyffryn Clwyd
- Tîm Cymorth Iechyd Meddwl Cyngor Sir y Fflint
- Monitro Gweithredol Mind, gwasanaeth ymyrraeth gynnar
- Gwasanaethau elusen fel y Samariaid, CRUSE, Relate
- Cefnogaeth grŵp barhaus gan elusennau (KIM, Advance Brighter Futures, Mind, ASNEW)
- Unedau adferiad i roi cymorth i helpu pobl i fynd yn ôl i fyw yn y gymuned

Yn yr un modd soniwyd am rai gweithwyr proffesiynol unigol sy'n rhoi gofal rhagorol, ond yn gyffredinol mae ansawdd y gefnogaeth a roddir yn dipyn o loteri.

Dywedodd un darparwr gwasanaeth ei bod yn bwysig adolygu cynlluniau gofal iechyd meddwl yn rheolaidd er mwyn ystyried unrhyw welliannau neu newidiadau i anghenion unigolyn.

## Beth y mae angen ei wella

Yng ngoleuni'r pryderon difrifol am wasanaethau iechyd meddwl, nid yw'n syndod bod llawer wedi dweud bod angen gwella 'popeth', yn cynnwys:

- mwy o wasanaethau iechyd meddwl
- mwy o gyllid i sicrhau cyflog derbyniol ar gyfer staff a gwasanaeth digonol ar gyfer pob cleient unigol.
- gwella mynediad i gymunedau DLIE
- mwy o gyllid hirdymor er mwyn gallu ymwreiddio prosiectau a dal gafael ar staff.
- mwy o hyblygrwydd - sesiynau un i un yn ogystal â sesiynau grŵp
- lefelau staffio uwch ym mhob gwasanaeth i osgoi bylchau mewn gofal ac fel bod cefnogaeth ar gael pan fydd staff i ffwrdd yn sâl.
- mwy o wasanaethau cwnsela lleol
- mwy o gymorth gyda phroblemau chamddefnyddio sylweddau
- cefnogaeth well ar gyfer pobl â Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth, yn enwedig awtistiaeth gweithredu lefel uchel neu awtistiaeth ar y cyd â chyflwr iechyd meddwl.
- gwell mynediad at ymyraethau ar wahân i feddyginiaeth
- llawer mwy o wasanaethau y tu allan i oriau arferol lle gellir 'cadw' pobl pan fo'r gwasanaethau iechyd meddwl ar gau.
- gwell atgyfeiriadau at wasanaethau iechyd meddwl i symleiddio'r broses, lleihau nifer yr atgyfeiriadau amhriodol a chaniatáu i reolwyr tai gyfeirio tenantiaid at gymorth iechyd meddwl arbenigol er enghraifft.
- mwy o wasanaethau iechyd meddw yn y gymuned
- unedau adferiad llai ar gyfer hyd at chwech o bobl gyda chefnogaeth 24 awr
- mwy o lety parhaol ar gael a thai â chymorth ar gyfer pobl ddigartref
- mae angen cwblhau astudiaethau achos mewn modd amserol a rheoli llwythi achosion yn fwy effeithiol

Pwysleisiodd defnyddwyr gwasanaethau'r angen am lawer mwy o wasanaethau ymyrraeth gynnar fel bod modd iddynt gael cymorth iechyd meddwl pan fo hynny'n angenrheidiol **a chyn** iddynt gyrraedd y pwynt argyfwng. Mae amseroedd aros hefyd

yn hir dros ben ac yn mynd yn hirach. Ar hyn o bryd mae oedi'n rhoi mwy o bwysau ar bobl ac mae eu symptomau'n aml yn mynd yn waeth nag y mae angen iddynt:

> “Byddai'n well gen i beidio cyrraedd y pwynt o fod mewn argyfwng. Ddylai rhywun ddim gorfod bod mewn argyfwng i gael cefnogaeth, yn hytrach byddai’n well rhoi mwy o bwyslais ar fesurau atal a fy nghadw i'n iach yn fy nghartref."

Mae bylchau mewn gwasanaethau hefyd yn gallu achosi i iechyd meddwl pobl waethygu:

> “Ar hyn o bryd rydw i ar restr aros am weithiwr cymorth newydd ac yn teimlo ar fy mhen fy hun yn llwyr ar adeg sy’n hanfodol i’m lles.”

Roedd rhai’n teimlo y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i fuddsoddiad mewn gwasanaethau ar gyfer rhieni ag anawsterau iechyd meddwl oherwydd y perygl o effeithiau hirdymor ar blant a phobl ifanc.

Dau faes a grybwyllwyd fel bod angen mwy o arian oedd y gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a’r system cymorth iechyd meddwl yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Meddai un darparwr gwasanaeth:

> “Yn aml daw pobl atom mewn argyfwng oherwydd nad ydynt yn gallu cael cymorth, naill ai gyda'u iechyd meddwl neu gyda'r materion ymarferol sy'n effeithio ar eu hiechyd meddwl (e.e. tai, dyled, tlodi, cludiant, perthnasoedd teuluol ac ati). Er mwyn gwneud newid go iawn mae angen rhoi llawer mwy o arian yn y system (iechyd meddwl ac iechyd corfforol yn cael eu hystyried yr un mor bwysig â'i gilydd) ac mae angen newid y ffordd y defnyddir cyllid fel bod mwy o ymyrraeth gynnar.'

Un ateb yw gweithio’n agosach â gwasanaethau trydydd sector i ddarparu’r sefydlogrwydd sydd ei angen ar ddefnyddwyr gwasanaethau cyn iddynt allu manteisio ar gefnogaeth seicolegol.

> “Gallai cefnogaeth gan gyfoedion, grwpiau gweithgareddau a lles, cyrsiau seiliedig ar hyfforddiant ymwybyddiaeth ofalgar a therapi gwybyddol ymddygiadol i gyd helpu i gefnogi pobl wrth iddynt aros a’u ‘paratoi’ nhw i gael

> y mwyaf o'r gwasanaethau proffesiynol. Byddent hefyd yn darparu cam i lawr gwerthfawr ar ôl defnyddio'r gwasanaethau, gan wneud gadael yn haws."

Byddai'r fath ymdriniaeth hefyd yn helpu i atal dibyniaeth ar y tîm ac yn galluogi defnyddwyr gwasanaethau i ddatblygu sgiliau a strategaethau ymdopi. Dylai hyn helpu i leihau llwythi achos staff a phwysau ariannol.

O ran datblygiad staff, gallai myfyrwyr chwarae mwy o ran er mwyn dod â syniadau a setiau sgiliau newydd i wasanaethau. Fe allai staff cyfredol fanteisio ar hyfforddiant arbenigol a chefnogaeth i ddatblygu eu hymarfer, gan gwblhau adolygiadau perfformiad a datblygiad blynyddol i'w galluogi i ddarparu gwasanaeth mwy cadarn a chost effeithiol.

## (C) Gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu

### Beth sy'n gweithio'n dda:

Mae gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu'n gweithio'n dda os ydynt:

- yn hyblyg yn eu hymdriniaeth
- rhoi gwahanol gyfleoedd i bobl er mwyn iddynt gael amrywiaeth a dewis o weithgareddau neu leoliadau gwaith.
- gwneud defnydd da o gyfleusterau a/neu grwpiau cymunedol
- cynnwys gweithgareddau ar-lein ac wyneb yn wyneb
- cefnogi pobl i ddysgu sgiliau newydd ac i fod yn fwy annibynnol

Roedd defnyddwyr gwasanaethau'n gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gawsant yn ystod y pandemig gan 'staff da a chymwynasgar'. Roedd un defnyddiwr gwasanaeth yn canmol eu profiad gwaith yn Abbey Upcycling, a dywedodd eraill:

> "Ar hyn o bryd dwi'n cael cefnogaeth gan Livability. Maen nhw wedi fy help'n fawr yn enwedig yn ystod y cyfnod clo. Mi gawson ni gryn dipyn o hwyl - roedden nhw'n ffonio, roedden ni'n chwarae gemau ac yn cael sgyrsiau ar y grŵp Whatsapp. Mae fy ngweithwyr cymorth i gyd wedi bod yn wych."

> "Mae Byddin yr Iachawdwriaeth (Wrecsam) yn rhoi hyfforddiant i fy mab ar sut i ddefnyddio til mwyn iddo allu gwirfoddoli mewn siop un diwrnod. Mae o wedi cael ei wrthod am y math yma o waith yn y gorffennol oherwydd nad oedd y

> sgiliau yma ganddo. Mae'r hyfforddiant yn rhagorol. Mae o wedi cael profiad gwaith gyda'r Groes Goch – mae hyn yn wych."

Soniodd defnyddwyr gwasanaeth am pa mor dda maen nhw'n gweithio gydag asiantaethau eraill ac roedden nhw'n ddiolchgar am y gefnogaeth ddiweddar a gawsant gan y gwasanaethau cymdeithasol, gan grybwyll Awdurdod Lleol Gwynedd a BIPBC. Mae BIPBC yn gweithredu fel cyflogwr lletyol ar gyfer prosiect sy'n helpu pobl ag anawsterau dysgu i gael swyddi, ac wedi datblygu llwybr recriwtio 'hygyrch' i'r diben hwn.

## Beth y mae angen ei wella

Yn gyffredin â gwasanaethau gofal eraill, dywedodd rhai ymatebwyr bod angen gwella llawer iawn o bethau. Disgrifiwyd gwasanaethau'r cyngor fel 'gwael a rhy gyffredinol' a bod angen eu hailadeiladu 'o'r top i'r gwaelod'. Eto awgrymwyd bod angen mwy o gyllid a gwella cyflogau staff i adlewyrchu eu lefel o gyfrifoldeb a'u hannog i aros yn eu swyddi. Mae angen hefyd lleihau amseroedd aros am asesiadau.

Gallai gweithwyr cymorth fanteisio o ddatblygu eu sgiliau digidol i allu cefnogi defnyddwyr gwasanaethau i fod yn fwy cysylltiedig yn ddigidol. Hefyd, mae angen mwy o weithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill gyda sgiliau arbenigol i gefnogi pobl ag anghenion cymhleth, e.e:

> "Yn bendant mae angen mwy o Weithwyr Cymdeithasol Gofal Oedolion i helpu pobl gydag anableddau dysgu ac awtistiaeth, fel fy mab. Mae arnom hefyd angen seicolegydd arbenigol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu ac awtistiaeth, a hynny ar frys. Nid oes unrhyw un â'r cymwysterau cywir i wneud y gwaith hwn yn Wrecsam. Roedd ein mab ar fin cyflawni hunanladdiad, fe wnaethom dalu am seicolegydd arbenigol am ein bod gymaint o angen rhywun i'w helpu o."

> "Dywedodd pobl ag anawsterau dysgu y byddent yn hoffi "mwy o oriau am daliadau uniongyrchol plîs er mwyn i mi allu mynd i lefydd eraill ac yn fwy aml" a " chanolfan gymorth anfeirniadol, er mwyn cael gwybodaeth, gofyn cwestiynau, cymdeithasu a rhannu/siarad."

Dywedodd gofalwyr y byddai adolygiadau rheolaidd gyda darparwyr gwasanaethau'n werthfawr iawn er mwyn gallu trafod a oes angen unrhyw newidiadau i lefelau

cymorth ac i sicrhau bod gofal yn cael ei deilwra ar gyfer yr unigolyn. Er enghraifft roedd un rhiant eisiau rhoi gwybod i weithwyr cymorth bod angen iddyn nhw ddweud wrth eu plentyn am dynnu eu siwmper pan mae hi'n boeth, am nad oedd hyn wedi digwydd yn ystod cyfnod pan oedd y tywydd yn gynnes.

Roedd rhai'n pryderu ei bod yn bosibl na fydd gofalwyr/rhieni'n gofyn am gymorth os ydyn nhw'n teimlo'n ynysig ac 'yn fethiant'. Mae'n bwysig nad yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn canolbwyntio ar 'y rhai sy'n gweiddi uchaf'.

Mae ar oedolion ag anableddau dysgu angen mwy o gyfleoedd am brofiad gwaith a hyfforddiant i ddatblygu eu hyder a'u sgiliau. Tra bo argaeledd gwasanaethau Mynediad i Waith yn dameidiog, mae diffyg atgyfeiriadau i'r gwasanaethau presennol a byddent yn hoffi gweld mwy'n cael ei wneud ar y pwynt pan fo pobl yn gadael y coleg, i helpu i gydweddu unigolion â'r cyfleoedd sydd ar gael. Mae angen herio'r diwylliant o ddisgwyliadau a chanfyddiadau gwael ymysg cyflogwyr gan greu llwybrau clir at waith ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Gallai'r awdurdodau lleol chwarae rôl allweddol, ond ar hyn o bryd ychydig iawn o bobl ag anableddau dysgu y maent yn eu cyflogi.

Mae angen mwy o lety wedi'i deilwra'n arbennig i gyd-fynd ag anghenion unigol, yn arbennig oedolion ag anableddau dysgu ac eraill ag anableddau cymhleth. Mae angen gwasanaethau camu i fyny/camu i lawr os bydd lleoliad yn methu a bod unigolyn angen cymorth mwy dwys am gyfnod, yn hytrach na derbyniad i'r ysbyty.

Mae cynnwys pobl yng nghyd-ddyluniad gwasanaethau gofal a chymorth yn faes y mae angen ei wella o hyd, yn ogystal ag ymdriniaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gynyddu llais defnyddwyr gwasanaethau a'u rheolaeth dros eu bywydau eu hunain. Gallai hyfforddiant gorfodol ar werthoedd ac egwyddorion cyd-gynhyrchu ar gyfer yr holl staff helpu yn hyn o beth, wedi'i gyflwyno ar y cyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau.

Ar lefel system, mae angen integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn well, gan nad yw hyn wedi datblygu o gwbl ym maes gwasanaethau anableddau dysgu, oherwydd bod 'modelau gwahanol yn dal i gael eu defnyddio ar draws y rhanbarth a chyd-ariannu'n dal i fod yn faes lle mae anghytuno ac anghydfod parhaus."

## (d) Gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau corfforol a/neu nam ar y synhwyrau

### Beth sy'n gweithio'n dda:

Dywedodd un defnyddiwr gwasanaethau eu bod nhw'n 'cael trafferth cael y cymorth maen nhw ei angen'.

Roedd eraill yn meddwl bod y Gwasanaeth Iechyd Hygyrch a gwaith amrywiaeth BIPBC yn gweithio'n dda, yn ogystal â'r cymhorthion, yr addasiadau a'r gwasanaeth cyfeillio a gynigir gan y prosiect Byw'n Dda gyda Cholled Clyw.

Dywedodd y darparwr gwasanaeth bod gwaith partneriaeth gydag adrannau gwasanaethau cymdeithasol lleol a sefydliadau trydydd sector yn gryf, sydd yn cefnogi darpariaeth amrywiaeth eang o wasanaethau o ansawdd, rhwydweithio a rhannu arfer da.

### Beth y mae angen ei wella:

Mae mynediad at wybodaeth a chyngor ar fformatau amgen yn her fawr i ddefnyddwyr gwasanaethau sydd ag anableddau synhwyraidd a chorfforol, yn enwedig gwybodaeth gan awdurdodau lleol a'r GIG. Mae deunyddiau wedi'u hargraffu'n anaddas i lawer o bobl a'r cynnydd mewn mynediad ar-lein yn unig at wasanaethau a gwybodaeth yn rhwystr sylweddol i eraill.

I bobl fyddar yng Ngogledd Cymru, mae darpariaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn cael ei ddisgrifio fel 'loteri cod post', gyda rhai pobl yn gallu cael mynediad at wybodaeth o 9 tan 5 o ddydd Llun i ddydd Gwener ac eraill wedi'u cyfyngu i ddyddiau penodol o'r wythnos. Yn fwy cyffredinol, mae pobl fyddar yn ei gweld yn anodd cael mynediad at lawer o weithgareddau am nad oes unrhyw ddarpariaeth yn cael ei wneud ar gyfer cyfathrebu â nhw.

Cyfyngedig yw mynediad pobl ag anableddau at ofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn enwedig oedolion iau ag anableddau. Mae'n rhaid i bobl aros yn rhy hir am asesiadau a chefnogaeth, ac mae angen gwella cyfathrebu gyda gweithwyr cymdeithasol.

Gall y rhai hynny ag anableddau anweladwy, cyflyrau sy'n mynd a dod neu gyflyrau prin gael eu cau allan o wasanaethau am nad ydynt yn diwallu rhai meini prawf penodol, e.e. 'defnyddio cadair olwyn yn llawn amser'. Mewn gwirionedd mae gan y

rhan fwyaf o bobl sy'n defnyddio cadair olwyn rywfaint o symudedd. Mae gwasanaethau felly'n creu 'hierarchaeth anabledd' yn hytrach nag ymateb i anghenion unigol.

Eto mae diffyg staff gofal yn peri pryder ac yn golygu bod gofal yn cael ei ddarparu ar adeg sy'n siwtio'r asiantaeth ofal yn hytrach na phan fo ar y cleient angen y gwasanaeth, ac mae'n golygu hefyd nad oes unrhyw un i lenwi yn ystod cyfnodau o wyliau a salwch staff.

## (e) Gwasanaethau ar gyfer pobl ag awtistiaeth

### Beth sy'n gweithio'n dda:

Ychydig o ymatebwyr wnaeth sylwadau ar bethau sy'n gweithio'n dda, a dywedodd un neu ddau fod gwasanaethau'n rhy araf ac nad oes llawer o gefnogaeth ar gael.

Credir bod y Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig yn gadarnhaol iawn, felly hefyd y defnydd o daliadau uniongyrchol.

### Beth y mae angen ei wella:

Roedd rhai ymatebwyr yn meddwl bod 'popeth' angen ei wella, gan argymell yn arbennig:

- y dylai gwasanaethau ganolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn
- y dylai staff gael hyfforddiant arbenigol
- bod angen lleihau amseroedd aros am asesiadau.
- y dylid gwella cyfathrebu â gwasanaethau
- bod angen i staff ym mhob gwasanaeth fod yn fwy gonest ac agored
- y dylid sefydlu canolbwynt ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth lle gall yr holl ddarparwyr gyfarfod a rhannu gwybodaeth.

# 2. Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
## (a) yn gyffredinol

### Beth sy'n gweithio'n dda:

Ar draws y sector cyfan mae ymatebwyr yn dweud bod y canlynol yn gweithio'n dda:

- perthnasoedd cadarnhaol ac ymddiriedaeth rhwng rheolwyr Awdurdodau Lleol, gweithwyr cymdeithasol a chydweithwyr iechyd i gefnogi cydweithio.
- cyfathrebu da rhwng darparwyr cymorth
- arferion gweithio hyblyg, yn enwedig yn ystod y pandemig
- amrywiaeth eang o wasanaethau ar gael
- cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r blynyddoedd cynnar
- angerdd, gwytnwch ac ymrwymiad staff yn y sector hwn
- cysylltiadau rhwng gwasanaethau gofal a'r ysgolion, mae gweithwyr ieuenctid ysgolion yn arbennig wedi cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cael mynediad at wasanaethau.
- Mae Canolbwyntiau Lles ôl-16 wedi ymgysylltu â phobl ifanc sydd ddim wedi bod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) ers tro ac wedi'u helpu nhw i mewn i hyfforddiant.

Cyfeiriwyd yn benodol at wasanaethau a ddarperir gan Deulu Môn, sy'n cael eu hystyried yn dîm 'cyfeillgar ac effeithlon'; tîm o amgylch y denantiaeth yn TGP Cymru sydd yn mynd 'y tu hwnt i'r galw' a sector y blynyddoedd cynnar yn Sir y Fflint.

Dywedwyd bod prosiect WRAP (Wrexham Repatriaton and Preventive Project) yn gwneud gwaith da o ran gwella sefydlogrwydd lleoliadau plant a phobl ifanc mewn gofal maeth, gofal preswyl neu sy'n mynd drwy'r broses o gael eu mabwysiadu. Mae'n helpu gofalwyr i weithio mewn ffordd fwy gwybodus gyda phlant sydd wedi profi trawma, ac yn helpu plant i brosesu eu profiadau trawmatig cynnar. Yn fwy cyffredinol, credir bod y prosesau sydd yn eu lle i gymeradwyo a chefnogi gofalwyr maeth yn effeithiol.

Mae'r dulliau cyffredinol o ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant a'u teuluoedd y credir eu bod yn gweithio'n dda yn cynnwys:

- gweithio mewn modd cyfannol gyda'r teulu cyfan, a gallu addasu a bod yn ddigon hyblyg i ymateb i anghenion pob aelod unigol o'r teulu ar unrhyw un adeg.

- teilwra cynlluniau gofal unigol i ddiwallu eu hanghenion penodol
- canolbwyntio ar adferiad i alluogi pobl i wireddu eu deilliannau personol ac i fod yn llai dibynnol ar wasanaethau.
- defnyddio taliadau uniongyrchol, yn cynnwys taliadau grŵp, am fod hon yn ffordd gost effeithiol o gefnogi pobl.
- darparu cymorth i deuluoedd yn y blynyddoedd cynnar, drwy Ganolbwynt y Blynyddoedd Cynnar neu'r Tîm o Amgylch y Teulu.
- gwneud defnydd llawn o adnoddau sydd ar gael yn y gymuned
- gwneud defnydd da o wirfoddolwyr oherwydd eu bod yn cael eu derbyn fel 'ffrindiau' yn hytrach nag fel 'rhywun o asiantaeth sy'n dweud wrthyn nhw beth i'w wneud".

## Beth y mae angen ei wella:

Codwyd lefelau staffio unwaith eto fel rhywbeth sy'n peri pryder difrifol:

> "Mae'r awdurdod lleol yn cael trafferthion go iawn, ac ar adegau maen nhw'n cael eu gorlethu. Maen nhw'n cael problemau mawr llenwi swyddi, mae llwyth achosion llawer o'r gweithwyr cymdeithasol yn drwm dros ben ac mae trosiant staff yn uchel.

Mae hyn yn niweidiol i blant sy'n derbyn gofal am eu bod angen cysondeb a pherthnasoedd cadarnhaol. Mae angen gwell cynllunio gweithlu i ddarparu gwasanaethau o safon ac i osgoi argyfwng gofal cymdeithasol. Mae hyn yn debygol o ofyn am gynnydd mewn cyflogau a buddiannau, cynnydd mewn parch at y sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer y gwaith hwn a dod o hyd i ffyrdd o ddal gafael ar staff.

Dywedodd llawer o ymatebwyr bod angen mwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â phroblemau staffio ac i sicrhau y gellir cynnig amrywiaeth lawn o wasanaethau. Mae llawer o wasanaethau sydd ddim yn cael eu hariannu'n llawn. Mae cyllid mwy hirdymor yn angenrheidiol i ddarparu cefnogaeth barhaus a chynaliadwy ar gyfer pobl ifanc. Byddai pob plentyn yn manteisio o fod â gweithiwr allweddol i helpu i gydlynu gwasanaethau a chyfarfodydd, ac i'w cefnogi nhw i sicrhau y clywir eu llais drwy gydol yr adeg. Mae hyn yn golygu symud i ffwrdd oddi wrth waith prosiect byrdymor.

> "Mae cyllid ar hyn o bryd yn rhedeg o flwyddyn i flwyddyn, dydi hyn ddim yn rhoi digon o amser i brosiect sefydlu'r gefnogaeth gywir i rai pobl ifanc ac mae rhai ohonynt angen dros 6 mis o gefnogaeth."

> "Mae gweithio heb ddigon o gyllid creu mwy o broblemau nag atebion .... byddai dyfarniadau grant mwy hirdymor yn sicrhau gwell cynllunio a gwerth am arian ac yn gwella prosesau mewnol e.e. caffael/prosesau cyfreithiol."

Roedd rhai'n teimlo bod angen ymyrraeth gynnar yn fwy aml, yn enwedig lle dynodir profiadau niweidiol mewn plentyndod mewn teulu. Felly hefyd mae angen ymyrraeth therapiwtig ar gyfer plant mewn gofal i'w helpu nhw i ddelio â'r profiadau andwyol y maent wedi'u dioddef

Gallai ysgolion wneud mwy i adnabod ac atgyfeirio plant mewn perygl cyn i'r problemau ddwysau, yn enwedig gan fod rhai pobl ifanc yn eu harddegau yn disgyn drwy'r bylchau. Mae angen mwy o wasanaethau 'ymylon gofal' gyda staff â'r cymwysterau a'r profiad angenrheidiol. Mae angen canolfannau lleol i roi cefnogaeth therapiwtig i deuluoedd

Mae problemau'n ail-godi pan fydd pobl ifanc yn gadael yr ysgol oherwydd bod eu systemau cymorth yn stopio oni ba eu bod yn mynd ymlaen i addysg bellach. Yn aml iawn mae arnynt angen cymorth wrth iddynt bontio i'r gwasanaethau oedolion, sydd yn aml ddim ar gael. Mae hyn yn bryder arbennig o ran pobl ifanc ag anghenion cymhleth. Un ateb ymarferol fyddai cynyddu argaeledd stoc tai un ystafell wely, i alluogi pobl ifanc i adael llety â chymorth a symud i denantiaeth gan dderbyn cymorth dwys.

Un grŵp o blant y teimlir y mae'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yn eu methu'n aml yw'r rhai hynny â chlefydau prin, Mae'n bosibl na fyddent yn cael eu hadnabod o gwbl oni bai bod eu cyflwr yn cynnwys anabledd neu os oes materion gofal cymdeithasol eraill cysylltiedig â'r teulu. Mae'n ymddangos nad yw llwybrau gofal cymdeithasol wedi'u haddasu ar gyfer y teuluoedd hyn ac nad ydynt yn ddigon sensitif i'r heriau, gan adael ymyrraeth yn rhy hwyr neu roi'r bai yn rhy fuan ar rianta gwael. Dylid mynd i'r afael â'r pryderon hyn drwy greu cofrestr o deuluoedd wedi'u heffeithio a chynyddu dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol o'r cyflyrau.

Mae angen mwy o ofalwyr maeth i gadw i fyny â’r galw ar wasanaethau, yn enwedig pan fo teuluoedd mewn argyfwng. Mae’r atebion yn cynnwys cynyddu pecynnau cymorth ar gyfer gofalwyr maeth yn ogystal â recriwtio a hyfforddi mwy o ofalwyr. Bydd hyn yn gost effeithiol os yw’n atal llawer o leoliadau rhag chwalu ac yn lleihau nifer y plant mewn lleoliadau y tu allan i'r sir neu mewn lleoliadau preswyl drud dros ben.

O ystyried maint y pryderon ynglŷn â’r gwasanaethau plant, awgrymodd rhai bod angen dull ‘meddwl trwy systemau’ o ddarparu gwasanaethau ar draws yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd a’r Trydydd Sector, i ddileu gwastraff mewn systemau a sicrhau nad os raid i ddefnyddwyr gwasanaethau aros yn hir am ofal. Mae’r seilwaith i gefnogi dull mwy cydweithredol o weithio, megis systemau TG, yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol. Mae angen mwy o waith ar y cyd ar y broses Gofal Iechyd Parhaus a Chydweithredfeydd Gofal Cymunedol ar gyfer plant.

## (b) Gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag amhariadau corfforol/synhwyraidd

Dim ond ychydig o ymatebwyr wnaeth sylwadau ar y mater hwn ac o'r rhai a wnaeth, sylwadau ar y ddarpariaeth gofal iechyd oedden nhw.

## (c) Gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu.

### Beth sy’n gweithio’n dda:

Ychydig iawn o sylwadau a gafwyd yma. Soniwyd rhywfaint am gefnogaeth dda gan ysgolion a chydweithio llwyddiannus ar draws y sefydliadau gofal.

### Beth y mae angen ei wella:

Roedd argymhellion ar gyfer gwella yn cynnwys:

- mwy o gyllid a staff
- gwell cyfathrebu rhwng gwasanaethau
- mwy o weithgareddau
- mwy o gefnogaeth ar gyfer teuluoedd â phlant ag anghenion ychwanegol sy’n dreisgar

## (d) Gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc

### Beth sy'n gweithio'n dda:

Dywedodd yr ymatebwyr bod y canlynol yn gweithio'n dda:

- cydweithio â chynghorau lleol i hyrwyddo gwasanaethau a sicrhau eu bod yn cyrraedd y nifer uchaf o bobl.
- cyfathrebu rhwng asiantaethau – yr heddlu, gwasanaethau plant ac addysg
- cwnsela mewn ysgolion uwchradd
- apiau iechyd meddwl a lles
- llinellau ffôn fel y Samariaid a MIND

Roedd eraill yn meddwl nad yw gwasanaethau'n gweithio'n dda o gwbl am ei bod 'yn amhosibl cael apwyntiad am wasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau cysylltiedig â phlant."

### Beth y mae angen ei wella:

Y neges gyson gan lawer o ymatebwyr oedd bod bwlch anferth yn y gwasanaethau iechyd meddwl plant, bod rhestrau aros yn rhy hir a bod teuluoedd yn cael trafferth ymdopi.

Argymhellion penodol ar gyfer gwelliannau oedd:

- gwell mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a'r tîm niwroddatblygiad ar gyfer pobl ifanc.
- integreiddio gwasanaethau iechyd meddwl i'r ysgolion, yn enwedig cwnsela ar gyfer plant ysgol gynradd a chodi ymwybyddiaeth o drawma ymysg staff.
- cynyddu niferoedd nyrsys Plant Sy'n Derbyn Gofal
- cydweithio rhwng gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau plant eraill er mwyn symleiddio gofal
- cynyddu cefnogaeth seicolegol ar gyfer plant, yn enwedig plant mewn gofal a llai o ddibyniaeth ar feddyginiaeth fel ymyrraeth.
- mwy o gwnsleriaid, yn enwedig cwnsleriaid gwrywaidd a rhai sy'n siarad Cymraeg , Pwyleg ac Ieithoedd eraill.
- siopau un stop i ddysgu am, a chael mynediad at yr holl wasanaethau sydd ar gael mewn ardal

- gwneud y broses o bontio o'r gwasanaethau plant i'r gwasanaethau oedolion yn haws i bobl ifanc ac wedi'u teilwra'n arbennig i gyd-fynd ag anghenion datblygiadol yr unigolyn.

## (e) Gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag awtistiaeth

### Beth sy'n gweithio'n dda:

Ychydig o ymatebwyr a ddywedodd bod gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag awtistiaeth yn gweithio'n dda, ond roedd y pethau da a gafodd eu nodi yn cynnwys:

- seicolegwyr addysg unigol
- sefydliadau'n darparu cymorth o ansawdd da: STAND NW, Canolfan Datblygiad Plant Conwy ac Ysgol y Gogarth.
- y gefnogaeth wedi'i theilwra'n arbennig a gynigir i bob teulu/unigolyn

### Beth y mae angen ei wella:

Dywedodd rhai ymatebwyr bod angen gwella '*popeth'* i roi mwy o sylw, gofal a chymorth i rieni a'u plant awtistig. Mae rhestrau aros am asesiadau awtistiaeth yn *'aruthrol o hir'* ac ychydig iawn o wasanaethau sydd ar gael. Dywedodd rhieni y byddent yn hoffi cael mwy o wybodaeth am sut y mae eu hachos yn symud i fyny'r rhestr, a hefyd byddent yn hoffi cael rhywfaint o gyngor tra maen nhw'n aros.

Mae'r bylchau a ddynodwyd mewn gwasanaethau'n cynnwys:

- gwasanaethau ar gyfer plant ar begwn uchaf y sbectrwm
- gofal seibiant unwaith y mae plant yn 11 oed
- cyfleusterau ar ôl ysgol gyda staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol
- gwasanaethau ar gyfer plant awtistig â phroblemau gorbryder a chyfathrebu

Lleisiodd rhieni bryderon nad yw athrawon, yn enwedig mewn ysgolion arbenigol, i gyd yn gymwys ac wedi'u hachredu i weithio â phlant awtistig. Roeddent yn teimlo y dylai gwersi gael eu darparu gan athrawon sydd wedi'u hyfforddi mewn dyslecsia, anghenion synhwyraidd, anawsterau â'r swyddogaethau gweithredol, prosesu araf ac ati. Mae'n arbennig o bwysig bod athrawon yn cael eu hyfforddi i adnabod a chefnogi plant awtistig ag anghenion cymhleth sy'n ymddangos fel pe baent yn iawn yn gymdeithasol ac sy'n gallu cuddio eu problemau'n dda. Nid yw ugain munud yr

wythnos o addysgu un-i-un gan y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn ddigon.

Roedd rhieni a gofalwyr yn disgrifio "cael eu gadael i ddelio â chanlyniadau trawma a achoswyd gan athrawon sydd ddim yn deall anghenion y disgybl, felly yn ogystal â gofalu am ein plentyn, mae'n rhaid i ni frwydro i geisio gorfodi ysgolion i wneud darpariaeth ar eu cyfer. Mae gennym y baich aruthrol ychwanegol yma ar ben ein rôl ofalu ein hunain."

Mae ar rieni a gofalwyr angen mwy o ofal seibiant eu hunain, fel yr eglurodd un rhiant "dw i wedi mwy nag ymlâdd'. Roedd yn rhaid i mi adael fy swydd fel nyrs arbenigol am 23 o flynyddoedd i fod yn ofalwr llawn amser i fy merch, a does 'na ddim cefnogaeth iddi hi."

Gallai grwpiau cymdeithasol ar gyfer rhieni ddarparu cyfleoedd i drafod anawsterau cyffredin a rhannu gwybodaeth am atebion. Mae angen mwy o gefnogaeth a hyfforddiant i helpu rhieni i ymdopi ag awtistiaeth eu plentyn.

Ar lefel system, byddai darparwyr gwasanaeth yn manteisio ar:

- fforymau rhwydweithio gwell
- sicrwydd o gyllid gan yr awdurdod lleol
- cydlynu a chydweithredu i rwystro cyrff/asiantaethau rhag cystadlu a'i gilydd am yr un grantiau ac i osgoi gorgyffwrdd rhwng gwasanaethau.

Byddai rhieni'n hoffi pe bai staff ar draws sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd "fel nad oes angen rhoi'r un wybodaeth bob tro ac nad ydych y gorfod gweld rhywun newydd bob tro."

# 3. Gofal cymdeithasol i bobl hŷn

## (a) Gwasanaethau pobl hŷn yn gyffredinol

### Beth sy'n gweithio'n dda:

Dywedodd llawer o ymatebwyr nad oes 'unrhyw beth' yn gweithio'n dda yn y gwasanaethau i bobl hŷn

> "Mae pawb yn gwneud eu gorau, ond dydi'r arian ddim yna, ddim ar gyfer staff ychwanegol nac i wneud gwell defnydd o adrannau, ac mae cyfathrebu rhyngddynt yn broblem anferth hefyd."

Roedd rhai'n meddwl bod pocedi o enghreifftiau lle mae gwasanaethau'n gweithio'n dda, lle mae timau o bob rhan o'r sector a gwahanol asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion pobl hŷn, a lle mae staff ymrwymedig, wedi'u hyfforddi'n dda yn gweithio'n galed iawn mewn sefyllfaoedd anodd.

> "Roeddwn angen gofal yn ar frys i fy nhad pan aeth fy mam i'r ysbyty. Er mai dim ond newydd symud yma oedden nhw, cafodd eu hanghenion eu diwallu drwy gyfuniad o Asiant Cymunedol, y Gwasanaethau Cymdeithasol a Homecare Matters. Fe wnaeth cyflymder y trefniadau ar gyfer eu hanghenion gofal argraff fawr arna'i "

Mae enghreifftiau penodol o wasanaethau lleol yn gweithio'n dda yn cynnwys:

- asesiadau cyflym ar gyfer pobl hŷn yn Sir y Fflint.
- gwasanaethau rhagweithiol a dynamig yn Sir y Fflint.
- gwell cynlluniau gofal a chymorth integredig yn Sir Ddinbych
- gofal ardderchog gan staff unigol yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Wrecsam
- cefnogaeth gan Gorwel gydag anghenion cysylltiedig â thai

Roedd y dulliau o ddarparu gofal ar gyfer pobl hŷn sy'n gweithio'n dda ym marn ymatebwyr yn cynnwys:

- cynnig amrywiaeth o opsiynau cymorth i bobl ddewis o'u plith
- opsiynau i ymgysylltu â gwasanaethau a chymunedau ar-lein a heb fod ar-lein
- darpariaeth gwasanaethau dwyieithog

- cartrefi gofal sy'n sicrhau deilliannau lles ac annibyniaeth, ac yn rhoi'r sicrwydd o ofal dros nos pan fo angen.
- gwasanaethau cymorth yng nghartrefi pobl.
- rhoi cymorth lefel isel i bobl hŷn, er enghraifft gwybodaeth a rhifau cyswllt, er mwyn iddynt allu helpu eu hunain ac aros yn annibynnol.

## Beth y mae angen ei wella:

Eto roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod angen gwella 'popeth' oherwydd bod 'y system Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi torri'. Mae gennym boblogaeth gynyddol hŷn a dim darpariaeth ar gyfer hyn."

Mae angen llawer mwy o staff. Un bwlch pwysig yw darpariaeth cymorth ar gyfer pobl hŷn sy'n gadael yr ysbyty. Mae pobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty heb unrhyw ofal yn ei le, ac yna'n gorfod mynd yn ôl i'r ysbyty oherwydd nad ydynt yn gallu ymdopi.

> "Byddai'n bosibl gweld mwy o bobl pe bai yna lai o waith papur. Gellid rhyddhau pobl o'r ysbytai a wardiau iechyd meddwl yn gynt pe bai cydweithwyr yn fwy ymwybodol/cyfarwydd â'r prosesau cysylltiedig. Dim digon o weithwyr cymdeithasol ar gyfer yr atgyfeiriadau sy'n cael eu derbyn. Caiff achosion brys eu delio â nhw gan weithiwr cymdeithasol dyletswydd ar y diwrnod hwnnw. Mae gorfod bod â gweithiwr cymdeithasol dyletswydd bob dydd yn golygu bod gweithwyr cymdeithasol yn colli ryw ddiwrnod o bob wythnos, sy'n effeithio ar eu gallu i oruchwylio'u llwyth achos eu hunain a chymryd achosion newydd.

Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu a oes angen ailystyried yr hyn sy'n ddiogel yn y cyd-destun presennol.

> "Mae pecynnau o ofal sy'n gofyn am 4 ymweliad y dydd gan ddau unigolyn yn dechrau mynd yn fwy a mwy amhosib i'w darparu. A oes angen ailfeddwl ynglŷn â beth/pwy y gellir delio â nhw'n ddiogel yn eu cartrefi?"

> "Dydi fy ngŵr ddim yn gallu dod adref. Mae o wedi bod yn yr ysbyty ers 16 wythnos yn disgwyl i ofal yn y cartref gael ei drefnu. Dydi o ddim yn gallu symud nac yn gallu gwneud unrhyw beth drosto'i hun felly mae o angen gofalwyr bedair gwaith y dydd. Mae 'na achosion o COVID wedi bod ar ei ward ar dri achlysur."

Byddai gweithwyr iechyd proffesiynol yn manteisio o allu cael mynediad at wybodaeth fyw am ba ddarparwyr sydd gan y capasiti ar y pryd i ddarparu'r gofal hwn er mwyn osgoi gwastraffu amser yn cysylltu â sawl sefydliad.

Cwestiynodd un gofalwr y ffocws presennol ar annibyniaeth i bobl hŷn ac a yw mewn gwirionedd yn ddim ond mecanwaith i drosglwyddo'r cyfrifoldebau a'r costau i ofalwyr di-dâl, gan anwybyddu'r realiti bod pobl fregus a hen iawn "yn debygol o wneud dim ond dirywio'n feddyliol ac yn gorfforol."

Mae gwasanaethau'n canolbwyntio ar reoli argyfyngau yn hytrach nag ar ddarparu cymorth ataliol. Mae hyn yn arwain at anfon pobl i leoliadau ymhell o'u cartrefi yn erbyn dymuniadau'r teulu. Mae angen rhagor o fuddsoddi mewn gwasanaethau arbenigol i sicrhau bod pobl hŷn yn cael yr help sydd ei angen arnynt **cyn** iddynt gyrraedd y pwynt argyfwng.

Roedd rhai ymatebwyr yn bryderus nad yw pobl hŷn sydd ag anghenion lefel uwch, megis anghenion nyrsio a gofal dementia, yn cael digon o ofal oherwydd mai dim ond gofal lefel isel sydd ar gael. Tra bo gofal brys yn cael ei ddarparu ar gyfer pobl hŷn sy'n disgyn ac yn cael eu hanafu, mae angen gwasanaeth ymateb ar gyfer pobl sy'n disgyn ond ddim yn dioddef anaf ac ar gyfer gofal yn y cartref y tu allan i oriau arferol. Ar hyn o bryd os yw unigolyn hŷn angen cymorth ychwanegol oherwydd digwyddiad annisgwyl e.e. eu gofalwr yn sâl, ni fydd ganddynt fynediad at unrhyw gymorth o gwbl.

Mae hefyd angen amrywiaeth ehangach o opsiynau tai addas i ddiwallu gwahanol anghenion a lefelau cymorth gofal pobl hŷn.

Roedd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau'n teimlo y dylai gofal i bobl hŷn fod:

- yn symlach fel y gall un person ddarparu amrywiaeth o gefnogaeth yn hytrach na bod llawer o bobl yn rhoi eu tameidiau bach eu hunain o gymorth.
  wedi'u trefnu'n well fel y gellir diwallu anghenion yr unigolyn yn iawn
- wedi'u darparu gan yr un aelod o staff fel nad oes yn rhaid i chi 'ailadrodd eich hun bob tro' a bod y staff yn dechrau dod i adnabod yr unigolyn a'u hanghenion.
- wedi'u monitro'n well i sicrhau y darperir y nifer cywir o oriau.
- yn fwy hyblyg, fel y gellir eu darparu dim ond pan fo'u hangen, ar adeg sy'n siwtio'r cleient, ac fel y gellir eu haddasu mewn ymateb i newid mewn anghenion.

- yn para'n hirach, gyda chyfnodau adolygu hirach, yn hytrach na chau achosion 'ar y cyfle cyntaf'.
- wedi'u hysbysebu'n well fel bod gwybodaeth ar gael mewn sawl lle ac mewn gwahanol gyfryngau, nid dibynnu ar y fewnrwyd yn unigol.
- wedi'u harwain gan angen yn hytrach na disgwyl i'r defnyddiwr gwasanaeth ffitio i mewn a'r hyn sydd ar gael.
- wedi'u cefnogi gan daliadau uniongyrchol fel y gall pobl hŷn reoli eu gofal eu hunain, cyflogi eu staff eu hunain.

> "Fel dyn 92 oed roeddwn yn gweld y gwasanaeth cymorth yn y cartref o help ond yn gyfyngedig. Mi nes i ddechrau gallu gwneud pethau fy hun, felly mi nes i ganslo'r gwasanaeth. Rydw i rŵan yn meddwl tybed a allai'r gwasanaeth olchi a glanhau mannau dros uchder y pen ac o dan uchder y ben-glin. Y pwynt ydi bod fy anghenion yn newid ac angen eu hadolygu."

Roedd rhai'n teimlo y byddai gwelliannau i wasanaethau'n dod o gydweithio mwy effeithiol ac ehangach rhwng awdurdodau lleol a gofal preifat a rhwng iechyd a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae cyfathrebu ynglŷn â rhyddhau o'r ysbyty a chydlynu pecynnau gofal ar y cyd yn ddau o'r pethau sy'n peri'r pryder mwyaf.

> "nid oes unrhyw feddwl ar y cyd na dull o weithredu ar y cyd rhwng iechyd, gofal cymdeithasol a chwmnïau gofal elusennol neu wedi'u contractio. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ofalwr geisio cydlynu'r gwasanaethau hyn i gyd, sy'n ychwanegu at eu baich".

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn dweud bod prinder staff yn un o'r problemau mwyaf i wasanaethau pobl hŷn. Ychydig iawn o bobl sydd eisiau gweithio yn y sector gofal ac mae cyflogau'n rhy isel o ystyried bod anghenion pobl hŷn yn llawer mwy dwys nag yr oeddent flynyddoedd yn ôl.

> "Mae prinder recriwtio enfawr yn effeithio ar y sawl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn y pendraw, sydd mewn oed ac yn agored i niwed ac yn cael galwadau o safon wael, galwadau'n cael eu methu neu alwadau sydd ddim yn para'r amser y cytunwyd arno yn y pecynnau gofal.

Mae'r atebion arfaethedig yn cynnwys:

- cynyddu cyflogau staff dros yr isafswm cyfog a gwella amodau gwaith i ddal gafael ar staff a denu mwy o staff newydd.
- buddsoddi mewn hyfforddiant a chreu gwell strwythur gyrfa ar gyfer staff gofal gyda gwobr ariannol am ddatblygu sgiliau a phrofiad fel bod gwasanaethau'n cael eu darparu gan weithwyr proffesiynol hyfforddedig yn hytrach na phobl ifanc ddibrofiad.
- swyddi i fod yn barhaol yn hytrach nag yn rhai tymor penodedig neu'n ddibynnol ar gyllid.
- sefydlu telerau ac amodau ar gyfer staff ar draws y sector i wella sefydlogrwydd y gweithlu.
- cefnogi a chymell asiantaethau gofal i ddarparu gofal diogel, unigol ac i wella sgiliau staff er mwyn iddynt allu gwneud hyn, fel nad yw gofal dau berson yn cael ei ystyried yn angenrheidiol yn awtomatig.

> “Dylai’r ymdriniaeth fod yn un Cymru gyfan fel bod yr holl ddarparwyr sector cyhoeddus a phreifat yn talu gwell cyflogau ac ar yr un raddfa i staff. Mae Gwynedd eisiau rhoi mwy o gyfrifoldeb i ofalwyr dros eu gwaith ac yn sgil hynny talu mwy iddynt. Er mwyn hwyluso hyn yn rhannol maent am dalu ffi uwch i’r darparwyr a’u gorfodi i dalu cyfradd fesul awr sefydlog i’r gofalwyr. Pe bai’r dull hwn yn cael ei fabwysiadu ar draws Cymru byddai’n denu ac yn cadw mwy o ofalwyr ac yn helpu i ddatrys un o’r problemau mwyaf sy’n wynebu gofal yn y gymuned ar hyn o bryd."

Yn amlwg mae’r fath newidiadau yn gofyn am fwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn i wasanaethau allu gweithredu ar y lefel orau bosibl ac yn sgil hynny bod defnyddwyr gwasanaethau’n cael gofal o safon uchel mewn modd amserol.

Awgrym arall oedd mabwysiadu’r model Eidalaidd o ofalwyr ‘llain mefus’, lle mae busnesau bach yn gweithio gyda’i gilydd i rannu pryniannau a hyfforddiant ac yna’n eu lledaenu drwy fentrau bach ychwanegol.

## (b) Gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn ag amhariadau corfforol/synhwyraidd

## Beth sy'n gweithio'n dda:

Ychydig iawn o ymatebwyr a wnaeth sylwadau ynghylch meysydd lle mae gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn ag amhariadau corfforol/synhwyraidd yn gweithio'n dda. Eu sylwadau oedd:

- mae staff iechyd a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector yn gweithio'n agosach â'i gilydd nag o'r blaen, yn rhannol oherwydd cyflwyniad timau Adnoddau Cymunedol.
- Mae Prif Swyddog Newydd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yn annog gwell cysylltiadau gweithio rhwng sefydliadau trydydd sector a gwerth cymdeithasol.
- Mae NEWCIS yn darparu gofal seibiant gwerthfawr (er bod hwn yn gyfyngedig)

## Beth y mae angen ei wella:

Mae tai hygyrch a fforddiadwy yn sobor o brin ac mae hyn yn ei dro yn effeithio ar wasanaethau oherwydd bod pobl yn gorfod gwneud cais am fwy o gymorth. Mae llawer o dai newydd yn cael eu dylunio heb fod yn dai hygyrch. Mae hyn yn cael effaith niweidiol ar sut y mae pobl anabl a phobl hŷn yn byw. Eu hunig opsiwn yw gofal preswyl gan nad oes opsiynau mwy hyblyg a chreadigol ar gael.

Ychydig iawn o gefnogaeth/cwnsela/cyngor sydd ar gael i bobl sy'n cael trafferth ymdopi â cholled clyw ac sy'n teimlo'n ynysig ac yn ofnus. Mae hi'n anodd er enghraifft dod o hyd i gyrsiau i ddysgu iaith arwyddion. Mae gwasanaethau'n dameidiog ac nid oes pwynt cyswllt canolog ar gyfer cefnogaeth a gwybodaeth. Byddai gweithwyr cymdeithasol sy'n arbenigo mewn helpu pobl â phroblemau â'u clyw yn fuddiol.

Dywedodd staff mewn cartrefi gofal eu bod yn ei chael yn anodd cael mynediad at ofal cymdeithasol ar gyfer eu preswylwyr, oherwydd bod gweithwyr cymdeithasol yn cau achosion unwaith y mae unigolyn yn cael ei dderbyn i gartref gofal. Roeddent yn dweud bod atgyfeiriadau Pwynt Mynediad Sengl yn draul ar amser ac yn poeni am ddiffyg parhad mewn gofal.

Roedd argymhellion penodol i wella gwasanaethau'n cynnwys:

- prydlondeb gwell
- mwy o staff fel nad yw gofalwyr yn gorfod rhuthro a bod y ddau aelod o staff yn troi i fyny pan fo'u hangen.

- gwell cyswllt rhwng staff fel bod anghenion y cleient bob amser yn cael eu diwallu.
- anghenion gofal yn cael eu hadolygu'n fwy aml
- camau’n cael eu cymryd i sicrhau bod y materion sy’n cael eu codi mewn adolygiad yn cael sylw.

## (c) Gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn ag anableddau dysgu

### Beth sy’n gweithio’n dda:

Credir mai dim ond taliadau uniongyrchol sy’n gweithio’n dda.

### Beth y mae angen ei wella:

Roedd argymhellion yn cynnwys clustnodi mwy o oriau o ofal a chynyddu nifer y staff.

## (d) Gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl hŷn

### Beth sy’n gweithio’n dda:

Crybwyllodd defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr y gwasanaethau penodol canlynol fel rhai sy’n darparu cyngor a chymorth gwerthfawr:

- Cymdeithas Alzheimer's
- GOGDdC
- Gofalwyr 24/7 ym Mhlas Cnigyll
- Gofal Iechyd Seibiant Crossroads
- Gwasanaeth Trio
- Cynllun Pontio'r Bwlch ar gyfer gofalwyr
- Ymarferwyr Gofal Cymdeithasol Dementia
- Canolfan Ddydd Hafan Deg

Mae gwasanaethau’n gweithio’n dda pan maen nhw’n darparu seibiant a chymorth i’r unigolyn â dementia a’u gofalwr, er mwyn eu galluogi i gael seibiant byr oddi wrth ei gilydd ond yn yr un adeilad. Mae ymweliadau â’r cartref hefyd yn gweithio’n dda, yn enwedig o ran helpu'r gofalwr i addasu i fyw â dementia.

Roedd rhai gofalwyr yn dweud eu bod yn gallu dod o hyd i ofal yn sydyn pan oedd ei angen arnynt a'u bod yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi'n dda.

> "Pan ffoniais y 'pwynt mynediad sengl' allwn i ddim bod wedi siarad ag unigolyn cleniach, ac roeddwn i wedi cynhyrfu'n ofnadwy ar y pryd. Roedd bod â'r mynediad hwnnw'n gysur – a bydd angen eu help eto dwi'n siŵr"

Dywedodd darparwyr gwasanaethau bod cefnogaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio'n dda, yn enwedig cyfarfodydd gyda staff yn ystod yr wythnos, cymorth ariannol a darpariaeth PPE yn ogystal â chyfathrebu da am yr hyn sy'n digwydd yn y sector gofal. Tynnodd un ymatebydd sylw at y gefnogaeth safon uchel a geir gan Arolygiaeth Gofal Cymru a Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint.

Fodd bynnag, dywedodd gweithiwr cymdeithasol gyda blynyddoedd lawer o brofiad: "ar hyn o bryd rydw'i wirioneddol o'r farn nad oes fawr ddim yn gweithio'n dda." Teimlwyd mai dim ond y gwasanaethau Teleofal a'r gwasanaeth tân oedd yn gweithio'n dda i gadw pobl hŷn yn ddiogel.

## Beth y mae angen ei wella:

Yn gyffredinol mae angen darparu mwy o wasanaethau i leihau rhestrau aros, a gwella atgyfeiriadau i wneud mynediad yn haws. Roedd argymhellion penodol ar gyfer gwella yn cynnwys:

- dosbarthu rhestr gynhwysfawr o'r gwasanaethau presennol yn fwy eang er mwyn cyrraedd defnyddwyr gwasanaeth posibl cyn cyrraedd y pwynt argyfwng.
- canolfannau diwrnod agored am fwy o ddyddiau o'r wythnos, yn cynnwys ar wyliau banc ac ar benwythnosau.
- diwedd ar y lotri cod post mewn gwasanaethau, e.e. y gwasanaeth eistedd gyda phobl â dementia rhad ac am ddim sydd ar gael yn Sir Ddinbych ond nid yn sir y Fflint.

I'r perwyl hwn mae angen i'r cyllid ar gyfer gwasanaethau pobl hŷn fod gyfwerth â'r cyllid ar gyfer grwpiau gwasanaeth. Mae angen hefyd symleiddio gofal unigol a'i wneud yn fwy cyson. Er enghraifft, dywedir bodd cyllid Gofal Iechyd Parhaus yn arwain at ganlyniadau gwahanol mewn achosion tebyg.

Mae recriwtio staff ar gyfer gwasanaethau dementia yn anodd:

> "Mae'r pwysau ar staff yn ystod y pandemig wedi bod yn ormod dim ots faint 'da ni'n eu talu nhw, maen nhw wedi ymlâdd. Mae'n gwneud i eraill feddwl ddwywaith am ddod i mewn i waith gofal."

Mae diffyg staff yn golygu bod gofal yn rhywbeth sy’n canolbwyntio ar dasgau yn hytrach na thrin defnyddwyr gwasanaethau fel 'bodau dynol'. Mae diffyg staff mewn cartrefi gofal yn lleihau cyfathrebu gyda theuluoedd ac nid yw galwadau’n cael eu hateb.

Gellid gwella’r gofal a ddarperir gan ofalwyr yn y cartref drwy sicrhau y caiff staff eu hannog i weithio yn y maes y mae ganddynt y mwyaf o dalent ynddo, gan weithio naill ai gydag iechyd meddwl neu iechyd corfforol. Mae pobl sy’n gweithio gydag unigolion â dementia angen hyfforddiant arbenigol ac amser ychwanegol i gwblhau tasgau. Nid oes digon o weithwyr gofal wedi’u hyfforddi ym maes dementia a gallai’r awdurdodau lleol fynd i’r afael â hyn. Mae'n rhaid i’r gwasanaethau cymdeithasol sicrhau bod yr asiantaethau a gyflogir ganddynt i ddarparu gofal dementia yn cyflawni eu dyletswyddau ac yn dilyn cynlluniau gofal yn ofalus. Mae angen codi proffil y proffesiwn i ddenu staff o safon uchel.

Mae bwlch yn y gwasanaethau o ran galw mewn cartrefi i helpu i roi meddyginiaeth. Nid yw’r gwasanaethau iechyd na gofal cymdeithasol yn gwneud galwadau yn unswydd ar gyfer cynorthwyo â meddyginiaeth, ond mae ar bobl hŷn a phroblemau gyda’u cof angen y gofal hollbwysig hwn.

Ar lefel system, mae angen i iechyd a gofal cymdeithasol weithio gyda’i gilydd yn fwy effeithiol. Un awgrym ar gyfer menter ar y cyd fyddai datblygu Canolfan Dementia Gogledd Cymru a fyddai’n gallu darparu cefnogaeth cyn ac ar ôl diagnosis i bawb. Cefnogir hyn gan Safonau Dementia Cymru Gyfan.

# 4. Cyrsiau i Ofalwyr

## Beth sy'n gweithio'n dda:

Dywedodd nifer fach o ofalwyr bod y gwasanaethau canlynol yn gweithio'n dda:

- cwnsela ar gyfer gofalwyr
- asesiadau gofalwyr ac atgyfeiriadau cyflym i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion, yn ogystal â'u safon uchel o gefnogaeth.
- Cymorth i ofalwyr Hafal
- GOGDdC

Fodd bynnag, dywedodd nifer tebyg 'nad oes unrhyw beth wedi gweithio'n dda' yn seiliedig ar eu profiad nhw o'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.

> "O fy nghyswllt cychwynnol â'r gwasanaethau cymdeithasol, cefais fy nhroi i ffwrdd gydag esgusion bum gwaith ...... pan oeddwn yn profi anawsterau gyda gofalwyr, gyda dementia fy nhad, gweithio llawn amser a gwarchod oherwydd Covid. Nid oes unrhyw beth wedi gwella ac mae gen i restr o wybodaeth anghywir, gwybodaeth sy'n gwrth-ddweud ei gilydd, anghydfod yn y tîm ei hun ac ati.

## Beth y mae angen ei wella:

Gwnaed sawl argymhelliad ar gyfer gwella gwasanaethau ar gyfer gofalwyr yn cynnwys:

- sicrhau bod asesiadau gofalwyr yn cael eu cwblhau gan bobl sy'n deall sefyllfa'r gofalwr.
- cynyddu darpariaeth gwasanaethau seibiant, gwasanaethau eistedd â phobl, cymorth gyda'r nos a chanolfannau dydd.
- sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn cynnwys gofal seibiant mewn cynlluniau gofal ac yn cynyddu faint o ofal seibiant a ganiateir - '*Mae pedair awr y mis yn wirion bost'*.
- cynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau i wella iechyd meddwl gofalwyr
- rhoi hyfforddiant a chymorth i ofalwyr gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau ar-lein.
- creu grŵp cymorth cyfoedion ar gyfer gofalwyr â gwahanol brofiadau, e.e. grŵp ar gyfer rhieni plant anabl.

- cynnwys gofalwyr wrth ysgrifennu cynlluniau gofal.
- cynnwys trefniadau wrth gefn mewn cynlluniau gofal erbyn pan na fydd y gofalwr yn gallu ymdopi mwyach a /neu fod iechyd yr unigolyn sy'n derbyn gofal yn dirywio.

Roedd rhai gofalwyr yn teimlo eu bod yn agos at ben eu tennyn, a fydd yn y pen draw yn costio mwy na rhoi cefnogaeth ychwanegol iddyn nhw.

> "Nid oes unrhyw gymorth iechyd meddwl dibynadwy ar gyfer gofalwyr o gwbl. Mae gofalwyr di-dâl mewn argyfwng a bydd hynny bob amser yn cael effaith ar y rhai sy'n cael eu gofalu amdanynt. Gyda chymorth gwell mae'n bosib y buaswn yn gallu cadw fy mam yn ei chartref ei hun, fel sydd wedi digwydd ers deng mlynedd, ond os bydd lefel y cymorth yn parhau i ddirywio, yn erbyn ei hewyllys hi a minnau, bydd yn rhaid i mi ei rhoi hi mewn cartref gofal. Mae hyn yn cael effaith gymdeithasol ac economaidd ar bawb cysylltiedig."

# 5. Beth newidiodd yn ystod y pandemig COVID-19?

## (a)Sut yr effeithiwyd ar wasanaethau a beth oedd yr effaith ar staff, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

### Diffyg gwasanaethau

Ar y cyfan credir bod y pandemig wedi cael yr effaith mwyaf ar y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas ac wedi amlygu gwendidau oedd eisoes yn bodoli yn y system ofal. Mae'r pandemig wedi gwaethygu problemau gyda rhestrau aros, prinder staff a gwasanaethau ac ofnir ei fod wedi dod yn *'esgus defnyddiol dros fethiant rhai gwasanaethau'.* Mae'r pwysau ar iechyd a gofal cymdeithasol wedi cynyddu ond nid yw'n ymddangos bod unrhyw gamau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r materion gwirioneddol ddifrifol hyn.

Mae rhai o'r materion systemig wedi gwaethygu yn ystod y cyfnod hwn, gydag adroddiadau bod gofal wedi mynd yn fwy datgymalog, diffyg cydlyniad ar draws y sector, cynllunio gwael a llinellau cyfrifoldeb aneglur.

> "Mae ein cwmni gofal wedi'i gontractio'n profi argyfwng staffio ond mae hynny'n rhannol yn fai arnyn nhw oherwydd diffyg sgiliau trefnu a rheoli dybryd, yn hytrach na Covid".

Ar ddechrau'r pandemig, stopiodd gwasanaethau. Fe'u hailgyflwynwyd yn raddol gyda hyn yn oed yn llai o staff (a oedd naill ai'n hunanynysu neu i ffwrdd yn sâl) a'r holl gyfyngiadau a grëwyd gan yr angen i leihau cyswllt ag eraill a chynnal pellter cymdeithasol. Fe wnaeth llai o argaeledd gwasanaethau gyfyngu ar fynediad i'r rhai a oedd mewn perygl o gael eu hunain mewn argyfwng.

### Yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr

Fe wnaeth llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ddisgrifio cael eu gadael heb gymorth a bod y pandemig wedi cyfyngu'n arw ar eu bywydau:

> "Fe stopiodd bob dim, felly mae rhestr aros oedd yn ddwy flynedd bellach bron yn bedair."

> "Aeth gwasanaethau i bobl awtistig neu bobl ag anableddau dysgu o fod yn hynod brin i beidio â bod yno o gwbl."

> “Mae fy ngwasanaethau dydd i wedi cau felly mae’r dyddiau wedi bod yn ddiflas iawn i mi.”

> “Allwn i ddim cael unrhyw help yn ystod cyfnod clo. Dim ond ar ôl sawl galwad ffôn ac ymbil arnyn nhw ar ôl i’r cyfyngiadau gael eu llacio rywfaint y cefais i weithiwr cymdeithasol.”

> “Mae ‘na ddiffyg gweithgareddau â chymorth i bobl ag anabledd corfforol a diagnosis o ddementia. Mae’n teimlo fel rhan o gymdeithas sydd wedi cael ei anghofio.”

> “Llai o bobl yn cael mynd i mewn i’r un cerbyd, sy’n lleihau ein gallu ni i gael pobl sydd ag anawsterau dysgu i ac o’r gwaith.”

Dywedodd rhai defnyddwyr gwasanaethau eu bod yn teimlo'n ynysig iawn o ganlyniad i hyn ac 'wedi colli ffydd yn y gwasanaeth cymdeithasol lleol.” Codwyd pryderon fod hyn wedi arwain at ‘gynnydd mewn bywydau anhrefnus’ a pherygl o ‘gynnydd mewn hunanladdiadau oherwydd diymadferthedd’. Mae’n bosibl bod llai o ymweliadau â chartrefi wedi achosi i fwy o bobl gyrraedd y pwynt argyfwng:

> “mae’r pwysau sydd ar y sectorau gofal ar hyn o bryd yn achosi straen na ellir ei ddychmygu. Heb y gefnogaeth briodol gan wasanaethau hanfodol, rwy’n ofni na fydd pobl hŷn yn cael y gofal sydd ei angen arnynt i’w helpu nhw i ffynnu.”

> “Yr effaith hirdymor yw y bydd o bosibl yn rhy hwyr i helpu rhai pobl".

Wrth i amser fynd yn ei flaen mae diffyg cefnogaeth wedi achosi dirywiad yng nghyflwr llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth wrth iddynt golli sgiliau a hyder a/neu brofi dirywiad yn eu hiechyd:

> Mae o wedi colli ei hyder i gyd, a'r hyder hwnnw wedi cymryd tua 25 o flynyddoedd i'w feithrin. Rŵan dydi o ddim yn gallu defnyddio bysiau na mynd allan ar ei ben ei hun. Mae’n rhaid i mi fynd efo fo achos bod arno gymaint o ofn rhyngweithio cymdeithasol ers Covid-19.

> “Mae iechyd meddwl ein mab wedi gwaethygu. Roedd o’n cael ei drin am iselder a phyliau o banig cyn y pandemig Covid-19.

> "Mae diffyg cyswllt wyneb yn wyneb a stopio gweithgareddau wedi cael effaith negyddol difrifol a fydd hyn ddim yn gwella rŵan gan fod y dementia wedi gwaethygu."

Teimlir bod plant ag anableddau dysgu yn arbennig o agored i niwed oherwydd Covid. Fe wnaeth rhieni eu cadw nhw adref i ddiogelu eu hiechyd felly fe wnaethon nhw fethu'r ysgol a cholli apwyntiadau. O ganlyniad i hyn mae problemau ymddygiad yn cynyddu. Mae unrhyw broblemau oedd yn bodoli'n barod wedi gwaethygu, os oedd cartref yn rhy fach neu'n anaddas i'r teulu roedd y sefyllfa'n waeth fyth yn ystod y cyfnod clo.

Roedd llawer o ofalwyr yn teimlo'u bod wedi cael eu gadael i 'godi'r darnau' ac roedd rhai'n teimlo'n agos at dorri. Roedd gofal seibiant wedi'i gyfyngu i argyfyngau ac mae cyfrifoldebau gofalu 24/7 wedi cael effaith negyddol ar iechyd corfforol a meddyliol gofalwyr.

> "Fel gofalwr does unman i fynd am help gyda chyllid, symudedd nac iechyd meddwl, y cwbl gewch chi ydi 'wel does gynnon ni ddim byd ar y funud oherwydd Covid". Does dim modd i mi weld rhywun i siarad efo nhw, dim seibiant rhag y drefn feunyddiol".

Disgwylir y bydd hyn yn arwain at i fwy o bobl hŷn fynd i gartrefi gofal.

Mae'r cyfyngiadau ar ymweliadau â chartrefi gofal wedi achosi poen meddwl mawr i drigolion a'u teuluoedd ac wedi codi pryderon na fydd pobl hŷn sydd â phroblemau â'u cof yn cofio eu teulu neu eu ffrindiau erbyn pan y bydd yn bosibl iddynt eu gweld nhw'n rheolaidd eto. Roedd rhai staff cartrefi gofal yn bryderus bod y profiad wedi newid diwylliant cartrefi gofal mewn ffyrdd negyddol:

- mae ymagweddau braidd yn awdurdodol/tadol wedi datblygu yn ystod y cyfnod pan nad oedd yn bosibl i deuluoedd ymweld
- mae cartrefi'n debygol o fod wedi teimlo'n llawer mwy fel sefydliad heb gysylltiadau â'r gymuned,
- mae trefniadau profi strwythuredig ar gyfer staff, preswylwyr ac ymwelwyr yn ogystal â chyflwyniad PPE wedi creu rhwystrau rhag cyfathrebu â, a meithrin perthnasoedd gyda thrigolion.

Fodd bynnag nid yw'r effeithiau wedi bod yn negyddol i bawb. I rai defnyddwyr gwasanaeth roedd y cyfnodau clo yn gyfle iddynt ennill mwy o ffydd yn eu galluoedd eu hunain. Mae teuluoedd wedi treulio amser gwerthfawr gyda'i gilydd sydd wedi eu helpu nhw i fod yn fwy gwydn. Mae rhai disgyblion, yn enwedig y rhai hynny â gorbryder cymdeithasol neu broblemau bwlio yn yr ysgol, wedi manteisio o beidio â mynd i'r ysgol ac mae hi'n anodd rŵan ennyn eu hail-ymgysylltiad.

Dywedodd nifer fach o'r ymatebwyr nad oeddent wedi gweld unrhyw newidiadau i wasanaethau o ganlyniad i Covid-19 a'u bod wedi parhau i dderbyn gofal gan eu gofalwr neu eu gwasanaethau seibiant arferol heb unrhyw broblemau.

## Diffyg gwasanaethau cymunedol

Mae llawer o wasanaethau cymunedol wedi darfod felly mae llai o gefnogaeth ar gael yn y gymuned leol. Er enghraifft:

- mae grwpiau cefnogaeth gan gyfoedion i bobl ag anawsterau iechyd meddwl wedi stopio cyfarfod, sydd wedi gwneud defnyddwyr gwasanaethau'n fwy dibynnol ar y gwasanaethau cymdeithasol.
- mae cau ysgolion a cholled clybiau ar ôl ysgol wedi rhoi straen ar rai aelwydydd maeth, wedi cynyddu tensiwn ac mewn rhai achosion wedi arwain at chwalu lleoliadau.
- nid yw gofalwyr anffurfiol wedi gallu mynd i weld defnyddwyr gwasanaethau mewn ymateb i rybuddion argyfwng Teleofal oherwydd eu bod yn hunanynysu, gan ei gwneud yn anodd iawn i'r gwasanaeth gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar yr un pryd mae pobl wedi dod yn well am gefnogi ei gilydd wrth i gefnogaeth leol leihau yn ystod y cyfnodau clo a niferoedd mwy na'r arfer yn dod ymlaen i wirfoddoli. Gallai hyn wella gwydnwch cymunedol os bydd yn parhau:

> "Rydym wedi gweld cynnydd mewn cefnogaeth gymunedol o ganlyniad i COVID ond gallwn weld yn barod bod sefydlu strwythurau i helpu gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol yn hanfodol bwysig os ydynt am allu darparu eu gwasanaethau."

## Cynnydd yn y galw am wasanaethau

Mae'r cyfnodau clo wedi creu galwadau newydd a chynyddol am wasanaethau oherwydd:

- lefelau uwch o drais domestig, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol.
- mwy o bobl ag anawsterau iechyd meddwl lefel isel ddim yn cael cymorth drwy wasanaethau Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol GIG.
- tarfu ar fywyd teuluol a mwy o angen am gymorth gyda rhianta.

Mae'r galw am gefnogaeth felly wedi cynyddu ar union yr un adeg ag y mae'r pwysau mwyaf ar wasanaethau gan adael llawer o bobl mewn trafferthion ac mae hyn yn debygol o barhau am gryn amser eto.

## Darparu gwasanaethau ar-lein

Mae'r pandemig wedi cyflymu datblygiadau i greu dulliau ar-lein o ddarparu rhaglenni ac mae wedi gwneud pobl yn fwy parod i ddefnyddio opsiynau TG. Mae enghreifftiau o le mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol yn cynnwys:

- creu dulliau mwy hyblyg o ddarparu gwasanaethau megis gwasanaethau cwnsela ar y ffôn neu drwy fideo.
- cefnogaeth i gymunedau fel siaradwyr Cymraeg lle gallai'r niferoedd fod yn rhy fach mewn ardal leol ond yn ddigon ar draws y rhanbarth.
- cefnogaeth i gymunedau mewn ardaloedd ynysig lle gallai cludiant at wasanaethau fod yn gyfyngedig neu lle na all unigolion adael eu cartrefi oherwydd bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu.
- cefnogaeth ar gyfer pobl sydd ddim yn gallu teithio oherwydd cyflwr iechyd neu anabledd, gan roi cyfleoedd ar gyfer dysgu o bell.
- dulliau newydd ac arloesol o weithio gyda phlant a phobl ifanc
- defnyddio technoleg fel FaceTime a WhatsApp i wella cyfathrebu gyda defnyddwyr gwasanaethau.

Fodd bynnag nid yw'r dulliau digidol yn siwtio pawb ac fe allent ei gwneud yn fwy anodd i bobl, yn enwedig pobl hŷn, gael gafael ar, ac ymgysylltu â gwasanaethau. Mae yna hefyd bobl sydd ddim yn hoffi defnyddio technoleg neu sydd heb fodd o wneud hynny.

Dywedodd darparwyr gwasanaethau bod cyswllt wyneb yn wyneb yn well dan rai amgylchiadau, yn enwedig wrth wneud asesiadau neu ddarparu cefnogaeth, pan fo pigo i fyny ar gliwiau heb fod yn llafar yn bwysig. Mae llai o gyswllt wedi effeithio ar ddatblygu ffydd yn, a meithrin perthnasoedd gyda defnyddwyr gwasanaethau, yn

enwedig plant a theuluoedd. Mae hyn hefyd i'w weld yn lleihau ysgogiad rhai pobl ymgysylltu â chymorth, os yw'n cael ei ddarparu ar-lein neu dros y ffôn.

> "Fe wnaeth llawer o sefydliadau symud eu gwasanaethau wyneb yn wyneb megis cyrsiau rhianta a grwpiau trais domestig i lwyfannau rithiol, sy'n dileu'r 'elfen bersonol' ac mae llawer o rieni wedi dweud eu bod yn cael trafferth cael mynediad at gymorth yn y ffordd yma."
>
> Mae rhai teuluoedd gyda phlant heb gael bron unrhyw ymgysylltiad â gweithiwr cymdeithasol ac mewn llawer o achosion dim ond cyswllt dros y ffôn, ac nid yw hyn yn rhoi darlun llawn o'r hyn sy'n digwydd ar aelwyd."
>
> "Mae hyn yn digwydd yn rhithiol rŵan sy'n golygu bod hanfod fy rôl yn cael ei golli ac rwy'n cael trafferth cadw ymgysylltiad pobl neu ennyn eu hymgysylltiad yn y lle cyntaf'.

Mae ar bobl ifanc sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol angen ymgysylltu â phobl y tu allan i'w cartref a gyda phobl eraill heblaw aelodau o'u teulu er mwyn eu helpu nhw i feithrin hyder a hunan-barch. Efallai bod arnynt angen cefnogaeth wyneb yn wyneb yn hytrach nag ar-lein

Mae diffyg cymorth wyneb yn wyneb wedi peri i rai gofalwyr maeth ailfeddwl am eu sefyllfa a rhoi'r gorau i fod yn ofalwyr.

Grŵp arall sydd wedi gweld y symud i wasanaethau ffôn yn rhwystr yw'r gymuned Fyddar. Mae pobl fyddar wedi mynd yn fwyfwy ynysig heb wybodaeth hygyrch gan awdurdodau lleol a llywodraeth leol. Mae'r ffaith fod pawb fwy neu lai yn gwisgo gorchuddion wyneb hefyd yn achosi problemau i bobl sy'n darllen gwefusau.

Mae defnyddwyr gwasanaethau eraill, yn enwedig pobl ag anableddau dysgu a phobl â dementia wedi cael problemau gyda staff yn gwisgo masgiau a chyfarpar PPE oherwydd bod hynny'n ei gwneud yn anodd iddynt adnabod eu gofalwyr. Mae hyn wedi gwella wrth i bobl arfer â'r sefyllfa ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn awr yn derbyn bod masgiau'n angenrheidiol i aros yn ddiogel.

**Yr effaith ar staff gofal cymdeithasol** Roedd rhai staff yn croesawu'r cyfle i weithio gartref ac yn gweld ymweliadau o bell yn ddull mwy hyblyg o weithio. Soniodd sawl un am fanteision cyfarfodydd rhithiol, sef:

- llai o amser yn cael ei wastraffu’n teithio i ac o gyfarfodydd
- gwell mynediad at wybodaeth a chofnodion, er enghraifft pa fo’r holl staff yn eu swyddfa neu mewn cyfarfod gydag ysgolion
- Mae presenoldeb yng nghyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaeth wedi gwella oherwydd bod gweithwyr proffesiynol yn gallu mynychu’n rhithiol.

Maent hefyd wedi manteisio ar well mynediad at hyfforddiant ar lein. Fodd bynnag dywedodd rhai eu bod yn edrych ymlaen at fynd yn ôl i’r swyddfa er mwyn gallu rhannu ddulliau o weithio, cael cefnogaeth eu cyfoedion a mynd yn ôl at ffordd fwy strwythuredig o weithio.

Roedd sawl darparwr yn ddiolchgar am y gefnogaeth yr oeddent wedi'i chael gan awdurdodau lleol i reoli Covid-19, yn arbennig taliadau caledi cartrefi gofal a darpariaeth cyfarpar PPE am ddim, ac roeddent yn gobeithio y byddai hyn yn parhau. Mae hyn wedi cael effaith cadarnhaol ar berthnasoedd gwaith rhwng sefydliadau.

Mae llawer o ddarparwyr trydydd sector wedi stopio darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb yn ystod y pandemig sydd eto wedi ychwanegu at y galw ar wasanaethau’r sector statudol. Roedd rhai’n gweld hon yn ‘dasg amhosib yng ngoleuni’r gostyngiad mewn lefelau staffio, mwy o alw, achosion mwy cymhleth, llai o gefnogaeth a rhaglenni cymunedol a disgwyliadau uwch gan randdeiliaid.

Mae’r pwysau wedi gwneud niwed i iechyd meddwl a chorfforol staff. Mae llawer yn profi blinder meddyliol a chorfforol llwyr oherwydd galwadau eu gwaith a'u bywydau personol. Mae cael eu profi a threfnu profion i bobl eraill ar ben eu llwyth gwaith dyddiol yn achosi trafferthion iddynt. Mae llawer yn teimlo’n rhwystredig oherwydd eu hanallu i ddarparu gwasanaethau priodol. Mae rhai wedi bod yn sâl gyda Covid-19 eu hunain sydd yn dal i effeithio ar eu hiechyd hirdymor ac a allai effeithio ar eu gallu i weithio yn y dyfodol. Mae eraill yn teimlo ‘wedi blino ac wedi'u digalonni’ ac yn ystyried gadael y sector gofal.

## (b) Effeithiau hirdymor y pandemig

Roedd yr ymatebwyr yn credu, yn y tymor hir, y bydd yn bwysig:

**(i) Datrys y problemau oedd yn bodoli cyn Covid**

Drwy gydol y pandemig y cwbl yr oedd y rhan fwyaf o wasanaethau'n ei wneud oedd canolbwyntio ar *'oroesi'* ac *'osgoi Covid-19*" . Wrth i wasanaethau ddychwelyd yn araf i'r sefyllfa '*arferol*' mae'r argyfwng cenedlaethol mewn gofal cymdeithasol unwaith eto'n dod yn amlwg.

> "Ers Covid, mae system oedd eisoes mewn trafferthion wedi mynd fwy neu lai y tu hwnt i adferiad'

Mae'r galw am gefnogaeth yn cynyddu ar yr un pryd â'r ôl groniad mewn asesiadau o anghenion gofal ac mae lefelau staffio'n isel. Mae staff yn disgwyl y byddant yn aros mewn sefyllfa o 'ymladd tân' am beth amser i ddod, sy'n golygu bod mwy o bobl yn debygol o fod mewn argyfwng cyn iddynt gael cymorth.

> "Mae'r pandemig wedi amlygu ymhellach y sefyllfa ddifrifol yr ydym ynddi...yr effaith hirdymor yw y bydd mwy a mwy o aelodau o'n cymdeithas angen help. Rydw i wedi gweld pobl dosbarth gweithiol sydd mewn angen dybryd am help ond mae'r system yn gadael pawb i lawr."

Mae llawer o ymatebwyr yn teimlo mai'r unig ateb yw cynyddu cyllid gofal cymdeithasol am gyfnodau hirach i gynnal y gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli, datblygu rhai newydd a chyflogi mwy o bobl.

**(ii) Cefnogi pobl i ailgysylltu â gwasanaethau**

Un o effeithiau disgwyliedig hirdymor diffyg cymorth yn ystod y pandemig yw y bydd defnyddwyr wedi colli ffydd yn y gwasanaethau:

> "rwy'n teimlo na fydd rhai teuluoedd yn dod yn ôl at y gwasanaethau...oherwydd effaith unigedd a newidiadau mewn ymddygiad ...bydd yn lawer sydd ddim yn dychwelyd yn llwyddiannus i addysg.

Efallai y bydd hyn yn golygu bod pobl yn aros nes eu bod mewn argyfwng cyn gofyn am help yn hytrach na gwneud hynny ar bwynt pan fyddai ymyrraeth gynnar wedi gallu lleihau'r angen am gefnogaeth. Roedd rhai o'r farn:

> Bod angen cynllunio i 'ail-ymgysylltu' pobl â chymdeithas ac i'r gwasanaethau sicrhau bod pawb sydd angen help yn cael eu hadnabod ac nad ydynt yn disgyn drwy'r bylchau.'

**(iii) Cefnogaeth i ddychwelyd i wasanaethau wyneb yn wyneb**

O ganlyniad i fod yn ynysig yn ystod y pandemig, mae llawer o bobl o bob oed wedi colli sgiliau cymdeithasol a'u hyder i fod gydag eraill. Roedd rhai ymatebwyr felly'n argymell cynllunio er mwyn cefnogi pobl i ddychwelyd at wasanaethau wyneb yn wyneb. Mae grwpiau penodol sydd angen y gefnogaeth hon yn cynnwys:

- pobl sydd defnyddio gwasanaethau seibiant yn ystod y dydd a dros nos.
- pobl hŷn sy'n dychwelyd i weithgareddau cymunedol
- pobl ifanc, yn enwedig blynyddoedd 7 ac 8, i fod y hyderus efo pobl eraill unwaith eto

Ar yr un pryd mae angen i staff fynd yn ôl allan a gweld y bobl sydd angen gofal, gan ei bod yn bosib eu bod wedi 'arfer gormod â sgriniau a'u bod yn bell oddi wrth realiti i asesu ac ymateb i anghenion heb eu datgan." Soniodd rhai eu bod wedi dechrau adfer gwasanaethau wyneb yn wyneb ac yn byddant yn cael eu hailgyflwyno'n raddol drwy gydol 2022.

**(iv) Paratoi ar gyfer galwadau newydd a chynyddol am wasanaethau**

Mae llawer o ddefnyddwyr gwasanaethau wedi'u 'dadgyflyru' oherwydd effeithiau'r cyfnod clo, sydd yn awr yn effeithio'n arwyddocaol ar eu gweithrediad ac y golygu bod mwy o alw ar wasanaethau cymorth yn y gymuned. Mae effaith economaidd y pandemig hefyd yn debygol o gynyddu'r angen am gefnogaeth yn y dyfodol uniongyrchol.

> "Gyda chymaint o fusnesau'n methu, pobl yn colli anwyliaid a chymaint o bobl wedi cronni dyledion anferth wrth geisio goroesi'n ariannol yn ystod y pandemig (cynnydd yn y defnydd o fanciau bwyd), dim ond cynyddu wnaiff y galw am gymorth.

Grŵp allweddol o bobl a allent fod angen cefnogaeth ddwys yw gofalwyr mewn teulu sydd wedi ymlâdd ar ôl darparu'r holl ofal pan nad oedd y gwasanaethau statudol ar gael. Yn awr mae angen mwy o seibiant i ofalwyr i'w rhwystro rhag mynd yn gwbl lluddiedig.

Roedd rhai'n meddwl ei bod yn bwysig peidio â dychwelyd i arfer y gorffennol heb feddwl am yr hyn y gellid ei wneud yn wahanol neu ei wella. Hefyd wrth ail-ddylunio unrhyw wasanaeth mae'n rhaid iddo ddiwallu anghenion y dyfodol, nid y gorffennol. Mae'n bosib y bydd angen mathau newydd o wasanaethau i ymateb i wahanol anghenion gofal sy'n dod i'r amlwg ar ôl Covid. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau ar gyfer:

- plant a phobl ifanc gydag anhwylderau gorbryder.
- pobl â Chovid hir
- pobl sydd wedi datblygu OCD neu gyflyrau gorbryder eraill yn ystod y cyfnod clo.
- babanod a phlant y mae eu datblygiad wedi'i oedi o ganlyniad i fod mewn amgylcheddau gwael yn ystod y cyfnod clo - bydd hyn yn cael effaith ar wasanaethau ac ar gymdeithas am flynyddoedd i ddod

**(v) Cynyddu cefnogaeth iechyd meddwl, yn enwedig i bobl ifanc**

Mae llawer o ymatebwyr yn disgwyl argyfwng iechyd meddwl yn yr hirdymor o ganlyniad i'r pandemig. Fe allai pobl ddiamddiffyn sydd wedi'u gadael heb gefnogaeth yn awr fod yn profi effeithiau iechyd meddwl y pwysau hwnnw, ar yr union adeg pan fo amseroedd aros am ofal iechyd meddwl yn waeth nag erioed. Codwyd pryderon penodol am:

- ddirywiad pellach yn iechyd meddwl pobl oedd eisoes yn dioddef problemau
- oedolion ag anawsterau dysgu a'u teuluoedd
- pobl sydd wedi profi trawma/trais domestig yn ystod y cyfnod clo
- mwy o wrthdaro teuluol o ganlyniad i fod yn ynysig a phwysau ariannol
- pobl ifanc sydd heb adael eu tŷ, heb unrhyw le i fynd a heb rwydwaith o gefnogaeth.
- pobl a fydd ofn bod mewn mannau cyfyngedig gyda phobl ddieithr
- gofalwyr sydd wedi datblygu problemau iechyd meddwl oherwydd y pwysau
- pobl ifanc sydd wedi methu allan ar eu haddysg ac wedi dechrau yn y brifysgol yn ystod y cyfnod clo

Dywedodd llawer o ymatebwyr bod iechyd meddwl pobl ifanc yn arbennig wedi 'dioddef yn fawr ac mae eu hyder a'u sgiliau i gyfathrebu ar y lefel isaf erioed." Bydd effaith hyn i'w weld am flynyddoedd i ddod yn eu hiechyd meddwl a'u cyrhaeddiad addysgol.

**(vi) Parhau i ddarparu gwasanaethau ar-lein**

Credir bod rhai newidiadau mewn darpariaeth wedi cynyddu hyblygrwydd ac argaeledd gwasanaethau ac i'w gweld yn boblogaidd gyda phobl ifanc, rhieni, teuluoedd a gofalwyr sy'n teimlo bod cymorth digidol yn haws i fanteisio arno. Fodd bynnag nid yw'n debygol y bydd hyn yn siwtio pawb felly mae angen 'ymagwedd gyfunol' wrth symud ymlaen.

I sicrhau nad yw'r defnydd o dechnoleg yn cau pobl allan, mae'n bwysig:

- rhoi'r sgiliau angenrheidiol a mynediad at TG i bobl os ydynt eisiau hynny
- sicrhau bod gwybodaeth ar-lein a chyfarfodydd rhithiol ar agor i bawb, er enghraifft cynnwys siaradwyr Iaith arwyddion Prydain a dehonglwyr mewn cyfarfodydd Zoom.

Roedd rhai ymatebwyr yn awyddus i sicrhau nad yw'r gwasanaethau'n anghofio am bobl sydd ddim yn dymuno mynd yn ddigidol, a bod mwy o ymdrech yn cael ei wneud i gyrraedd y bobl hynny fel nad ydynt yn 'disgyn drwy'r bylchau ac mewn perygl o fod heb unrhyw ofal o gwbl'. Bydd hefyd yn bwysig gofalu nad yw mynd yn ddigidol yn gwneud i bobl ddatgysylltu oddi wrth y gwasanaethau o ystyried y pwysigrwydd y mae defnyddwyr gwasanaethau'n ei roi ar adnabod a meithrin perthnasoedd gyda'r bobl yn eu timau gofal.

Pwysleisiodd staff gofal cymdeithasol eu bod angen hyfforddiant a buddsoddiad y eu systemau TG er mwyn iddynt allu parhau i weithio a rhoi cefnogaeth o bell.

**(vii) Cefnogi staff cyfredol a rhoi hwb i recriwtio**

Roedd llawer o ymatebwyr yn bryderus bod staff medrus yn cael eu colli o'r sector gofal oherwydd eu bod wedi blino'n lân ar ôl e profiad o'r pandemig ac felly'n penderfynu gadael. Roedd yn profi'n anodd recriwtio staff newydd cyn Covid, ac mae'n bosib y bydd yn fwy anodd byth rŵan. Nid yw hyn yn debygol o newid dros nos.

Mae staff cartrefi gofal yn poeni bod eu henw da proffesiynol wedi'i niweidio oherwydd rheolaeth wael Covid mewn cartrefi gofal:

> "Dyma'r cyfnod anoddaf i ofal cymdeithasol yn fy oes i, ac rydym yn gobeithio y bydd yna newid yn y ffordd yr ydym yn cael ein gweld fel grŵp ......

> Roeddem yn teimlo mai ni oedd yr olaf ar y rhestr, yn enwedig o ran PPE, a doedden ni ddim yn cael digon o arweiniad neu'n cael gwybodaeth anghyson."

Oherwydd nad yw'r galw ar wasanaethau'n debygol o leihau yn y dyfodol agos, mae llawer yn disgwyl dros y blynyddoedd nesaf y bydd cynnydd mewn problemau iechyd meddwl ac y bydd staff yn gadael am nad ydynt yn gallu ymdopi. Bydd felly'n bwysig gwella cymorth iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar gyfer staff gofal.

Ar nodyn mwy cadarnhaol roedd rhai staff yn meddwl y byddai gweithio gartref, ble bynnag bosibl, yn gyfle i sefydlu arferion gwaith mwy hyblyg ac yn cynyddu cynhyrchiant.

# 6. Profiad o ddefnyddio neu o ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.

## (a) Profiad o'r Cynnig Gweithredol

.Ar y cyfan roedd ymatebwyr o'r farn mai 'tameidiog' yw darpariaeth y Cynnig Gweithredol. Roedd rhai yn adrodd eu bod yn gwneud hyn yn effeithiol iawn, er enghraifft drwy Wasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych ac mewn rhai gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn.

> "Mae pob unigolyn yr ydw i'n gweithio â nhw'n cael y cynnig gweithredol ac mae aelodau o staff wedi'u dynodi a fydd yn gallu helpu os bydd angen."

> "Mae pob hysbyseb a hysbysiad yn Gymraeg a Saesneg ac rydym hyn yn oed yn ateb y ffôn yn Gymraeg yn gyntaf ac wedyn yn Saesneg."

Roedd eraill yn dweud mai dim ond ar y pwynt pan fydd defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu hasesu y gellir gwneud y cynnig, yn hytrach na phan fyddant yn cysylltu am y tro cyntaf.

> "Rydw i'n meddwl y byddai'n fwy priodol pe bai hyn yn cael ei gynnig ar y pwynt cyswllt cyntaf. Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol bod gan y swyddog cyswllt cyntaf lefel uchel o ymholiadau ac fel y gweddill ohonom, dim digon o staff i ymdopi.

> "Mae ein tîm pwynt mynediad sengl yn cyfarch yn ddwyieithog. Byddai'n well cael system ffôn lle gallwch bwyso 1 am Gymraeg, 2 am Saesneg at ati, ond heb ddigon o staff sy'n siarad Cymraeg efallai y bydd pobl sydd eisiau gwasanaeth Cymraeg yn gorfod aros yn hirach."

Roedd rhai'n bryderus bod y cynnig, yn ymarferol, yn dal i fod yn un tocenistaidd. Mae llawer o gartrefi gofal a darparwyr gofal yn y cartref yn ei chael yn anodd gwireddu dymuniad defnyddwyr gwasanaethau am siaradwr Cymraeg;

> "Mae staff yn dal i fod ofn cynnig gwasanaeth yn Gymraeg oherwydd mewn gwirionedd byddai angen cyfieithydd."

> "Cefais gynnig gweithiwr Cymraeg gan yr elusennau yr wyf wedi gweithio â nhw ond mae Cynghorau bob amser yn dweud nad ydi hi mor syml â hynny

> cael gweithiwr Cymraeg i mi". Mae'n rhaid iddyn nhw ofyn i'w rheolwr ac mae'n ymddangos fel pe bai'n lot o strach"

Roedd ymatebwyr o'r farn bod angen gwneud mwy i ddenu siaradwyr Cymraeg i'r proffesiwn ac i gefnogi staff i wella eu Cymraeg. Dylai hyn gynnwys cyfleoedd i ddechreuwyr llwyr yn ogystal â'r rhai hynny sydd angen ennill mwy o hyder.

> "Oni bai bod mwy o dimau'n cael eu hannog i ddysgu Cymraeg yn ystod amser gwaith, fydd hwn byth yn gynnig gwirioneddol weithredol."

> "Ni ddylid ei ystyried yn gyfle i bobl ddefnyddio Cymraeg. Dylai pob gwasanaeth a ddarperir allu dechrau a gorffen sgwrs yn Gymraeg ac annog staff i wneud ymdrech i ddysgu digon o Gymraeg i gynnal gwrs fer."

Dywedodd rhai ymatebwyr er eu bod yn gwneud y Cynnig Gweithredol, nad oes unrhyw ddefnyddwyr gwasanaeth hyd yma wedi derbyn y cynnig. Roedd un neu ddau o ymatebwyr yn dweud nad oeddent erioed wedi clywed am y Cynnig Gweithredol.

## (b) Darparu gwybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg

Cadarnhaodd llawer o ymatebwyr eu bod yn darparu eu holl wybodaeth ysgrifenedig, cyhoeddiadau, arwyddion, cylchlythyrau, e-byst ac ati yn Gymraeg. Roedd rhai'n dibynnu ar staff i helpu gyda'r cyfieithu ac eraill yn dibynnu ar gyfieithwyr allanol. Roedd rhai'n dweud mai dyma'r cwbl yr oedd yn bosibl iddynt ei wneud am nad oedd unrhyw un o'u staff yn gallu siarad Cymraeg.

Dywedwyd bod gwasanaethau cyfieithu'r awdurdod lleol yn gyflym ac yn effeithiol ond roedd rhai yn dweud bod trefnu i'w holl ddogfennau'n cael eu cyfieithu yn 'gymhleth ac yn cymryd llawer o amser" a'i fod wedi achosi oedi gyda'u gwaith. Mae cost yn rhwystr i ddarparwyr bach nid er elw, a fyddai'n hoffi cefnogaeth ac arian ychwanegol i allu 'cyfieithu popeth, a gwneud hynny'n gyflym'. Roedd pryderon am hawlfraint yn codi wrth gyfieithu adnoddau trydydd parti a'r rhyngrwyd.

Roedd rhai ymatebwyr yn dweud bod cyfieithu gwybodaeth ysgrifenedig i'r Gymraeg yn llai o flaenoriaeth oherwydd bod 'y rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn hoffi sgwrsio yn Gymraeg ond nid ydynt yn hoffi ffurflenni a thaflenni yn Gymraeg oherwydd bod yr iaith yn rhy ffurfiol." Roeddent yn argymell y dylid gwella

cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd rhithiol, webinarau a galwadau fideo.

## (c) Staff sy'n siarad Cymraeg

Roedd llawer o ymatebwyr yn dweud bod staff sy'n darparu gofal yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag roedd y gwasanaethau'n amrywio o ran capasiti, o wasanaethau llwyr ddwyieithog gyda sawl siaradwr Cymraeg iaith gyntaf ar bob lefel o'r sefydliad, drwodd i drefniadau mwy anffurfiol.

> "er nad yw'r holl staff yn siarad Cymraeg yn rhugl, mae yna fel arfer rywun ar gael sydd."

Roedd rhai gwasanaethau'n gallu darparu hyfforddiant yn Gymraeg, er enghraifft ar gyfer gofalwyr maeth Cymraeg. Roedd eraill yn dweud er eu bod yn gallu sgwrsio gyda defnyddwyr gwasanaethau yn Gymraeg, mae eu staff yn teimlo'n fwy hyderus yn darparu gofal ac yn gwneud asesiadau ffurfiol yn Saesneg. Yn aml nid yw staff yn teimlo mor hyderus gyda Chymraeg ysgrifenedig.

> "Mae gan bob aelod o staff fynediad at ymadroddion Cymraeg a ddefnyddir yn aml mewn amgylcheddau gofal a chymorth, er mwyn i staff allu siarad Cymraeg gydag unigolion y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt;
>
> "Nid yw'r asesiad ar gael yn Gymraeg yn ein systemau ni."

Mae'r gallu i recriwtio siaradwyr Cymraeg yn rhwystr mawr. Mae hyn yn fwy o her wrth geisio penodi staff â sgiliau arbenigol, ac mae'n bosibl y bydd yn dod yn fwy anodd byth wrth i wasanaethau ddechrau dibynnu fwy a mwy ar staff asiantaeth.

> "Mae gan ein gweithwyr adsefydlu gymhwyster arbenigol. Ychydig iawn ohonynt sydd yna ar draws y DU, felly mae hi'n ddigon anodd dod o hyd i weithiwr cymwys, heb sôn am un sy'n siarad Cymraeg."
>
> "Mae hi'n anodd denu staff sy'n siarad Cymraeg yng Ngogledd Ddwyrain Cymru sy'n ei gwneud yn anoddach darparu cefnogaeth yn y Gymraeg o'r safon a hoffem."

> "Dylai gweithwyr sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg - ni ddylai 'parodrwydd i ddysgu Cymraeg', neu 'yn dysgu Cymraeg' fod yn ddigon ar gyfer y swyddi hyn.

Mae llawer o sefydliadau'n rhoi hyfforddiant Cymraeg i'w staff, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol. Dyma rai o'r enghreifftiau:

- cyrsiau a gynigir gan yr awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd.
- grwpiau Cymraeg amser cinio
- Staff sy'n siarad Cymraeg yn cyflwyno gweithdai i'w cyfoedion di-Gymraeg.

Roedd rhai'n meddwl y dylid cynnig cyrsiau dysgu Cymraeg i staff yn fwy rheolaidd. Fod bynnag, yr her i lawer yw dod o hyd i amser yn eu diwrnod gwaith hynod o brysur. Dywedodd staff y byddai'n rhaid iddynt gael amser wedi'i ddiogelu yn eu rota i allu mynychu'r dosbarthiadau.

Yn yn yr un modd mae gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg yn ddifrifol o brin. Awgrymodd rhai y dylai mwy o ddosbarthiadau fod ar gael yn y gymuned. Eto roedd cost yn cael ei ystyried yn rhwystr rhag mynychu felly roedd rhai'n credu y dylent fod am ddim.

## (d) Ardaloedd lle mae siaradwyr Cymraeg yn hanfodol bwysig.

Roedd ymatebwyr sy'n gweithio yng ngorllewin Cymru yn dweud bod cael siaradwyr Cymraeg i ddarparu gofal yn hanfodol bwysig gan fod mwyafrif y boblogaeth hŷn yn siarad Cymraeg a Chymraeg yw iaith gwaith.

> "Mae siaradwyr Cymraeg yn hanfodol bwysig ar gyfer lleoliadau yn Ynys Môn a Gwynedd. Mae gan bob un o gartrefi preswyl y Cyngor staff sy'n siarad Cymraeg, ac mae'r holl staff yn cael eu hannog i siarad neu i ddysgu Cymraeg.
>
> "Mae mwy o alw yn Ne Sir Ddinbych, ond mae hyn wedi'i adlewyrchu yn sgiliau'r gweithlu hefyd, er enghraifft mae 95% o staff Cysgod y Gaer yn siarad Cymraeg".

Yn yr un modd mae'n well gan oedolion ag anawsterau dysgu yng Ngwynedd gyfathrebu yn Gymraeg. Nid yw hyn yn broblem i staff lleol ond gall weithiau fod yn

rhwystr wrth weithio ar draws ffiniau siroedd, er enghraifft cynhelir yr holl gyfarfodydd rhanbarthol yn Saesneg, sy'n golygu nad yw rhai unigolion ag anableddau dysgu yn gallu cyfrannu.

Roedd rhai'n teimlo nad oes digon o staff gyda sgiliau Cymraeg yn gweithio yn y gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu, felly nid oes gan deuluoedd y dewis o siarad Cymraeg. Rhaid cyflogi mwy o siaradwyr Cymraeg. Yn ogystal nid oes asesiadau Cymraeg wedi'u dilysu ar gael, felly mae'n amhosibl cynnal yr asesiadau priodol gyda phlant a phobl ifanc ag anableddau dysgu.

Tynnodd eraill sylw at y ffaith bod dysgu Cymraeg yn arbennig o bwysig wrth gefnogi pobl â dementia, sydd yn aml yn troi'n ôl at siarad iaith aelwyd eu plentyndod. Mae hyn yn hanfodol bwysig i feithrin hyder defnyddwyr gwasanaethau:

> "Rwyf wedi dechrau gwersi Cymraeg lefel mynediad, oherwydd hyn roedd y bosibl i mi gael sgwrs agoriadol fer gyda dyn mewn oed â dementia, ac mae perthynas dda wedi datblygu".

## (e) Hyrwyddo diwylliant Cymru

Mae rhai sefydliadau mewn ardaloedd lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad yn aml yn dangos eu cefnogaeth i ddiwylliant Cymru mewn ffyrdd eraill, er enghraifft dathlu dyddiau Cymraeg i gyd.

> "Rydym yn defnyddio ymadrodd yr wythnos ar gyfer trigolion a staff i hyrwyddo'r Gymraeg ac rydym bob amser yn dathlu ein diwylliant.

> "Rydym yn cyfarch yn Gymraeg, yn cadw ein hysbryd o Gymreictod ac yn falch o fod yn Gymry.

Roeddent yn mynegi 'blinder' o feddwl bod yn rhaid i bopeth fod yn ddwyieithog oherwydd y bydd 'yn golygu mwy o waith papur eto.'

## (f) Ffafriaeth dros siarad Saesneg

Roedd cymaint o ymatebwyr o blaid siarad Saesneg â'r nifer oedd yn cefnogi siarad Cymraeg. Roedd y grŵp hwn o'r farn nad yw'r Cynnig Gweithredol yn berthnasol iddyn nhw, oherwydd nad ydyn nhw neu'r bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau yn siarad Cymraeg. Roedd hyn i'w weld yn arbennig o wir am wasanaethau i blant a phobl ifanc:

> Dim ond tair galwad Gymraeg yr ydym wedi'u cael mewn mwy na degawd."

Mynegodd defnyddwyr gwasanaethau uniaith Saesneg bryder nad ydynt yn gallu darllen eu nodiadau achos yn Gymraeg, ac yn dweud eu bod yn teimlo'n annifyr pan fo'u gofalwyr yn siarad Cymraeg ymysg ei gilydd. Nid yw darparu'r gwaith papur yn ddwyieithog yn ddefnyddiol bob tro:

> Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach i dad ddilyn y wybodaeth mae o'n ei chael. Byddai'n ddefnyddiol bod â ffurflenni Saesneg yn unig unwaith y mae dewis iaith wedi'i sefydlu".

Byddai'r wybodaeth yn haws i'w darllen ac yn gliriach pe bai'r ddwy iaith yn cael eu cadw ar wahân. Mae dyblygu dogfennau'n cael ei ystyried yn wastraff o adnoddau.

> "Mae mam yn dweud bod gwneud popeth yn ddwyieithog yn gwneud maint y ffont yn llai ac oherwydd bod ganddi nam ar ei golwg byddai'n well ganddi gael y wybodaeth mewn un iaith a theip mwy".

Roedd sawl ymatebydd yn teimlo bod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar siarad Cymraeg pan fo ieithoedd eraill yn cael eu siarad yn fwy cyffredin ymysg defnyddwyr gwasanaethau nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu. Byddai rhai yn hoffi pe bai mwy o sylw'n cael ei roi i Makaton, Iaith Arwyddion Prydain a Phwyleg gan ddarparu dehonglwyr ble bynnag y bo angen. Mae opsiynau Cymraeg Clir hefyd yn anodd i gael gafael arnynt.

# 7. Gwasanaethau GIG

## (a) Beth sy'n gweithio'n dda

Ychydig o ymatebwyr soniodd am wasanaethau iechyd sy'n gweithio'n dda. Fe wnaethant dynnu sylw at y canlynol:

- Mae'r gwasanaeth a geir yng Nghanolfan Iechyd Bron Ffynnon, Dinbych yn ganmoladwy ac mae'r gofal a geir yn Adran Cardioleg Ysbyty Glan Clwyd yn amhrisiadwy.
- Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn gwerthfawrogi'r cydweithio agos â gweithwyr gofal iechyd sylfaenol.
- Roedd llawer yn ddiolchgar am gefnogaeth iechyd amgylcheddol a'r GIG yn ystod y pandemig.

- Dywedodd gweithwyr gofal bod gwasanaethau iechyd ar gyfer pobl ifanc yn gweithio’n dda i sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth a’r cyngor gywir am iechyd, yn enwedig cyngor am iechyd rhywiol, cofrestru gyda Meddyg Teulu ac atgyfeiriadau at y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol.

## (b) Beth sydd angen ei wella

Soniwyd am amrywiaeth o wasanaethau y mae angen eu gwella, yn cynnwys:

- Gwell gofal diwedd oes, yn enwedig yn ystod y nos
- Mae’r cynnyrch ymataliad o safon wael iawn a defnyddir mwy na'r hyn a ragwelwyd yn aml
- Dylai therapyddion iaith a lleferydd roi mwy o amser i blant di-eiriau
- Gwella mynediad pobl hŷn at ofal deintyddol i osgoi effeithiau cyflyrau geneuol a deintyddol. Mae hyn yn cynnwys preswylwyr cartrefi gofal yn cael gofal deintyddol yn eu cartref gofal.
- Mae’r gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar yn anodd i’w ddefnyddio ac yn araf iawn i ymateb.
- Gwneud mwy o ddefnydd o’r gwasanaethau teleiechyd i rwystro derbyniadau i’r ysbyty a gwella cynllunio ar gyfer rhyddhau o’r ysbyty ac ymweliadau gan nyrsys ardal.
- Annog staff cartrefi gofal i gael brechlyn yn erbyn Covid.
- Nid yw Canolfan Feddygol Marches yn ddigon mawr ar gyfer poblogaeth Brychdyn.

Dywedodd rhai aelodau o staff bod systemau cyfrifiadurol gwael yn cael effaith negyddol ar eu gallu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd.

## (c) Effaith COVID-19

Soniwyd am dri phrif faes y mae Covid-19 wedi effeithio’n negyddol arnynt, fel a ganlyn:

### Gofal Deintyddol

Yn ystod y pandemig cafodd rhaglenni gofal deintyddol yn y gymuned (er enghraifft y rhaglen brwsio dannedd a farnais fflworid) eu hatal. Mae cynlluniau yn eu lle i ailddechrau’r gwasanaethau hyn gan flaenoriaethu’r ysgolion lle mae’r angen mwyaf, ond mae deintyddion yn bryderus am y canlynol:

- mae ysgolion a meithrinfeydd o dan bwysau mawr yn barod ac efallai na fyddant yn cytuno i gael ymweliadau.
- mae'n bosib bod canlyniadau iechyd geneuol y grŵp targed yn gwaethygu – bydd iechyd deintyddol plan yn waeth oherwydd na chafodd y rhaglen ei darparu'r llynedd.
- mae staff mewn ysgolion angen hyfforddiant ar y rhaglen eto
- mae colled morâl ymysg staff deintyddol ac maent yn teimlo bod pethau'n mynd am yn ôl ar ôl yr holl waith caled ar y rhaglen hon dros y 10 mlynedd diwethaf
- mae gwasanaethau deintyddol cymunedol yn gweithio gyda llai o gapasiti ac mae rhestrau aros wedi tyfu'n sylweddol.

Yn yr un modd nid yw gwasanaethau deintyddol sy'n gofalu am y bobl y mae'n rhy anodd iddynt fynd at ddeintydd arferol wedi gweld eu cleifion ar gyfer gwiriadau deintyddol arferol ac maent yn ofni y bydd pethau wedi gwaethygu i bobl oedd eisoes â chyflyrau cymhleth. Roedd argymhellion ar gyfer gwella yn cynnwys:

- gwell gwybodaeth ar-lein ac yn y cyfryngau cymdeithasol am yr hyn y mae'r gwasanaeth hwn yn ei gynnig.
- gwell cydweithio gyda'r gwasanaethau gofal cymdeithasol
- gwell rhannu cofnodion a gwybodaeth i helpu gyda phrosesau gwneud penderfyniadau perthnasol i gleifion ag anghenion cymhleth.

## Apwyntiadau gyda Meddyg Teulu

Roedd methu gweld meddyg wyneb yn wyneb yn peri rhwystredigaeth i lawer o ymatebwyr. Roeddent yn teimlo bod hyn yn broblem benodol i bobl hŷn sydd yn aml yn anghyfforddus yn siarad dros y ffôn.

> "ym meddygfa mam a dad 'does neb i'w gweld yn malio am yr henoed. Yn yr hirdymor mae'n bosibl y bydd pobl yn marw'n gynt na phe baent yn cael gweld y clinigwr priodol mewn da bryd."

> "Mae llawer o bobl yn teimlo'n anghyfforddus yn siarad ar y ffôn ac mae'n bosibl y gallai cam-ddiagnosis ddigwydd neu y bydd y gofal iechyd amhriodol yn cael ei roi."

> "Mae'r cyfyngiad ar wasanaethau Meddygon Teulu wedi effeithio arna' i'n bersonol ac mae wedi cael effaith niweidiol ar fy iechyd meddyliol a chorfforol am nad oeddwn yn teimlo'n gyfforddus yn ceisio cael apwyntiad wyneb yn

wyneb.... Roeddwn i'n teimlo nad oeddwn yn gallu estyn allan oherwydd y canfyddiad o bwysau ar wasanaethau ac ymateb y gwasanaethau wrth holi."

Roedd yr awgrymiadau ar gyfer gwella'n cynnwys creu gwahanol ffyrdd o aros y tu allan i'r feddygfa i osgoi 'sefyll yn y tywydd poethaf'. Roedd eraill yn teimlo bod staff sy'n gweithio mewn meddygfeydd angen deall anawsterau iechyd meddwl ac anableddau yn well a dewis eu geiriau yn fwy doeth. Mae staff GIG i'w gweld fel petai ganddyn nhw lai o amynedd efo pobl sy'n stryglo, sy'n rhoi cnoc i hyder pobl".

## Rhestrau Aros

Mae rhestrau aros y GIG am asesiadau a thriniaeth wedi mynd yn hirach. Tynnodd ymatebwyr sylw at y canlynol:

- oedi hir am asesiad Therapydd Galwedigaethol
- arosiadau hir am ambiwlans, yn enwedig pobl sydd wedi disgyn ond heb ddioddef anaf. Mae galwadau'n cael eu gwrthod ac mae adnoddau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru dan bwysau.
- mae gofal diwedd oes wedi prinhau, gan ddisgyn yn bennaf ar Nyrsys Ardal a thîm gofal cartref y cyfnod olaf.
- dim gwlâu seibiant (ar gyfer cleifion â chlefydau cronig er mwyn rhoi seibiant i'r prif ofalwyr (teulu)).
- mae'n amhosibl gweld y tîm seicoleg addysg

Mae pobl ag anghenion cymhleth wedi'u heffeithio arnynt yn benodol am eu bod yn debygol o fod yn defnyddio amrywiaeth eang o wasanaethau ac yn 'cael eu gadael i lawr ar bob pwynt bron".

Pryder mawr arall yw y bydd pobl yn gadael i gyflyrau ddirywio'n ddifrifol cyn gofyn am help oherwydd bod arnynt ofn mynd i'r ysbyty. Mae diffyg staff yn y gymuned hefyd yn ei gwneud yn anodd cadw cleifion adref yn ddiogel. Mae hyn yn arwain at fwy o bwysau oherwydd y bydd y galw am driniaeth yn cynyddu gan ychwanegu at yr amser y bydd yn ei gymryd i ddychwelyd i'r llinell sylfaen.

Mae bydwragedd wedi'u heffeithio'n benodol: "Oherwydd gwarchod, hunanynysu a salwch mae lefelau staffio'n isel dros ben. All morâl staff ddim bod yn is. Yn yr hirdymor bydd bydwragedd yn gadael neu i ffwrdd ar gyfnodau o salwch hirdymor. Mae cadw at Birthrate Plus yn ystod Covid yn rhwystro rheolwyr rhag staffio'n

effeithiol. Mae gofal mamolaeth yng Ngogledd Cymru yn awr mor brin o staff mae'n dechrau mynd yn beryglus."

## (d) Darparu gwasanaethau yn Gymraeg

Roedd ymatebwyr yn bryderus ynghylch diffyg staff sy'n siarad Cymraeg yn y GIG ac roeddent yn argymell:

- mynediad at hyfforddiant Cymraeg ar gyfer staff y GIG
- cyflogi staff nyrsio a meddygol sy'n siarad Cymraeg, yn enwedig yng Ngogledd Orllewin Cymru lle mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf
- mae'r neges ar beiriant ateb y feddygfa yn Saesneg yn gyntaf ac yna yn Gymraeg. Y Gymraeg ddylai ddod gyntaf

> "Pan oedd fy mherthynas yn y Maelor fe ddywedon nhw wrtha'i '"dyda' ni ddim yn gwybod beth mae eich tad yn ei ddweud achos wneith o ddim ond siarad yn Gymraeg!"

# Atodiad 1: Data Monitro Cydraddoldeb

Nodwch bod y tablau isod yn adlewyrchu nodweddion y 250 cyfranogwr a atebodd yr holiadur cydraddoldeb yn hytrach na phob un o'r 350 o gyfranogwyr yn yr arolwg. I gael darlun llawn o ymgysylltiad â phobl â nodweddion gwarchodedig dylid ystyried y ffigyrau hyn ochr yn ochr â'r rhestr o sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Mae'r niferoedd yn y tablau wedi'u rowndio i'r 5 agosaf er mwyn osgoi datgelu gwybodaeth bersonol.

## Oedran

| Oedran | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| 16 i 24 | 5 | 2% |
| 25 i 34 | 30 | 12% |
| 35 i 44 | 5 | 17% |
| 45 i 54 | 75 | 30% |
| 55 i 64 | 60 | 25% |
| 65 tan 74 | 30 | 11% |
| 75 oed a throsodd | 10 | 3% |

## Hunaniaeth rhyw a rhywedd

| Rhyw | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Benyw | 210 | 85% |
| Gwryw | 35 | 15% |

Derbyniwyd llai na 5 o ymatebion gan bobl drawsrywiol

## Anabledd

Dywedodd cyfanswm o 27% o'r ymatebwyr bod ganddynt anabledd. Mae'r tabl isod yn dangos pa ganran o'r 70 o bobl sydd â phob amhariad neu gyflwr

| Anabledd | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Salwch/cyflwr iechyd hirsefydlog | 35 | 52% |
| Cyflwr Iechyd Meddwl | 30 | 42% |
| Nam corfforol | 25 | 36% |
| Nam ar y synhwyrau | 10 | 18% |
| Anabledd/Anhawster Dysgu | 10 | 12% |

## Cyfrifoldebau Gofalu

Roedd gan 44% o gyfranogwyr gyfrifoldebau gofalu. Mae'r tabl isod yn dangos faint o ofal a ddarperir gan y cyfranogwyr hyn bob wythnos

| Cyfrifoldebau Gofalu | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| 1 – 19 awr | 50 | 46% |
| 20 – 49 awr | 25 | 23% |
| 50 awr neu fwy | 35 | 31% |

## Hunaniaeth Genedlaethol

| Hunaniaeth Genedlaethol | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cymraeg | 140 | 56% |
| Prydeinig | 60 | 25% |
| Saesneg | 60 | 25% |
| Albanaidd | <5 | 2% |
| Gwyddelig (Gogledd Iwerddon) | <5 | 2% |
| Arall | 5 | 3% |

Roedd y cenedlaethau eraill yn cynnwys cyfranogwyr a oedd yn disgrifio eu hunaniaeth fel Pwyleg, De Affricanaidd, Canadiaidd neu Ewropeaidd Brydeinig.

## Grŵp Ethnig

| Grŵp Ethnig | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Gwyn | 245 | 98% |
| Tras Gymysg | <5 | 1% |
| Indiaidd | <5 | 1% |

## Dewis Iaith

| Iaith a Lleferydd | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Saesneg | 180 | 74% |
| Cymraeg a Saesneg | 35 | 14% |
| Cymraeg | 30 | 12% |

| Iaith ysgrifenedig | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Saesneg | 200 | 84% |
| Cymraeg a Saesneg | 20 | 8% |
| Cymraeg | 20 | 7% |

## Crefydd

| Crefydd | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cristion | 125 | 51% |
| Dim crefydd | 100 | 42% |
| Hindŵ | <5 | - |

## Cyfeiriadedd rhywiol

| Cyfeiriadedd rhywiol | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Heterorywiol | 220 | 91% |
| Hoyw neu Lesbiaidd | 5 | 3% |
| Deurywiol | 5 | 2% |
| Panrywiol/Cwiar | <5 | - |

## Statws Priodasol:

| Statws Priodasol: | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Priod | 125 | 55% |
| Erioed wedi bod yn briod | 55 | 25% |
| Wedi ysgaru | 20 | 8% |
| Gweddw | 10 | 5% |
| Wedi gwahanu | 10 | 5% |
| Mewn partneriaeth sifil gofrestredig | 5 | 2% |

This page is intentionally left blank

# Asesiad o anghenion poblogaeth lleol Cyngor Sir Ynys Môn

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Plant a phobl ifanc | 3 |
| Pobl hŷn | 23 |
| Anableddau iechyd a chorfforol | 35 |
| Namau ar y synhwyrau | 42 |
| Anableddau dysgu | 49 |
| Awtistiaeth | 54 |
| Iechyd meddwl | 55 |
| Gofalwyr sydd angen cymorth | 62 |
| Diogelu | 72 |
| Trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol | 73 |
| Y Gymraeg | 74 |
| Cydraddoldeb, dyletswydd economaidd-gymdeithasol a hawliau dynol | 75 |

# Cyflwyniad

## Ynglŷn â'r adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn asesiad o anghenion poblogaeth ardal Cyngor Sir Ynys Môn o ran gofal a chymorth, gan gynnwys anghenion gofalwyr o ran cymorth. Fe'i cynhyrchwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn i ddiwallu gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
Y rhesymeg tu ôl i'r adroddiad yw rhoi trosolwg o'r sefyllfa bresennol o ran y rheiny ym Môn sydd â rhyw fath o anabledd/salwch. Gan mai dyma'r tro cyntaf y cynhaliwyd yr Asesiad o Anghenion yn Boblogaeth yn y fformat hwn, y gobaith yw y gall ein gwasanaethau adeiladu ar y ddogfen hon, gan ei hystyried fel dogfen weithio, ynghyd â dysgu o'r hyn yr ydym eisoes wedi'i ddarganfod. Yn ogystal, mae'r templed a ddefnyddir yn cyd-fynd â'r hyn a ddefnyddiwyd ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru gyfan, ac felly gellir gweld gwybodaeth bellach o safbwynt Gogledd Cymru hefyd.

## Ymgynghori ac ymgysylltu

Lansiwyd holiadur rhanbarthol ar-lein a ddefnyddiwyd i fynd i'r afael ag adran 'Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?' bob pennod, yn ei hanfod gellir ystyried hwn fel ein hymgynghoriad ar gyfer yr asesiad. Ar gyfer yr holiadur, dadansoddwyd y canlyniadau yn ôl pob rhanbarth yng Ngogledd Cymru, a chafwyd 86 o ymatebwyr o Ynys Môn.
Yn nhermau ymgysylltu, mae amrywiaeth aruthrol o waith ymgysylltu arall a gynhaliwyd dros y blynyddoedd wedi'i adolygu a'i ddefnyddio lle'n berthnasol ar gyfer yr amryw benodau a gynhwyswyd o fewn yr adroddiad hwn.

## Materion a effeithiwyd gan yr amgylchedd presennol

Bu amseriad yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (AAB/'PNA') yn her. Roedd y gallu i ymgymryd ag asesiad yn ystod pandemig yn golygu bod angen i'r ymgynghoriad ganolbwyntio ar weithgaredd ar-lein, a oedd golygu'n aml nad oedd ymatebion mor fanwl ag y gallent fod wyneb yn wyneb. Roedd hyn yn amlwg yn achos yr holiadur Plant a Phobl Ifanc, lle na dderbyniwyd unrhyw ymateb ar gyfer Ynys Môn – roedd hyn yr un mor wir ar gyfer ardal rhanbarth Gogledd Cymru gyfan. Yn ogystal, gyda llawer o'r dystiolaeth ystadegol ar gyfer yr AAB blaenorol yn ddibynnol ar ganlyniadau cyfrifiad 2011, rhaid cydnabod na fu modd i ni gael mynediad at wybodaeth fwy cyfredol a fyddai wedi cynnig y ffigurau diweddaraf ar gyfer rhai o'r ystadegau a ddefnyddiwyd ledled yr adroddiad. Hefyd, bu'n anodd coladu gwybodaeth gan bartneriaid allanol yng nghanol y pandemig, ac ni fu modd i ni archwilio rhai materion ochr yn ochr â Betsi Cadwaladr mor eang ag yr hoffem i greu darlun llawnach ar gyfer rhai o'r penodau. O ganlyniad, ceir bylchau yn rhai o'r penodau o ganlyniad i'r pwysau a wynebwyd gennym. Fe awn ati i geisio llenwi'r rhain yn y dyfodol unwaith y bydd gennym yr adnoddau angenrheidiol. Fodd bynnag, credwn ein bod wedi cipio'r prif flaenoriaethau y byddwn yn canolbwyntio arnynt.

# Plant a phobl ifanc

## Ynglŷn â'r bennod hon

## Trosolwg o'r boblogaeth

| Categori | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y plant 0-15 oed | 12,000 (disgwylir gostyngiad o 6% erbyn 2039) | | | | | [Yn gywir yn 2019] 12,000 |
| Nifer yr atgyfeiriadau i'r gwasanaethau plant yn ystod y flwyddyn | 3154 | 3679 | 3588 | 4329 | 3968 | 3842 |
| Nifer y plant mewn angen (fesul 10,000) | 170 | | | | | 123 |
| Nifer y plant mewn angen (yn ôl oedran) | O dan 1 (15); 1 i 4 oed (50); 5 i 9 oed (80); 10 i 15 oed (70); 16 i 17 oed (30); 18 + oed (15) | | | | | O dan 1 (0); 1 i 4 oed (30); 5 i 9 oed (40); 10 i 15 oed (65); 16 i 17 oed (25); 18 + oed (0) |
| Nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ar Fawrth 31 (fesul 10,000) | 124 | 101 | 46 | 79 | 70 | 68 |
| Nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn ôl oedran | | | | | | |
| O dan 1 | 12 | 8 | 6 | 14 | 6 | 7 |
| 1 i 4 | 27 | 24 | 13 | 23 | 16 | 16 |
| 5 i 9 | 37 | 29 | 7 | 15 | 20 | 20 |
| 10 i 15 | 45 | 37 | 19 | 22 | 25 | 22 |
| 16 i 17 | 3 | 3 | 1 | 5 | 3 | 3 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 18+ | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Nifer y plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol | 112 | 142 | 145 | 149 | 158 | 161 |
| Nifer y plant mewn angen sydd ag anabledd (Canran y plant mewn angen sydd ag anabledd) | 70 (27%) | | | | | [Cywir yn 2019] 40 (12%) |
| Nifer amcangyfrifiedig y plant ag anhwylderau bwyta | [Yn gywir yn 2014] 5 i 10 oed (15); 11 i 16 oed (15) | | | | | 9 (ar gyfer Ynys Môn + Gwynedd) |
| Genedigaethau o dan 20 oed | [Yn gywir yn 2014] 36 | | | | | [Yn gywir yn 2017] 30 |
| Cyrsiau Dechrau'n Deg strwythuredig ffurfiol i rieni a gynigir gan yr awdurdod lleol (%) | 91 o leoedd (62%) | | | | | 55 o leoedd (47%) |

# Plant ag anableddau a/neu salwch

Mae Gwasanaethau Plant Arbenigol Ynys Môn yn dîm integredig gydag aelodau o'r Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol yn cael eu cyd-leoli o fewn eiddo'r awdurdod lleol. Sefydlwyd y gwasanaeth o dan Gytundeb Adran 33.

Mae'r tîm yn gweithio gyda phlant anabl a phobl ifanc rhwng 0 – 17 oed a'u teuluoedd, sydd ag amryw anghenion cymhleth na ellir eu diwallu gan wasanaethau cyffredinol neu rai wedi'u targedu.

Mae ystod yr anghenion yn cynnwys plant a phobl ifanc sydd ag anabledd dysgu, namau corfforol a salwch/cyflyrau meddygol cronig, gydol oes.

Mae'r Tîm yn cynnwys:-

Gweithwyr Cymdeithasol, Nyrsys Anableddau Dysgu Pediatrig Cymunedol, Cymorthyddion Nyrsio, Seicoleg Glinigol Anableddau Dysgu Pediatrig, Therapydd Galwedigaethol, Cydlynydd Pontio, Swyddog Cynhwysiant a Lles, Rheolwr Gweithwyr Cymorth Gwasanaethau Cymdeithasol a Thîm o Weithwyr Cymorth, Gweinyddwr Gwasanaeth.

Mae swyddi a rennir â'r gwasanaethau oedolion yn ogystal â'r cydlynydd pontio'n cynnwys - Swyddog Taliadau Uniongyrchol ac Asesydd Gofalwyr.

## Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth

| Dadansoddiad: | (Cyfanswm nifer yr achosion sy'n agored i'r GPA/SCS: 194) |
|---|---|
| Anabledd Dysgu / ASD / ADHD | **116** |
| Nam Corfforol | **32** |
| Salwch Cronig | **22** |
| Yn cael eu hasesu Diagnosis heb ei gadarnhau | **24** |

Ym Medi 2021 roedd y gwasanaeth yn gweithio gyda 194 o blant a phobl ifanc (0 – 18 oed).

O'r rhain, roedd gan 116 anabledd dysgu, gan gynnwys y rheiny ag ASD, ADHD.

Mae plant a phobl ifanc arail sy'n agored i'r gwasanaeth yn cynnwys 31 â namau corfforol, ynghyd â 22 â salwch cronig ac anghenion iechyd cymhleth.

Ceir nifer o blant (24) sy'n cael eu hasesu ar hyn o bryd ond na chafodd diagnosis ei gadarnhau ar eu cyfer hyd yma.

## Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

Cafwyd 4 ymateb o'r holiadur a gynigiodd ryw syniad o beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym o ran plant â gwahanol anableddau a/neu fathau o salwch.

Nododd ID 96 mai bwlch yr oedd angen mynd i'r afael ag ef oedd rhoi cefnogaeth i rieni fynd trwy broses y gwasanaethau plant ar ôl canfod eu hanghenion.

Nododd ID 70 bod eu Meddyg Teulu lleol a'u hymgynghorydd lleol wedi rhoi cefnogaeth dda iawn i'w mab sy'n dioddef clefyd cronig yn yr arennau.

Nododd ID 348 eu bod yn datblygu rhaglenni i rieni a fydd yn helpu i roi cymorth i rieni sydd â phlant ag anableddau dysgu.

Roedd pwynt ID 299 yn ymwneud â phobl ifanc sydd ag anabledd dysgu. Nodwyd ganddynt fod 'Project Search' - sef rhaglen interniaeth â chefnogaeth i bobl ifanc - wedi llwyddo i gyflawni 'canlyniadau ardderchog o ran cyflogaeth' i'r rheiny sy'n rhan ohono. Ychwanegwyd ganddynt fod BIPBC yn arwain y ffordd yn nhermau cyflogi interniaid graddedig ac wedi datblygu llwybr recriwtio 'hygyrch' sy'n addas i'r diben.

Roedd pwynt ID 348 hefyd yn ymwneud ag anableddau dysgu plant, ond o safbwynt gwahanol. Eglurwyd ganddynt fod plant ag anableddau dysgu yn fwy agored i niwed yn sgil Covid-19. Hanfod y pwynt yw teimlad rhieni eu bod angen eu cadw o'r neilltu er mwyn amddiffyn eu hiechyd. Mae hyn yn

golygu bod plant yn colli ysgol, apwyntiadau, ac nid oes fawr o alw/pwysau i'w gweld yn dychwelyd - maent yn colli strwythur a chyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd. Yn ychwanegol i hynny, mae problemau a oedd yno yn y lle cyntaf yn gwaethygu, e.e. os oedd y cartref yn rhy fach i'r teulu neu'n anaddas, mae'r broblem yn hyd yn oed mwy amlwg yn ystod cyfnod clo.

## Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

Fel y mae'r ffigurau'n dangos, rydym yn rhoi cymorth i deuluoedd o fewn y gwasanaeth a chanddynt ystod eang iawn o anghenion yn dibynnu ar natur diagnosis, anabledd neu nam yr unigolyn.

- Rydym yn gwybod bod plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn gwerthfawrogi'r seibiannau byr a dderbynnir ganddynt, naill ai trwy ein gwasanaethau cymorth ein hunain neu daliadau uniongyrchol. (Holiaduron a gwblhawyd gan deuluoedd sy'n mynychu ein gwasanaethau cymorth mewnol)
- Y plant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth ac sy'n cael seibiannau byr dros nos mewn Uned Seibiannau Byr Preswyl. (Holiaduron HYS)
- Mae rhieni a phlant ifanc y mwynhau mynychu sesiynau Chwarae a Datblygu ein Gwasanaeth Anabledd Dysgu Nyrsio Pediatrig.
- Mae rhieni plant ifanc yn gwerthfawrogi'r sesiynau PACT a gydlynir gan ein Gwasanaeth Seicoleg.
- Mae rhieni/gofalwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth a dderbynnir ganddynt gan ein nyrsys cymunedol a'n gweithwyr cymdeithasol o ran cynnig cyngor ac arweiniad ymarferol. (Ffeil Canmoliaeth CS)
- Roedd teuluoedd yn gwerthfawrogi ein 'galwadau cadw mewn cysylltiad' drwy gydol cyfnodau clo'r pandemig ynghyd â'r 'pecynnau gweithgareddau' a ddarparwyd yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae Mencap Cymru a Môn wrthi'n gweithio ar hyn o bryd â'r Gwasanaethau Plant Arbenigol (GPA) i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer ein plant 'Blynyddoedd Cynnar', ac mae'r Gweithiwr Prosiect yn ymgymryd ag amrywiaeth o sesiynau ymgysylltu â rhieni/gofalwyr i archwilio a chreu cyfleoedd i ddatblygu dulliau o gyd-gynhyrchu gweithgareddau a gwasanaethau i gefnogi teuluoedd plant anabl.

Hyd yma, dyma'r themâu y rhannodd teuluoedd ystod o bryderon yn eu cylch.

- Pryder ynghylch mynediad at SALT. Codwyd y testun hwn gan deuluoedd sydd â phlant hŷn (7 oed a throsodd) a theuluoedd plant iau. Mae teuluoedd y plant hŷn sydd wedi codi hyn wedi disgrifio eu profiadau blaenorol o geisio cael mynediad at SALT fel brwydr barhaus, gydag un teulu'n dweud eu bod wedi rhoi'r gorau iddi ac wedi derbyn na fyddai eu plentyn yn cael mynediad at therapi lleferydd. Roedd un teulu iau (gyda phlentyn 4 oed) wedi disgrifio eu gofid bod popeth yr oeddynt yn ei ddarllen ynghylch therapi lleferydd ac iaith yn dweud bod 2-3 oed yn oedran allweddol o ran datblygiad iaith. Mae'r teulu penodol hwn wedi benthyca arian i dalu am therapi lleferydd ac iaith preifat.
- Mae teuluoedd sydd â phlant o unrhyw oedran a chanddynt anabledd dysgu i gyd wedi disgrifio eu bod yn teimlo'n ofnus ac ar goll yn ystod cyfnodau pontio. Ymhlith enghreifftiau penodol y mae'r adeg y maent yn dechrau'r ysgol, ynghyd â phan fydd oedi o ran asesiadau ar gyfer penderfynu pa ddarpariaeth ysgol a fydd fwyaf addas, yr adeg y byddant yn trosglwyddo o'r ysgol i leoliadau eraill, ynghyd â'r trosglwyddiad i wasanaethau oedolion.
- Mae teuluoedd yn dweud eu bod yn teimlo'n ynysig ac eisiau'r cyfle i dreulio amser â theuluoedd tebyg a chreu rhwydweithiau cryfach rhwng cymheiriaid. Mae teuluoedd sy'n cael mynediad at fentrau cymunedol a redir gan rieni, fel Cylch Teulu, 3D Kids a Grŵp Awtistiaeth ar gyfer rhieni yn adrodd profiadau cadarnhaol.

Mae'r Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr hefyd yn hwyluso grwpiau cefnogi i rieni sy'n ofalwyr ac yn gallu cynnig cymorth ar sail unigol.

**Trosolwg o wasanaethau**

Cafwyd cynnydd sylweddol yn yr atgyfeiriadau i'r GPA yn ystod y 2-3 blynedd diwethaf. O'r asesiadau yr ymgymerwyd â hwy, mae'n amlwg bod nifer y plant ag anghenion cymhleth wedi cynyddu'n gyffredinol, ac mae hyn yn cynnwys y rheiny sydd wedi'u hasesu ar gyfer ASD neu sy'n disgwyl am hynny, ac mae nifer uchel o atgyfeiriadau ar gyfer plant yn yr ystod oedran blynyddoedd cynnar/cyn ysgol. Yn ogystal, o ran nifer o blant a phobl ifanc o dan y Gwasanaethau Plant a CAMHS roedd eu hasesiad o'u hanabledd dysgu wedi'i dderbyn yn hwyr.

Cafwyd cynnydd hefyd yn nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer asesu a chefnogi plant a phobl ifanc nad ydynt yn cyflawni'r meini prawf o ran bod yn gymwys i dderbyn cymorth ar gyfer eu hanghenion ymddygiadol, gan nad oes ganddynt anabledd dysgu. Ar hyn o bryd, nid yw'r gwasanaethau Nyrsio a Seicoleg yn darparu unrhyw wasanaeth amgen i ddiwallu anghenion y grŵp hwn o blant a phobl ifanc.

Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Nyrsio Anableddau Dysgu Pediatrig Cymunedol a hefyd am wasanaethau uniongyrchol, e.e. seibiannau byr o ganlyniad i'w hanghenion cymhleth.

Rydym wrthi'n datblygu pecynnau cymorth a hyfforddiant i deuluoedd sy'n cyd-fynd â rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel Y Blynyddoedd Rhyfeddol, Epats a chyrsiau mwy pwrpasol yng nghyswllt 'rheolaeth emosiynol', ynghyd â gweithdai sy'n rhoi sylw i destunau penodol.

Mae'r angen am asesiadau a chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol wedi cynyddu hefyd, gan gynnwys hynny yng nghyswllt diogelu Plant sy'n Derbyn Gofal.

Mae'r gwasanaeth wedi penodi rhywun i swydd y Cydlynydd Pontio a fydd yn cychwyn yn y dyfodol agos. Bydd yn caniatáu i ni adolygu'r broses bontio gyfredol ynghyd â datblygu canllawiau sy'n cyd-fynd â'r gwaith a gyflawnir o dan y Prosiect Trawsnewid Anableddau Dysgu, ynghyd â datblygiadau cenedlaethol eraill, h.y. y Ddeddf ADY, LPS.

**Prosiect Datblygu Gwasanaethau**

**Y Gronfa Gofal Integredig (ICF)**

Mae cyllid ICF wedi ein galluogi i:-

- Sefydlu cartref plant preswyl bach a fydd yn darparu seibiannau byr dros nos i blant ag anghenion cymhleth.
- Gweithio mewn partneriaeth â Gwynedd i ddatblygu prosiect gofalwyr maeth ar gyfer darparu seibiannau byr ar draws y ddwy sir, ynghyd â gwella ein gwasanaethau cymorth presennol i ddiwallu anghenion newidiol.
- Sefydlu lleoliad newydd ar gyfer gwasanaethau cymorth a gofrestrir i ddarparu ystod o seibiannau byr i blant a phobl ifanc anabl.
- Ariannu prosiect 'Helping Out' mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr i ddarparu cyllid ar gyfer ystod o geisiadau am gymorth ar gyfer gofalwyr a weinyddir gan y gwasanaeth ar ein rhan.

**Prosiect Partneriaeth Mencap / Epats**

Bu Gwasanaeth Plant a Theuluoedd Ynys Môn yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar ataliol i blant ag anabledd dysgu. Yn dilyn seminar y cafwyd ymateb da iddo ynghylch y Blynyddoedd Cynnar, a arweiniwyd gan yr Athro Richard Hastings o Ganolfan CEDAR ym Mhrifysgol Warwick a Mencap Gogledd Iwerddon, sefydlwyd prosiect peilot a gynhelir dros dair blynedd. Bydd y peilot yn canolbwyntio ar ddatblygu sylfaen ar gyfer cyd-gynhyrchu, mapio asedau o ran y ddarpariaeth bresennol ac unrhyw fylchau ynddi, ynghyd ag ymyriadau strwythuredig ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar fel EPATS, a rhoi cymorth i rieni ddylunio a datblygu'r cymorth y teimlent y mae ei angen arnynt i helpu eu teuluoedd i ffynnu.

Mae'r prosiect yn ymwneud a gweithio gyda phedwar partner allweddol:
Rhieni/gofalwyr, Mencap Môn, Mencap Cymru, Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn, a bydd yn gweithio'n agos â BIPBC.

Penodwyd Cydlynydd Cymorth i Deuluoedd, a gefnogwyd gan Mencap, ac mae gwaith wedi dechrau i ymgysylltu â theuluoedd a gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau ar draws y sir, sy'n ymwneud â rhoi cymorth i blant ag anableddau dysgu a'u teuluoedd.

## Casgliad ac argymhellion

1. Cydweithio i ganfod bylchau a gwella gwasanaethau presennol, ynghyd â hyrwyddo ethos cyd-gynhyrchu i gefnogi datblygiad pellach gwasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd.

2. Bydd y cam nesaf yn natblygiad gwasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd yn cael ei arwain gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, cyflwyno'r Cod Ymarfer ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, ynghyd â Threfniadau Amddiffyn Rhyddid.

3. Mae angen datblygu cydweithio ymhellach ar draws ystod o wasanaethau i oedolion er mwyn diwallu anghenion oedolion sy'n agored i niwed nad ydynt efallai'n cyflawni'r trothwy ar gyfer derbyn gwasanaethau gan y gwasanaethau CMHT ac anableddau dysgu i oedolion.

# Plant â phrofiad o fod mewn gofal

Mae gennym ddau **Gartref Grŵp Bach** - o'r enw "**Cartrefi Clyd Môn**" - sydd wedi'u cofrestru ac yn weithredol - sef Cartref Clyd Bryn Hwfa, sy'n cartrefu un unigolyn ifanc, a'r ail, sef Cartref Clyd Llanfair, lle bydd dau o bobl ifanc yn byw. Byddwn yn gweithio â phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth o ran gofal, sydd wedi dioddef trawma yn ystod eu plentyndod cynnar ac sy'n brwydro ag anhwylderau ymlyniad.

Ein bwriad yw cofrestru cartref grŵp bach arbenigol arall erbyn canol 2021, a fydd yn gyfle i ddarparu seibiannau ar gyfer plant a gefnogir gan y gwasanaethau plant arbenigol. Gobeithiwn hefyd y gellir cofrestru trydydd cartref grŵp bach ar gyfer plant sy'n derbyn gofal cyn diwedd y flwyddyn ariannol nesaf, a fydd yn caniatáu i ni allu lleoli dau unigolyn ifanc arall, y byddent fel arall mewn perygl o gael eu lleoli y tu allan i'r sir.

Ar ddiwedd Mawrth 2021, roedd gan y Tîm Lleoli Plant (Gwasanaeth Maethu Ynys Môn) gyfanswm o 64 o deuluoedd maeth, sy'n cynnwys:

- 36 aelwyd sy'n darparu gofal maeth prif ffrwd
- 28 aelwyd sy'n darparu gofal maeth gan unigolion cysylltiedig (mae hyn yn cynnwys 1 sydd wedi'i gofrestru dros dro o dan Reoliad 26)

Rhywbeth cadarnhaol i'w nodi o ran y flwyddyn ddiwethaf oedd ein bod wedi gallu parhau i recriwtio, asesu, cymeradwyo a rhoi cymorth i ofalwyr maeth Ynys Môn yn ystod y pandemig trwy ddefnyddio dulliau gweithio newydd fel ymweliadau 'rhithwir' â chartrefi trwy gyfrwng fideo. Yn ystod 2020/21, rhoddwyd cymeradwyaeth i:

- **9** aelwyd maethu prif ffrwd (cyffredinol)
- **14** aelwyd ag unigolion cysylltiedig (aelodau teulu a ffrindiau) (mae hyn yn cynnwys 2 a aeth yn syth ymlaen wedyn i sefydlu GGA/'SGO' – Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig.

Rydym yn dal i gyfrannu at **Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru** sy'n gweithredu ar lefel ranbarthol. Yn ystod 2020-21, lleolwyd pum plentyn o Ynys Môn gyda theuluoedd ar gyfer eu mabwysiadu, ac o'r pump ohonynt daeth un wedyn i fod yn destun gorchymyn mabwysiadu ac felly fe gafodd ei fabwysiadu'n ffurfiol. Mae'n debygol y caiff y pedwar plentyn arall eu mabwysiadu'n ffurfiol yn ystod 2021-22.

Ar nodyn cadarnhaol, mae pum teulu ym Môn ar hyn o bryd yn y broses o gael eu hasesu ar gyfer mabwysiadu. Os yn llwyddiannus, mae'n debygol na fydd plant o Ynys Môn yn cael eu lleoli gyda'r teuluoedd hyn; fodd bynnag, byddant yn cyfrannu at y gronfa o fabwysiadwyr sy'n gallu darparu lleoliadau i blant Cymru, o ardaloedd ledled Gogledd Cymru a thu hwnt.

- Mae tua 12,000 o blant a phobl ifanc yn preswylio ym Môn. Rhagwelir y bydd y boblogaeth hon yn gostwng dros yr ugain mlynedd nesaf.
- Ar hyn o bryd mae 157 o blant yng ngofal yr Awdurdod Lleol ('yn derbyn gofal').
- O ran y boblogaeth hon, mae 87 yn wrywaidd (55%) a 70 yn fenywaidd (45%).
- O ran ethnigrwydd y plant 'sy'n derbyn gofal' (LAC) ym Môn, mae'r mwyafrif llethol ohonynt yn wyn Cymreig/Prydeinig (98+%). Cafodd dau o blant eu dynodi'n Blant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Lloches'.
- Lleolwyd 45 (29%) o blant 'y tu allan i'r sir'. Lleolwyd 7 i'w mabwysiadu, sy'n benderfyniad cadarnhaol o ystyried ardal ddaearyddol fach yr ynys. Lleolwyd tri phlentyn arall y tu allan i Gymru oherwydd nad oedd modd eu cyfatebu â mabwysiadwyr o fewn Cymru ar yr adeg yr oeddynt eu hangen.
- Lleolwyd 103 (65%) o blant gyda gofalwyr maeth, y mae 24 (15%) ohonynt wedi'u lleoli y 'tu allan i'r sir'.
- Mae 1 plentyn wedi'i leoli mewn llety diogel ac mae 4 o blant yn byw'n 'annibynnol', gyda chymorth y gwasanaeth.
- Mae'r mwyafrif helaeth o blant 'sy'n derbyn gofal' yn destun gorchmynion gofal neu orchmynion gofal interim (140 = 89%). Cafodd 6 (4%) eu lletya'n wirfoddol, tra bo 11 (7%) yn destun gorchmynion lleoli.

## Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

Cafwyd 4 sylw o'r holiadur a oedd yn gysylltiedig â phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Teimlodd ID 100 bod y cyfathrebu rhwng darparwyr cymorth yn wych. Ychwanegodd eu bod wedi dangos hyblygrwydd da o ran arferion gweithio trwy gydol y pandemig.

Teimlodd 204 bod Teulu Môn yn gweithio'n dda ar hyn o bryd. Amlygodd sut y maent yn delio â rhanddeiliaid mewn modd cyfeillgar ac effeithlon. Yn ogystal, teimlent, yn amlach na pheidio, bod y gwasanaeth yn gwneud y penderfyniadau iawn, sy'n cael ai adlewyrchu yn y ffigurau ar gyfer ailgofrestriadau.

Teimlodd ID 227 bod y ddarpariaeth ar gyfer y grŵp hwn sy'n agored i niwed wedi gwella. Roedd gweithwyr allweddol yn darparu cysondeb, roedd materion a oedd angen sylw yn cael eu cydnabod yn gynnar, a bod cymorth a chamau i gyfeirio ymlaen am gymorth pellach fel y bo angen yn cael eu hintegreiddio o fewn y gwasanaeth craidd. Roeddynt yn awyddus i sicrhau bod y ddarpariaeth yn caniatáu i lais y plentyn gael ei glywed, ac yn rhoi'r hyder i geisio cymorth.

Roedd ID 100 yn teimlo y byddai cynnydd yn nifer y stoc tai un ystafell wely yn werthfawr i'r gwasanaeth, ac yn welliant. Ychwanegwyd ganddynt y byddai creu prosiect tebyg i Llety Pontio, ond

ar gyfer pobl ifanc, yn werthfawr. Byddai'n caniatáu i'r rheiny sy'n gymwys allu gadael llety â chymorth a chael tenantiaeth lle byddai modd iddynt dderbyn cymorth dwys.

# Adolygiad o wasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

## Holiadur Plant o 2018-19

Nifer y cyfranogwyr a gynhwyswyd yn yr holiadur hwn oedd 35.

Roedd y datganiad cyntaf o fewn yr holiadur yn ymwneud â hapusrwydd: 'Gan feddwl am eich bywyd ar hyn o bryd, ydych chi'n cytuno â'r canlynol: Rydw i'n byw mewn cartref lle rydw i'n hapus'

- Roedd 80% yn cytuno eu bod yn hapus yn y cartref yr oeddynt yn byw ynddo.
- Roedd 3% yn anghytuno ac nid oeddynt yn hapus yn lle'r oeddynt yn byw.
- Roedd 14% yn teimlo ei bod yn hapus yn eu cartref weithiau.
- 'Ddim yn gwybod' oedd ateb 3% ohonynt.

Sylwadau ychwanegol:

- Roedd 2 o'r sylwadau'n mynegi pa mor hapus yr oeddynt yn eu cartref.
- Roedd 2 o'r sylwadau'n nodi eu rhwystredigaeth eu bod yn dal i fod mewn cartref gofal oherwydd eu hoedran, a'u bod yn teimlo ynddynt eu hunain eu bod yn rhy aeddfed i fod yn y math yna o amgylchedd mwyach.
- Nododd 1 o'r sylwadau eu bod yn anhapus â'r nifer o bobl a oedd yn byw yn y tŷ. Eglurwyd eu bod eisiau eu hystafell wely eu hunain.

Yn aml, gall y cymorth a'r gofal i blant sydd angen gofal greu perthynas fuddiol rhwng y plentyn a'i deulu. Roedd y datganiad a ganlyn yn ceisio cael dealltwriaeth o b'un a oedd hyn yn wir: 'Rydw i'n teimlo bod fy mywyd teuluol yn well oherwydd y gofal a'r cymorth a dderbyniwyd gennym'.

- Roedd 67% yn cytuno bod bywyd teuluol yn well oherwydd y gofal a'r cymorth a dderbyniwyd ganddynt.
- Roedd 5% yn anghytuno.
- Roedd 17% yn teimlo ei fod yn well weithiau.
- 'Ddim yn gwybod' oedd ateb 11% ohonynt.

Sylwadau ychwanegol:

- Roedd 1 o'r sylwadau'n nodi'r modd yr oeddynt yn teimlo eu bod wedi ymddieithrio o'u teulu.

Roedd y datganiad nesaf yn ceisio gweld p'un a oedd y plant a oedd mewn gofal yn hoffi byw gyda'r bobl yr oeddynt yn byw gyda hwy: 'Rydw i'n hapus gyda'r bobl rydw i'n byw gyda hwy.'

- Roedd y mwyafrif helaeth yn cytuno, gyda 81% yn nodi eu bod yn hapus gyda'r bobl yr oeddynt yn byw gyda hwy.
- Mynegodd 14% eu bod yn hoffi byw gyda'r bobl yn eu cartref weithiau.

- Nid oedd 5% yn hoffi byw gyda'r bobl yr oeddynt yn byw gyda hwy yn eu cartref.

Sylwadau ychwanegol:

- Roedd 2 sylw'n nodi'r modd yr oeddynt yn hapus iawn gyda'r bobl yr oeddynt yn byw gyda hwy, a pha mor dda yr oeddynt yn gofalu amdanynt.
- Roedd 2 sylw arall yn mynegi'r modd yr oeddynt yn ystyried bod rhai o'r bobl yr oeddynt yn byw gyda hwy yn codi eu gwrychyn.

Law yn llaw â'r datganiad blaenorol, mae'r hyn y mae plant mewn gofal yn cael a ddim yn cael ei wneud yn chwarae rhan yn faint y maent yn mwynhau amgylchedd eu cartref: 'Rydw i'n cael gwneud y pethau rydw i'n hoffi eu gwneud'

- Roedd 67% yn cytuno, yn gyffredinol, eu bod yn gallu gwneud y pethau yr oeddynt yn hoffi eu gwneud.
- Roedd 25% yn nodi eu bod weithiau'n cael gwneud beth y maent yn hoffi ei wneud.
- Roedd 3% yn anghytuno'n llwyr.
- 'Ddim yn gwybod' oedd ateb 5% ohonynt.

Sylwadau ychwanegol:

- Roedd 1 sylw'n egluro'r modd yr oeddynt fwy neu lai'n cael gwneud popeth yr hoffent ei wneud, ar wahân i symud adref.
- Roedd sylwadau eraill yn nodi y gallent wneud fel y mynnent weithiau ac o fewn rheswm.

O ran rhai o'r plant sydd wedi symud i gartref, maent yn cael eu tynnu o'r amgylchedd sy'n gyfarwydd iddynt. Yn aml, gall hyn achosi problemau, ac felly roedd y datganiad a ganlyn yn ceisio cael gwell dealltwriaeth: 'Rydw i'n teimlo fy mod yn perthyn yn yr ardal rydw i'n byw ynddi hi'.

- Roedd 72% yn cytuno ac yn teimlo eu bod yn perthyn i'r ardal yr oeddynt yn byw ynddi hi.
- Roedd 9% yn anghytuno ac nid oeddynt yn teimlo eu bod yn perthyn i'r ardal yr oeddynt yn byw ynddi hi.
- Roedd 11% yn teimlo eu bod yn perthyn i'r ardal o'u hamgylch weithiau.
- 'Ddim yn gwybod' oedd ateb 8% ohonynt.

Sylwadau ychwanegol:

- Roedd 1 sylw'n datgelu nad oeddynt yn ystyried lle'r oeddynt yn byw fel eu cartref o gwbl a'u bod eisiau dychwelyd i'w tref enedigol.
- Nododd 1 oeddynt ond yn defnyddio'r ardal y maent yn byw ynddi ar hyn o bryd i fynd i siopa ac nad oeddynt yn mynychu'r ysgol leol.
- Mynegodd 1 y modd y byddai eu gofalwyr yn mynd a hwy'n ôl i'w tref enedigol i weld eu ffrindiau o'r ardal honno.

Mae'r cysur a geir o berthnasau ag aelodau teulu, ffrindiau a chymdogion yn rhywbeth y mae llawer o bobl yn ei gymryd yn ganiataol. Fodd bynnag, i'r rheiny sydd wedi symud i gartrefi, gall fod yn straen yn aml: 'Rydw i'n hapus gyda fy nheulu, fy ffrindiau a'm cymdogion'.

- Roedd 72% yn cytuno eu bod yn hapus gyda'u teulu, eu ffrindiau a'u cymdogion.

- Roedd 5% yn anghytuno ac yn dweud nad oeddynt yn hapus.
- Roedd 17% yn nodi eu bod hapus weithiau.
- 'Ddim yn gwybod' oedd ateb 6% ohonynt.

Sylwadau ychwanegol:

- Roedd 1 sylw yn ein gwneud yn ymwybodol eu bod yn hapus iawn gyda'r cymorth gan aelodau teulu a ffrindiau.
- Roedd 1 sylw yn nodi bod eu ffrindiau yn codi eu gwrychyn weithiau.

Mae diogelwch o'r pwys mwyaf i'r rheiny sy'n cael eu symud i gartref gwahanol: 'Rydw i'n teimlo'n ddiogel. Er enghraifft, bod rhywun yn gofalu amdanoch a'ch bod yn ddiogel rhag unrhyw un sy'n gallu eich brifo neu eich trin yn wael, o fewn a'r tu allan i'ch cartref'.

- Roedd 81% yn teimlo eu bod yn ddiogel yn lle'r oeddynt yn byw.
- Roedd 14% yn teimlo'n ddiogel weithiau.
- Nid oedd 5% yn teimlo'n ddiogel o fewn na'r tu allan i'w cartref.

Sylwadau ychwanegol:

- Cafwyd 2 yn egluro'r modd y maent yn teimlo'n ddiogel, ond gydag un o'r sylwadau'n egluro eu bod yn dueddol o deimlo'n fwy diogel adref.

Mae gwybod pwy i siarad â hwy pan fo angen cymorth yn chwarae rôl bwysig o ran sicrhau bod y plant hyn yn gallu ymgartrefu yn eu hamgylchedd newydd: 'Gan feddwl am y gofal a'r cymorth a gafwyd gennych, a ydych yn cytuno â'r canlynol: Rydw i'n gwybod pwy i siarad â hwy am fy ngofal a'm cymorth'.

- Roedd 86% yn teimlo eu bod yn gwybod pwy i siarad â hwy ynghylch eu gofal a'u cymorth.
- Roedd 8% yn gwybod pwy i gysylltu â hwy weithiau, tra nad oedd 3% yn gwybod pwy i gysylltu â hwy am ragor o gymorth a gofal.
- Roedd 3% wedi ateb 'na' i'r cwestiwn hwn, ac felly nid oeddynt yn gwybod pwy i fynd atynt i ofyn am gymorth.

Sylwadau ychwanegol:

- Roedd 1 sylw'n nodi 'O ran fy rhieni maeth, dwi'n siarad hefo nhw am bob dim, a fy nheulu'.

Gan gyd-fynd â'r datganiad uchod, mae'n bwysig, pan fydd y plant hyn yn chwilio am gymorth eu bod yn derbyn y cyngor cywir: 'Rydw i wedi derbyn y wybodaeth neu'r cyngor iawn pan oeddwn ei angen'.

- Roedd 70% yn cytuno eu bod wedi derbyn y wybodaeth gywir pan fo angen.
- Atebodd 22% eu bod wedi derbyn y wybodaeth/cyngor iawn weithiau.
- Nid oedd 8% yn gwybod sut i ateb y datganiad hwn.

Sylwadau ychwanegol:

- Roedd 1 sylw'n datgelu nad oedd y gwasanaethau yn helpu pan oedd ganddynt broblem iechyd meddwl.
- Roedd 1 sylw'n egluro eu bod yn teimlo bod eu gweithiwr cymdeithasol weithiau'n celu gwybodaeth bwysig y byddent yn hoffi ei gwybod.
- Roedd 1 sylw'n nodi eu bod yn teimlo bod rhai y maent mewn cysylltiad â hwy yn trosglwyddo'r un wybodaeth drosodd a throsodd.

Mae parch yn agwedd ar fywyd y mae pobl yn ei ddisgwyl, ac mae hynny'n wir o ran plant hefyd. Roedd y datganiad a ganlyn yn ceisio sefydlu p'un a yw plant sy'n mynd i gartref yn cael eu trin â pharch, fel unrhyw un arall, ai peidio.

- Roedd 83% yn cytuno y cawsant eu trin â pharch.
- Roedd 9% yn teimlo eu bod yn cael eu trin â pharch weithiau.
- 'Ddim yn gwybod' oedd ateb 8% ohonynt.

Sylwadau ychwanegol:

- Roedd 2 sylw'n nodi nad oeddynt yn deall beth oedd y gair parch yn ei olygu, a allai awgrymu rheswm y tu ôl i pam fod 8% wedi ateb 'ddim yn gwybod'.
- Roedd 1 sylw'n cymeradwyo'r gofalwyr maeth ac roedd yr unigolyn yn teimlo eu bod yn parchu'r naill a'r llall.
- Roedd 1 sylw'n nodi eu bod yn cael parch gan staff, ond nid gan eraill.

Gan ddod â sawl un o'r cwestiynau uchod at ei gilydd, mae'r datganiad: 'Rydw i'n hapus gyda'r gofal a'r cymorth a gefais' yn helpu i greu darlun cyffredinol i'r plant sy'n gorfod byw mewn cartref.

- Roedd 72% yn cytuno eu bod yn hapus gyda'r gofal a'r cymorth a dderbyniwyd ganddynt.
- Roedd 17% yn teimlo eu bod yn hapus gyda'r cymorth a dderbyniwyd ganddynt weithiau.
- Nid oedd 3% yn hapus gyda'r gofal a'r cymorth a gynigiwyd.
- 'Ddim yn gwybod' oedd ateb 8% ohonynt.

Sylwadau ychwanegol:

- Roedd un sylw'n nodi eu bod 'ddim yn hapus gyda chymorth y Gwasanaethau Cymdeithasol'.

Roedd y cwestiwn olaf yn yr holiadur wedi'i anelu at blant a oedd yn 16/17 mlwydd oed ac y byddent yn gallu sefyll ar eu traed eu hunain yn fuan: 'Rydw i wedi cael cyngor, help a chymorth a fydd yn fy mharatoi ar gyfer bywyd fel oedolyn'.

- Roedd 55% yn cytuno eu bod wedi derbyn cyngor a oedd yn eu paratoi ar gyfer bywyd fel oedolyn.
- Dywedodd 9% eu bod yn derbyn cyngor ar gyfer byw bywyd fel oedolyn weithiau.
- Roedd 27% yn nodi nad oeddynt wedi derbyn unrhyw gyngor a oedd yn eu paratoi ar gyfer byw bywyd fel oedolyn.
- 'Ddim yn gwybod' oedd ateb 9% ohonynt.

Sylwadau ychwanegol:

- Roedd un sylw'n nodi eu bod 'ddim yn hapus gyda chymorth y Gwasanaethau Cymdeithasol'.

# Casgliad ac argymhellion

Mae'r boblogaeth 'sy'n derbyn gofal' wedi parhau i fod yn sefydlog er y pwysau diamau ar deuluoedd a gwasanaethau o ganlyniad i'r pandemig Covid-19 byd-eang, gan amrywio ychydig rhwng 155 a 160.

Mae nifer y plant a leolir gyda'u rhieni, sy'n destun gorchmynion gofal, yn dal i fod yn uwch nag y byddai'r gwasanaeth yn ei hoffi (18%). Rhoir sylw unwaith eto i geisiadau am ryddhau, lle bo asesiadau wedi dod i'r casgliad bod hyn yn gymesur. Mae'r diwygiadau cyfiawnder teuluol, mewn perthynas â rhoi gorchmynion goruchwylio i blant sy'n destun achosion gofal lle bo plant yn dal i breswylio gyda rhieni, yn ddatblygiad a groesawir yn nhermau cymesuredd.

Prif ffactor o ran yr Awdurdod Lleol yw sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer plant 'sy'n derbyn gofal'. Roedd archwiliad diweddar o blant a oedd wedi profi tri lleoliad neu ragor o fewn cyfnod o ddeuddeg mis yn datgelu bod y mwyafrif yn profi gorfod symud am resymau cadarnhaol (e.e. tynnu o ofal rhieni, lleoli mewn gofal maeth, symud at ofalwyr cysylltiedig yn ystod cyfnod achosion gofal). Roedd nifer fechan yn ymwneud â phlant yn eu harddegau'n gorfod symud pan nad oedd hynny wedi'i gynllunio, a oedd hefyd yn amlygu'r anawsterau o ran canfod lleoliadau addas i'r garfan hon o blant, naill ai trwy ofal maeth/gofal preswyl, a hynny naill ai'n fewnol neu o fewn y farchnad breifat.

Mae'r cartrefi grŵp bach a ddatblygwyd gan y gwasanaeth yn un ymateb i'r her hon. Mae'r plant hynny a leolir o fewn cartrefi grŵp bach yr Awdurdod wedi profi sefydlogrwydd, nid yw'r un o'r plant a leolwyd o fewn y cartrefi hynny wedi profi gorfod symud lleoliad.

Hefyd, rhagwelir y bydd datblygu 'Maethu Cymru' yn targedu darpar ofalwyr ar gyfer plant hŷn sydd mewn sefyllfaoedd mwy cymhleth.

Mae lles emosiynol plant 'sy'n derbyn gofal' yn dal i fod yn flaenoriaeth uchel i'r gwasanaeth. Er y nifer uwch o blant 'sy'n derbyn gofal' o fewn y gwasanaethau iechyd meddwl, fel plant, ac yn ddiweddarach fel oedolion, o ganlyniad i'w profiadau bywyd, mae'r pandemig byd-eang hefyd wedi effeithio lles emosiynol nifer sylweddol o'n plant. Roedd arolwg mewnol diweddar yn ystyried fel y mae ein plant wedi dod yn fwy a mwy ynysig yn sgil y pandemig, a sut y mae gwasanaethau wedi addasu i gyflawni gofynion cynyddol yn ogystal â dulliau gweithio newydd. Cydnabyddir pwysigrwydd cael mynediad at weithgareddau hamdden/cymdeithasol/chwaraeon o ran hybu lles emosiynol.

**Argymhellion**

1. Rhoi sylw parhaus i ryddhau gorchmynion gofal o ran plant a leolwyd â rhieni, ynghyd â cheisiadau am orchmynion goruchwylio i'r plant hynny sy'n byw gyda rhieni yn ystod achosion gofal ac ar ôl hynny.

2. Rhoi sylw i argaeledd lleoliadau sydd wedi'u cyfatebu'n briodol ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau sydd mewn sefyllfaoedd cymhleth, sy'n cynnwys parhau i ddatblygu cartrefi grŵp bach ynghyd ag ymgysylltu â Maethu Cymru.

3. Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau sy'n cefnogi lles emosiynol plant 'sy'n derbyn gofal'.

# Plant sydd angen gofal a chymorth

Mae 'Voices from Care', sy'n gweithio gyda Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Cymru wedi cynyddu aelodaeth eu grwpiau lleol yn sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, gan fynd o 0 i 4, ac maent bellach yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd. Er bod Covid-19 wedi effeithio hyn, mae cyfarfodydd rhithwir wedi caniatáu i bobl ifanc sydd wedi'u lleoli y tu hwnt i Ynys Môn eu mynychu, fodd bynnag, mae diddordeb brwd mewn cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb unwaith y byddwn yn cael gwneud hynny'n ddiogel. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad allgymorth, yr oedd y ddau ohonynt yn llwyddiant o ran recriwtio aelodau newydd a chynnal nifer bresennol yr aelodau. Dros yr ychydig fisoedd nesaf, bydd 'Voices from Care' yn gweithio gydag ein pobl ifanc, sydd wedi meddwl am brosiect i ddarparu gwybodaeth am y grŵp, gyda'r posibilrwydd o recriwtio aelodau newydd, a chaniatáu i boblogaeth ehangach Ynys Mon, sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gael cyfrannu at hunaniaeth y grŵp.

Y weledigaeth gyffredinol ar gyfer y prosiect 'Un Drws Ffrynt' ym Môn fyddai creu un pwynt mynediad at gymorth ar gyfer holl sbectrwm anghenion teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i DA, iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, tai a diogelu plant neu oedolion. Rhagwelwn y byddid yn gwneud hyn gam wrth gam, dros gyfnod o amser. Byddai cyfnod cychwynnol y prosiect yn canolbwyntio ar sgrinio atgyfeiriadau a wneir i Teulu Môn, sef yr hwb gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gyfer gwasanaeth plant a theuluoedd Ynys Môn.

Nodau Un Drws Ffrynt:

- Canfod risgiau ac anghenion o fewn teuluoedd sy'n profi cam-drin domestig ar y cyfle cyntaf.
- Rhoi cymorth i oedolion a phlant sy'n agored i niwed gael ymateb cyflym ac effeithiol i fynd i'r afael â'r anghenion o fewn eu teulu, cyn cyrraedd trothwyon diogelu.
- Lliniaru effaith Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACEau) ar blant a phobl ifanc, a lleihau'r achosion o ACEau yn y dyfodol.
- Lleihau cyfradd y rhai sy'n cael eu hailatgyfeirio i'r gwasanaeth.
- Lleihau nifer y troseddau a adroddir sy'n ymwneud â cham-drin domestig ar yr ynys.
- Datblygu gwasanaethau cyfredol a newydd, yn seiliedig ar anghenion a risgiau.
- Datblygu llwybrau ar gyfer gwasanaethau yn ôl anghenion a risgiau.

Yn ystod 2020-21, trafodwyd cyfanswm o 154 o blant yn y cyfarfod un drws ffrynt yn ystod y flwyddyn. Mae aelodaeth y cyfarfod wedi cynyddu, ac mae bellach yn cynnwys y darparwyr iechyd meddwl trydydd sector sef PARABL, ynghyd â GORWEL, Heddlu Gogledd Cymru, addysg, gwasanaethau cymorth tai, a'r gwasanaethau iechyd. Cynhelir archwiliad a gwerthusiad o'r prosiect un drws ffrynt ym mis Ebrill a Mai 2021.

Ffurfiwyd yr Hwb Cymorth Cynnar mewn ymateb i'r gwaith a gwblhawyd o fewn y "Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd**"** ar yr ymateb amlasiantaethol i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ynghyd â gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol eraill sy'n anelu at ddarparu gwasanaethau cost effeithiol o ansawdd well, sy'n diogelu canlyniadau da i bawb ym Môn. Yn bennaf, mae'r rhain yn ymwneud â:

- Gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) i sicrhau bod teuluoedd yn cael mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth perthnasol cyn gymaint ag y bo modd o fewn eu cymunedau, er mwyn meithrin lles a chadernid.

- Ymateb parhaus Cyngor Sir Ynys Môn (Cydlynwyr Teuluoedd a Chymunedau) i bedwar o 12 argymhelliad Arolwg o Wasanaethau Plant (2015) Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Mae'r rhain yn ymwneud â sicrhau bod ymyriadau cynnar, mwy integredig ar gael i blant a theuluoedd trwy waith partneriaeth agosach a rhannu gwybodaeth yn well.

Mae'r aelodaeth a'r nifer sy'n mynychu'r hwb o safbwynt asiantaethau yn dal i fod yn gryf. Trafodwyd cyfanswm o 275 o blant yn yr hwb yn ystod 2020/21. Cynigiwyd gwasanaethau cymorth i bob un o'r plant hynny a'u teuluoedd.

Bu'r Cydlynwyr Teuluoedd a Chymunedau (CTCh'au/FACCs) yn mynychu'r Hwb Cymorth Cynnar bob pythefnos (fe'i cynhaliwyd yn ffurf cyfarfod 'Teams' rhithwir), Cyfarfodydd Timau Cydlynu Ardal Lleol Medrwn Môn a Chyfarfodydd Staff Medrwn Môn.

Yn dilyn y brigiad o achosion COVID-19 mae CTCh'au wedi parhau i roi cymorth i'r rheiny a atgyfeiriwyd atom trwy gysylltu dros y ffôn, cyfarfodydd 'Zoom' a thrwy'r e-bost, gan sicrhau bod y teuluoedd yn cael mynediad at adnoddau priodol yn ystod yr adeg anodd hon. Derbynnir atgyfeiriadau trwy'r HCC a Gwasanaeth Linc Cymunedol Môn.

- Rhannu adnoddau ar-lein perthnasol â defnyddwyr gwasanaeth yn ystod y cyfnodau clo (gweithgareddau rhithwir, adnoddau hyfforddi, gweithgareddau celf a chrefft ar-lein ac adnoddau iechyd meddwl).

- Rheolwyd a dosbarthwyd y Grant Cymunedol i Blant a Theuluoedd, ynghyd â'r Gronfa Cadw'n Actif i grwpiau cymunedol ar draws yr ynys.

- Gweithio mewn partneriaeth – Swyddogion Lles, Timau Cymorth Lleol, banciau bwyd lleol, meddygfeydd, Menter Môn, y Gwasanaethau Ieuenctid, Gweithredu dros Blant, y Tîm o Amgylch y Teulu (TAF), Gwasanaethau Ieuenctid Gwynedd. Mynychwyd sesiynau Cyfarfod y Timau gydag Adran Tai Ynys Môn, y CMHT a'r Gwasanaeth Tân.

Bu'r Cydlynwyr Teuluoedd a Chymunedau yn gweithio gyda 43 o blant yn ystod y flwyddyn.

## Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

Roedd 6 sylw ar ôl yn yr holiadur a briodolwyd i blant sydd angen gofal a chymorth.

Roedd ID 83 yn teimlo bod cael sefydliadau trydydd sector sydd ar gael i roi cymorth i'r rheiny sydd mewn angen, yn enwedig pobl ifanc sy'n ddigartref, yn rhywbeth cadarnhaol sydd ar waith.

Roedd 3 o'r pwyntiau dan sylw'n ymwneud â'r modd yr oedd Covid-19 wedi newid y cymorth yr oedd plant yn ei dderbyn. Eglurodd ID 100 mai'r arfer bellach yw defnyddio cyfathrebu electronig, tra bod cyswllt wyneb yn wyneb wedi'i atal. Roedd yn broblem yn eu barn hwy gan fod cyswllt dros y ffôn yn gweithredu fel rhwystr i allu rhywun i ddarllen ciwiau dieiriau. Daeth eu pwyntiau i ben trwy egluro eu bod yn gobeithio gweld dychweliad i gyswllt wyneb yn wyneb gan mai dyma'r modd mwyaf effeithiol o gefnogi plant. Roedd ID 104 yn cefnogi'r pwynt hwn, gan deimlo bod angen rhagor o gyllid gan fod y galw wedi cynyddu. Roeddynt yn teimlo bod gwasanaethau o dan fwy o bwysau bellach i gyrraedd y rheiny sydd angen eu cymorth, ac felly roedd yr angen i gyflogi rhagor o staff o'r pwys mwyaf. Roeddynt yn rhybuddio y bydd yr 'ôl-groniad' yn cynyddu yn y tymor hir os na roddir rhagor o gymorth i'r gwasanaeth.

Ar y llaw arall, roedd ID 227 yn anghytuno â'r 2 sylw blaenorol, gan nodi eu bod wedi parhau trwy gydol y cyfnod clo. Ychwanegwyd ganddynt eu bod wedi symud i ymgynghoriadau rhithwir i ddechrau, ond roedd pob gwasanaeth erbyn hyn yn dychwelyd i roi cymorth wyneb yn wyneb.

Nododd ID 117 eu bod wedi ymestyn eu cyfnod ymgysylltu, a'u bod wedi dyfalbarhau pan roedd pobl ifanc yn amharod i dderbyn cymorth.

Gwnaeth ID 348 bwynt ychydig yn wahanol, a nododd sut yr oeddynt yn cefnogi rhieni. Eglurwyd sut y byddent yn hoffi datblygu'r gwasanaeth E-PATS sydd, yn ei hanfod, yn wasanaeth sy'n cynnig cyd-gynhyrchu â rhieni i roi cymorth ac i roi cymorth i rieni eraill. Yn ogystal, er mwyn cyflawni hyn, maent yn teimlo y bydd angen cymorth priodol - ac mae cynllun peilot ar waith ym Môn ar hyn o bryd.

## Adolygiad o wasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

Oherwydd yr amgylchiadau a wynebir, fel y soniwyd yn y cyflwyniad, rydym yn bwriadu cwblhau'r rhan hon o'r adroddiad yn y dyfodol agos.

## Casgliad ac argymhellion

Blaenoriaethau:

- Cyflwyno ein hagenda integreiddio gyda phartneriaid iechyd ac o'r trydydd sector o fewn ein Timau Adnoddau Ardal (CRTs) i dri safle dynodedig ar yr ynys.

- Cwblhau'r gwaith o ran ail-dendro a gweithredu'r Gwasanaeth Byw â Chymorth newydd.

- Ymgynghori, mabwysiadu a gweithredu ein strategaeth newydd ar gyfer darparu cyfleoedd i rai ag anableddau dysgu yn ystod y dydd.

- Parhau i wreiddio a hyrwyddo gwaith y Cydlynwyr Teuluoedd a Chymuned (CTCh'au)

# Plant sydd mewn perygl o orfod derbyn gofal

Roedd Clybiau Ieuenctid ar gau o fis Mawrth ac roedd ysgolion hefyd wedi cau am gyfnodau sylweddol a oedd yn gwneud cyflawni rhaglen arferol y gwasanaeth ieuenctid yn amhosibl. O fis Mawrth i Orffennaf, roedd Gweithwyr Ieuenctid yn danfon pecynnau prydau ysgol am ddim, a roddodd gyfle anffurfiol iddynt hefyd wirio lles teuluoedd sy'n agored i niwed ar ran ysgolion a'r gwasanaethau cymdeithasol. Gwnaed cyfanswm o 3880 o ddanfoniadau i gartrefi yn ystod y cyfnod hwn. Dilynwyd hyn gan gynhyrchu dros 500 o Becynnau Gweithgaredd wythnosol i bobl ifanc sy'n agored i niwed.

Yn ystod 2020-21, roedd staff y Gwasanaeth Ieuenctid wedi cynnal 9076 cyswllt wyneb yn wyneb â phobl ifanc yn ystod y cyfnod anodd hwn, yn ogystal â 2221 o gysylltiadau rhithwir. Hefyd, roedd ymweliadau ar stepen y drws wedi galluogi cynnal cysylltiad â 1783 o rieni, sydd wedi sicrhau bod gan weithwyr bellach fwy o empathi â bywyd cartref y bobl ifanc, a'u bod wedi sefydlu perthynas â llawer o rieni. Roedd gwaith i gefnogi pobl ifanc gyda'u gweithgareddau ar gyfer Gwobr Dug Caeredin wedi parhau, gyda chynnal 4982 cysylltiad rhithwir a oedd yn sicrhau bod 42 o bobl ifanc wedi cwblhau eu gwobr Arian a 66 wedi cwblhau eu gwobr Efydd – hwn yw'r unig Awdurdod yng Nghymru sydd wedi medru cwblhau Alldeithiau Gwobr Dug Caeredin o dan ganllawiau llym Covid-19 a Llywodraeth Cymru. Ar ôl llacio cyfyngiadau'r cyfnodau clo, bu staff gwaith ieuenctid yn gweithio gyda'r heddlu i dargedu ardaloedd lle'r oedd pobl ifanc yn herio'r cyfyngiadau Covid. Rhoddwyd arweiniad a chymorth ganddynt hefyd i bobl ifanc gadw'n saff, ac i'w hannog i beidio ag ymwneud ag achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

## Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

Derbyniwyd 4 sylw mewn ymateb i'r holiadur y gellir eu cysylltu â'r bennod hon, a ddaeth gan unigolion o gefndiroedd amrywiol.

Nododd ID 228 eu bod yn llenwi bwlch trwy ddiogelu cyllid ICF ar gyfer gwasanaeth iechyd 'ar ffiniau gofal'. Pwrpas hyn yw cynorthwyo a chyfeirio pobl ifanc, sydd ar ffiniau gofal neu sydd wedi gadael gofal, ymlaen at wasanaethau iechyd perthnasol.

Teimlodd ID 104 mai gwelliant fyddai cael 'siop un stop' sydd ar gael i bawb. Yn ei hanfod, fe'i defnyddid fel man cyswllt lle gallai pobl canfod gwybodaeth/cael mynediad at yr amryw wasanaethau sydd ar gael mewn ardal benodol – sy'n codi ymwybyddiaeth am wasanaethau lleol.

Nododd ID 41 y problemau yr oedd Covid-19 wedi'u hachosi i'w gwasanaeth. Eglurwyd ganddynt y bu'r broses o ymateb i atgyfeiriadau yn araf iawn, a oedd wedi golygu na chafodd nifer o achosion eu hasesu o fewn y cyfnod amser cywir. Roedd lefel y cyswllt â theuluoedd yn wael o ganlyniad i ddiffyg cyswllt wyneb yn wyneb, enghraifft o hyn oedd defnyddio dim ond rhifau llinellau ffôn cyffredin, ac nid ffonau symudol, i gysylltu. Yn y pen draw, mae hyn wedi effeithio lefel yr ymddiriedaeth rhwng derbynyddion a'r gwasanaeth ei hun.

Roedd ID 77 yn adleisio'r pwynt uchod, gan nodi bod y cymorth wedi newid yn ystod y pandemig o fod yn 'gymorth ymarferol' i fod yn gymorth o bell. Roeddynt yn teimlo bod effaith hirdymor hyn yn ansicr, fodd bynnag, yr hyn a oedd yn glir yw nad yw llawer o deuluoedd wedi dewis derbyn y cymorth o bell a oedd/sydd yn cael ei gynnig.

## Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

Oherwydd yr amgylchiadau a wynebir, fel y soniwyd yn y cyflwyniad, rydym yn bwriadu cwblhau'r rhan hon o'r adroddiad yn y dyfodol agos.

## Casgliad ac Argymhellion

Blaenoriaethau:

1. Rhoi ID Gofalwyr Ifanc ar waith.

# Plant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol

## Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth hon

Mae tua 12000 o blant a phobl ifanc yn byw ar Ynys Môn. Rhagwelir y bydd y boblogaeth hon yn gostwng dros yr ugain mlynedd nesaf.

Yn ogystal, canfuwyd bod cyfanswm o 1,230 o blant yn dioddef anhwylderau gorbryder cyffredinol ac wedi derbyn gwasanaeth gan PARABL, GOLAU a Gweithredu dros Blant.

Mae lles emosiynol plant 'sy'n derbyn gofal' yn dal i fod yn flaenoriaeth uchel i'r gwasanaeth. Er y niferoedd cyffredinol uwch o blant 'sy'n derbyn gofal' o fewn y gwasanaethau iechyd meddwl, fel plant ac yn ddiweddarach fel oedolion, o ganlyniad i'w profiadau bywyd, mae'r pandemig byd-eang wedi cael effaith hefyd ar les emosiynol nifer sylweddol o'n plant. Roedd arolwg mewnol diweddar yn ystyried fel y bu ein plant yn fwy ynysig yn sgil y pandemig, ynghyd â'r modd y mae gwasanaethau wedi addasu i ddiwallu anghenion cynyddol yn ogystal â defnyddio dulliau gweithio newydd. Cydnabyddir pwysigrwydd mynediad at weithgareddau hamdden/cymdeithasol/chwaraeon i gynorthwyo gyda lles emosiynol.

## Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

Cafwyd 3 ymateb o'r holiadur y gellir eu priodoli i blant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol.

Eglurodd ID 297 eu bod yn ceisio llenwi bwlch yn eu gwasanaeth trwy roi cymorth i bobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl, gan sicrhau ymyrraeth gynnar ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, ynghyd â chefnogi clybiau LGTBQ+ ôl-16.

Teimlodd ID 117 mai un o'r agweddau a oedd yn gweithio'n dda o fewn eu maes gwaith ar hyn o bryd oedd eu bod yn treulio amser gyda phobl ifanc ac yn 'cymryd pethau'n araf'. Credant fod hyn yn meithrin perthynas dda ac wedyn eu bod yn ennill ymddiriedaeth dros gyfnod o amser.

Roedd ID 193 yn teimlo'n ddigalon o weld effaith Covid-19 ar eu rhaglen. Eglurwyd y cafodd y rhaglen ei hatal o ganlyniad i'r pandemig, ac roedd yn poeni efallai bod y gwaith caled a wnaed dros y 11 mlynedd diwethaf wedi'i golli erbyn hyn. Ysgolion a meithrinfeydd yw prif feysydd gwaith y rhaglen hon a oedd yn ymwneud ag iechyd deintyddol, ac oherwydd eu bod o dan bwysau difrifol maent yn ofni derbyn ymateb negyddol, â'r rheiny bellach yn bwriadu ailgyflwyno'r rhaglen.

# Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

## Dyfyniadau Cadarnhaol Diweddar gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth

Roedd adolygiad diweddar yn amlygu'r gwaith cadarnhaol a wnaed i sicrhau bod plant sydd â phroblemau emosiynol ac ymddygiadol yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Roedd un yn adrodd: "Dwi'n gwneud mwy o ymdrech yn yr ysgol ac yn teimlo'n well y tu mewn. Roedd meddwl am wahanol ffyrdd o fod yn hapusach yn yr ysgol wedi fy helpu." Bachgen 9 oed (ymddygiadol/rheolaeth emosiynol/lles emosiynol).

Roedd hanes pedwar arall yn nodi sut yr oedd un o'r gweithwyr cymdeithasol wedi chwarae rôl allweddol mewn sicrhau y gallai eu plant ymdopi yn yr ysgol a delio â'u teimladau. Mae'r hanesion a adroddwyd yn mynd ati i amlygu pwysigrwydd gallu bod yn ddigynwrf, ac ymdopi pan fydd rhywun yn teimlo eu bod yn cael eu llethu gan bethau.

"Roeddwn eisiau i'm plentyn fod yn hapus, mae o bellach yn hapusach yn yr ysgol ac yn gallu rheoli ei deimladau'n well. Roedd y cyfathrebu gyda gweithiwr cymdeithasol A yn dda ac roedd hi'n agos-atoch. Roedd yn braf clywed rhywun yn dweud pethau cadarnhaol am C ac yn gweld yr hogyn dwi'n ei garu." Mam bachgen 9 oed (ymddygiadol/rheolaeth emosiynol/lles emosiynol).

"Mae fy mhlentyn yn hapusach ac yn teimlo'n dda am ei hun, mae pobl yn ei ddeall. Mae o bellach yn gallu siarad am ei deimladau heb gael ei farnu ac mae ei hwyliau isel/iselder wedi gwella. Dwi wedi teimlo fy mod yn gallu siarad am fy mhryderon a bod rhywun yn gwrando arna i. Fyddwn i ddim yn newid dim, mae popeth gyda gweithiwr cymdeithasol A wedi bod yn dda ac yn galonogol." Mam bachgen 13 oed (ymddygiad, hwyliau isel, teimladau hunanladdol).

"Mae siarad hefo gweithiwr cymdeithasol A wedi dysgu gwahanol bethau i mi fel sut i fod yn ddigynwrf. Dwi wedi mwynhau gwneud ceir model a siarad hefo gweithiwr cymdeithasol A, mae hi'n fy neall i." Bachgen 13 oed (ymddygiad, hwyliau isel, teimladau hunanladdol).

"Dwi'n teimlo fy mod i'n gallu ymdopi hefo bywyd. Dwi'n gallu rheoli fy emosiynau'n well. Mae gen i ffydd yn fy hun rŵan. Mae gweithiwr cymdeithasol A wedi bod yn rhyfeddol o ran y ffordd y mae hi wedi gweithio hefo fi. Dwi'n teimlo'n gymaint ysgafnach ar ôl fy sesiynau. Fedra i ddim beirniadu'r gwasanaeth o gwbl - dwi'n ddiolchgar iawn." Mam bachgen 10 oed (trawma/cam-drin domestig).

Roedd y pwyntiau a wnaed uchod gan y plant dan sylw'n dangos pa mor bwysig yw siarad, er mwyn derbyn y cymorth y mae ei angen arnynt. Mae gweithiwr cymdeithasol A yn chwarae rôl allweddol mewn sicrhau bod gan y plant dan sylw bwynt cyswllt lle gallant drafod unrhyw beth y mae ei angen arnynt.

Roedd enghraifft arall o fewn yr adolygiad hwn yn rhoi dealltwriaeth i ni o'r gwaith da a wnaed i gefnogi plant hŷn sy'n agos at fod yn oedolion. Unwaith eto, sonnir am Weithiwr Cymdeithasol A, sy'n amlygu'r rôl bwysig a chwaraewyd gan yr unigolyn hwn o ran sicrhau bod plant sy'n agored i niwed sy'n dioddef problemau emosiynol yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt.

"Dwi'n fwy onest erbyn hyn ac wedi dechrau mynd ati'n rheolaidd i ysgrifennu am sut dwi'n teimlo. Roeddwn wedi caniatáu fy hun i dderbyn help gan y rheiny o'm cwmpas a dwi'n ymdopi'n well hefo sefyllfaoedd cymdeithasol. Dwi'n osgoi fy meddyliau a'm teimladau yn llai ac wedi dysgu technegau i dawelu fy hun er mwyn helpu gyda gorbryder. Dwi wedi bod yn teimlo'n ddigon cyfforddus i fod yn fwy agored nag oeddwn i yn y gorffennol." Merch ifanc 17 oed (gorbryder a hwyliau isel).

"Mae E yn gallu ymlacio mwy. Dywedodd wrthyf fod y cymorth yn helpu a'i bod yn teimlo ei fod yn gwneud lles. Rydyn ni'n cario ymlaen, ar ein pennau ein hunain eto. Mae fy merch wedi medru mynegi ei hun i mi ac yn fy hygio o bryd i'w gilydd :-) Y pethau gorau am y gwasanaeth a dderbyniwyd gennym oedd cysondeb y cymorth a chael rhywun a oedd yn gallu gwrando arnaf fel rhiant hefyd. Diolch i weithiwr cymdeithasol A am eich holl help a'ch cymorth, mae E a finnau wirioneddol yn gwerthfawrogi. Ac mae'r ddwy ohonom yn cytuno mai chi ydi'r unig un, yn yr holl flynyddoedd rydyn ni wedi'u treulio'n brwydro am help, sydd wedi bod yn gyson ac yn wir wedi helpu, ac mae hynny'n beth aruthrol o fawr i E, felly diolch." Mam merch ifanc 17 oed (gorbryder a hwyliau isel).

Mae natur realistig y cymorth a roddir yma nid yn unig o fudd i'r plentyn, ond yn ollyngdod aruthrol i'r rhieni hefyd. Mae'r holl adroddiadau y cyfeiriwyd atynt uchod yn rhoi syniad i ni o sut y mae'r cymorth gan weithwyr gofal wedi bod o fudd i'r plentyn, fodd bynnag, gall y straen o gael plentyn sy'n cael trafferthion gael effaith ar y rhieni hefyd. Mae'r hanesion a ganlyn yn rhoi syniad o'r modd y mae'r gwaith a wnaed gan weithwyr cymdeithasol wedi cael effaith gadarnhaol ar fywydau'r rhieni.

'Dwi'n ddiolchgar am y cymorth, ac yn obeithiol y bydd y sesiynau cwnsela'n helpu J i ddeall ei deimladau'n well.'

'Dwi wedi gweld newidiadau yn ymddygiad E ers i chi ddechrau ei weld.'

'Mae J yn siarad am y sesiynau rydych chi'n eu cael yn yr ysgol, a dywedodd wrthyf ei fod yn hoffi eich bod yn dod i'w weld.'

'Dwi wedi dechrau peidio â chwffio a pheidio â ffraeo, a gorffen fy ngwaith ysgol. Dwi'n helpu mwy y tu allan efo Dad, yn lle chwarae ar fy PS4'. (Bachgen 10 oed)

'Mae X yn fwy agored am ei broblemau. Mae'n gofyn mwy o gwestiynau ac yn delio â phroblemau'n well.'

'Mae X yn llawer mwy ddigynwrf.'

‘Dyma’r tro cynaf i mi dderbyn cymorth, a dwi’n falch iawn’.

‘Dwi’n gwybod bod rhywun ar ben arall y ffôn’.

‘Dydi Z ddim yn dreisgar mwyach, sy’n gwneud gwahaniaeth aruthrol.’

‘Rydych chi’n rhyfeddol o ran beth rydych chi wedi ei wneud i fy helpu ☺’ (Mam a chanddi anawsterau iechyd meddwl)

'Mae gweithiwr cymdeithasol B yn gymorth mawr, yn dawel ac yn amyneddgar.’

'Diolch am eich holl help, rydych chi wedi bod yn rhyfeddol.’

‘Dwi’n teimlo bod rhywun yn gwrando arna i.’

# Casgliad ac argymhellion

Cafwyd cynnydd mawr yn nifer yr adroddiadau o broblemau emosiynol ymhlith plant a phobl ifanc ym Môn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae’r pandemig wedi gwaethygu’r sefyllfa, gyda phwysau’r cyfnodau clo a llai o gyswllt â rhwydweithiau cymorth allweddol fel ffrindiau, athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill yn cael cryn effaith.

Darparodd y gwasanaethau plant a theuluoedd gyllid ychwanegol i ategu a chynyddu capasiti gwasanaethau presennol. Hysbyswyd y gwasanaeth yn ddiweddar y bydd gwasanaeth GOLAU (Barnardo’s) yn dod i ben ym Mawrth 2022 o ganlyniad i derfynu cyllid y loteri ar gyfer y prosiect. Bydd hyn wedyn yn rhoi mwy o bwysau ar ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol.

Prif ffactor o ran yr Awdurdod Lleol yw mynd ati’n gynnar i ganfod plant sydd efallai’n dioddef anawsterau o ran lles emosiynol, a’u hatal rhag datblygu cyflyrau iechyd meddwl mwy difrifol a chymhleth.

Mae lles emosiynol plant ‘sy’n derbyn gofal’ yn dal i fod yn flaenoriaeth uchel i’r gwasanaeth. Er y nifer uwch o blant ‘sy’n derbyn gofal’ o fewn y gwasanaethau iechyd meddwl, fel plant ac yn ddiweddarach, fel oedolion, o ganlyniad i’w profiadau bywyd, mae’r pandemig byd-eang hefyd wedi effeithio lles emosiynol nifer sylweddol o’n plant. Roedd arolwg mewnol diweddar yn ystyried fel y mae ein plant wedi dod yn fwy a mwy ynysig yn sgil y pandemig, a sut y mae gwasanaethau wedi addasu i gyflawni gofynion cynyddol yn ogystal â dulliau gweithio newydd. Cydnabyddir pwysigrwydd cael mynediad at weithgareddau hamdden/cymdeithasol/chwaraeon o ran hybu lles emosiynol.

### Argymhellion

1. Rhoi sylw parhaus i ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol. Mae’n angenrheidiol cael ymagwedd amlasiantaethol sy’n cynnwys yr ysgolion, CAMHS, meddygon teulu, plant a theuluoedd, gwasanaethau ymyrraeth gynnar mewnol a rhai a gomisiynwyd.

2. Rholi sylw i argaeledd gwasanaethau ymyrraeth gynnar ar y cyfle cyntaf bosibl, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad at y gwasanaethau iawn, ar yr adeg iawn.

3. Datblygu gwaith partneriaeth gwell ag asiantaethau sy’n cefnogi lles emosiynol pob plentyn ac unigolyn ifanc.

# Pobl hŷn

## Ynglŷn â'r bennod hon

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithio tuag gyflawni diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o Gymunedau Oed-gyfeillgar. Ein blaenoriaethau lleol yw cadw at egwyddorion sylfaenol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant sef:

- **Llais a rheolaeth -** rhoi'r unigolyn a'i anghenion wrth wraidd ei ofal, a rhoi llais a rheolaeth iddo er mwyn cyrraedd y canlyniadau sy'n ei helpu i greu llesiant; mae hyn hefyd yn cynnwys cael mesurau diogelu effeithiol i roi cymorth i oedolion sydd mewn perygl.

- **Atal ac ymyrryd yn gynnar** – cynyddu gwasanaethau ataliol o fewn y gymuned er mwyn lleihau'r dirywiad i anghenion brys.

- **Llesiant** – cynorthwyo pobl i gyflawni eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth.

- **Cydgynhyrchu** – annog unigolion i gymryd mwy o ran mewn cynllunio a chyflenwi gwasanaethau.

- **Amlasiantaethol** – gwaith partneriaeth cryf rhwng yr holl asiantaethau a sefydliadau.

Mae rhoi'r egwyddorion hyn ar waith yn ymarferol a chyflawni heriau'r dyfodol yn golygu:

● Bod pobl hŷn yn cael cymorth o fewn eu cymunedau i fyw bywydau diogel, difyr a phleserus sy'n cynnwys cymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain.

● Fe allent hwy a'u gofalwyr, lle'n briodol, gael dylanwad uniongyrchol ar gynllunio, dylunio a chyflenwi gwasanaethau.

● Y cartref yw'r opsiwn dewisol o ran darparu gwasanaethau gofal i bobl hŷn.


● Mae opsiynau gofal amgen, fel tai gofal ychwanegol, wedi'u datblygu i'r bobl hynny nad ydynt yn gallu aros yn eu cartrefi eu hunain ond nad ydynt angen gofal arbenigol.

● Bydd gofal preswyl yn darparu ar gyfer y bobl hynny sydd angen gofal arbenigol o ganlyniad i'w hanghenion corfforol neu feddyliol. Bydd hyn yn cynnwys cartrefi gofal preswyl a chartrefi gofal â gofal nyrsio.


● Mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau 7 diwrnod yr wythnos, 24 awr y dydd.


● Mae gwasanaethau'n hyblyg ac yn addasadwy, ac nid o reidrwydd wedi'u lleoli mewn adeilad, er mwyn diwallu anghenion unigol.

## Oedolion a gwblhawyd cyfnod o Ailalluogi: ac sydd heb becyn Gofal a Chymorth 6 mis yn ddiweddarach



## Pwy mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 o Fawrth



# Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth

- Rydym yn gwybod bod **nifer y bobl 65 + oed** wedi cynyddu o 17,000 yn 2015, i 18,639 bellach yn 2020.
- Gan gyd-fynd â'r uchod, mae **nifer y bobl 85+** wedi cynyddu hefyd. Roedd nifer y bobl 85+ oed ym Môn yn 2,200 yn 2015, ond bellach, yn 2020, mae 2,403 o bobl yn dod o dan y grŵp oedran hwn.
- Rydym yn gwybod bod **nifer y bobl sy'n 65+ ac yn derbyn gwasanaethau** wedi cynyddu ers 2015. Yn 2015, nifer y bobl a oedd yn dod o fewn y categori hwn oedd 1,200. Yn 2020, rydym yn gwybod bellach bod nifer y bobl hyn yn dod i 1,488.
- **Nifer y bobl 65+ oed a oedd yn derbyn gofal cartref (a oedd yn derbyn oriau o ofal cartref)** oedd 340 yn 2015, gyda 3,900 awr o ofal yn cael eu darparu yr wythnos (cyfartaledd o 11 awr yr wythnos). Yn 2020, roedd y nifer wedi gostwng, gyda 316 o bobl dros 65 oed yn derbyn gofal cartref. Roedd hyn yn golygu hefyd y darperir cyfartaledd o 3,760 awr o ofal yr wythnos (fodd bynnag, mae cyfartaledd yr oriau bob wythnos, ar gyfer bob cleient wedi cynyddu i gyfartaledd o 12 awr yr wythnos, ar gyfer bob cleient).
- Hefyd, mae nifer y **gwelyau cofrestredig fesul sector** wedi cynyddu ers yr asesiad blaenorol o Anghenion y Boblogaeth. Yn 2015, roedd 614 o welyau (Cyngor Lleol - 162; Sector Annibynnol/Preifat - 452; Gwirfoddol/Trydydd Sector - 0). Cafwyd cynnydd o 10 yn y nifer gyffredinol yn 2020, i gyfanswm o 624 (Cyngor Lleol - 161; Sector Annibynnol/Preifat - 463; Gwirfoddol/Trydydd Sector - 0).
- Mae nifer y **gwelyau cofrestredig fesul sir** wedi cynyddu'n sylweddol yn y 5 mlynedd diwethaf. Yn 2016, roedd cyfanswm o 614 o welyau (Preswyl - 344; Preswyl Iechyd Meddwl - 90; Nyrsio Cyffredinol – 124; Nyrsio Iechyd Meddwl – 56). Erbyn 2020, roedd cyfanswm o 755 o welyau (Tai â Gofal - 117; Gofal Preswyl - 441; Gofal Nyrsio - 177)
- Mae **nifer y bobl 65+ oed â dementia** wedi aros yn fwy neu lai yr un fath ers 2015. Yn 2015, roedd y ffigur yn 1,300. Erbyn 2020, cafwyd cynnydd bach i 1,305.
- Mae **nifer y bobl 65+ oed a dderbynnir i'r ysbyty o ganlyniad i gael codwm** wedi cynyddu. Yn 2015, y nifer oedd 450. Fodd bynnag, erbyn 2020, roedd y ffigur hwn wedi cynyddu i 501.
- Mae nifer y **gwelyau cofrestredig, ar gyfer bob 100+ o bobl 65+ oed** wedi gostwng, fodd bynnag, mae nifer gyfartalog y gwelyau ym mhob cartref wedi cynyddu. Yn 2015, nifer y cartrefi oedd 23, nifer y gwelyau oedd 611 a nifer gyfartalog y gwelyau ym mhob cartref oedd 27. Erbyn 2020, nifer y cartrefi oedd 19, nifer y gwelyau oedd 576, fodd bynnag, nifer gyfartalog y gwelyau ym mhob cartref oedd 30.
- Yn 2015, roedd **nifer y gwelyau cofrestredig, ar gyfer bob 100 o bobl 65+ oed** yn dangos bod cyfanswm o 3.5 gwely ar gyfer bob 100 o bobl 65+. Gyda 2.5 o'r lleoedd hynny'n yn lleoedd preswyl a'r 1 sy'n weddill yn lle nyrsio. Fodd bynnag, yn 2020, nid oedd yr ystadegau yr oedd modd i ni eu casglu yr un fath a'r rheiny yn 2015, ond roeddynt yn dal i helpu i greu trosolwg o'r sefyllfa. Roedd cyfanswm nifer y gwelyau yn 9.3, gyda 5.4 o'r gwelyau hynny yn dod o dan ofal preswyl, 1.4 yn dod o ofal tai a 2.2 o ofal nyrsio.

# Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

## Cynigir Gofal a Chymorth Da

Pan ofynnwyd beth yr oedd pobl yn ei deimlo oedd yn gweithio'n dda ar hyn o bryd o safbwynt bobl hŷn, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn teimlo bod y gofal a gynigiwyd iddynt gan staff yn dda iawn. Eglurodd ID 120 bod clybiau wythnosol, lle mae rhai sy'n dioddef dementia yn gallu cyfarfod am baned o de heb gymorth gofalwr, yn rhywbeth yr oeddynt yn cael pleser yn ei wneud. Mae'r clwb yn

caniatáu i ddioddefwyr fwynhau cwmni ei gilydd, tra bo gofalwyr yn cael y cyfle i dderbyn cefnogaeth gan gymheiriaid. Roedd ID 307 yn adleisio'r gwaith da a ddarperir i'r rheiny sy'n dioddef dementia, wrth ganiatáu i'r gofalwyr gael seibiant haeddiannol.

I ychwanegu at y pwynt uchod, roedd ymatebwyr yn amlygu'r defnydd da a wneir o ddulliau rhwydweithio a chyfathrebu sydd ar waith o fewn y cartrefi gofal ledled yr ynys. Roedd ID 136 yn nodi bod lefel dda o gyfathrebu rhwng rhanddeiliaid allweddol, sy'n golygu bod pobl yn gwybod yn iawn pa faterion sydd angen sylw o ddydd i ddydd. Roedd ymateb ID 68 yn cyd-fynd â hyn, gan fynegi bod cymorth i ganiatáu i bobl gael yr opsiwn i ymgysylltu â gwasanaethau a'u cymunedau - ar lein ac fel arall.

## Mae Diffyg Eglurder yn Broblem

Roedd sawl ymatebydd yn teimlo bod diffyg eglurder yng nghyswllt sawl mater. Roedd ID 73 yn teimlo bod diffyg eglurder o ran cyllid o ffrydiau fel ICF, CHC ac yn y blaen.

Teimlodd ID 311 bod angen mwy o eglurder ynglŷn â beth yw'r rheolau a'r rheoliadau o ran y sefyllfa bresennol, ynghyd â sicrhau bod pawb o fewn y cartrefi gofal yn gwybod yn iawn beth sy'n cael ei ystyried yn iawn a'r hyn sydd o'i le o ran yr amgylchedd Covid-19, sy'n newid yn barhaus.

Mae'r pwynt olaf sy'n ymwneud ag eglurder yn gysylltiedig â deall yn iawn beth yw cyflwr unrhyw gleient – o ran dementia ac iechyd meddwl yn benodol. Fel y mae'r sefyllfa ar hyn o bryd, nid yw'r gwasanaeth yn dilyn y drefn yn iawn o ran gofalwyr hyfforddedig arbenigol a'r amser ychwanegol sydd ei angen i gwblhau tasgau y mae angen eu gwneud ar gyfer rhai sy'n dioddef dementia.

## Rhagor o Gyfleoedd

At ei gilydd, mae pobl hŷn eisiau rhagor o gyfleoedd. Mae canlyniadau'r pandemig wedi cael effaith amlwg ar allu pobl hŷn i gymryd rhan mewn cyfleoedd a gweithgareddau. Nododd ID 306 bod y preswylwyr yn awyddus i weld rhagor o gyfleoedd, fel mynd ar fwy o dripiau. Roedd ID 308 yn amlygu pwynt tebyg, gan nodi y dylid cael rhagor o gyfleoedd o ran gofal dydd ar adeg gwyliau banc a phenwythnosau. Ychwanegwyd ganddynt mai dim ond 2 ddiwrnod o wasanaeth sydd ar gael yng Nghanolfan Ddydd Hafan. Y teimlad yw, pe bai modd ychwanegu un diwrnod ychwanegol o ofal dydd, y byddai o fudd i'r prif ofalwyr a'r aelodau teulu.

## Effaith Covid-19

Mae Covid-19 wedi newid y modd y mae'r byd yn gweithio, ac mae hyn yn wir am bobl hŷn hefyd. Fodd bynnag, o ystyried popeth, asesiad teg fyddai awgrymu bod y pandemig wedi effeithio'r modd yr ydym yn delio â phobl hŷn i raddau llawer mwy negyddol yn hytrach na chadarnhaol. Yn yr un modd ag y mae'r Cyngor yn gweithio bellach, cafwyd newid yn y *status quo* o safbwynt y modd y mae pobl hŷn wedi gallu cynnal cysylltiadau - yn benodol o ran cymorth i bobl hŷn. Gwelwyd hyn o ran y modd y mae pethau wedi symud ar-lein, yn hytrach na gwneud pethau wyneb yn wyneb. Roedd ID 68 yn nodi'r pwynt hwn, gan egluro, i ddechrau, mai o ganlyniad i Covid-19 y gwnaed hyn, fodd bynnag, mae'r arferion hyn wedi parhau oherwydd eu bod, yn syml, yn fwy cyfleus. Ychwanegwyd ganddynt ei bod yn angenrheidiol erbyn hyn i sicrhau nad yw cleientiaid nad ydynt yn dymuno cofleidio'r hinsawdd

ar-lein yn cael eu hanwybyddu a'u hanghofio. Gwnaeth ID 186 bwynt tebyg ynghylch y newid i roi cymorth trwy ddulliau sy'n golygu nad oes rhaid cyfarfod â chleientiaid wyneb yn wyneb. Yn debyg i'r pwynt a wnaed gan ID 68, nodwyd ganddynt y bu'r newid yn fanteisiol i rai, fodd bynnag, nid oedd yn briodol i eraill. Ond nododd ID 186 bod y newid i gymorth digidol wedi golygu, yn gyffredinol, bod capasiti gofalwyr wedi cynyddu erbyn hyn, gan fod modd rhoi cymorth o'u cartrefi ac nad oes rhaid iddynt deithio cymaint.

O safbwynt dynol a chymdeithasol, bu effaith y pandemig yn drychinebus i lawer. Teimlodd ID 303 y bu Covid-19 yn 'ddinistriol' i breswylwyr. Nodwyd bod cyfyngiadau ar ymweliadau wedi gwneud pobl deimlo'n ynysig, tra bo cyfyngiadau ar symudiadau o fewn cartrefi gofal eu hunain wedi cael effaith ddwys ar gleientiaid. Hefyd, mae arferion profi strwythuredig wedi creu rhwystrau rhwng ymwelwyr, gofalwyr a phreswylwyr - gyda'r preswylwyr eu hunain yn y diwedd yn dioddef fwyaf o ganlyniad i'r mesurau hyn.

Roedd ID 140 yn adleisio'r pwyntiau a wnaed gan ID 303, gan ychwanegu y bu effaith y mesurau hyn yn niweidiol i iechyd meddwl y preswylwyr a'r gofalwyr. Eglurodd ID 140 bod y gorbryder yn sgil y posibilrwydd o ganfod achosion o Covid-19 mewn cartrefi gofal wedi cael effaith wirioneddol ar bob preswylydd. O ganlyniad i hynny, mae llawer ohonynt yn poeni ynghylch beth sydd o'u blaenau yn y dyfodol pan fydd y rheolau'n cael eu llacio wrth i amser fynd heibio.

Problem arall sydd wedi codi o ganlyniad i Covid-19 yw'r effaith ar rai sy'n dioddef dementia. Nododd ID 302 y bu'r effaith hirdymor ar les a gallu gwybyddol unigolion yn negyddol, gyda llawer ohonynt bellach ddim yn adnabod aelodau teulu. Roedd ID 314 yn cryfhau'r pwynt hwn gan egluro bod yr hwyliau'n isel yn y cartrefi gofal ymhlith staff a phreswylwyr. Ychwanegwyd ganddynt fod y mesurau sy'n golygu nad oedd ymwelwyr yn cael mynd i mewn i'r cartrefi gofal wedi dinistrio gallu gwybyddol cleientiaid sydd â dementia. Mae hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth o ran pam nad yw cleientiaid sydd â dementia yn gallu adnabod anwyliaid, fel y soniodd ID 302.

# Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

### Adolygiad Tai Gwarchod ac OAP Awst 2021

Anfonwyd 1,200 o arolygon i bob tenant tai gwarchod ac OAP. Dychwelwyd 445 o'r arolygon naill ai wedi'u cwblhau, neu wedi'u cwblhau'n rhannol. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd ymateb o 35%.

Roedd y ddau gwestiwn cyntaf yn gofyn am **ryw ac oedran** pobl. Dangosodd y canlyniadau bod 53% o'r cyfranogwyr yn fenywaidd, tra bo 47.7% yn wrywaidd. O ran oedran, roedd y mwyafrif o'r cyfranogwyr rhwng 60 - 80 oed - gyda 65.8% yn nodi hyn. O gasglu'r data hwn, mae disgwyliad y bydd poblogaeth gyffredinol Ynys Môn, at ei gilydd, yn mynd yn hŷn dros y blynyddoedd i ddod, felly cynigiwyd yr argymhellion hyn:

- Mae angen rhoi ystyriaeth strategol i'r math o lety y bydd ei angen ym Môn.

- Rhaid sicrhau bod cyllid DFG ar lefelau digonol i gwrdd â'r cynnydd ym mhoblogaeth ein pobl hŷn o hyn ymlaen at 2035. Bydd angen i'r Gwasanaethau Tai fonitro gwariant a cheisiadau DFG yn barhaus i sicrhau y bydd yn cyflawni gofynion presennol ac i'r dyfodol er mwyn caniatáu i berchen-feddiannwyr a'r rheiny sy'n byw mewn llety rhent preifat fyw mor annibynnol â phosibl o fewn eu cartrefi.

- Cael adborth parhaus gan denantiaid tai cymdeithasol ynghylch eu heiddo presennol, o ran ei fod yn diwallu eu hanghenion presennol ac i'r dyfodol, er mwyn gwrando a sicrhau bod tenantiaid yn gallu byw o fewn eu heiddo mor annibynnol, diogel a da ag y bo modd.

Roedd y trydydd cwestiwn a ofynnwyd o fewn yr adolygiad hwn yn ymwneud â theimlo'n **unig ac yn ynysig**.

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr: 'I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau a ganlyn? 'Rydw i'n teimlo bod gen i rywun i droi ato am gymorth pan fyddaf ei angen'.

Dangosodd y canlyniadau:

- Ar nodyn cadarnhaol, mae 66% o'n tenantiaid (cyfanswm o 292 o denantiaid) yn adrodd bod ganddynt rywun i droi ato os ydynt angen cymorth. Roedd tenantiaid yn adrodd bod eu prif ffynonellau cymorth yn cynnwys: ffrindiau a theulu / Gorwel / Medrwn Môn / gofal 24 awr / grŵp eglwys / y Gwasanaeth Cymorth Tai a chymdogion.
- Roedd 12.5% (55 o denantiaid) yn adrodd eu bod yn aml yn cael cymorth gan y sefydliadau neu'r unigolion a enwir uchod.
- Roedd 8.6% (38 o denantiaid) yn adrodd eu bod weithiau'n cael cymorth gan y sefydliadau neu'r unigolion a enwir uchod.
- Roedd y 12.7% (56 o denantiaid) sy'n weddill yn adrodd naill ai nad oeddynt yn rhyngweithio ag unrhyw un i gael cymorth neu fod y rhyngweithiadau hynny'n gyfyngedig iawn. Tra bod y lefel hon yn isel yn nhermau niferoedd, gallai union effeithiau teimlo'n ynysig ac yn unig ar y cohort hwn o denantiaid fod yn ddwfn, a gellir barnu nad yw eu llesiant mor dda â'r rheiny sydd yn y categori sy'n cael cymorth yn aml.
- Roedd nifer o denantiaid yn adrodd eu bod yn cael mynediad at gymorth parhaus fel y bo'r angen trwy Gorwel neu'r gwasanaethau Cymorth Tai. Fodd bynnag, yn ystod y galwadau dilynol fel rhan o'r adolygiad hwn, darparwyd opsiynau i'r rheiny a oedd wedi nodi eu bod yn teimlo'n ynysig a / neu'n unig, o ran asiantaethau y gellid eu hatgyfeirio atynt i gael cymorth ychwanegol.

Roedd yr adolygiad hefyd yn archwilio beth y mae pobl **yn gallu ei wneud ar eu pennau eu hunain**. Gofynnwyd p'un a oeddynt yn cytuno â'r datganiad a ganlyn ai peidio 'Rydw i'n gallu gwneud y mwyafrif o bethau ar fy mhen fy hun heb unrhyw gymorth'.

Dangosodd y canlyniadau:

- Bod bron i 50% / 221 o denantiaid yn cadarnhau eu bod yn gallu gwneud pethau ar eu pennau eu hunain y rhan fwyaf o'r amser, heb gymorth.
- Ar adegau roedd 30% / 133 o denantiaid yn gallu gwneud pethau ar eu pennau eu hunain y rhan fwyaf o'r amser, heb gymorth.
- Nid yw 14% / 63 o denantiaid ond yn gallu gwneud pethau ar eu pennau eu hunain, heb gymorth, yn achlysurol.

- Nid yw 6% / 26 o denantiaid yn gallu gwneud unrhyw beth dros eu hunain ac mae arnynt angen cymorth llawn i wneud pethau ar eu pennau eu hunain.

Roedd **Iechyd** yn rhan fawr o'r arolwg. Gofynnwyd y cwestiwn 'Hoffem wybod pa mor dda neu wael y mae eich iechyd. Ar raddfa o 1 i 10, gyda 10 yn cyfateb i'r iechyd gorau, sut fyddech chi'n eich graddio eich hun?'.

Dangosodd y canlyniadau:

- Bod 34.6% / 142 o denantiaid yn graddio eu hiechyd yn 8 neu uwch.
- Roedd 0.5% / 2 o denantiaid yn graddio bod eu hiechyd yn wael **iawn**.
- Roedd 47% / 193 o denantiaid yn graddio eu hiechyd rhwng 5 a 7. Y categori hwn sy'n cynnwys y nifer uchaf a oedd wedi graddio eu hunain.

Yn gyffredinol, roedd y canlyniadau yn dangos bod y mwyafrif yn ystyried bod eu hiechyd yn weddol dda neu'n dda.

Roedd y rhan nesaf o'r adolygiad yn gofyn nifer o gwestiynau ynghylch **anghenion dietegol** pobl a ph'un a oeddynt yn cytuno a'r datganiad:

- Rydw i'n bwyta llai na 2 bryd y dydd
- Rydw i'n bwyta ffrwythau, llysiau a chynhyrchion llaeth
- Mae gen i broblemau â'm dannedd a'm ceg sy'n ei wneud yn anodd i mi fwyta
- Does gen i ddim digon o arian bob amser i brynu'r bwyd y mae ei angen arna i
- Rydw i'n bwyta ar fy mhen fy hun y rhan fwyaf o'r amser
- Mae fy sefyllfa'n golygu nad ydw i'n gallu mynd allan i nôl bwyd

Dangosodd y canlyniadau:

- Bod nifer uchel o denantiaid yn bwyta ychydig iawn o ffrwythau, llysiau a chynhyrchion llaeth, gyda chyfanswm o 140 yn adrodd bod hyn yn her iddynt.
- Mae 64 o denantiaid yn wynebu heriau ariannol er mwyn prynu'r bwyd y mae ei angen arnynt. Mae potensial yma i'r tenantiaid y mae pryder yn eu cylch gael eu hatgyfeirio i'r Tîm Hawliau Lles, CAB Ynys Môn neu'r Tîm Cynhwysiant Ariannol, i sicrhau bod eu hawliad i fudd-daliadau'n gywir a'u bod yn hawlio'r hyn y maent yn gymwys i'w gael.
- Nid oedd 139 o denantiaid yn gallu mynd allan i nôl bwyd. Roedd hyn o ganlyniad i nifer o heriau, gan gynnwys diffyg cludiant cyhoeddus neu ei fod yn ddrud, a oedd felly'n golygu bod rhaid iddynt ddefnyddio siopau lleol sydd yn aml yn gallu bod yn ddrutach nag archfarchnadoedd sy'n gwerthu bwyd am bris rhesymol. Hefyd, ac oherwydd Covid-19, mae aelwydydd sy'n gwarchod eu hunain wedi dibynnu cryn dipyn ar wirfoddolwyr lleol i roi cymorth gyda siopa ac felly maent wedi gorfod addasu eu rhestr siopa a'u cyllidebau i sicrhau bod modd rhoi cymorth iddynt.
- Roedd 312 o denantiaid yn adrodd eu bod yn bwyta ar eu pennau eu hunain. Fodd bynnag, gallai hyn fod o ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19 sy'n golygu bod llai o denantiaid yn bwyta gyda'i gilydd neu gyda'u teuluoedd oherwydd pryderon o ran y pandemig a thorri'r rheoliadau. Cyn Covid-19, roeddem yn ymwybodol bod sawl cynllun wedi datblygu eu clybiau cinio lleol eu hunain lle'r oedd tenantiaid yn dod at ei gilydd i gael bwyd a chael cyfarfod o fewn lolfeydd cymunedol yn eu hardaloedd lleol. Mae'r gweithgareddau hyn wedi'u hatal dros dro o ganlyniad i risgiau o ran iechyd a diogelwch yn sgil Covid-19.

- Yn dilyn yr arolwg, roedd swyddogion Cyfranogiad Tenantiaid wedi cysylltu â'r holl denantiaid a oedd wedi lleisio pryderon. Roedd sawl un yn adrodd, o ganlyniad i Covid, nad oeddynt wedi gallu mynd i siopa, ond bod aelodau teulu'n mynd i'r afael â hyn ar eu rhan.

Mae **cymuned** yn rhan bwysig o fywyd unrhyw un, felly gofynnwyd y cwestiwn o ran p'un a oeddynt yn hoffi bod yn eu cymunedau. Yn ôl y canlyniadau:

- Ar nodyn cadarnhaol, roedd 83.7% / 367 o'r tenantiaid yn cadarnhau eu bod yn hoffi byw o fewn eu cymuned.
- Roedd 0.9% / 4 o'r tenantiaid yn cadarnhau nad oeddynt yn hoffi byw o fewn eu cymuned.
- Roedd 16.4% / 73 o'r tenantiaid yn ymateb eu bod yn mwynhau byw o fewn eu cymuned 'weithiau'. Darparodd sawl un ohonynt ragor o wybodaeth am yr heriau a wynebwyd ganddynt a oedd yn effeithio eu gallu i fwynhau eu cymuned leol.

Yn ogystal â hyn, rhoddodd yr ymatebion syniad o beth yr oeddynt yn ei gredu oedd yn bryderon o ran lle'r oeddynt yn byw a beth oedd yr agweddau cadarnhaol.

Pryderon:

- Diffyg amwynderau lleol fel siopau
- Diflastod sŵn sy'n cynnwys cymdogion, ceir a cherddoriaeth
- Teimlo'n unig ac yn ynysig
- Baw cŵn ar lwybrau lleol
- Ddim y teimlo'n gymaint o ran o'r gymuned gan nad yw tenantiaid yn adnabod ei gilydd
- Heriau o ran trafnidiaeth leol (diffyg bysiau)
- Mae parcio yn broblem
- Mae Covid-19 wedi effeithio sut y mae'r gymuned yn rhyngweithio

Agweddau cadarnhaol:

- Cymuned wych, ffrindiau ardderchog
- Cymunedau gwledig tawel lle gellir ymlacio
- Mae byw yn y gymuned yn well na bod yn yr ysbyty
- Byw'n agos at aelodau teulu a ffrindiau, yn yr un gymuned

Yn ychwanegol i hynny, gofynnwyd p'un a oedd pobl yn cymryd rhan mewn **gweithgareddau o fewn eu cymunedau**.

Yn gyffredinol, roedd 16% yn dweud eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau lleol a dywedodd y gweddill (84%) nad oeddynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o fewn eu cymuned.

Mae'n deg i dybio, pe bai'r adolygiad hwn wedi'i gynnal cyn neu y tu hwnt i gyfnod Covid-19, y byddai niferoedd y rheiny sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau wedi bod yn uwch.

O'r 344 o ymatebwyr a ddarparodd wybodaeth ychwanegol fel rhan o'r ymateb i'r cwestiwn hwn:

- Dywedodd 66 bod eu gweithgareddau wedi effeithio'r gwasanaethau cymorth lleol yr oeddynt yn cael mynediad atynt oherwydd cau lolfeydd cymunedol ac adnoddau lleol eraill dros dro.
- Dywedodd 25 ohonynt nad oeddynt yn ymwybodol o unrhyw weithgareddau a oedd yn cael eu cynnal o fewn eu hardal leol.

- Dywedodd 66 nad oeddynt yn gallu mynychu gweithgareddau yn y gymuned oherwydd heriau o ran eu hiechyd a symudedd – gan gynnwys gorfod gwarchod eu hunain, grwpiau sy'n agored i niwed yn glinigol.
- Dywedodd 59 ohonynt eu bod yn byw bywyd actif, gyda gweithgareddau cymunedol sy'n amrywio o gerdded, ffotograffiaeth, a chlybiau cinio, gweld ffrindiau ac aelodau teulu, bingo. Credir y byddai'r nifer hon yn llawer uwch heb y cyfyngiadau Covid-19.

I bobl hŷn, mae **cymorth** trwy gyfrwng gwasanaethau yn agwedd bwysig iawn ar eu bywydau. Roedd yr adolygiad felly'n gofyn p'un a oedd y cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn derbyn y cymorth a fynnir yr oedd ei angen arnynt.

Dangosodd y canlyniadau:

Yn gyffredinol, roedd 73% yn cadarnhau bod digon o wasanaethau i ddiwallu eu hanghenion.

Dywedodd 6% nad oeddynt yn teimlo bod digon o wasanaethau ar gael ei ddiwallu eu hanghenion.

Darparodd 21% ragor o wybodaeth o ran y gwasanaethau cymorth a oedd ar gael yn yr ardal leol:

- Darparodd 87 o'r ymatebwyr ragor o wybodaeth ynghylch eu barn o ran pa mor ddigonol oedd y gwasanaethau a oedd ar gael i ddiwallu eu hanghenion.
- O'r 87 o ymatebwyr, roedd y prif bryderon a godwyd o ran y diffyg gwasanaethau cymorth a oedd ar gael yn yr ardal leol yn cynnwys: diffyg trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal leol; diffyg mannau digidol er mwyn gwella cysylltedd a hyfforddiant technolegol; naill ai dim, neu nifer gyfyngedig o siopau ar gael yn yr ardal leol; y pellter rhwng eu llety â'u meddygfa a'u fferyllfa leol.

Gan gyd-fynd â'r uchod, mae'n bwysig i denantiaid deimlo'n ddiogel yn lle maent yn byw ac nad oes ganddynt unrhyw **bryderon** o ran eu llety. Roedd y cwestiwn a ganlyn yn rhoi sylw i ba mor aml yr oedd y cyfranogwyr yn poeni am bethau.

Dangosodd y dadansoddiad:

- O ran dros hanner y tenantiaid, nid oedd ganddynt bryderon ynghylch bod â digon o arian i wresogi eu cartref yn ystod y gaeaf, neu roeddynt yn poeni llai am hynny (50.2% / 222 o denantiaid)
- Ar nodyn pryderus, roedd 49.8% / 220 o denantiaid yn adrodd pryderon cyson neu barhaus ynghylch p'un a oedd ganddynt ddigon o arian i wresogi eu cartref yn ystod misoedd y gaeaf.

Roedd cwestiwn o fewn yr adolygiad yn ymwneud â sut yr oedd y cyfranogwyr yn **teimlo ynghylch eu hunain**. Gwnaed hyn trwy 3 datganiad ar wahân, a ph'un a oedd y cyfranogwyr yn cytuno â hwy ai peidio:

- Ddim yn teimlo'n werthfawr neu'n cael fy ngwerthfawrogi
- Yn teimlo fy mod yn faich ar eraill
- Ddim yn cael fy nhrin â pharch neu ddealltwriaeth gan eraill

Cwestiwn allweddol o safbwynt y Cyngor yw p'un a oedd y cyfranogwyr yn teimlo bod eu **cartref yn addas ar gyfer eu hanghenion**.

Roedd y dadansoddiad o'r cwestiwn hwn yn dangos:

- Yn galonogol, bod 91% / 403 o'r tenantiaid yn adrodd bod eu cartref yn addas ar gyfer eu hanghenion.
- Roedd 9% / 42 o'r tenantiaid yn adrodd bod eu cartref yn anaddas ar gyfer eu hanghenion.
- O ran tenantiaid a oedd yn adrodd bod eu cartref yn anaddas ar gyfer eu hanghenion, fe aethom ati i gysylltu â hwy er mwyn trafod eu pryderon ymhellach. Roedd y camau yn cynnwys eu hatgyfeirio i Therapydd Galwedigaethol Tai Môn, a chynigiwyd y cyfle i gysylltu â rhai tenantiaid yn y lle cyntaf i drafod eu heriau a'u llety presennol.
- Mae rhai tenantiaid sy'n byw mewn eiddo ag un ystafell wely wedi rhoi gwybod i Tai Môn y byddai'n well ganddynt gael eiddo â dwy ystafell wely er mwyn cael lle i ffrindiau ac aelodau teulu gael aros, yn enwedig os ydynt yn ymwybodol y bydd eu hanghenion o ran gofal yn newid oherwydd bod eu hiechyd yn dirywio, a fyddai'n golygu eu bod angen mwy o gymorth o natur gofal o fewn eu cartref.

# Casgliad ac argymhellion

BLAENORIAETHAU Pobl Hŷn Ynys Môn:

1. Gwasanaethau o fewn eu llety y gellir eu haddasu'n ddigonol i ddiwallu anghenion newidiol pobl fel y maent yn mynd yn hŷn.

2. Cartrefi gofal sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth arbenigol, gan gynnwys dementia a gofal ac anghenion iechyd cymhleth.

3. Mae datblygiad parhaus a mewnosodiad y model CRT ar Ynys Môn yn parhau i fod yn amcan sydd o flaenoriaeth allweddol er mwyn integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn gwella anghenion Oedolion yn eu cymunedau

4. Mae'r swyddogaeth SPOA yn cael ei ddatblygu er mwyn gwella taith dinasyddion a sicrhau y gallant dderbyn gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth o safon drwy un cyswllt

5. Dementia - gwella bywydau pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr trwy roi'r strategaeth/cynllun gweithredu dementia rhanbarthol ar waith.

6. Teimlo'n unig ac yn ynysig – cefnogi rhaglenni a mentrau sy'n hybu heneiddio'n iach. Gweithio tuag at feini prawf Cymunedau Sydd o Blaid Pobl Hŷn fel y diffinnir gan Sefydliad Iechyd y Byd.

7. Cynhwysiant digidol – hyrwyddo cynhwysiant digidol ar gyfer pobl hŷn trwy wella mynediad i'r rhyngrwyd, argaeledd offer mewn lleoliadau fel cartrefi gofal, ynghyd â chymorth wedi'i bersonoli i roi hyder i bobl ddatblygu sgiliau digidol.

8. Cyfleoedd i ddarparwyr gynnig ystod o ddarpariaeth gofal seibiant/seibiannau byr mewn amryw leoliadau yn yr ardal leol.

9. Darparu modelau gofal amgen sy'n cynnwys cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar daliadau uniongyrchol ynghyd â sefydlu trefniadau cydweithredol rhwng gweithwyr a defnyddwyr.

10. Hyrwyddo gwasanaethau Teleofal a Theleiechyd i alluogi pobl i fyw'n fwy annibynnol.

11. Archwilio'r modd y gall technoleg gynorthwyol gynyddu annibyniaeth mewn lleoliadau gofal, yn ogystal â chyflawni gwerth am arian.

12. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a gwirfoddol sy'n gallu dylunio a datblygu gwasanaethau i leihau ynysigrwydd cymdeithasol, meithrin capasiti yn y gymuned, cyfalaf cymdeithasol a datblygu rhwydweithiau cymdeithasol er mwyn i bobl deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu grymuso o fewn eu cymunedau eu hunain. Gweithio mewn partneriaeth â Medrwn Môn ar y rhaglen Llunio Lle.

13. Byddwn yn hyrwyddo a chefnogi datblygiad mentrau cymdeithasol a sefydliadau a arweinir gan ddefnyddwyr trwy'r sector cymunedol a gwirfoddol er mwyn cynyddu'r mathau o opsiynau sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth.

# Anableddau iechyd a chorfforol

## Ynglŷn â'r bennod hon

Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO, 1948) yn diffinio iechyd fel: 'cyflwr o les corfforol, meddyliol a chymdeithasol llwyr ac nid absenoldeb afiechyd neu wendid yn unig'.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn diffinio anabledd fel 'nam corfforol neu nam meddyliol sy'n cael effaith negyddol 'sylweddol' a 'hirdymor' ar eich gallu i wneud gweithgareddau dyddiol arferol'.

## Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth

- Rydym yn gwybod bod **canran y bobl a oedd yn adrodd bod eu statws o ran iechyd yn weddol neu'n wael** wedi cynyddu'n aruthrol ers yr asesiad blaenorol o anghenion y boblogaeth. Yn 2015, cyfran y bobl a nododd bod eu hiechyd yn weddol neu'n wael oedd 15%, fodd bynnag, o ran 2020, rydym yn gwybod bod hyn wedi codi i 25%.
- Gan gyd-fynd â'r uchod, mae **nifer a chanran cleifion meddygon teulu y cofrestrwyd bod ganddynt gyflwr cronig** wedi cynyddu'n gyffredinol. O ran 2012, y dirwedd ym Môn o ran cyflyrau cronig oedd: Pwysedd Gwaed Uchel (10,910, 16%); Asthma (4,950, 7%); Diabetes (3,490, 5%); CHD (3,050, 5%); COPD (1,780, 3%); Epilepsi (450, 1%); Methiant y Galon (800, 1%); Cyfanswm (25,460, 39%).
  Fodd bynnag, o ran 2020 roedd y niferoedd fel a ganlyn: Pwysedd Gwaed Uchel (11,764, 18%); Asthma (5,573, 8.5%); Diabetes (4,662, 7%); CHD (2,606, 4%); COPD (2,019, 3%); Epilepsi (504, 1%); Methiant y Galon (788, 1%); Cyfanswm (27,916, 42.5%). Mae'r ffigurau hyn yn rhoi darlun garw o'r prif broblemau iechyd ym Môn. Mae cyfanswm nifer y cyflyrau cronig wedi cynyddu'n aruthrol, gyda 2,456 yn fwy o achosion nag yn 2020, o gymharu â 2012. Fodd bynnag, mae hyn yn ddealladwy i ryw raddau, gan mai poblogaeth sy'n heneiddio a geir o safbwynt demograffig.
- Mae **nifer y bobl 18+ oed a chanddynt salwch cyfyngus hirdymor** wedi cynyddu'n fwy. Yn 2015, nifer y bobl a ddaeth o fewn y categori hwn oedd tua 10,500. Fodd bynnag, yn y 5 mlynedd diwethaf, mae'r nifer hon wedi cynyddu'n aruthrol, gyda'r nifer bellach yn 16,109.

## Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

### Y Symudiad i Gymorth Digidol – Y Manteision a'r Anfanteision

Y brif thema a gyflëwyd trwy'r holiaduron o safbwynt anableddau iechyd a chorfforol, oedd effaith cymorth digidol. Fel y gwyddom, nid newid gwirfoddol mo hwn o ran y *status quo* - rhywbeth a orfodwyd arnom o ganlyniad i'r pandemig oedd hwn. Fodd bynnag, ceir amryw enghreifftiau o'r modd y mae hyn wedi bod o fudd i rai, ond efallai'n anodd i eraill.

Mae ID 79 yn mynegi'r pwynt, o ran pobl ag anableddau - yn enwedig oedolion iau ag anableddau - mai ychydig o ofal a chymorth sy'n 'canolbwyntio ar yr unigolyn' sydd ar gael iddynt. Mae'r darpariaethau presennol wedi golygu bod rhai pobl wedi cael trafferth addasu i'r modd digidol newydd o weithio a'i bod yn well ganddynt gael y math o gymorth a dderbyniwyd cyn y pandemig. Roedd ID 79 yn nodi pwynt arall, mai un o'r bylchau yr oeddynt yn ceisio mynd i'r afael ag ef oedd darparu

gwasanaethau a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Eu bwriad yw ymgysylltu â phobl sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth er mwyn datblygu eu gwasanaethau.

Fel y nodwyd ar y dechrau, mae llawer o bobl yn teimlo bod y symudiad i gymorth digidol yn newid y dylid ei groesawu. Mae ID 125 yn nodi, trwy gael rhagor o ddulliau o gyflenwi rhaglenni, bod pobl bellach yn fwy agored i ddefnyddio opsiynau TG. Roedd ID 299 yn cryfhau'r pwynt hwn. Eglurwyd, yn ystod y cyfnodau clo, bod nifer o wasanaethau statudol a fynychwyd gan bobl wedi cau. Fodd bynnag, gwnaed ymdrech aruthrol o fewn y trydydd sector i symud pethau ar-lein, ac yn fwy na hynny, i sicrhau eu bod yn gallu rhoi cymorth i bobl ag anableddau fynd ar-lein a theimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny. Mae ID 299 yn credu mai'r dull hybrid yw'r dyfodol bellach, ac y bydd helpu pobl i gynnal eu lles (trwy leihau ynysigrwydd ac unigrwydd) wrth ddarparu cymorth yn bwysig iawn yn y tymor hir.

# Adolygiad o wasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

### Holiadur Oedolion 2018-19

Nifer yr ymatebion i'r holiadur hwn oedd 431.

Cyflawnwyd yr holiadur trwy gyfrwng nifer o ddatganiadau a oedd yn ceisio canfod faint o bobl a oedd yn cytuno â phob un. Y datganiad cyntaf oedd: 'Rydw i'n byw mewn cartref sy'n rhoi'r gefnogaeth orau i mi o ran fy lles. Er enghraifft, dyma'r cartref iawn ar gyfer eich anghenion presennol'.

- Dangosodd y canlyniadau bod 85% o bobl yn cytuno bod eu cartref yn rhoi'r gefnogaeth orau iddynt o ran eu lles.
- Roedd 6% yn anghytuno â'r datganiad uchod.
- Roedd 5% yn teimlo bod y cartref yr oeddynt yn byw ynddo yn diwallu eu hanghenion presennol weithiau.
- Nid oedd 4% yn gwybod beth i'w ddweud fel ateb.

Sylwadau ychwanegol:

- Roedd nifer sylweddol o'r sylwadau ychwanegol yn ymwneud â chyfranogwyr yn nodi eu bod yn dal i fyw yn eu cartrefi eu hunain, gyda sawl un o'r sylwadau hynny yn egluro hefyd eu bod yn cael cymorth gan ffrindiau, aelodau teulu a gweithwyr cymdeithasol os oedd angen.
- Roedd nifer sylweddol o sylwadau'n amlygu'r modd yr oeddynt yn hapus yn parhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain, ond roeddynt angen gwneud addasiadau a oedd yn addas ar gyfer eu sefyllfa bresennol.

O ran pobl sydd ag anableddau iechyd a chorfforol, mae gwneud y gorau o'r hyn y gallent ei wneud yn gorfforol yn angenrheidiol. Mae'r datganiad 'Rydw i'n gallu gwneud y pethau sy'n bwysig i mi', yn rhoi syniad o beth yw'r sefyllfa o ran cyfranogwyr a oedd yn cymryd rhan yn yr holiadur.

- Nododd 52% y gallent wneud y pethau sy'n bwysig iddynt.
- Teimlodd 32% bod hynny'n bosibl weithiau.

- Roedd 14% yn anghytuno ac yn teimlo nad oeddynt mwyach yn gallu gwneud y gweithgareddau yr oeddynt yn eu hystyried yn bwysig iddynt.
- 'Ddim yn gwybod' oedd ateb 2% ohonynt.

Sylwadau ychwanegol:

- Mae mwyafrif helaeth y sylwadau'n egluro, o ganlyniad i ddirywiad yn eu hiechyd, nad ydynt yn gallu cymryd rhan mwyach mewn gweithgareddau sy'n bwysig iddynt.
- Roedd nifer o sylwadau'n nodi eu bod yn gallu gwneud rhai o'r pethau sy'n bwysig iddynt, fodd bynnag, roedd hyn yn dibynnu llawer ar b'un a oedd ganddynt rywun yno i roi cymorth iddynt ai peidio.
- Yn ei hanfod, roedd y thema arall a gyflëwyd yn groes i'r hyn a nodwyd yn yr ail bwynt bwled. Roedd nifer o bobl wedi mynegi'r modd y byddent yn hoffi parhau i wneud y pethau y maent yn mwynhau eu gwneud, fodd bynnag nid oedd ganddynt y gefnogaeth na'r modd o wneud hynny.

Mae bod yn rhan o gymuned yn ffactor pwysig ym mywydau llawer o bobl. Roedd y datganiad 'Rydw i'n teimlo fy mod yn rhan o'm cymuned', yn ceisio ennyn dealltwriaeth o b'un a oedd y cyfranogwyr o fewn yr holiadur hwn yn teimlo eu bod yn rhan o'u gwahanol gymunedau.

- Nododd 60% eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o'u cymunedau lleol.
- Roedd 17% yn anghytuno ac yn dweud nad oeddynt yn teimlo'n rhan o'r gymuned.
- Roedd 16% yn teimlo eu bod yn rhan o'r gymuned weithiau.
- Nid oedd 7% yn gwybod beth i'w ddweud mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Sylwadau ychwanegol:

- Yn debyg i'r hyn a nodwyd yn flaenorol, roedd llawer o'r cyfranogwyr yn teimlo bod y dirywiad yn eu hiechyd wedi golygu nad ydynt yn gallu/nad ydynt yn rhan o'r gymuned oherwydd eu hanghenion corfforol eu hunain.
- Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn nodi eu bod yn rhan o glwb sy'n caniatáu iddynt dreulio rhywfaint o amser yn ystod yr wythnos mewn amgylchedd cymunedol.
- Roedd nifer fechan o bobl yn teimlo eu bod wedi'u cau allan o'u cymuned leol oherwydd eu bod yn Saesneg o ran cenedl, ac nid yn Gymraeg.

O ran pobl syn dioddef anableddau iechyd a chorfforol, yn aml mae cymorth gan ffrindiau, aelodau teulu a chymdogion yn angenrheidiol. Mae'r datganiad 'Rydw i'n hapus gyda'r cymorth gan fy nheulu, fy ffrindiau a'm cymdogion', yn cynnig gwybodaeth bwysig i'r rheiny â phroblemau iechyd.

- Nododd 87% eu bod yn hapus gyda'r cymorth gan ffrindiau ac anwyliaid.
- Roedd 9% yn teimlo eu bod yn hapus gyda'r cymorth a dderbyniwyd ganddynt weithiau.
- Roedd 2% yn anghytuno gyda'r datganiad ac nid oeddynt yn hapus gyda'r cymorth yr oeddynt yn ei dderbyn.
- Nid oedd 2% yn gwybod beth i'w ateb.

Sylwadau ychwanegol:

- Roedd y mwyafrif o'r sylwadau'n ymwneud â pha mor ddiolchgar yr oedd y cyfranogwyr am y cymorth y maent yn ei dderbyn gan ffrindiau neu aelodau teulu.

- Roedd cyfran o'r sylwadau'n nodi naill ai nad oedd ganddynt unrhyw deulu, neu fod eu teulu'n byw'n bell i ffwrdd. Felly roeddynt yn gorfod gofalu am eu hunain a byddant yn debygol o fod angen rhagor o gymorth gan ofalwyr yn y dyfodol.

Mae pobl sydd ag anableddau iechyd a chorfforol yn bobl sy'n agored i niwed. Felly mae'r datganiad 'Rydw i'n teimlo'n ddiogel. Er enghraifft, yn ddiogel rhag unrhyw fath o gamdriniaeth, niwed corfforol neu rhag cael codwm, y tu mewn a'r tu allan i'ch cartref', yn cynnig syniad o ran p'un a yw'r bobl yn yr holiadur hwn yn ystyried eu hunain yn agored i unrhyw fath o niwed.

- Roedd 79% yn cytuno eu bod yn teimlo'n ddiogel.
- Roedd 14% yn dweud eu bod yn teimlo nad oeddynt yn ddiogel mewn rhai mannau.
- Roedd 5% yn anghytuno ac yn dweud, at ei gilydd, nad oeddynt yn teimlo'n ddiogel.
- 'Ddim yn gwybod' oedd ateb 2% ohonynt.

Sylwadau ychwanegol:

- Roedd mwyafrif helaeth y sylwadau'n ymwneud â phobl yn poeni am gael codwm a brifo eu hunain.
- Gan gyd-fynd â'r pwynt uchod, roedd nifer o'r cyfranogwyr yn nodi eu bod yn teimlo'n fwy diogel ar ôl cael gosod rhagofalon diogelwch fel gwasanaeth botwm coch a handlenni.

Gall gwybod pwy sydd ar gael i'w cefnogi fod yn hanner y frwydr i'r rheiny sy'n dioddef anableddau iechyd a chorfforol. Mae'r datganiad a ganlyn yn ceisio ennyn dealltwriaeth o'r sefyllfa o ran y cyfranogwyr o Ynys Môn: 'Gan feddwl am y gofal a'r cymorth a gawsoch, ydych chi'n cytuno â'r canlynol: Rydw i'n gwybod pwy i gysylltu â nhw am fy ngofal a'm cymorth'.

- Roedd 85% yn cytuno eu bod yn gwybod pwy i gysylltu â nhw am eu gofal a'u cymorth.
- Teimlodd 6% eu bod yn gwybod pwy i gysylltu â nhw weithiau.
- Nid oedd 5% yn gwybod pwy i gysylltu â nhw.
- 'Ddim yn gwybod' oedd ateb 4% ohonynt.

Sylwadau ychwanegol:

- Roedd nifer fawr o'r sylwadau ychwanegol yn datgelu'r modd y mae aelodau teulu'n sicrhau bod unigolion yn derbyn y gofal a'r cymorth y mae arnynt eu hangen.

Gan gyd-fynd â'r datganiad blaenorol, mae angen derbyn y cyngor iawn wrth gysylltu â gwasanaeth sy'n gyfrifol am roi gofal a chymorth. Felly'r datganiad nesaf oedd: 'Rydw i wedi cael y wybodaeth neu'r cyngor iawn pan oeddwn eu hangen'.

- Roedd 81% yn cytuno eu bod wedi derbyn y wybodaeth/cyngor iawn pan fo angen.
- Roedd 10% yn teimlo eu bod wedi derbyn y wybodaeth gywir weithiau.
- Nid oedd 3% yn teimlo eu bod yn derbyn y cyngor/gwybodaeth gywir pan fo angen.
- 'Ddim yn gwybod' oedd ateb 6% ohonynt.

Sylwadau ychwanegol:

- Roedd y thema yn yr achos hwn yn debyg i'r cwestiwn blaenorol. Mae llawer o'r cyfranogwyr yn dibynnu ar aelodau teulu i gael y wybodaeth iawn ar eu rhan.

Roedd y datganiad nesaf o fewn yr holiadur yn ceisio ennyn dealltwriaeth o faint o lais yr oedd cyfranogwyr yn ei gael y eu gofal. Y datganiad a ddefnyddiwyd oedd 'Rydw i wedi chwarae rhan weithredol mewn penderfyniadau o ran y modd y darparwyd fy ngofal a'm cymorth'.

- Roedd 83% yn cytuno â'r datganiad ac yn teimlo eu bod yn chwarae rhan weithredol yn y penderfyniadau a wnaed.
- Teimlodd 7% eu bod yn chwarae rhan yn y penderfyniadau weithiau.
- Roedd 4% yn anghytuno ac nid oeddynt yn teimlo eu bod yn chwarae rhan yn y penderfyniadau a wnaed o ran eu gofal a'u cymorth.
- 'Ddim yn gwybod' oedd ateb 6% ohonynt.

Sylwadau ychwanegol:

- Roedd bron bob un o'r sylwadau'n nodi eu bod naill ai'n ymwneud â'r penderfyniadau ynglŷn â'u gofal a'u cymorth bob amser, neu eu bod yn cael cefnogaeth gyda chymorth aelod teulu wrth wneud y penderfyniadau hyn.
- Roedd nifer fechan iawn o'r sylwadau'n cyfleu eu bod yn anhapus gan eu bod yn teimlo nad oeddynt wedi chwarae digon o ran yn y penderfyniadau.

Mae'r rheiny sydd â phroblemau iechyd ac anawsterau corfforol yn disgwyl cael eu trin yn deg a gydag urddas. Roedd y datganiad a ganlyn, 'Fe gefais fy nhrin gydag urddas a pharch' yn ceisio sicrhau mai dyna oedd y sefyllfa.

- Roedd 95% yn cytuno y cawsant eu trin gydag urddas a pharch.
- Teimlodd 4% ei bod yn cael eu trin â pharch weithiau.
- 'Ddim yn gwybod' oedd ateb 1% ohonynt.

Sylwadau ychwanegol:

- Roedd yr holl sylwadau'n mynegi'r modd yr oeddynt yn hapus gyda lefel y parch a'r urddas yr oeddynt yn ei derbyn gan eu rhwydweithiau cymorth.
- Fodd bynnag, roedd rhai sylwadau'n nodi eu bod yn cael eu cyfarch gan ddefnyddio'r enw neu deitl anghywir.

O safbwynt y Cyngor, mae sicrhau bod y cleientiaid yn hapus gyda'r gwasanaeth a dderbynnir ganddynt yn hollbwysig. Roedd y canlynol yn ceisio sicrhau mai dyna oedd y sefyllfa: 'Rydw i'n hapus gyda'r gofal a'r cymorth a dderbyniwyd gen i'.

- Nododd 88% o'r bobl eu bod yn hapus gyda'r gofal a'r cymorth a dderbyniwyd ganddynt.
- Mynegodd 9% eu bod yn hapus gyda'r cymorth a dderbyniwyd ganddynt weithiau.
- Roedd 1% o'r cyfranogwyr yn anhapus gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd ganddynt.
- 'Ddim yn gwybod' oedd ateb 2% ohonynt.

Sylwadau ychwanegol:

- Roedd y mwyafrif llethol o ymatebion y cyfranogwyr yn eu sylwadau'n gadarnhaol, gydag ystod eang o sylwadau'n amlygu pa mor ddiolchgar oeddynt am y cymorth a'r gofal a dderbyniwyd ganddynt.
- Roedd rhai o'r sylwadau'n nodi eu bod yn anhapus â rhai agweddau llai o'r gofal a dderbyniwyd ganddynt. Roedd y rhain fel arfer yn ymwneud â bod staff gofal heb fynd ar drywydd mater penodol.

Bwriad y cwestiwn olaf o fewn yr holiadur hwn oedd ennyn dealltwriaeth o oedrannau'r cyfranogwyr.

- Nododd 41% eu bod rhwng 65-84 oed.
- Roedd 28% rhwng 25-64 oed.
- Roedd 29% yn 85 mlwydd oed neu'n hŷn.
- Roedd 2% o'r cyfranogwyr rhwng 18-24 oed.

# Casgliad ac argymhellion

Tra bo'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn teimlo mai adref oedd y lle gorau iddynt, dylai'r Cyngor barhau i roi cymorth i ddinasyddion anabl gael byw mor annibynnol ag y bo modd, gan ystyried cryfderau a systemau cymorth y dinesydd. Mae hyn yn cynnwys eu cyfeirio ymlaen, a lle'n briodol, darparu addasiadau i alluogi dinasyddion i fyw adref am gyfnod hirach.

Dylai bod modd i ddinasyddion ag anableddau corfforol gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol i hybu canlyniadau cadarnhaol o ran lles. Yn unol â hynny, dylai'r Cyngor gynnal a gwella ei adeiladau, trafnidiaeth a chyfleusterau hamdden fel eu bod yn addas ar gyfer bobl anabl, a bod modd eu defnyddio ledled y gymuned.

Roedd yr holiadur yn dangos bod presenoldeb o fewn y gymuned yn ffactor arwyddocaol o ran dinasyddion ag anableddau. Gan ystyried hyn, dylai'r Cyngor barhau i weithio gyda'r trydydd sector i gryfhau ei adnoddau cymunedol. Yn yr un modd, dylid hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg i gefnogi dinasyddion nad ydynt yn siarad Cymraeg i integreiddio o fewn y gymuned.

Roedd yr holiadur yn awgrymu bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn hapus gyda'r cymorth a dderbynnir ganddynt gan aelodau teulu, ffrindiau, ynghyd â rhwydweithiau cymorth o fewn eu cymuned. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio'n agos gyda dinasyddion i gyd-gynhyrchu'r hyn sy'n bwysig iddynt, gan ddefnyddio'r systemau cymorth sydd ganddynt ar waith. Lle bo angen cymorth ychwanegol, byddir yn cydweithio gyda'r dinesydd i ganfod opsiynau a chyfleoedd.

Cyfeiriwyd at ddiogelwch personol yn yr ymatebion, yn enwedig o ran yr ofn o gael codymau. ER mwyn lleihau'r pryder hwn, lle'n briodol, gallai dinasyddion y gellid canfod eu bod mewn perygl o gael codymau gael mynediad at dechnoleg teleofal i'w galluogi i geisio cymorth os ydynt yn cael codwm. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gydag asiantaethau sy'n bartneriaid, ynghyd â'r gymuned, i hybu'r agenda ddiogelu, ac i annog dinasyddion i fynd ati eu hunain i adrodd am unrhyw amheuon o ran achosion o gamdriniaeth neu achosion o gamdriniaeth a ganfuwyd.

Codwyd y mater o fyw'n annibynnol a mynediad at y gymuned yn yr holiadur fel ffactor a oedd o bwys i ddinasyddion yr ynys. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i asesu anghenion unigolion a theuluoedd er mwyn rhoi cymorth i fyw'n annibynnol trwy ymagwedd sy'n ystyried pob grŵp oedran. Y nod yw galluogi pobl i leihau'r risg o iechyd a lles gwael trwy gymorth o fewn y gymuned ac ymyrraeth gynnar.

Tra bo'r mwyafrif helaeth o ddinasyddion yn gwybod pwy i gysylltu â hwy ynglŷn â'u hanghenion o ran gofal a chymorth, roedd canran fechan yn dal i fod yn ansicr. Bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod ein fframwaith gwybodaeth, cyngor a chymorth ar waith i gefnogi cleientiaid ac i'w cyfeirio ymlaen at y gweithiwr proffesiynol, asiantaeth neu'r trydydd sector. Cyflenwir hyn weithiau i'r dinesydd neu i'r aelod teulu / ffrind sy'n ei gynrychioli.

Roedd yr holiadur yn nodi bod y mwyafrif helaeth o gyfranogwyr yn chwarae rhan weithredol yn y cynllunio ar gyfer eu gofal a'r hyn a oedd o bwysig iddynt. Mae hyn yn golygu gweithio'n agos â dinasyddion sydd â'r capasiti meddyliol i chwarae rhan yn y penderfyniadau o ran cynllunio a chyflenwi eu hanghenion o ran cymorth.

I raddau helaeth iawn, roedd y dinasyddion yn adrodd eu bod yn cael eu trin â pharch ac urddas. Yn yr un modd, roedd y mwyafrif o'r dinasyddion yn fodlon gyda model y cymorth a dderbyniwyd ganddynt.

**Blaenoriaethau**

1. Cryfhau'r defnydd o daliadau uniongyrchol i gyflenwi gofal cymdeithasol a fydd yn hybu annibyniaeth ac yn rhoi mwy o ddewis i'r dinesydd os oes ganddynt anghenion cymwys o ran gofal a chymorth. Bydd hyn yn grymuso'r dinesydd i adeiladu ar ei gyflawniadau a'i ddatrysiadau ei hun.
2. Gwneud adeiladau a chyfleusterau a redir gan yr Awdurdod Lleol yn fannau sy'n addas i bobl ag anableddau y gellir eu defnyddio gan y gymuned.

# Namau ar y synhwyrau

## Ynglŷn â'r bennod hon

| Cyngor lleol | Nifer amcangyfrifiedig sydd â nam ar ddau synnwyr | Y gyfradd sydd â nam ar ddau synnwyr |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 560 | 800 |
| Gwynedd | 910 | 731 |
| Conwy | 1,070 | 913 |
| Sir Ddinbych | 710 | 742 |
| Sir y Fflint | 1,040 | 666 |
| Wrecsam | 880 | 647 |
| Gogledd Cymru | 5,170 | 739 |
| Cymru | 21,300 | 676 |

Ffynhonnell: Offeryn data'r RNIB am rai sydd wedi colli eu golwg, fersiwn 4.3.1

Mae namau gweledol yn cael effaith ddinistriol ar bobl o bob oed sy'n golygu bod angen iddynt newid eu ffordd o fyw a chael eu hadsefydlu er mwyn addasu i'r golled. Mae data'n awgrymu y bydd poblogaeth sy'n heneiddio'n gweld cynnydd yn nifer y rheiny sy'n gorfod addasu i golli eu golwg a/neu eu clyw, ac mae angen i ni gael gwasanaethau digonol ar waith i gefnogi pobl i fyw bywyd da gyda'r namau sydd ganddynt ar eu synhwyrau.

Ystyrir bod rôl arbenigol y Swyddog Adsefydlu Nam ar y Golwg (ROVI) yn amhrisiadwy o ran meithrin hyder unigolion, gan ddarparu cymorth emosiynol, adennill sgiliau a gollwyd, dysgu sgiliau newydd a chynnal annibyniaeth yn ôl dewis personol. Mae ymyriadau'n ceisio galluogi pobl sydd wedi'u heffeithio gan nam ar y golwg i fyw'n ddiogel ac i gyfrannu o fewn y gymdeithas fel dinasyddion gweithredol.

Trwy bartneriaeth hirdymor gyda Chymdeithas y Deillion Gogledd Cymru, mae Ynys Môn yn cyflogi Swyddog Adsefydlu sy'n darparu cymorth ledled yr ynys i unigolion a effeithir gan nam ar y golwg. Mae'r swydd yn cefnogi'r Timau Adnoddau Cymunedol amlddisgyblaethol (CRT) sy'n esblygu, ynghyd â'r gwasanaethau plant, gyda rhaglenni asesu ac adsefydlu arbenigol yn dilyn derbyn Tystysgrif Nam ar y Golwg (CVI) gan Opthalmolegydd a leolir mewn ysbyty.

Ategir ymyriadau gan **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** sy'n rhoi dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i ddarparu ymagwedd ataliol at ddiwallu anghenion unigol a lleihau effeithiau namau ar y synhwyrau ar fywyd unigolion a'u teuluoedd.

Mae adsefydlu'n allweddol i alluogi pobl i addasu i nam ar y synhwyrau. Cefnogir unigolion i ddysgu dulliau newydd o gyflawni tasgau a chael eu cyflwyno i ystod o offer a thechnegau er mwyn osgoi anaf personol a hybu eu hymdeimlad o iechyd a lles.

Gyda'r disgwyl y bydd nifer y bobl ddall a rhannol ddall yn cynyddu'n sylweddol yng Nghymru, o **121,000 i 146,000 erbyn 2030 (20%)** mae'n bwysig i bartneriaid sy'n comisiynu gwasanaethau a darparwyr trydydd sector ystyried a datblygu strategaeth gomisiynu i fynd i'r afael â'r her hon.

Bydd angen i ni adolygu'r gwasanaethau mwy arbenigol a ddarperir ar hyn o bryd, ynghyd ag ystyried cynllunio a hyfforddi'r gweithlu, adolygu a chodi ymwybyddiaeth o'r wybodaeth a'r cyngor sydd ar gael ledled y rhanbarth i sicrhau bod pobl yn derbyn cymorth mewn modd amserol. Cydnabyddir bod y prinder Swyddogion Adsefydlu sy'n siarad Cymraeg ar draws Cymru yn her, fodd bynnag nid yw hyn yn broblem ar lefel leol ar hyn o bryd.

Fel rhan o gynllunio ar gyfer olyniaeth o fewn y gweithlu, mae Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru yn ddiweddar wedi recriwtio 2 hyfforddai i sicrhau parhad busnes ar gyfer yr Awdurdodau Lleol ledled Gwynedd ac Ynys Môn, mewn cydnabyddiaeth o'r galw cynyddol a'r ffaith bod ein ROVI lleol yn ymddeol yn fuan. Rhagwelir y bydd hyfforddeiaethau'n sicrhau parhad cyflenwad gwasanaeth dwyieithog, ac mae'n cefnogi cyfnod pontio rhwydd rhwng swyddogion, gan liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar y gwasanaeth a gyflenwir.

Ym marn rhanddeiliaid allweddol, mae pwysigrwydd datblygu amgylcheddau adeiledig sy'n llwyr werthfawrogi effaith namau ar y synhwyrau, ynghyd â'r angen i ddatblygu llety pwrpasol, darpariaeth trafnidiaeth hygyrch a mynediad at gyfleoedd cymdeithasol a hamdden yn angenrheidiol, ac yn rhan annatod o unrhyw ddatblygiadau o ran gwasanaethau ynghyd â mentrau lleol. Mae gwasanaethau statudol wedi croesawu'r cysyniad ac yn gofalu eu bod yn sicrhau eu bod yn ymgynghori â phartneriaid arbenigol, ac yn meithrin cydweithio wrth gychwyn unrhyw ddatblygiadau a gyflwynir i'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn fewnol ac yn allanol.

Mae ymchwil yn awgrymu bod cysylltiad cryf rhwng namau ar y golwg a phobl yn cael codymau ac yn torri eu clun, gyda'r data'n amlygu bod nifer y codymau ymhlith pobl hŷn â nam ar y golwg yn **1.7 gwaith yn uwch, a bod nifer y rhai sy'n torri eu clun yn 1.9 gwaith yn uwch na hynny o fewn y boblogaeth hŷn yn gyffredinol**. Gall asesiad o ddiogelwch y cartref ac addasiadau sy'n cyd-fynd a chyflwyno strategaethau ymdopi arwain at **ostyngiad o 41% o ran y risgiau**. Bydd ymyriadau a strategaethau ataliol ar lefel leol yn hybu gostyngiad yn y niferoedd, sy'n arwain at effaith gadarnhaol ar fywydau pobl, a bydd yn cyflenwi arbedion o ran costau o fewn y system gyfan.

Mae'r 'British Medical Journal' yn nodi bod pobl hŷn sydd wedi colli eu golwg yn 3 gwaith mwy tebygol o deimlo'n ynysig neu'n isel o ganlyniad i namau ar y synhwyrau sy'n arwain at gymhlethdodau o ran problemau o ran iechyd a lles. Cydnabyddir yr angen i sicrhau bod pob ymarferydd iechyd a gofal cymdeithasol yn sensitif i effaith namau ar y synhwyrau fel rhan o asesiad gofal a chymorth, gyda hyfforddiant arbenigol ychwanegol yn cael ei nodi fel modd o wella arferion gorau.

Cydnabyddir bod y prinder o ran ymarferwyr a gofalwyr sydd wedi'u hyfforddi yn Iaith Arwyddion Prydain (BSL) o fewn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol – yn enwedig mewn cartrefi gofal – yn faes i'w ddatblygu ymhellach, ac fe'i hystyrir fel rhan o gynllun gweithredu lleol i gwrdd â'r cynnydd a ragwelir o ran y galw am wasanaeth.

Mae adborth ynghylch bodlonrwydd defnyddwyr ynghyd â dulliau mesur canlyniadau yn sicrhau bod y cyflenwad o wasanaethau'n parhau i gwrdd â'r gofynion ac yn cyd-fynd dyheadau unigolion o ran cynnal cyflogaeth, bywyd teuluol, hyfywedd ariannol ac iechyd a lles wrth addasu i effaith namau ar y synhwyrau. Mae offeryn mesur canlyniadau a fabwysiadwyd yn lleol yn mesur datblygiadau personol ar ddechrau ymyriadau a 4 mis ar ôl rhoi ymyriadau ar waith.

Mae Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru, mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol, wedi prif ffrydio adborth ynghylch bodlonrwydd defnyddwyr fel cyfle parhaus i ddatblygu'r gwasanaeth, ac mae ganddynt ddarpariaeth sy'n darparu cyswllt dynodedig rheolaidd mewn modd rhagweithiol, gyda'r holl unigolion cofrestredig yn hyrwyddo lles – sy'n wasanaeth gwerthfawr iawn.

Mae Covid wedi cael effaith sylweddol ar nifer yr atgyfeiriadau newydd, fodd bynnag, rydym wedi parhau i gysylltu ag unigolion yn rheolaidd ac yn cynnal asesiadau yn y cartref yn seiliedig ag asesu risg ac yn unol â rheoliadau Covid. Mae effaith Covid wedi gwneud pobl yn fwy agored i niwed o ran teimlo'n ynysig a phroblemau iechyd meddwl a adroddir gan unigolion sydd â nam ar y synhwyrau, ac mae'r defnydd o fasgiau wyneb wedi rhwystro gallu pobl sy'n dibynnu ar Iaith Arwyddion Prydain fel cyfrwng cyfathrebu i ddehongli deialog yn iawn.

Mae ymchwil RNIB Cymru'n nodi bod **"66% o unigolion dall a rhannol ddall sydd wedi ymateb i arolwg yn teimlo'n llai annibynnol bellach o gymharu â chyn y cyfnod clo".**

Mae'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth yn ystod y pandemig wedi darparu dull newydd o gynnal asesiadau a chynnig cyfleoedd i gymdeithasu ac ymgysylltu ar gyfer unigolion sy'n teimlo'n ynysig. Bydd hyn yn wasanaeth ychwanegol a fydd ar gael yn y dyfodol, a gefnogir gan staff dynodedig o fewn Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru trwy fynediad at IPads, cyfrifiaduron llechen a hyfforddiant TG.

# Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth

- O ran pobl anabl sydd â **namau corfforol/ar y synhwyrau heb nam gweledol** rydym yn gwybod, yn 2015, mai nifer y bobl a ddaeth o dan y categori hwn oedd tua 1,950. Fodd bynnag, yn 2018/19, roedd y ffigur hwn wedi gostwng yn aruthrol, gyda nifer y bobl sy'n dod o dan yr ystadegyn hwn bellach yn ddim ond 1,012.
- Yn 2021, gwyddwn fod nifer y **bobl sy'n byw â nam ar y golwg** yn tua 2,960 ym Môn, gyda 2,560 o'r nifer honno'n rhai sy'n rhannol ddall, a'r 400 sy'n weddill yn ddall.
- **Proffil oedran pobl sy'n byw â nam ar y golwg yw:** 18 - 64 (460); 65 - 74 (650); 75 - 84 (890); 85 + (940).
- Yn 2021, roedd 428 o bobl wedi'u **cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall**.
- O ran **dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig â henaint (AMD)**, rydym yn gwybod, yn 2021, bod 4,070 o bobl yn byw gan ddioddef AMD; 310 gydag AMD 'sych, cam hwyr'; 640 yn byw gydag AMD 'gwlyb, cam hwyr'; 900 gydag AMD 'cam hwyr cyfun'.
- Yn 2021, amcangyfrifwyd mai **nifer y bobl sy'n byw gyda chataract** yw 1,010.
- Yn 2021, o ran **glawcoma**, amcangyfrifir bod 1,560 o bobl yn byw gyda gorbwysedd ocwlar, a bod gan 950 o bobl eraill glawcomau.
- O ran **clefyd diabetig y llygaid**, roedd 1,400 o bobl yn byw gyda retinopatheg diabetig. O'r rhain, roedd 130 yn dioddef retinopatheg diabetig difrifol yn 2021.

# Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

Roedd ymatebwyr i'r arolwg ymgysylltu rhanbarthol yn dweud eu bod yn meddwl bod y Gwasanaeth Iechyd Hygyrch a gwaith BIPBC o ran amrywiaeth yn gweithio'n dda, yn ogystal â'r ddarpariaeth o gymhorthion, addasiadau a'r gwasanaeth cyfeillio a gynigir gan y prosiect Byw'n Dda Gyda Nam ar y Clyw/'Live Well with Hearing Loss'. Nododd darparwr gwasanaeth bod gwaith partneriaeth gydag adrannau gwasanaethau cymdeithasol lleol a sefydliadau trydydd sector yn gryf, sy'n cefnogi'r cyflenwad o ystod eang o wasanaethau o ansawdd, ynghyd â rhwydweithio a rhannu arferion da.

Fodd bynnag, roedd adborth yn awgrymu bod meysydd y gellir eu gwella o ran pobl â nam ar y synhwyrau, a oedd yn cynnwys mynediad at wybodaeth, ac mae darparu cyngor mewn fformatau amgen yn her fawr i ddefnyddwyr gwasanaeth â namau ar y synhwyrau, yn enwedig gwybodaeth gan awdurdodau lleol a'r GIG. Nid yw deunydd wedi'i argraffu yn briodol i lawer, tra bo'r cynnydd mewn mynediad ar-lein yn unig i wasanaethau a gwybodaeth yn rhwystr mawr i eraill.

O ran pobl fyddar yng Ngogledd Cymru, disgrifir bod y ddarpariaeth o wybodaeth, cyngor a chymorth (IAA) yn *'loteri cod post'*, lle gall rhai pobl gael mynediad at gymorth o ddydd Llun i ddydd Gwener, o 9 o'r gloch y bore i 5 o'r gloch yr hwyr, tra bo eraill wedi'u cyfyngu i rai dyddiau'r wythnos. Yn fwy

cyffredinol, mae pobl ddall yn ei chael yn anodd cael mynediad at lawer o weithgareddau, gan nad oes unrhyw ddarpariaeth i hwyluso cyfathrebu.

Unwaith eto, mae diffyg staff gofal yn bryder, sy'n golygu y darperir gofal ar adeg sy'n addas i'r asiantaeth ofal, yn hytrach na phan fo'r cleient ei angen, ac nid oes darpariaeth bob amser i gymryd lle staff sy'n absennol oherwydd salwch neu wyliau.

**Gwasanaethau GIG – Iechyd Cyffredinol**

**Beth sy'n gweithio'n dda**

Gwnaeth rhywfaint o ymatebwyr sylwadau ar y gwasanaethau iechyd sy'n gweithio'n dda. Amlygwyd pwyntiau a ganlyn ganddynt:

- Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn gwerthfawrogi eu cydweithrediad agos â gweithwyr iechyd sylfaenol.
- Roedd llawer yn ddiolchgar am y cymorth gan iechyd yr amgylchedd a'r gwasanaeth GIG yn ystod y pandemig.
- Roedd gweithwyr gofal yn adrodd bod gwasanaethau iechyd i bobl ifanc yn gweithio'n dda i sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth a'r cyngor cywir o ran iechyd, yn enwedig o safbwynt cyngor iechyd rhyw, cofrestru â meddyg teulu ac atgyfeirio i Wasanaethau Deintyddol Cymunedol.

**Beth sydd angen ei wella**

Soniwyd bod angen gwella ystod o wasanaethau, gan gynnwys:

- Gwell cymorth diwedd oes, yn enwedig yn ystod y nos.
- Mae cynhyrchion ymataliaeth ('continence') o ansawdd wael iawn ac yn aml defnyddir mwy nag a ragwelir.
- Dylai therapyddion lleferydd ac iaith roi mwy o amser i blant dieiriau.
- Gwella mynediad pobl hŷn at ofal deintyddol i osgoi effaith cyflyrau'r geg a phroblemau deintyddol. Mae hyn yn cynnwys preswylwyr cartrefi gofal sy'n derbyn gofal deintyddol yn eu cartref gofal.
- Mae Gwasanaethau Aelodau Artiffisial a Chyfarpar yn her i'w defnyddio ac yn araf iawn yn ymateb.
- Gwneud mwy o ddefnydd o wasanaethau teleofal i atal mynediad i'r ysbyty a gwella cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion ac ymweliadau gan nyrsys ardal.
- Annog staff cartrefi gofal i gael brechiadau COVID.
- Roedd rhai aelodau staff iechyd yn dweud bod systemau cyfrifiadurol sy'n gweithio'n wael yn cael effaith negyddol ar eu gallu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd.

# Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

**Llwybrau Gweithredol**

Caiff pobl â nam ar y golwg eu cofrestru gan Awdurdodau Lleol yn dilyn ardystiad gan Opthalmolegydd. Mae'r Dystysgrif Nam ar y Golwg (CVI) yn nodi graddau'r nam, a thra bo cofrestru'n wirfoddol, gall ddarparu mynediad at asesiad ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn ogystal ag asesiad gan y Swyddog Adsefydlu.

Ceir llwybrau sydd wedi'u hen sefydlu i gymorth cymunedol a gan y trydydd sector. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr angen i godi ymwybyddiaeth ymhlith ymarferwyr rheng flaen o fewn yr economi iechyd o fudd presgripsiynu cymdeithasol fel llwybr o ran ymarfer gofal sylfaenol.

Bydd y Swyddog Adsefydlu'n cynnal asesiad a fydd yn rhoi sylw i Gyfeiriadedd ('Orientation'), Symudedd, Byw'n Annibynnol a Sgiliau Cyfathrebu, ynghyd ag unrhyw anghenion amlwg o ran gofal a chymorth gan ddefnyddio'r fframwaith asesu rheoli gofal 'Beth sy'n Bwysig' cenedlaethol. Gall hyn arwain at amrywiaeth o gymorth, e.e. rhaglen adsefydlu, buddion ariannol, addasu'r cartref, mynediad at waith a chyfleoedd hamdden.

**Swyddogion Adsefydlu ar gyfer Namau ar y Golwg**

**Mynd i'r afael ag argyfwng o ran y gweithlu yng Nghymru**

Yn nhermau atgyfeiriadau i Betsi Cadwaladr, o safbwynt Ynys Môn, roedd yn dangos y canlynol:

• Hunan-atgyfeirio: mae'r unigolyn yn mynd trwy'r ganolfan alwadau. Mae'n cwblhau'r sgwrs Beth sy'n Bwysig cyn iddo fynd at y ROVI.

• CVI: yn mynd i'r SPoA ac fe'i cyfeirir at y ROVI. Mae'r ROVI yn cynnal ymweliad o ganlyniad i'r CVI. Ceir ôl-groniad o ymweliadau ar gyfer cofrestru cleientiaid ar hyn o bryd. Cydnabyddir, os nad yw'r ROVI yn cynnal ymweliad y gallai fethu pethau.

• ECLO: yn cwblhau data craidd ffurflen Beth sy'n Bwysig yr awdurdod lleol. Anfonir hon at yr awdurdod ac wedyn ymlaen at y ROVI.

• LVSW: Mae Optometrydd yn cwblhau ffurflen Beth sy'n Bwysig ac yn ei hanfon at SPoA yr Awdurdod Lleol, sydd wedyn yn ei hanfon ymlaen at y ROVI. Ymweliadau Cartref - gall yr optometrydd ffonio'r ROVI yn uniongyrchol.

**Atodiad 1 – Llwybrau Gweithredol**

# Casgliad ac argymhellion

**Datblygiadau o ran Gwasanaethau**

1. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o rôl y Swyddog Adsefydlu ymhlith ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol cysylltiedig â'r cyhoedd.

2. Darparu hyfforddiant BSL i ddarparwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen dynodedig.

3. Datblygu cyfleoedd pellach o ran cyflogaeth a gwella cysylltiadau i greu mentrau gwaith cyflogedig a gwirfoddol lleol.

4. Datblygu rhaglen hyfforddiant arbenigol ar gyfer staff adsefydlu a darparwyr gofal.

5. Sicrhau bod taflenni gwybodaeth, cylchlythyrau a manylion o ran sut i gael mynediad at wasanaethau ar gael yn eang.

6. Defnyddio adborth o ran bodlonrwydd defnyddwyr i ganfod bylchau mewn gwasanaethau sy'n llywio cynllun datblygu ar gyfer gwasanaethau lleol.

7. Parhau i weithio mewn partneriaeth â darparwyr cymunedol ac yn y trydydd sector fel elfen annatod o strategaeth ymyrraeth gynnar ac ataliol.

8. Gan gydnabod y gall pobl sydd â namau ar y synhwyrau fod yn agored i gamdriniaeth o fewn y gymuned, codi ymwybyddiaeth y fewn y gymuned o weithdrefnau diogelu.

9. Hybu mewnbwn gan y ROVI i wasanaethau Anableddau Dysgu a Dementia.

10. Ystyried capasiti'r ROVI o ran cwrdd â'r galw a ragwelir.

**Dallfyddardod**

Dallfyddardod yw lle mae rhywun wedi colli eu golwg a'u clyw i raddau sy'n effeithio cyfathrebu, symudedd a'r gallu i gael mynediad at wybodaeth, a gall ddirywio dros gyfnod o amser. Cyfeirir at ddallfyddardod yn aml fel 'nam ar clyw a'r golwg' neu 'nam ar ddau synnwyr'.

Amcangyfrifir bod bron i 400,000 o bobl ddallfyddar yn y DU, a disgwylir y bydd yn cynyddu i 600,000 erbyn 2030 oherwydd y boblogaeth sy'n heneiddio. Mae dallfyddardod yn effeithio pobl o bob oed, gan gynnwys plant a phobl ifanc, fodd bynnag, mae'n fwy cyffredin mewn pobl hŷn.

Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Gweithredu i Gymru ar gyfer pobl sy'n fyddar neu sy'n byw â cholled clyw, ac rydym yn chwarae rhan yn y cynllun gweithredu rhanbarthol.

Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion o ran rhoi cymorth i bobl gael mynediad at wasanaethau, gan ddarparu cymorth i gyfathrebu trwy systemau dolen sain i rai sy'n drwm eu clyw, gyda staff yn cael eu hyfforddi i ymateb i anghenion amlwg. Ceir aelod staff o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol sydd wedi'i hyfforddi mewn BSL, sydd ar gael i roi cymorth fel y bo angen.

Mae'r niferoedd o bobl a gofrestrir yn Fyddar/Ddall ar yr ynys ar hyn o bryd yn isel, fodd bynnag, efallai nad yw hyn yn adlewyrchu'r data cywir gan y gall unigolion ddewis i beidio â chofrestru.

Caiff atgyfeiriadau eu cyfeirio at ddarparwyr arbenigol a leolir ar lefel ranbarthol sydd â gweithwyr allweddol sy'n gweithio'n agos â'r asiantaeth atgyfeirio yn ystod yr asesiad a'r broses ymyrraeth ddilynol.

Mae gennym sianelau sydd wedi'u hen sefydlu ar gyfer atgyfeirio i asiantaethau arbenigol ac allanol er mwyn rhoi cymorth i'r boblogaeth leol, e.e. Sense Cymru, Deafblind UK, Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru a'r RNIB.

O ran gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc ag anableddau lluosog, fe'u darperir ar sail unigol, a chynhelir asesiadau o'r synhwyrau'n bennaf, o ran golau, arogl, cyffyrddiad a thymheredd.

Mae'r ysgol arbenigol yn yr ardal wedi'i hadeiladu'n bwrpasol ac mae ganddi ystafelloedd therapi a synhwyraidd integredig ag ystod o offer arbenigol, pwll hydrotherapi a gardd synhwyraidd.

Bydd canolbwyntio ar 'beth sy'n bwysig' i unigolyn yn cynorthwyo i fynd i'r afael â'r agweddau ehangach trwy barhau i weithio mewn partneriaethau â phobl, teuluoedd, y trydydd sector a'r sector annibynnol, yn ogystal â gwasanaethau cyhoeddus eraill.

**Blaenoriaethau o ran Gwasanaeth**

1. Bwriadwn ganolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn fuan, gan godi ymwybyddiaeth o fuddion ffordd iach o fyw, y ddarpariaeth o wybodaeth dda ac argaeledd cyngor er mwyn cael mynediad at asesiadau cynnar a hybu annibyniaeth.

2. Datblygu darpariaeth ymhellach ynghyd â mynediad at wasanaethau arbenigol, hyfforddiant i staff cymorth a chodi ymwybyddiaeth o wasanaethau arbenigol sydd ar gael yn lleol i roi cymorth i unigolion sydd â namau ar y synhwyrau.

3. Byddwn yn adolygu'r angen i'n gwasanaethau mwy arbenigol ddarparu gofal yn nes at adref lle'n bosibl, ac yn sicrhau mynediad at gymorth mewn modd amserol. Ar hyn o bryd, lleolir gwasanaethau i rai sy'n drwm eu clyw y tu allan i'r sir, a thra bo'r rheiny'n effeithiol o ran y modd y maent yn ymateb, ceir goblygiadau i breswylwyr lleol o ran teithio.

4. Gwella mecanweithiau casglu data ledled rhanbarth y Gorllewin er mwyn deall anghenion lleol a darparu data cymharol ar lefel Cymru gyfan.

5. Gwella cymorth i ofalwyr anffurfiol a chyfeirio ymlaen at sefydliadau, e.e. Deaf/Blind UK, i gael mynediad at wybodaeth, cyngor ac offer arbenigol, ynghyd â gwasanaethau cyfeillio a chymorth emosiynol.

6. Cyflenwi sesiynau hyfforddi i staff i godi ymwybyddiaeth o fyddardod.
7. Darparu mwy o Therapyddion Lleferydd ac Iaith.

# Anabledddau dysgu

## Ynghylch y bennod hon

Mae'r bennod hon yn edrych ar y sefyllfa o ran anghenion y boblogaeth ag anableddau dysgu ym Môn, ynghyd â beth y maent yn ei ddweud wrthym am wasanaethau. Defnyddir y term anabledd dysgu i ddisgrifio unigolyn:

- Y mae ei allu i ddeall gwybodaeth newydd neu gymhleth, neu i ddysgu sgiliau newydd, wedi'i leihau'n sylweddol (nam ar ei ddeallusrwydd) a/neu
- Y mae ei allu i ymdopi ar ei ben ei hun wedi'i leihau (nam ar ei allu i addasu ei weithredoedd), ers cyn iddo droi'n oedolyn, ac y mae hyn yn effeithio'n barhaus ar ei ddatblygiad

Amcangyfrifir bod gan 2% o'r boblogaeth anabledd dysgu ond ni chafodd nifer fawr o'r rhain eu hasesu ac nid ydynt yn derbyn gwasanaethau.

## Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth

- Rydym yn gwybod bod **nifer yr oedolion ar y gofrestr anableddau dysgu** wedi cynyddu ers 2015. Yn 2018-19, roedd nifer yr oedolion ym Môn sydd ar y gofrestr anableddau dysgu wedi cynyddu o 303 yn 2015 i 322.
- Roedd **nifer yr oedolion 18-64 a oedd yn derbyn gwasanaethau anabledd dysgu** wedi cynyddu hefyd ers 2015. Yn 2018-19, ceir tua 264 o unigolion rhwng 18-64 oed sy'n derbyn gwasanaethau anabledd dysgu. Mae hyn yn gynnydd sylweddol, o ystyried mai 180 oedd y nifer yn 2015.
- Fodd bynnag, **mae nifer yr oedolion 65+ sy'n derbyn gwasanaethau anabledd dysgu** wedi gostwng ers 2015. Nifer yr oedolion 65+ a oedd yn derbyn gwasanaethau anabledd dysgu yn 2015 oedd 27. Yn 2018-19, dim ond 22 o bobl sy'n dod o dan y categori hwn.
- **Nifer amcangyfrifiedig y bobl ag anabledd dysgu sy'n byw gyda gofalwyr 60+** oedd 27 yn 2016. Yn 2018-19, roedd hyn wedi gostwng, gyda nifer y bobl o dan y categori hwn yn 11. Fodd bynnag, dylid nodi bod bob un o'r 11 yn 2018-19 yn 65+.

## Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

### Pontio i fod yn Oedolion (Cymorth)

O fewn canlyniadau'r holiadur, nodwyd, o ran y rheiny sydd â diagnosis o anabledd dysgu, eu bod angen mwy o gymorth i bontio i fyd gwaith ac i fod yn oedolion. Nodir isod rhai o'r sylwadau a wnaed gan y defnyddwyr gwasanaeth neu'r gofalwyr:

Teimlodd ID 227 bod angen rhoi mwy o sylw i gamau ataliol, ynghyd â chymorth parhaus wrth bontio i wasanaethau oedolion. Teimlwyd y dylid gwneud hyn trwy welliannau o safbwynt gwaith tîm a chysylltiadau â phlant ag anghenion cymhleth.

Nododd ID 299 bod cynnwys pobl yn y gwaith o gyd-ddylunio gwasanaethau gofal a chymorth yn dal i fod yn faes sydd angen ei wella. Ychwanegwyd y pwynt na chafwyd fawr o gynnydd yn nhermau integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i'r rheiny sy'n dioddef anabledd dysgu.

Mae ID 229 yn ychwanegu eu bod yn teimlo nad oes llwybr clir i waith ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, gyda 'gwasanaethau cyflogaeth â chymorth bylchog' sydd i fod i alluogi pobl i gael gwaith cyflogedig ystyrlon. Yn olaf, nodwyd ganddynt fod gan awdurdodau lleol rôl allweddol i'w chwarae yn y cyswllt hwn, fodd bynnag, dim ond ychydig iawn o bobl ag anabledd dysgu a gyflogir ar hyn o bryd.

Unwaith eto, amlygodd ID 296 y pwynt bod ar bobl ag anableddau dysgu angen cymorth i'w helpu i ddod yn annibynnol o eraill. Ychwanegwyd ganddynt, trwy eu helpu i ddod yn fwy annibynnol, mae'n eu grymuso i wneud eu dewisiadau eu hunain. Yn ei hanfod, mae'n ymwneud â meithrin yr hyder y mae arnynt ei angen i ddefnyddio eu llais eu hunain i wneud y penderfyniadau a'r dewisiadau ar gyfer eu dyfodol eu hunain.

# Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

## Adborth o Sesiynau Ymgysylltu ynglŷn â'r Strategaeth Cyfleoedd Dydd

Fel rhan o ddatblygu Strategaeth Cyfleoedd Dydd ar gyfer Ynys Môn, cwblhawyd sesiwn ymgynghori ac ymgysylltu, a datblygwyd strategaeth, a'r prif feysydd y nodwyd eu bod yn bwysig i bobl oedd:

### Mae bobl eisiau cyfleoedd da yn ystod y dydd:

Roedd y cyfranogwyr yn cytuno y byddant yn hoffi gweld rhagor o gyfleoedd da yn ystod y dydd. At ei gilydd, mae derbynyddion gwasanaethau eisiau mwy o bethau i'w gwneud, "mae'n dda cael digon o bethau i'w gwneud", ond y cafeat o ran hynny yw eu bod yn siarad am hynny yn nhermau "gwneud mwy o bethau yma". Unwaith eto, mae'n ymwneud â symud y ddealltwriaeth tuag at beth yw nod "cyfleoedd dydd". Pan fo'r sgwrs yn symud tuag at feddwl am gyfleoedd ehangach y tu hwnt i "yma", mae'n ddiddorol gweld yr amheuon sy'n codi mewn nifer o bobl. Os bydd pobl yn cael mwy o gyfleoedd, byddant yn ofni eu bod am "golli allan" ar yr hyn sydd ganddynt eisoes. Ceir enghreifftiau di-rif o bobl sy'n dweud wrthym ac yn dangos beth maent yn ei wneud ar hyn o bryd, ynghyd â pham y maent yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi hynny - mewn modd sy'n croestorri ac yn cyd-fynd â'r pwyntiau yn y cynllun hwn. Ac maent eisiau rhagor o'r mathau hyn o bethau.

### Mae pobl eisiau gallu dewis beth y maent yn ei wneud:

Cawsom weld a chlywed am lawer o ddewis o ran y cyfleoedd y mae pobl yn eu cael eisoes. Cawsom weld a chlywed am unigolion yn cael cynnig gwneud llawer o bethau gwahanol, arloesol a diddorol. Unwaith eto, mae pobl yn amharod i wneud pethau os oes dewis, oherwydd eu bod yn meddwl, trwy ddewis rhywbeth gwahanol, eu bod efallai am golli'r hyn sydd ganddynt eisoes y maent yn ei werthfawrogi.

Roedd yn ddiddorol nodi, yn lle mae'r weledigaeth yn dweud:

"Hyrwyddo Taliadau Uniongyrchol er mwyn i unigolion gael y cyfle i gael rhagor o ddewis a rheolaeth dros y modd y diwallir eu hanghenion o ran cymorth"

Mai ychydig iawn o ddealltwriaeth oedd yna o hyn, hyd yn oed ymhlith y rheiny (yr ydym yn gwybod) sy'n eu derbyn. Yn yr un modd, roedd cryn nifer o bobl yn teimlo eu bod wedi cael profiadau drwg gyda Thaliadau Uniongyrchol yn y gorffennol. Hefyd, nid oedd nifer o unigolion yn ymwybodol o sut i gael gwybod efallai am bethau y tu hwnt i'r hyn y maent yn ei wneud, "nid oes unrhyw le sy'n rhoi gwybod i chi beth arall sy'n digwydd". Efallai nad yw hyn yn wir, ond dywedwyd hyn sawl gwaith, a phan ddywedasom "mae X yn cael ei gynnal yma", "Doeddwn i ddim yn gwybod hynny" oedd yr ymateb.

## Mae pobl eisiau dysgu pethau newydd:

Gallai unigolion gyfeirio at lawer o bethau a wneir ganddynt sy'n dysgu sgiliau newydd iddynt ac sy'n arwain ag iddynt ennill tystysgrifau, dilysiad a chydnabyddiaeth. Mae llawer yn defnyddio'r rhain yn rheolaidd ac mewn lleoliadau sy'n mynd y tu hwnt i'w gwasanaethau dydd. Ymddengys bod hyn yn un o nodau'r strategaeth, sef eu hannog i ddefnyddio'r sgiliau o fewn cyfleoedd mewn lleoliadau ehangach. Roedd yn ddiddorol nodi faint o bobl a ddywedodd eu bod yn dysgu pethau "fel rhan o fy ngwaith", a'r modd yr oedd y rhain yn bethau yr oeddynt yn falch ohonynt. Roedd rhai pobl yn siarad am rwystrau ond, unwaith eto, mae hyn yn ymwneud â newid yr hyn sydd gan bobl mewn golwg o ran beth yw cyfle? Ceir sgiliau priodol, gallu go iawn a gwir ddymuniad i'w rhoi ar waith.

Roedd rhai unigolion yn siarad am fod eisiau cael mynediad at wasanaethau eraill fel coleg, neu ddefnyddio cyfleusterau eraill a allai gynnig y cyfle i ddatblygu sgiliau eraill. Fodd bynnag, o ran y diffyg mynediad at y rhain, yn aml, teimlwyd bod hynny oherwydd diffyg o ran cydlynu gwasanaethau - "os oes ystafell gyfrifiaduron i fyny'r lôn yn y coleg, pam nad oes modd i ni ei defnyddio pan nad ydi hi'n cael ei defnyddio?"

Ymddengys fod problemau eraill o ran cyllid a thrafnidiaeth a oedd yn rhwystro'r gallu i fynd â'r sgiliau a ddysgwyd mewn un lle i'r lefel nesaf.

## Mae pobl eisiau cymryd rhan mewn pethau sy'n digwydd yng nghyffiniau lle maent yn byw:

Cyfeiriodd sawl unigolyn at y pellter yr oedd rhaid iddynt ei deithio bob dydd. Roedd y mwyafrif o bobl yn cytuno, pe bai rhywbeth yn nes, "y gallwn ei wneud yn amlach".

Hefyd, roedd teimlad nad oedd pethau a oedd yn digwydd mewn un lle yn cael eu rhannu neu nad oedd ymgais i roi cynnig arnynt mewn ardaloedd eraill, y byddai efallai'n bosibl pe bai "pobl yn ymuno efo'i gilydd".

Dylid dweud hefyd bod rhai unigolion wirioneddol yn hoffi mynd i rywle arall oherwydd "mae'n wahanol" a "dwi'n cael cyfarfod pobl newydd".

Unwaith eto, nid yw pobl eisiau colli'r cyfle i fynd i rywle nad yw'n lleol iddynt os nad ydynt yn cael yr hyn y maent ei eisiau.

### Mae pobl eisiau teimlo'n ddiogel:

Roedd unigolion yn teimlo'n ddiogel yn y lleoedd yr oeddynt yn mynd iddynt ar hyn o bryd, ac roedd pobl eraill yn teimlo eu bod yn ddiogel. Mae hyn yn hanfodol bwysig i bawb a effeithir gan y cynllun. Mae cael gwahanol ddewisiadau a chyfleoedd, sef yr hyn y mae ar bobl ei eisiau, yn poeni rhai pobl o ran bod pethau'n anghyfarwydd iddynt ac nad oes ganddynt yr un hyder yn y pethau hynny. Roedd yn ddiddorol nodi, wrth siarad â rhai unigolion am yr hyn a oedd yn gwneud iddynt deimlo'n ddiogel, mai'r lleoedd a'r bobl yr oeddynt yn gyfarwydd â hwy eisoes oedd hynny.

### Mae pobl eisiau bod yn iach:

Unwaith eto, o fewn y lleoedd a'r gweithgareddau y mae pobl yn eu gwneud ar hyn o bryd, mae llawer yn cael ei wneud i hybu iechyd a lles, o safbwynt corfforol a meddyliol. Mae cael mynediad at wasanaethau ehangach yn rhywbeth y mae ar unigolion ei eisiau ond soniwyd rhywfaint am y gost a'r diffyg cymorth os nad oedd y rheiny ar gael yn ystod y dydd. Fel sylw, clywsom sawl un yn dweud eu bod yn mwynhau mynd i'r gym, ond nid oedd yr un ohonynt yn mynd gyda'r nos.

### Mae pobl eisiau lle da i fyw ynddo:

Roedd pobl eisiau hyn, sy'n gysylltiedig â bod yn saff a diogel ac yn hapus yn gyffredinol. "Dwi'n hoffi lle dwi'n byw ar hyn o bryd".

Nid oedd unrhyw un yr oeddem wedi siarad â hwy'n iawn yn gweld hyn fel rhan o'u cyfleoedd dydd, roedd yn rhywbeth a oedd ar wahân. Fel yr uchod, o ran nod ehangach cyfleoedd, a phan anogwyd pobl i feddwl am gyd-destun ehangach lle'r ydych yn byw ac y gall hynny roi mwy o gyfleoedd i chi, gallent weld pwysigrwydd hyn. "Os fyddwn i'n byw mewn tref, mi fyddwn i'n gallu mynd allan mwy".

### Mae pobl eisiau cael y cymorth sydd ei angen arnynt:

Mae cael hyder yn y bobl sy'n eu cefnogi yn allweddol i unigolion ac eraill. O ran sylwadau am Daliadau Uniongyrchol, soniwyd ei fod "yn iawn gallu talu am eich cymorth eich hun ond tydi o ddim bob amser yn bosib ei gael!"

### Mae pobl eisiau cael y ffrindiau a'r perthnasau y mae eu hangen arnynt:

Mae unigolion yn gwerthfawrogi'r bobl sydd o'u cwmpas, y ffrindiau sydd ganddynt. Roedd yr elfen hon o'r cynllun yn un a amlygodd rai o'r pryderon mwyaf. "os fyddwn i'n mynd i rywle arall, fyddwn i ddim yn gweld X ac Y, a dwi eisiau eu gweld nhw." "Roedd rhaid i mi roi'r gorau i fynd i X a dwi'n colli fy ffrindiau.

Efallai bod y sylw diwethaf yn crynhoi cryn dipyn o'r prif sylwadau ynglŷn â'r cynllun hwn. Yn gyffredinol, dyma beth mae'r bobl eisiau, ond ceir teimlad y caiff hyn ei wneud am resymau eraill sydd "ddim yn ymwneud â'r holl eiriau a syniadau dymunol hyn".

Cafwyd barn gyffredinol bod hyn wedi dod yn gwbl annisgwyl i bobl. Nodwyd y farn hefyd “tydi’r Cyngor ddim yn gwybod beth ydyn ni’n ei wneud yma!” (dywedwyd hyn gan dderbynnydd gwasanaeth felly rydym yn dyfynnu geiriau’r unigolyn hwnnw, ond adleisiwyd hyn gan eraill). Mae pobl yn teimlo eu bod eisoes yn cael yr hyn y mae’r cynllun hwn yn anelu ato, ond fel y nodwyd uchod, mae’n ymwneud â rhywbeth llawer mwy. O ran pawb y cawsom siarad â hwy, nid oedd yr un ohonynt yn erbyn cael rhagor o gyfleoedd, ond yr oedd yr un mor wir nad oeddynt eisiau colli’r rhai a oedd ganddynt yn barod.

# Casgliad ac argymhellion

Y blaenoriaethau o ran y Gwasanaeth Anabledd Dysgu ar Ynys Môn yw:

1. **Datblygu Cyfleoedd Dydd**

Nod y strategaeth yw datblygu cyfleoedd dydd ystyrlon sydd wedi’u hintegreiddio o fewn cymunedau pobl. Edrych ar ddefnyddio darpariaeth sy’n bodoli eisoes yn y gymuned i adeiladu ar gyfleoedd sydd ar gael yn nes at adref, a’u cryfhau, er mwyn cynyddu’r dewis. Mae angen edrych ar gyrsiau achrededig, sefydlu cysylltiadau â chyfleoedd o ran gwaith.

2. **Adolygu Gwasanaethau Byw â Chymorth**

Yn 2021, comisiynwyd adolygiad o’r gwasanaethau byw â chymorth presennol ym Môn, ac mae’r gwaith hwn ar fynd ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cefnogi datblygiad Strategaeth Byw â Chymorth i sicrhau bod oedolion sydd ag anableddau dysgu yn cael eu cartrefi eu hunain, ynghyd â lle i fyw sy’n rhoi mwy o reolaeth iddynt dros eu bywydau, ac sy’n sicrhau bod gwasanaethau’n cael eu comisiynu mewn modd effeithiol.

3. **Taliadau Uniongyrchol**

Mae datblygiadau pellach ar fynd i hybu recriwtio ac i godi ymwybyddiaeth unigolion â gwybodaeth o ran manteision cael dewis a rheolaeth. Mae gwaith o ran trefniadau gweithio rhwng gweithwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei ddatblygu. Bydd hyn yn cryfhau’r rhwydwaith taliadau uniongyrchol ar yr ynys.

4. **Integreiddio gydag Iechyd trwy Gronfa Gyfun**

Mae Ynys Môn yn peilota Cronfa Gyfun gyda BIPBC. Bydd hyn yn rhoi cyfle i adolygu a datblygu penderfyniadau ar y cyd mewn perthynas â chyllid, a gobeithir y bydd hyn yn gwella canlyniadau i ddinasyddion.

5. **Gwella Cydraddoldeb o ran Iechyd**

Mae angen cynnal adolygiad pellach yn 2022 i adolygu’r cynnydd a wnaed yn erbyn targed Llywodraeth Cymru y bydd 75% o’r boblogaeth Anableddau Dysgu yn cael gwiriad iechyd. Bydd gwaith yn parhau gyda BIPBC i sicrhau cynnydd yn erbyn y mesur hwn er mwyn gwella’r canlyniadau i unigolion o ran iechyd.

# Awtistiaeth

## Ynglŷn â'r bennod hon

Oherwydd yr amgylchiadau a wynebir, fel y soniwyd yn y cyflwyniad, rydym yn bwriadu cwblhau'r rhan hon o'r adroddiad yn y dyfodol agos. Roedd diffyg ymatebion o'r holiadur ar gyfer Awtistiaeth yn golygu ei bod yn anodd creu dadansoddiad teg o'r sefyllfa o ran Awtistiaeth ym Môn. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth wedi ei chael yn anodd dod o hyd i waith ymgysylltu y gellir ei gysylltu'n uniongyrchol ag Awtistiaeth, a hynny o safbwynt Ynys Môn.

## Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth

## Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

## Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

## Casgliad ac argymhellion

# Iechyd meddwl

## Ynglŷn â'r bennod hon

Mae'r bennod hon yn edrych ar anghenion poblogaeth Ynys Môn o ran eu hiechyd meddwl a'r hyn y maent yn ei ddweud wrthym ynghylch gwasanaethau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae Sefydliad Iechyd y Byd (2014) wedi diffinio iechyd meddwl fel a ganlyn:

"…cyflwr o lesiant lle mae pob unigolyn yn gwireddu ei botensial ei hun, yn gallu ymdopi â straen arferol bywyd, yn gallu gweithio'n gynhyrchiol ac yn llwyddiannus, ac yn gallu cyfrannu at ei gymuned"

## Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth

- Mae Arolwg Afiachusrwydd Seiciatrig Oedolion ac Arolwg Cenedlaethol Cymru yn amcangyfrif bod nifer y problemau iechyd meddwl yn uwch na hynny a amcangyfrifir o ran pobl sy'n derbyn triniaeth.

- Rydym yn gwybod bod **nifer y bobl 16+ oed y rhagwelir bod ganddynt broblem iechyd meddwl cyffredin** wedi aros yr un fath ar y cyfan ers yr asesiad diwethaf o anghenion y boblogaeth. Yn 2015, roedd y ffigur yn 9,300. Erbyn hyn, yn 2020, mae'r ffigur hwn wedi gostwng ychydig i 9,274.

- O ran **sgôr y crynodeb o'r elfen feddyliol (mae sgorau uwch yn awgrymu gwell iechyd)** ar gyfer Ynys Môn yn 2015 oedd 51.1. Fodd bynnag, yn 2018/19 rydym yn gwybod ei fod wedi cynyddu ychydig i 51.8

- Mae gwybodaeth gan feddygon teulu sy'n cael ei choladu yn y **Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau (QoF)** yn darparu amcangyfrifon bras o ran **cyffredinrwydd rhai anhwylderau seiciatryddol**. Mae'r tabl isod yn diffinio bod yr adran iechyd meddwl yn cynnwys sgitsoffrenia, anhwylder affeithiol deubegynol a mathau eraill o seicosis a chyflyrau iechyd meddwl.

| Nifer o bobl gyda clefyd QOF a gofrestrwyd yng Ngogledd Cymru | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Lleol | Rhif Iechyd Meddwl | Canran Iechyd Meddwl | Rhif Dementia | Canran Dementia |
| Ynys Môn | 639 | 0.97% | 559 | 0.85% |

## Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

Mae effaith y pandemig ar iechyd meddwl preswylwyr mewn cartrefi gofal yn glir iawn o'r ymatebion a gafwyd i'r holiadur.

Nododd ID 83 bod y pandemig wedi effeithio eu cleientiaid er gwaeth. Ychwanegwyd ganddynt fod rhestrau aros yn hir iawn am unrhyw gymorth gan y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHT) a'r Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau (SMS). Roeddynt yn teimlo nad oedd y drefn o ran cynnal cyswllt o bell wedi bod yn gweithio ac mai effaith hirdymor hyn fydd argyfwng iechyd meddwl.

Roedd ID 311 yn adleisio pwynt tebyg, gan nodi bod y newidiadau 'aruthrol' wedi effeithio iechyd meddwl preswylwyr i raddau helaeth iawn. Ychwanegwyd y pwynt bod y gostyngiad yn y cyswllt â theuluoedd, sydd mor bwysig, wedi bod yn niweidiol.

Eglurodd ID 324 yr effaith a gafodd y pandemig arnynt. Nodwyd ganddynt y bu bywyd yn anodd ers dyfodiad Covid-19 ac nad oedd wedi bod yn dda i'w hiechyd meddwl. Yn ogystal, eglurwyd nad oedd yr anhawster o ran cael gweld meddygon wyneb yn wyneb wedi helpu ychwaith.

O safbwynt gofalwr, nid oes unrhyw amheuaeth eu bod hefyd wedi dioddef yn sgil pwysau a gorbryder o ganlyniad i'r pandemig dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn y diwedd wedi arwain at ddirywiad o ran eu hiechyd meddwl, fel y mae sawl enghraifft yn nodi.

Mae ID 331 yn amlygu hyn, gan egluro y bu'n 'hunllef' i bawb dan sylw a'u bod yn meddwl y bydd effaith hirdymor ar iechyd meddwl y rheiny a fu'n chwarae rhan ers dechrau'r pandemig. Mae'n rhywbeth y maent wedi gorfod 'dysgu i fyw gydag ef', ac nad yw'n gwneud unrhyw wahaniaeth pa mor fawr neu fach yw eu rôl o fewn y cartrefi gofal, gan mai'r thema gyffredin o safbwynt pawb yw mwy o straen a gorbryder.

Nododd ID 61 bwynt a oedd yn cyd-fynd â'r hyn y soniwyd amdano gan ID 331. Nodwyd ganddynt fod y pandemig wedi effeithio iechyd meddwl pobl, ac y gwnaed hyn yn gymaint anoddach oherwydd eu bod yn teimlo nad oedd unrhyw le y gallent fynd i gael cymorth.

**<u>Iechyd Meddwl Pobl yn Gyffredinol</u>**

O ran iechyd meddwl pobl yn gyffredinol, nodwyd rhai hanesion o lwyddiant, ond hefyd enghreifftiau lle'r oedd pobl yn teimlo eu bod angen rhagor o gymorth.

Roedd ID 77 yn egluro'r modd y maent yn rhedeg grwpiau Rhiant a Phlentyn ar gyfer y rheiny nad ydynt yn gyfforddus yn mynychu'r grwpiau arferol. Ychwanegwyd ganddynt fod grwpiau cefnogaeth gan gymheiriaid i ferched sy'n dioddef ffurfiau ysgafn i ganolig ar broblemau iechyd meddwl.

Cynigiodd ID 186 enghraifft o sut y bu modd i rai grwpiau ymdopi â heriau iechyd meddwl pobl. Nodwyd ganddynt y canfuwyd bylchau o ran cymorth emosiynol ac anghenion iechyd meddwl. Ychwanegwyd eu bod bellach yn edrych ar ddatblygu gwasanaethau i ddiwallu anghenion rhai sydd wedi goroesi strôc/eu gofalwyr ar draws y rhanbarth.

Cynigiodd ID 79 enghraifft o'r gwaith da sy'n cael ei wneud ar gyfer pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Eglurwyd ganddynt fod pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn cael mynediad at ystod o weithgareddau sy'n eu helpu i wellau eu hiechyd corfforol, meddyliol a'u lles yn gyffredinol. Gwneir hyn trwy waith partneriaeth cryf gyda'r trydydd sector, sy'n rhoi pwyslais ar ddatblygu cymunedol.

Ar y llaw arall, ceir enghreifftiau lle na chafodd anghenion iechyd meddwl pobl eu diwallu. Mae ID 83 yn egluro bod angen gwell cymorth ar gyfer rhai sy'n camddefnyddio sylweddau, gan fod hyn yn aml yn mynd law yn llaw â phroblemau iechyd meddwl - mae angen gwell cymorth ar gyfer cyflawni diagnosis deuol. Cynigiodd ID 163 brofiad personol o sut yr oeddynt yn teimlo bod rhywbeth mawr o'i le o ran y modd y mae gwasanaethau iechyd meddwl a'r heddlu a gwasanaethau cyfiawnder wedi'u cysylltu. Eglurwyd ganddynt fod pobl sy'n dioddef argyfwng iechyd meddwl yn aml yn cael eu llusgo i mewn i'r system cyfiawnder troseddol, ac yn y bôn yn cael eu gwneud yn droseddwyr am eu salwch meddwl. Canlyniad hyn yw bod carcharau yn llawn o bobl â salwch meddwl. Ychwanegwyd ganddynt, o ran iechyd meddwl, bod eu gwasanaethau yn canolbwyntio ar fesurau ataliol ac argyfyngau. Felly mae angen rhoi mwy o bwyslais ar y cyfnodau sy'n dod rhyngddynt, gan yr ystyrir bod y ddarpariaeth ar eu cyfer yn 'annigonol'.

# Adolygiad o wasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar iechyd meddwl y boblogaeth yn ei chyfanrwydd. O ran y rheiny sydd eisoes yn dioddef cyflyrau iechyd meddwl, mae eu lles wedi dirywio. Yn ôl arolwg gan Mind Cymru (Mehefin 2020) roedd mwy na hanner y boblogaeth o oedolion yn adrodd bod eu hiechyd meddwl wedi gwaethygu yn ystod y cyfnodau clo. Gyda hyn mewn golwg, mae'n bwysig sicrhau y gallwn ganfod problemau iechyd meddwl yn ddigon buan, ac ymateb trwy wasanaethau ataliol yn ogystal â thrwy'r llwybrau gofal sylfaenol ac eilaidd.

Mae Cymru Iachach a Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn amlinellu'r angen am newid o ran y modd y cyflenwir gwasanaethau, gan gynnig gofal i bobl yn nes at adref, sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion. Nod datblygu Hybiau Cymunedol Mi Fedraf (ICAN) ar draws y rhanbarth yw gwella argaeledd ac ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth holistig a lles cyffredinol, yn y trydydd sector ac eraill yn y gymuned, ynghyd â'r cysylltiadau â hwy, a'r modd y gall Hybiau Cymunedol Mi Fedraf gefnogi pobl, yn enwedig rhai sydd â lefel isel o broblemau iechyd meddwl neu i helpu i gynnal eu hadferiad.

Mae trefniadau ar waith ym Môn i sefydlu Gwasanaeth Gofal Sylfaenol Mi Fedraf yn Hafan Cefni, Llangefni a bydd 2 leoliad arall yn cael eu datblygu. Bydd y Canolfannau Mi Fedraf yn gwasanaethu fel gwasanaeth ymyrryd mewn argyfwng i gefnogi cleifion sy'n dod i mewn i'r feddygfa mewn argyfwng neu mewn sefyllfa sy'n effeithio eu hiechyd a lles emosiynol, a gallai effeithio ar eu hiechyd meddwl yn gyffredinol.

Mae CAMHS a CMHT yn gefnogol a byddant yn cyflenwi asesiadau os oes eu hangen. Yn ogystal, lleolir gwirfoddolwyr Mi Fedraf mewn meddygfeydd a byddant yn cynnig cymorth i bobl sydd mewn argyfwng neu drallod emosiynol, sy'n teimlo'n unig, yn orbryderus ac sy'n dioddef amryw broblemau cymdeithasol neu seicolegol eraill, nad ydynt o reidrwydd angen ymyrraeth feddygol neu asesiad seiciatryddol. Roedd adroddiad diweddar yn Chwarter 2 2021 gan Mi Fedraf yn nodi nifer yr unigolion a oedd wedi derbyn cymorth, ynghyd â nifer yr atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth.

| **Hwb Mi Fedraf y GORLLEWIN** | **Ynys Môn** |
|---|---|
| Nifer y bobl a gefnogir trwy Hwb Cymunedol Mi Fedraf | **653** |
| Nifer yr Ymyriadau a Gynigir trwy Hwb Cymunedol Mi Fedraf | **1265** |
| Nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan feddygfeydd | **241** |
| Nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan CMHT'au | **118** |
| Nifer yr hunan-atgyfeiriadau i Hwb Cymunedol Mi Fedraf | **77** |
| Nifer yr unigolion a gefnogir trwy wasanaethau ar-lein | **21** |

Un maes y mae'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol wedi'i nodi yr hoffent ei ddatblygu ymhellach wrth fynd ymlaen yw cryfhau'r berthynas rhwng Gofal Sylfaenol ac Eilaidd. Nodwyd y byddant yn hoffi cryfhau a gwella llif yr atgyfeiriadau rhwng gwasanaethau i sicrhau bod pobl yn cael cymorth gan y gwasanaeth iawn ar yr adeg iawn. Byddai hyn yn cysylltu â datblygiad parhaus gwasanaeth Mi Fedraf ar draws yr ynys.

Mae'r pandemig wedi cynyddu'r heriau o fewn y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol o ran cynnal gwasanaethau presennol. Mae'r Tîm yn adolygu'r data sydd ganddynt mewn perthynas â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) yn 2022 i weld p'un a oes unrhyw dueddiadau neu newidiadau y gellir eu canfod. Nid yw'r data ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol yn cael eu cefnogi i gyflawni canlyniadau unigolion gan y Gwasanaeth Cefnogi Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHSS). Yn Hydref 2020, comisiynwyd adolygiad o'r gwasanaeth hwn o fewn Cyngor Ynys Môn. Fel rhan o'r adolygiad hwn, edrychodd ar y canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.

Daw'r adolygiad i'r casgliad bod CMHSS yn gyfres ataliol werthfawr o wasanaethau i unigolion sydd â lefel isel i ganolig o broblemau iechyd meddwl a'i fod mewn sefyllfa dda i ddarparu gwasanaethau sy'n lleihau'r tebygolrwydd o ddirywiad pellach yn iechyd meddwl pobl, tra hefyd yn eu gwneud mor annibynnol ag y bo modd mewn amgylchedd diogel. I'r graddau hwn, mae'r gwasanaeth yn cefnogi cyfeiriad strategol cyffredinol y cyngor yng nghyswllt cymorth sy'n seiliedig ar ganlyniadau, o ran defnyddio gweithgareddau therapiwtig yn y gymuned.

Mae gan y CMHSS y gallu i gefnogi unigolion ar draws pob rhan o'r Mesur Iechyd Meddwl, sy'n cynnwys a) pobl sy'n cael mynediad at Ofal Sylfaenol; b) pobl sy'n cael mynediad at Ofal Eilaidd (trwy Gynllun Gofal a Thriniaeth [CTP]); c) pobl sydd wedi cael eu rhyddhau o Wasanaeth Iechyd Meddwl Ysbyty neu Gymunedol sy'n gymwys am ailasesiad; ynghyd â d) y rheiny sydd angen mynediad at eiriolaeth.

Fel rhan o'r gwasanaeth hwn, maent yn darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai i unigolion â phroblemau iechyd meddwl. Darperir hyn o fewn y gymuned ac mewn llety â chymorth ym Môn. Nod hyn yw rhoi cymorth i unigolion ddatblygu eu sgiliau byw'n annibynnol ac yna eu gallu i gynnal tenantiaethau'n llwyddiannus. Mae angen adolygu'r llety sydd ar gael ar hyn o bryd o fewn y ffrwd byw â chymorth i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth.

Cyflwynwyd adroddiadau o adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod Covid-19 hefyd, yn seiliedig ar holiaduron a gwblhawyd mewn perthynas â'r cymorth yr oedd unigolion yn ei dderbyn gan CMHSS. Roedd unigolion yn adrodd eu bod yn fodlon â'r cymorth yr oeddynt yn ei dderbyn a'u bod yn hapus i gael cefnogaeth o bell yn ystod y pandemig, ac roeddynt yn adrodd eu bod yn cael cyswllt rheolaidd â'r CMHSS dros y ffôn. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

*"Dwi'n ddiolchgar iawn am yr holl gymorth a gefais, mi fyddwn i ar goll heb fy ngweithiwr cymorth"*

*"Dwi'n ddiolchgar am y cymorth ac yn edrych ymlaen at symud i Heddfan wythnos nesaf"*

O ran darparu cymorth o bell: *"Mi allwch ddarparu sesiwn cymorth wyneb yn wyneb rŵan... plîs peidiwch â dechrau unrhyw grwpiau yn y dyfodol agos. Dwi eisiau i bethau aros fel hyn am y tro fel bod pawb yn cadw'n ddiogel a bod staff llawn ar gael ar ddiwedd hyn er mwyn cael y cymorth gorau bosib unwaith y mae hyn drosodd... Dwi eisiau gofalu bod pawb yn ddiogel".*

Mae cefnogi gofalwyr yn hanfodol. Mae Hafal yn elusen a arweinir gan aelodau, sy'n rhoi cymorth i bobl â phroblemau iechyd meddwl a'u gofalwyr a'u teuluoedd. Mae gwasanaethau Hafal ym Môn yn cynnwys:

- Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd
- Rhwydweithiau Cymdeithasol
- Cymorth Cyffredinol
    - Gwybodaeth

- Cyngor
- Grwpiau
- Cyfeillio
- Llais mewn cynllunio gwasanaethau

Yn ystod Hydref i Ragfyr 2020, ni chafwyd unrhyw gyswllt uniongyrchol â gofalwyr oherwydd cyfyngiadau COVID. Roeddynt wedi parhau i gael cyswllt uniongyrchol dros y ffôn, a thrwy'r e-bost a llythyrau. Dechreuodd cyswllt uniongyrchol unwaith eto yn 2021

| *MESURAU PERFFORMIAD AR GYFER Y CYFNOD Hydref/Rhagfyr 2020* | | | |
|---|---|---|---|
| *Nifer y defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr a gefnogwyd* | *Cyswllt Uniongyrchol* | *Ffôn* | *Post* |
| | Dim cyswllt uniongyrchol o ganlyniad i Covid-19 | 245 galwad<br><br>134 neges destun | 288 cyswllt uniongyrchol trwy'r post<br><br>160 e-bost |
| *MESURAU PERFFORMIAD AR GYFER Y CYFNOD Ebrill/Mehefin 2021* | | | |
| *Nifer y defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr a gefnogwyd* | *Direct Contact* | *Telephone* | *Mailing* |
| | 36 - rydym wrthi'n dechrau darparu cymorth un i un, wyneb yn wyneb i ofalwyr | 260 galwad<br><br>105 neges destun | 235 cyswllt uniongyrchol trwy'r post<br><br>144 e-bost |

Roedd y negeseuon allweddol a dderbyniwyd trwy adborth o'r holiaduron yn amlygu'r canlynol:

- Roeddynt eisiau grŵp mwy actif i'w fynychu, felly sefydlwyd grŵp cerdded misol i gynnig hyn.
- Mae gofalwyr yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn gwerthfawrogi'r mynediad rhwydd i'r gwasanaeth.
- Mae gofalwyr yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr ymateb cyflym i atgyfeiriadau.
- Mae gofalwyr yn dweud eu bod yn teimlo y gwnaed cynnydd o ran eu sefyllfaoedd.

## Casgliad ac argymhellion

Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar iechyd meddwl y boblogaeth yn ei chyfanrwydd, o ran y rheiny â chyflyrau iechyd meddwl sy'n bodoli eisoes, maent eu lles wedi dirywio. Roedd arolwg gan Mind Cymru (Mehefin 2020) yn nodi bod mwy na hanner yr oedolion yn adrodd bod eu hiechyd meddwl wedi gwaethygu yn ystod y cyfnodau clo. Gyda hyn mewn golwg, mae'n bwysig sicrhau y gallwn ganfod problemau iechyd meddwl yn ddigon buan, ac ymateb trwy wasanaethau ataliol, yn ogystal â thrwy'r llwybrau gofal sylfaenol ac eilaidd.

Y blaenoriaethau i'r Gwasanaeth wrth fynd ymlaen:

1. Datblygiad parhaus HYBIAU Mi Fedraf ar Ynys Môn. Cafwyd ymrwymiad i ddarparu rhagor o gyllid.

2. Adeiladu ar yr argymhellion mewn perthynas â'r Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHSS) a gwella'r gwasanaeth a ddarperir ar draws mesurau ataliol, a gofal sylfaenol ac eilaidd.

3. Adolygu ac edrych ar y model a'r cynllun o ran llety â chymorth, er mwyn cwrdd â'r galw yn y dyfodol gyda llety priodol sy'n gallu diwallu anghenion.

4. Parhau i gefnogi hyfforddiant a datblygiad Ymarferwyr Iechyd Meddwl Cymeradwy o fewn y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol i gynyddu adnoddau er mwyn diwallu anghenion.

5. Adolygu a datblygu'r gallu i gipio gwybodaeth ac adrodd ar faterion yng nghyswllt dangosyddion perfformiad allweddol (KPI) a gweithgareddau o ran gwasanaethau.

# Gofalwyr sydd angen cymorth

## Ynglŷn â'r bennod hon

Mae gofalwr yn "unigolyn o unrhyw oedran, oedolyn neu blentyn, sy'n darparu cymorth di-dâl i bartner, plentyn, perthynas neu ffrind na fyddent yn gallu ymdopi â byw yn annibynnol neu y byddai ei iechyd neu les yn dirywio heb y cymorth hwn. Gall hyn fod o ganlyniad i eiddilwch, anabledd neu gyflwr iechyd difrifol, salwch meddyliol neu gamddefnyddio sylweddau."

O ran llawer o bobl sy'n darparu cymorth di-dâl, nid ydynt yn gweld eu hunain fel gofalwyr gan y gallent deimlo ei fod yn rhan normal o fywyd. Gall y cymorth hwn gynnwys:

- gofal personol fel cymorth i ymolchi a gwisgo
- help gyda meddyginiaeth
- coginio, siopa am fwyd a thasgau domestig
- mynd â rhywun i apwyntiadau
- trafnidiaeth
- helpu i reoli arian
- cymorth emosiynol

O dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mae gan ofalwyr yr un hawliau â'r rheiny y maent yn gofalu amdanynt. Mae gan gynghorau lleol ddyletswydd newydd i gynnig asesiad i unrhyw ofalwr lle ymddengys i'r awdurdod lleol bod ar ofalwr angen cymorth.

Mae'r Ddeddf yn nodi 'fframwaith cymhwyster' cenedlaethol, newydd i bennu p'un a fydd gofalwr a aseswyd ac sydd ag anghenion o ran cymorth yn cyflawni'r meini prawf ar gyfer gwasanaethau ai peidio. Bydd gan ofalwyr ag anghenion cymwys gynllun cymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a nodwyd ganddynt hwy eu hunain. Bydd hefyd yn nodi'r cymorth i'w helpu i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd. Bydd cynlluniau cymorth yn destun adolygiadau rheolaidd gan gynghorau lleol, ynghyd ag ailasesiad o anghenion gofalwyr os bydd eu hamgylchiadau'n newid.

**Ynys Môn**

Mae gofalwyr yn chwarae rôl hanfodol a chanolog yn y ddarpariaeth o ofal yn ein cymunedau ym Môn. Mae eu cyfraniad o ran hyrwyddo a chynnal lles pobl Ynys Môn yn aruthrol. Gofalwyr di-dâl yw'r darparwr mwyaf o ofal i bobl sydd angen cymorth yn ein cymunedau, ac maent yn arbed £119 biliwn i economi'r DU bob blwyddyn.

Mae Cyngor Ynys Môn wedi datblygu Strategaeth Gofalwyr. Nod y strategaeth hon yw gwella bywydau gofalwyr ym Môn. Mae gofalwyr yn bwysig i'r bobl y maent yn gofalu amdanynt. Mae'r berthynas rhwng gofalwyr a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt yn seiliedig ar gyfeillgarwch, cariad a chysylltiadau teuluol. Maent hefyd yn bwysig am y rhan a chwaraeir ganddynt yn y ddarpariaeth gyffredinol o ofal iechyd a chymdeithasol.


Yn ystod y pandemig COVID-19, mae cyfrifoldebau gofalwyr di-dâl wedi cynyddu'n sylweddol. Ceir mwy o ofalwyr di-dâl nag erioed o'r blaen, ac mae'r mwyafrif o'r rheiny a oedd yn darparu gofal di-dâl cyn y pandemig bellach yn treulio mwy o amser yn darparu gofal i unigolyn arall.

# Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth

- Mae **nifer y gofalwyr** wedi cynyddu ers yr asesiad diwethaf o anghenion y boblogaeth. Er y cymerwyd yr ystadegau ar gyfer fersiwn 2015 o 2011, roedd y nifer yn 8000. Bellach, yn 2020, gwyddom fod y nifer hon wedi cynyddu i 9,138 (sy'n gynnydd o 14%).
- Mae **nifer y gofalwyr ifanc, y mae eu hachosion yn agored** wedi cynyddu ychydig ers 2016. Yn 2016, nifer y gofalwyr ifanc oedd 80, fodd bynnag, erbyn 2020, roedd y nifer yn 90.

Gyda llawer o'r ystadegau ar gyfer gofalwyr yn dod o 2011, o ran yr asesiad blaenorol o anghenion y boblogaeth, y tebygolrwydd yw y bydd y rhain wedi dod o'r cyfrifiad a gyhoeddwyd yn 2011 hefyd. Oherwydd nad yw'r canlyniadau mwyaf diweddar wedi'u cyhoeddi eto, ni allwn ond gynnig yr un ystadegau â'r rheiny a gyflwynwyd gennym ar gyfer yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn 2015, ar gyfer y categorïau a ganlyn:

- O ran **canran cyfanswm y boblogaeth sy'n darparu gofal di-dâl** canran y bobl ym Môn sy'n dod o dan y categori hwn yw tua 11.5%.
- **Niferoedd y gofalwyr yn ôl oedran, o fewn ardal yr awdurdod lleol** oedd 0 - 15 (140); 16-24 (360); 25 - 34 (520); 35 - 49 (1800); 50 - 64 (3,000); 65+ (2,200).
- **Nifer y bobl a oedd yn derbyn lwfans gofalwyr** oedd tua 800 ar gyfer 2011.




# Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

<u>**Angen am ragor o staff**</u>

Un o'r prif themâu a gyflëwyd yng nghanlyniadau holiadur Anghenion y Boblogaeth ar gyfer Ynys Môn oedd yr angen am ragor o ofalwyr. Nodwyd hyn 12 o weithiau gan amryw ymatebwyr o wahanol gefndiroedd ar gyfer y cwestiwn: 'Beth ydych chi'n ei feddwl y gellid ei wella?'. Yn y bôn, y consensws cyffredinol oedd bod nifer o gartrefi gofal wedi'u gwthio i'r eithaf, gyda nifer sylweddol ohonynt erbyn hyn yn cyrraedd pwynt o 'argyfwng'.

Mae ymatebwyr yn priodoli'r diffyg o ran gofalwyr i sawl ffactor, fodd bynnag, nid oes unrhyw amheuaeth bod y mwyafrif yn credu ei fod yn ymwneud â diffyg cyllid, a chyflogaeth wael. Roedd 8 o'r ymatebwyr wedi nodi hyn, gydag un sylw'n egluro bod angen 'gwella cyflogau i ofalwyr, mae gofalwyr yn teimlo nad ydynt yn cael digon o barch'. Bu'r pwysau ar ofalwyr yn ystod y flwyddyn a hanner ddiwethaf yn aruthrol. Ni fydd llawer a fu'n gweithio fel gofalwyr cyn y pandemig wedi rhagweld yr amgylchedd gofalu a welwyd gennym dros y cyfnod hwn, ac felly maent yn teimlo mai'r unig fodd o gadw gofalwyr presennol - wrth geisio denu gofalwyr newydd i'r proffesiwn - yw trwy gynnig cyflogau gwell a chyllid. Fe gafodd hyn ei grynhoi gan ID 245 a eglurodd nad oedd unrhyw seibiant i ofalwyr, roedd hyn wedi golygu 'nid yw staff yn cael eu cadw o fewn asiantaethau gofal ac mae'r rheiny sydd yn cael eu cadw yn cael eu gweithio i'r eithaf.' Y realiti o ran natur gweithio fel gofalwr ar hyn o bryd - a dros y flwyddyn a hanner ddiwethaf - yw un o bwysau aruthrol, ychydig iawn seibiant, wrth ennill yr hyn na ellir ei ystyried yn gyflog breintiedig. Yn ogystal, amlygodd ID 88 y materion o ran cartrefi gofal o ganlyniad i'r diffyg cyllid yr oeddynt yn ei brofi. Eglurodd ID 88 bod y diffyg cyllid wedi arwain at gytundebau tymor byr (fel rheol, 6 mis i flwyddyn) yr oeddynt yn eu hystyried yn 'niweidiol' i'r gwasanaeth. Ychwanegodd ID 88, o ganlyniad i'r hinsawdd bresennol o ran cytundebau ar gyfer gofalwyr, roedd wedi golygu eu bod wedi dod yn rhan o gylch annymunol. O fewn y cylch hwn, penodir gofalwr ar gytundeb 6 mis, mae'r gofalwr yn gadael yn y diwedd pan fydd yn cael cynnig cytundeb hirdymor gan gartref gofal arall, ac yna maent yn gorfod mynd trwy'r broses o recriwtio a hyfforddi unwaith eto. Roedd ID 88 wedi crynhoi'r sefyllfa, 'Mae'r broses hon yn cael ei hailadrodd ac mae'n golygu ein bod yn colli cysondeb, sgiliau a pherthnasau, oherwydd bod cytundebau 6 mis, neu am flwyddyn, mor fregus'. Mae'r diffyg sicrwydd o ran swyddi a strwythur gyrfa ar gyfer gofalwyr y soniwyd amdano gan ID 88 yn taflu goleuni pellach ar pam y mae lefelau staffio o fewn cartrefi gofal wedi dod yn gymaint o broblem yn gyffredinol.

## Gofalwyr yn gweithio fel uned gydlynus (gwaith tîm)

O ran y cwestiwn 'Beth yr ydych yn meddwl sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd?', y brif thema oedd bod gofalwyr a'r timau rheoli yn gweithio mewn modd cydlynus. Roedd yn rhywbeth a nodwyd 16 o weithiau i gyd, sy'n rhoi syniad o'r gred sy'n sail i'r pwynt hwn. Gellir gweld enghraifft o hyn yn y sylwadau a gynigiwyd gan ID 305 a amlygodd eu bod yn cael cysur o'r ffaith y gallent ofyn i'w rheolwr a'u rheolwr cynorthwyol am gymorth - gan wybod eu bod yn ddeallgar a'u bod yn gwneud pethau er lles y staff. Mae nifer yr ymatebion i'r pwynt hwn yn amlygu'r rôl bwysig a chwaraewyd gan ofalwyr yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a'r modd y maent wedi gweithio gyda'i gilydd i oresgyn yr heriau a wynebwyd ganddynt.

## Mae gofalwyr eisiau mwy o gefnogaeth

Er yr amlygwyd eisoes bod y cleientiaid y mae'r gofalwyr yn delio â hwy yn derbyn lefelau da o gymorth, ni ellir dweud yr un peth am y gofalwyr eu hunain. Yn naturiol, bu'r flwyddyn a hanner

diwethaf yn anhygoel o galed i'r mwyafrif o bobl, gyda'r pandemig yn rhoi stop ar fywyd o ddydd i ddydd i lawer. Fodd bynnag, o ran gofalwyr, nid fel hyn y bu hi. Nododd ID 245 mai ychydig iawn o seibiant sydd i'w gael o ofalu am rywun agos, a hyd yn oed, mewn theori, pan gyhwysir hyn mewn pecyn gofal, nid yw'r cwmnïau gofal yn gallu ei ddarparu. Cododd ID 317 bwynt tebyg, fodd bynnag, roedd eu pwynt hwy'n seiliedig ar y mater o lefelau cyfathrebu gwael. Nododd ID 317 bod pobl yn dal i'w chael yn anodd gwybod lle i fynd i gael cymorth. Ychwanegwyd ganddynt nad rhywbeth a oedd yn unigryw i unrhyw gartref gofal penodol oedd hyn - mae'n broblem a deimlwyd ymhlith pob un ohonynt.

Nododd ID 133 bod diffyg mynediad at CMHT wedi achosi rhagor o straen i deuluoedd a gofalwyr a oedd wir angen gwybodaeth a chymorth ar gyfer y rheiny yr oeddynt yn gofalu amdanynt. Ychwanegwyd ganddynt mai effaith hirdymor hyn fydd diffyg ffydd yn y gwasanaethau.

Gwnaeth ID 317 a 323 bwyntiau tebyg, gan egluro sut yr oedd y diffyg cymorth wedi effeithio gofalwyr a dyfodol y proffesiwn. Nododd ID 317 nad oedd cartrefi gofal yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac nad oedd y pwysau ychwanegol yn sgil y pandemig wedi'i gydnabod yn llawn. Ychwanegwyd ganddynt fod gofalwyr wedi blino, eu bod yn teimlo'n ddigalon a'u bod o ganlyniad i hynny'n ystyried eu dyfodol o ran aros ym maes gofal cymdeithasol. Roedd effaith Covid wedi'u diffygio ac felly nid oeddynt yn teimlo eu bod eisiau parhau i weithio o fewn gwasanaethau gofal.

# Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

### Holiadur Gofalwyr o 2018-19

Roedd 55 o unigolion wedi ymateb i'r holiadur hwn.

Roedd y cwestiwn cyntaf o fewn yr holiadur yn gofyn: 'Gan feddwl am eich bywyd ar hyn o bryd, a ydych chi'n cytuno â'r canlynol: 'Rydw i'n byw mewn cartref sy'n hybu fy lles yn y modd gorau. Er enghraifft, ai hwn yw'r cartref gorau ar gyfer eich anghenion presennol.'

Dangosodd y canlyniadau bod:

- 81% yn cytuno eu bod mewn cartref a oedd yn hybu eu lles yn y modd gorau
- Roedd 9% yn teimlo ei fod yn gwneud hynny weithiau
- Roedd 4% yn anghytuno
- Nid oedd 6% yn gwybod

Nododd rhai o'r cyfranogwyr:

- Bod angen gwneud addasiadau i'w tŷ
- Bod eu cartref wedi bod o help mawr gan ei fod wedi'i leoli'n nes at help os oedd ei angen
- Bod eu cartref wedi cael ei addasu i ddiwallu anghenion o ddydd i ddydd

Mae cael amser rhydd yn broblem weithiau i rai sy'n gofalu. Felly, roedd y datganiad a ganlyn yn nodi: 'Rydw i'n gallu gwneud y pethau sy'n bwysig i mi.'

- Teimlodd 48% oedd ganddynt yr amser i wneud pethau sy'n bwysig iddynt.
- Mynegodd 39% ohonynt y gallent gael amser i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n bwysig iddynt hwy eu hunain weithiau.
- Roedd 9% yn anghytuno, gyda'r 4% a oedd yn weddill yn nodi nad oeddynt yn gwybod.

Roedd sylwadau ychwanegol yn dangos bod:

- 3 unigolyn yn nodi eu bod yn rhoi gofal 24/7 ac felly, yn syml, nid oedd cael yr amser i gymryd rhan mewn gweithgareddau'n bosibl o gwbl.
- Nododd 1 unigolyn nad oedd ond yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau ar brynhawniau dydd Llun a boreau dydd Mawrth, gan fod dynes o 'Croesffyrdd' yn gallu helpu ar yr adegau hynny.
- Nododd 3 ohonynt fod eu problemau iechyd eu hunain yn golygu na fyddent yn cymryd rhan yn y gweithgareddau yr oeddynt yn arfer eu gwneud.
- Dywedodd 1 arall nad oedd yn gallu gyrru car, ac nad oedd y gwasanaeth bws yn mynd yn ddigon aml iddi allu cyrraedd y gweithgareddau yr hoffai fynd iddynt.

Mae bod yn rhan o gymuned yn rhan bwysig o bethau i lawer o bobl. Roedd yr holiadur felly'n ceisio gweld p'un a oedd gofalwyr yn teimlo bod hyn yn bosibl iddynt hwy hefyd.

- Roedd 46% yn teimlo eu bod yn rhan o'u cymuned leol.
- Mynegodd 26% eu bod yn teimlo'n rhan o'r gymuned weithiau.
- Roedd 19% yn anghytuno'n llwyr.
- Roedd 9% yn ansicr ac nid oeddynt yn gwybod p'un a oeddynt yn teimlo eu bod yn rhan o'r gymuned.

Roedd y sylwadau ychwanegol yn paentio darlun gwahanol i'r hyn a nodwyd uchod, fodd bynnag:

- O'r 9 sylw a oedd ar gael, nododd 8 ohonynt nad oeddynt yn teimlo eu bod yn rhan o'r gymuned.
- Roedd y rhesymau dros hyn yn amrywio, ond roedd sawl un ohonynt yn teimlo bod y ffaith eu bod yn ofalwr llawn amser yn golygu eu bod yn teimlo'n ynysig. Yn y bôn, eglurwyd ganddynt nad oeddynt yn gallu symud o'r tŷ oherwydd eu hymrwymiadau, a oedd yn ei gwneud yn amhosibl iddynt ddod yn rhan o'r gymuned.

Fel y nodwyd yn y cwestiwn uchod, realiti'r sefyllfa i ofalwyr yw eu bod yn aml yn teimlo'n ynysig. Felly mae pwysigrwydd ffrindiau ac aelodau teulu'n allweddol. Roedd yr holiadur yn gofyn am ymateb i'r datganiad: 'Rydw i'n hapus gyda'r cymorth gan fy nheulu, ffrindiau a chymdogion.'

- Teimlodd 59% eu bod yn hapus gyda'r cymorth a dderbyniwyd ganddynt.
- Roedd 22% yn teimlo eu bod yn cael cymorth gan eu teulu, ffrindiau a chymdogion weithiau.
- Roedd 11% yn anghytuno, gyda 8% yn nodi nad oeddynt yn gwybod sut yr oeddynt yn teimlo.

Roedd y sylwadau ychwanegol yn cynnwys ymatebion eithaf cymysg:

- Roedd 6 yn nodi eu bod yn derbyn y nesaf peth i ddim cymorth. Roedd y rhesymau yn amrywio o'r ffaith nad oedd gan bobl lawer o gymdogion cyfeillgar/ffrindiau neu aelodau teulu a fyddai'n helpu, i aelodau teulu a ffrindiau'n byw yn rhy bell i ffwrdd i allu helpu.
- Roedd ymatebwyr eraill a ychwanegodd sylwadau'n dweud eu bod yn cael llawer o help gan aelodau teulu, ffrindiau a chymdogion.

O ran gofalwyr, gall eu diogelwch personol eu hunain fod yn broblem yn aml. Cafwyd ymatebion i'r datganiad: 'Rydw i'n teimlo'n ddiogel. Er enghraifft, yn ddiogel rhag unrhyw fath o gamdriniaeth, niwed corfforol neu rhag cael codwm y tu mewn a'r tu allan i'ch cartref.'

- Roedd 79% yn teimlo'n ddiogel.
- Nid oedd 4% yn teimlo'n ddiogel yn lle'r oeddynt yn byw.
- Roedd 9% yn teimlo'n ddiogel weithiau, tra nad oedd 8% yn gwybod.

Fe gafwyd 4 sylw ychwanegol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:

- Roedd 2 yn poeni am gael codwm, roedd un o'r ddau'n sôn ei fod yn dioddef pyliau o lewygu a oedd wedi achosi rhywfaint o gleisiau.
- Roedd un o'r sylwadau'n nodi bod eu cymdogion yn ymddwyn yn ddifrïol a bod eu plant yn dueddol o chwarae gemau â phêl tan yn hwyr yn y nos.
- Roedd un sylw'n nodi pryder yr unigolyn ynghylch bod ar ei phen ei hun gyda'i mab sydd ag awtistiaeth a SLD. Roedd yn poeni gan ei fod yn 11 oed erbyn hyn ac felly'n tyfu mewn cryfder a thaldra, sy'n broblem pan fydd pethau'n 'mynd ar chwâl' iddo.

Ar ôl canfod, o ran llawer o ofalwyr, eu bod yn teimlo'n ynysig, ac nad yw cael cymorth gan ffrindiau ac aelodau teulu bob amser yn ymarferol, mae'r angen i wybod pwy i gysylltu â hwy i gael mwy o gymorth yn bwysig: 'Gan feddwl am y cymorth a dderbyniwyd gennych fel gofalwr, ydych chi'n cytuno â'r canlynol: Rydw i'n gwybod pwy i gysylltu hefo nhw ynglŷn â chael cymorth.'

- Roedd 85% yn gwybod pwy i gysylltu â hwy
- Roedd 11% yn gwybod pwy i gysylltu â hwy weithiau, tra nad oedd 4% yn gwybod.

Sylwadau ychwanegol:

- Roedd y mwyafrif o'r sylwadau'n cymeradwyo'r help a dderbyniwyd ganddynt gan wasanaethau fel y Gwasanaethau Cymdeithasol a Cynnal Gofalwyr.
- Ond fe nododd un nad oedd yn hawdd dod o hyd i'r math iawn o gymorth.

Roedd y 9fed cwestiwn yn ceisio cael syniad o b'un a oedd gofalwyr yn credu eu bod wedi cael chwarae rhan yn y penderfyniadau a wnaed ar gyfer yr unigolyn yr oeddynt yn gofalu amdanynt.

- Roedd 83% yn cytuno eu bod wedi chwarae rhan weithredol yn yr holl benderfyniadau mewn perthynas â chymorth a gofal.
- Roedd 4% yn anghytuno.
- Roedd 11% yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys weithiau, tra nad oedd 2% yn gwybod.

Sylwadau ychwanegol:

- Roedd un sylw'n nodi nad oedd bob amser yn bosibl.
- Roedd un arall yn nodi, gan fod yr unigolyn yr oeddynt yn gofalu amdano yn anabl, nad oedd ond yn gallu bod hefo'i fam.

Roedd y ddau gwestiwn olaf yn yr holiadur yn ymwneud â chymorth. Yr un cyntaf oedd: 'Rydw i'n teimlo fy mod yn cael cymorth i barhau â'm rôl ofalu.'

- Roedd 63% yn cytuno eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth i barhau â'u rôl ofalu.
- Roedd 6% yn anghytuno.
- Teimlodd 24% eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth i barhau â'u rôl weithiau, tra nad oedd y 7% a oedd yn weddill yn gwybod.

Sylwadau ychwanegol:

- Roedd cyfran fawr o'r sylwadau ychwanegol yn nodi'r modd yr oeddynt yn heneiddio fel gofalwyr, ac felly eu bod yn poeni p'un a oeddynt am allu diwallu anghenion yr unigolyn yr oeddynt yn gofalu amdano.
- Roedd ambell un o'r sylwadau eraill yn dweud y byddent yn hoffi cael rhagor o gymorth gan nad oeddynt yn cael cyfle i gael seibiant.

Roedd y cwestiwn olaf yn ceisio deall pa mor hapus y mae pobl gyda'r cymorth yr oeddynt yn ei dderbyn.

- Roedd 68% ohonynt yn hapus gyda'r cymorth a dderbyniwyd ganddynt.
- Nid oedd 4% yn hapus gyda'r cymorth a dderbyniwyd ganddynt.
- Roedd 26% yn hapus gyda'r cymorth a dderbyniwyd ganddynt weithiau.
- Nid oedd 2% yn gwybod.

Sylwadau ychwanegol:

- Nid oedd 2 o bobl yn teimlo eu bod wedi derbyn digon o gymorth.
- Roedd 2 o bobl yn nodi bod angen gwneud rhagor o ran cyfleoedd i gael seibiant, tra bo rhywun arall yn nodi eu bod yn gwerthfawrogi'r seibiant yr oeddynt yn ei dderbyn am 3 awr yr wythnos.
- Roedd 1 unigolyn yn dweud ei fod yn teimlo bod y cymorth yn ardderchog.

# Casgliad ac argymhellion

**Blaenoriaethau Ynys Môn**

1. Canfod gofalwyr di-dâl a gofalwyr ifanc yn gynnar er mwyn rhoi cymorth iddynt gael mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth i barhau yn eu rôl ofalu.

2. Rhoi cymorth i ofalwyr di-dâl gael cynllunio ar gyfer y dyfodol. Rhag-gynllunio gofal trwy'r gwasanaeth Meddwl Ymlaen, Cynllunio Ymlaen a hwylusir gan y Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr.

3. Gwella asesiadau gofalwyr i sicrhau cysondeb.

4. Darparu'r cymorth a fynnir i ofalwyr o ran iechyd meddwl a lles, fel y nodwyd yn asesiadau'r gofalwyr.

5. Adolygu'r gwasanaethau seibiant presennol. Defnyddio'r uned chwe gwely yn Garreglwyd fel uned seibiant/egwyl byr.

6. Cynyddu'r opsiynau i ofalwyr a gofalwyr ifanc o ran cyfleoedd i gael seibiant. Peilota'r prosiect Seibiantgarwch ('Respitality')

7. Peilota yr Ap ID Digidol i Ofalwyr Ifanc a lansiwyd ar draws Gwynedd a Môn.

8. Adolygu'r gwasanaeth Dementia Connect presennol a chanddo'r opsiwn posibl i ddatblygu cytundeb rhanbarthol.

9. Lansio gwefan Cymuned a'i hyrwyddo ymhlith yr holl grwpiau a sefydliadau ym maes gofalwyr ym Môn.

10. Prynu ail garafán yn Hafan y Môr i ddarparu rhagor o gyfleoedd i ofalwyr gael seibiannau byr.

11. Cynyddu capasiti ar gyfer cefnogi'r galw cynyddol am wasanaethau cwnsela a CBT ar gyfer gofalwyr di-dâl.

12. Parhau i weithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd i sefydlu prosiect seibiannau byr 'Bywydau a Rennir'.

# Diogelu

**Effaith Covid**

Fe gafodd arferion gweithio eu diwygio yn ystod y pandemig, ac mae'n debygol y gwnaiff hyn lywio rhai dulliau gwahanol o weithio at y dyfodol. Mae staff wedi dangos eu gallu i addasu a gweithio'n greadigol, ac mae defnyddio platfformau rhithwir i gefnogi gwaith amlasiantaethol yn debygol o barhau.

Mae Covid 19 wedi gwaethygu llawer o'r anghydraddoldebau o fewn ein cymunedau ac wedi cael effaith "drychinebus" ar lawer o deuluoedd.

- I lawer o deuluoedd bu'n storm berffaith o galedi ariannol, diffyg gwaith, ffynonellau newydd a newidiol o straen, y plant ddim yn yr ysgol, trafferthion o ran cael bwyd, gwahaniaethu, a hynny heb unrhyw rai o'r rhwydweithiau cymorth sydd ar gael fel arfer.
- Yng nghyd-destun yr argyfwng iechyd cyhoeddus, yn dilyn profiadau o ran ynysu cymdeithasol fel unigolion neu ledled y gymuned, mae problemau iechyd meddwl yn fwy cyffredin ymhlith grwpiau o dan anfantais sy'n agored i niwed.
- Mae'r cyfyngiadau cymdeithasol a gyfyngodd pobl i'w cartrefi am gyfnodau estynedig yn cynyddu'r risg o gam-drin a cham-fanteisio ar bobl, yn enwedig ymhlith genethod a merched.
- Mae iechyd meddwl a lles plant wedi'u heffeithio o ganlyniad i'r argyfwng ac mae llawer yn profi nifer o ACEau yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n debygol mai effaith mwy hirdymor Covid fydd cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n profi lefelau isel o les emosiynol.
- Roedd plant yn colli cyfleoedd i ryngweithio'n gymdeithasol, wyneb yn wyneb, a oedd yn effeithio sgiliau cymdeithasol, ac roedd cynnydd mewn rhyngweithio ar y cyfryngau cymdeithasol yn eu rhoi mewn perygl o gamdriniaeth ar-lein.
- Mae cyfyngiadau cymdeithasol sy'n cyfyngu pobl i'w cartrefi am gyfnodau estynedig yn cynyddu'r risg o gamdriniaeth a cham-fanteisio, a datgyflyru corfforol.
- Cafwyd dirywiad gwybyddol, a oedd yn gwaethygu o ganlyniad i'r amodau anodd iawn, ac yn aml ynysig, yr oedd unigolion yn byw oddi mewn iddynt oherwydd y pandemig.
- Cafwyd dirywiad o ran iechyd corfforol, ynghyd â mwy o boen oherwydd cyflyrau iechyd nad oedd yn derbyn triniaeth.

Gwelwyd achosion o hunanesgeulustod yn cynyddu o ran eu niferoedd a'u cymhlethdod, ac mae hyn yn parhau. Nid yw'n glir p'un a oedd yr achosion hyn yn cael eu cuddio o fewn gwasanaethau trydydd sector a oedd yn darparu cymorth i unigolion allu cadw eu hunain yn annibynnol, neu p'un a yw effaith Covid-19 (hunanynysu, gwarchod ac ati) wedi cael effaith niweidiol ar strategaethau ymdopi rhai unigolion yn y gymuned. Yn yr un modd, efallai bod codi ymwybyddiaeth yn fewnol ac ar draws y sectorau wedi amlygu'r risg hwn.

Yn dilyn yr angen i rieni addysgu eu plant adref yn ystod y cyfnodau nad oedd modd i blant fynychu'r ysgol yn gorfforol, rydym yn pryderu ynghylch y cynnydd posibl yn nifer y rheiny sydd am benderfynu addysgu eu plant adref yn barhaol.

Bydd angen i ni barhau i ddarparu cymorth i bob un o'r plant hynny sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, ynghyd ag ystyried y modd gorau o roi cymorth i blant a'u cadw'n ddiogel o fewn tirwedd sydd wedi newid o safbwynt diogelu.

O ran perfformiad, mae data yn dangos y gall plant a theuluoedd fod yn hyderus y gwneir penderfyniadau amserol yn achos pob adroddiad lle ceir amheuaeth bod plentyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Nid oes unrhyw restr aros ar gyfer dyrannu achosion lle bo angen cynnal ymholiadau o natur diogelu. Caiff adroddiadau diogelu ymateb cyflym a chynhwysfawr, a darperir tystiolaeth o'r trefniadau sydd ar waith o ran asesu risg a'r modd y rheolir achosion. Mae data o ran perfformiad yn dangos mai lefel yr ailgofrestriadau dros y flwyddyn oedd 22.22%, a chyfartaledd y

cyfnod yr oedd enw plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant oedd 321 diwrnod. Cynhelir y mwyafrif o gynadleddau amddiffyn plant cychwynnol yn brydlon, ac o ran 85% o'r rheiny a gynhaliwyd o fewn cyfnod y pandemig, barnwyd eu bod wedi perfformio'n dda.

**Cam-drin Domestig: "Un Drws Ffrynt"**

Cyn Covid 19 - Sefydlwyd gweithgor gennym i edrych ar y model a ddefnyddiwyd o ran ymyrraeth ac i adolygu'r holl wasanaethau a gomisiynwyd mewn perthynas â cham-drin domestig: o ganlyniad i hyn, ymgymerwyd â rhaglen newydd gennym o'r enw'r "Un Drws Ffrynt". Dull amlasiantaethol yw'r Un Drws Ffrynt o ganfod achosion o gam-drin domestig ymhlith yr atgyfeiriadau a dderbynnir, ynghyd â'u graddio yn ôl statws Coch, Melyn, Gwyrdd (RAG), a bydd fforwm yn mynd at i werthuso a datblygu gwasanaethau yng nghyswllt cam-drin domestig yn ôl risgiau ac anghenion. Diogelwyd cyllid gennym i'n cynorthwyo gyda'r datblygiad hwn.

Yn ogystal, darparwyd rhagor o adnoddau gennym i GORWEL er mwyn ymateb i unrhyw restr aros a achoswyd o ganlyniad i Covid gyda golwg ar leihau / lliniaru achosion.

**Iechyd Meddwl**

Bu effaith COVID yn sylweddol o ran lles emosiynol plant a phobl ifanc. Darparwyd rhagor o adnoddau gennym trwy Gweithredu Dros Blant a PARABL i sicrhau capasiti ychwanegol i allu ymateb i'r cynnydd yn y galw am wasanaeth. Byddwn yn parhau i ddarparu'r adnoddau ychwanegol hyn am gyn hired ag y gallwn. Mae cynlluniau ar waith i barhau â'r ddarpariaeth hon ar gyfer 2022/2023. Ymhlith y gwasanaethau y mae'r prosiectau'r 'Blues' a 'Bouncing Back', cwnsela ar gyfer galar, cymorth ychwanegol i ofalwyr ifanc, ynghyd â rhagor o gapasiti o ran y rolau lles emosiynol o fewn Gweithredu Dros Blant, a darparu gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer cyflyrau gorbryder cyffredinol o fewn PARABL i oedolion a phobl ifanc dros 14 oed.

Bydd GOLAU, y gwasanaeth lles emosiynol a ddarparwyd gan Barnardo's dros y tair blynedd diwethaf yn dod i ben ym mis Mawrth 2022. Mae'n bosibl y caiff hyn effaith ar y capasiti ehangach o fewn y system o ran derbyn atgyfeiriadau a darparu ymyriadau. Croesawir y cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau CAMHS sy'n darparu ymyriadau cynnar, a byddant yn cyd-fynd yn dda o fewn ein prosesau cymorth cynnar ynghyd â rolau newydd o fewn ysgolion, fel rolau'r swyddogion lles a chynhwysiant. Mae'r rhain yn rolau newydd, lle ceir 2 swyddog ym mhob un o'r ysgolion uwchradd ym Môn.

**Diogelu Cyd-destunol**

Tra bo niferoedd yr atgyfeiriadau sy'n ymwneud â cham-fanteisio ar blant wedi gostwng yn y lle cyntaf yn ystod y cyfnodau clo, gwelwyd cynnydd ers hynny, ac yn enwedig o ran cam-fanteisio'n rhywiol ar blant ar y rhyngrwyd a throseddau sy'n ymwneud â phlant yng nghymunedau Ynys Môn. Mae gennym ddau weithiwr sy'n arwain y gwaith a'n hymateb o ran hybu perthnasau iach. Mae gwaith yn parhau ar lefel genedlaethol a rhanbarthol o ran datblygu ymagwedd gyson tuag at y gwaith hwn. Rydym hefyd yn croesawu ehangu'r tîm ONYX (Heddlu Gogledd Cymru) i gynnwys pob ffurf ar gam-fanteisio.

**Trefniadau Diogelu Wrth Amddifadu o Ryddid**

Gwelwyd cynnydd gennym yn yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd ac ymgymerwyd â mwy o asesiadau, y mae llawer ohonynt yn adolygiadau a cheisiadau am adolygiadau Rhan 8, fel y mae'r Awdurdodau Rheoli yn canfod cyfyngiadau ychwanegol yn ystod y pandemig. Comisiynwyd asesiad effaith gennym yng nghyswllt goblygiadau Trefniadau Amddiffyn Rhyddid (LPS) er mwyn canfod y newidiadau a fynnir o safbwynt ariannol, y gweithlu a'r system. Tra na fydd modd i ni allu cloriannu'r gofynion hynny hyd nes y bydd y Cod Ymarfer ar gael, rydym yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn barod ar gyfer yr hyn a fydd, heb amheuaeth, yn bwysau ychwanegol sylweddol.

# Trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol

## Beth yr ydym yn ei wybod:

- Rydym yn gwybod bod **cyfanswm nifer y digwyddiadau domestig (troseddau a digwyddiadau eraill)** wedi cynyddu'n sylweddol ers yr asesiad blaenorol o anghenion y boblogaeth yn 2015. Yn 2015, nifer y digwyddiadau oedd 760, a dyfodd i 960 erbyn 2016. Fodd bynnag, o ran yr asesiad presennol, mae'r ffigur yn 1,303, gyda 957 yn dod o dan droseddau a'r gweddill, 346, yn dod o dan ddigwyddiadau eraill.
- Mae **cyfanswm nifer y troseddau trais domestig ag anafiadau** wedi amrywio dros y 5 mlynedd diwethaf, ers yr asesiad diwethaf o'r boblogaeth. Yn 2015, nifer yr achosion a ddaeth o dan y categori hwn oedd 130. Cynyddodd hyn i 170 yn 2016. Fodd bynnag, yn 2020, mae hyn wedi gostwng o ffigur 2016 i 156 - sy'n dal i fod yn gynnydd cyffredinol ers cynnal yr arolwg diwethaf o'r boblogaeth.
- Ar gyfer Gogledd Cymru gyfan, o ran y ffigurau **trais domestig yn ôl rhyw y dioddefwyr** yn yr AAB blaenorol yn 2015, roedd 2500 ohonynt yn ferched a 600 yn ddynion. Cafwyd cynnydd yn 2015/16, gyda thua 2900 o ferched a 800 o ddynion yn dod o dan y categori hwn. O ran yr AAB presennol, gwyddom, o safbwynt Ynys Môn, bod nifer yr achosion sy'n ymwneud â merched yn 921, tra bo'r nifer o ddynion yn 312.
- **Nifer y troseddau rhywiol** oedd 130 yn 2014/15. Erbyn 2015/16, roedd y rhif hwn wedi gostwng i 120. Fodd bynnag, o ran yr AAB presennol, cafwyd cynnydd sylweddol, gyda nifer y troseddau rhyw bellach yn 168 yn 2020.
- Mae **nifer yr achosion MARAC (cynhadledd asesu risg amlasiantaeth)** wedi dyblu yn y 5 mlynedd diwethaf. Yn 2015/16, nifer yr achosion MARAC oedd 80, fodd bynnag, gwelwyd cynnydd sylweddol yn y ffigur hwn i 168 yn 2020.
- O ran **achosion MARAC yn ôl nodweddion gwarchodedig**, yn 2015/16, roedd 2% o'r achosion hyn yn BME; 0% yn LGBT; 1% yn ddynion; 0% yn anabl a 3% yn 16-17 oed. Fodd bynnag, yn 2020, nid oedd modd casglu'r ganran ond, yn lle hynny, nodwyd nifer yr achosion o dan y nodweddion gwarchodedig hyn. Felly, yn 2020, roedd 4 achos BME; 1 achos LGBT; 18 achos yn ddynion ac 1 achos yn ymwneud ag unigolyn anabl.

Mae data a gasglwyd o Borth Cymorth Tai yr Un Pwynt Mynediad ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 wedi cofnodi 314 (12.4%) o achosion o angen a oedd yn ymwneud â cham-drin domestig, o gyfanswm o 2,541 ar gyfer pob grŵp defnyddiwr gwasanaeth. Mewn cymhariaeth, ar gyfer y cyfnod 01.04.2021 i 30.9.2021, o ran anghenion a nodwyd, cofnodwyd 137 (10.7%) o gyfanswm o 1,282. Mae gan Ynys Môn hefyd ddwy loches ar gyfer dioddefwyr / goroeswyr cam-drin domestig. Gall y cyntaf lletu hyd at 4 o deuluoedd (merched yn unig ar wahân i blant hyd at 16 oed) ynghyd â lloches gwasgaredig i un unigolyn y gellir ei defnyddio ar gyfer ddioddefwyr / goroeswyr cam-drin domestig, bo'r rheiny'n ddynion neu'n ferched.

Dangosodd data monitro dros y 12 mis diwethaf y bu'r ddau fath o ddarpariaeth lloches yn llawn am y rhan fwyaf o'r amser, gydag unedau gwag ar gael o ganlyniad i unigolion / teulu yn gadael a bod angen cyflawni swyddogaethau o ran gwaith rheoli tai / cynnal a chadw cyn i'r cleientiaid nesaf symud i mewn.

Er y gostyngiad ymddangosiadol yn y data uchod, mae pryderon yn parhau ar draws asiantaethau allweddol fel y Gwasanaethau Plant ac Oedolion a Heddlu Gogledd Cymru bod gwir nifer yr achosion o gam-drin domestig yn cynyddu'n sylweddol. Yn ôl canfyddiadau'r asesiad o anghenion, ymddengys bod bwlch o ran y ddarpariaeth ar gyfer achosion o gam-drin rhywiol, ac mae hwn yn faes y byddwn yn ymchwilio ymhellach iddo. Roedd adroddiad a dderbyniwyd gan Heddlu Gogledd Cymru hanner ffordd trwy 2021/22, yn dangos y cafwyd cynnydd o 23% yng nghanran y digwyddiadau o gam-drin domestig ym Môn, o gymharu â'r un cyfnod yn ystod y flwyddyn flaenorol. Gweler y tabl a'r graff isod. Nodwyd hefyd bod nifer yr achosion agored sy'n cael eu dal gan y darparwr dynodedig yn fwy na'r llwyth achosion rheolaidd disgwyliedig o 15-18 ar gyfer pob gweithiwr cymorth.

| | **Yr Wythnos Bresennol** | **YTD** | **LYTD** | **% Newid** |
|---|---:|---:|---:|---:|
| **Dioddefwr CD** | **24** | **662** | **538** | **23.0%** |
| **Dioddefwr Mynych** | **3** | **92** | **93** | **-1.1%** |

- Cafwyd 356 o ferched / 55 o ddynion a oedd wedi dioddef cam-drin domestig a oedd hefyd wedi dioddef trosedd 3 gwaith neu ragor yn ystod y 12 mis blaenorol.
- Roedd 135 (37 %) o'r merched yn 35-44 oed, 25.2% yn 25-34 oed a 21% yn 18-24 oed.
- Y categori oedran 55-64 oedd yr uchaf o ran dioddefwyr a oedd yn ddynion, gyda 15 (27.3%), a ddilynwyd yn agos wedyn gan 13 (23.6%) yn y categori oedran 35-44. Roedd bob un o'r 4 categori arall yn gyson, yn dangos lefelau o 5-7 (9-13%).

Mae'r Tîm Comisiynu Cymorth Tai yn dal i gyfranogi yn y prosiect Un Drws Ffrynt, sy'n dod ag asiantaethau perthnasol at ei gilydd, fel y Gwasanaethau Plant, Tai, Addysg, Gorwel, Iechyd (SMS), Heddlu Gogledd Cymru (PVPU), SMS yn wythnosol, trwy ddolen electronig rithwir, i drafod achosion a atgyfeiriwyd i'r panel, er mwyn cytuno ar y datrysiad gorau bosibl yn nhermau'r ymyriadau a fynnir. Cydlynir y prosiect gan y Swyddog Un Pwynt Mynediad Cymorth Tai, ac mae'n enghraifft o arferion da o ran cyd-weithio ac alinio cyllid y Grant Cymorth Tai a'r Grant Plant a Chymunedau.

Rydym yn disgwyl ar hyn o bryd am adroddiad ymchwilio yr ymgymerwyd ag ef gan yr elusen Safe Lives, sy'n noddi'r broses Un Drws Ffrynt ar draws Lloegr a Chymru.

# Y Gymraeg

## Arolwg o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

### Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 – Blaenoriaethau/Camau Gweithredu – Y cynnydd o ran y sefyllfa yn Rhagfyr 2020

- Yn ystod 2020, cyflenwyd cyflwyniadau ynghylch gweithredu Safonau'r Gymraeg, ynghyd â chyfathrebu a gofal cwsmer (gan gynnwys y gofyniad i wneud y cynnig rhagweithiol o wasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg i bob cwsmer) ym mhob cynhadledd staff.
- Mae codi ymwybyddiaeth o Mwy Na Geiriau a Safonau'r Gymraeg yn parhau i fod yn ofyniad ym mhob sesiwn gynefino staff ym mhob adran.
- O ran yr holl staff ar y system e-bost, anfonwyd nodyn atgoffa ysgrifenedig ynghylch pwysigrwydd ateb y ffôn yn ddwyieithog.
- Rydym wrthi'n datblygu dulliau o fonitro a chofnodi'r Cynnig Rhagweithiol ac iaith ddewisol defnyddwyr gwasanaeth trwy ystadegau o'r system gofnodi achosion electronig, er mwyn monitro perfformiad o ran cofnodi hyn.
- Mae gwasanaethau'n parhau i fonitro a sicrhau bod digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar draws pob maes o fewn gwasanaethau, er mwyn gallu darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ledled pob maes.

Mae gwasanaethau'n parhau i annog staff sy'n dysgu Cymraeg i gymryd rhan mewn hyfforddiant perthnasol er mwyn datblygu eu sgiliau iaith.

# Cydraddoldeb, dyletswydd economaidd-gymdeithasol a hawliau dynol

## Cyn-filwyr

- Mae'r **amcangyfrif o'r boblogaeth cyn-filwyr, o ran pob unigolyn 16+** wedi gostwng yn sylweddol ers yr AAB blaenorol. Yn **2015**, roedd y niferoedd fel a ganlyn: 16 - 24 (50); 25 - 34 (100); 35 - 44 (260); 45 - 54 (520); 55 - 64 (730); 65 - 74 (890); 75 - 84 (2,360); 85+ (540); Cyfanswm 16+ (5,470).
  Fodd bynnag yn **2020**, y niferoedd oedd: 16 - 24 (40); 25 - 34 (100); 35 - 44 (200); 45 - 54 (450); 55 - 64 (620); 65 - 74 (820); 75 - 84 (1090); 85+ (830); Cyfanswm 16+ (4,150).
- Gan gyd-fynd â'r uchod, mae **canran y boblogaeth cyn-filwyr 16+** wedi gostwng yn aruthrol hefyd. Yn 2015, canran y boblogaeth cyn-filwyr dros 16 oed oedd 11%. Fodd bynnag, yn 2020, mae'r ffigur bellach yn 7%.
- Mae **canran y boblogaeth 16+ ym mhob cyngor lleol sy'n gyn-filwyr** yn amlygu'r uchod ac yn rhoi demograffeg lawnach o ran y boblogaeth cyn-filwyr ym Môn. Yn **2015**, o ran y boblogaeth 16+ (58,100); yr amcangyfrif o nifer y cyn-filwyr (5,470); Canran y boblogaeth sy'n gyn-filwyr (11%).
  Fodd bynnag, o ran **2020**, er bod y boblogaeth yn gyffredinol wedi aros yr un fath ar y cyfan, roedd y boblogaeth cyn-filwyr wedi lleihau: Y boblogaeth 16+ (58,519); yr amcangyfrif o nifer y cyn-filwyr (4,150); Canran y boblogaeth sy'n gyn-filwyr (7%).

## Beth yr ydym yn ei wybod:

Yn aml, mae gwahaniaethau ymhlith pobl hŷn o ran incwm a chyfoeth, mynediad at wasanaethau ariannol a chyflogaeth yn adlewyrchu anfanteision cronnol o ganlyniad i leoliad pobl, eu rhyw, eu statws economaidd-gymdeithasol a nodweddion eraill, ynghyd ag agweddau ac arferion sy'n gwahaniaethu ar sail oedran, a diffyg cyfreithiau a pholisïau.

Mae allgáu cymdeithasol yn effeithio lles personol pobl a'r modd y maent yn cyfranogi o fewn cymdeithas mewn sawl modd. Mae'r rhain yn cynnwys mynediad at y rhwydweithiau cymdeithasol o fewn cymunedau sy'n cefnogi integreiddio a chysylltiadau ag eraill, mynediad at wasanaethau cymunedol ac amwynderau sy'n cefnogi bywyd difyr a phleserus.

Cyfranogiad cymunedol yw'r broses lle mae unigolion yn ymgysylltu â gweithgareddau lleol a all fod o fudd iddynt hwy a'u cymuned.

Roedd canran y pensiynwyr sy'n byw mewn tlodi cymharol o ran incwm wedi cynyddu dros 4 cyfnod dilynol, gan gyrraedd 20% rhwng 2014/15 a 2016/17, cyn gostwng i 19% rhwng 2015/16 a 2017/18 (StatsCymru).

## Blaenoriaethau

- Buddsoddi mewn cymorth lleol sy'n bwysig i bobl hŷn.

- Gwella hyder digidol trwy brosiect hwb cymunedol rhithwir a phrosiect ar-lein Fy Iechyd i wella ymgysylltiad/cyswllt â gofal sylfaenol.
- Hyrwyddo gwirfoddoli.
- Cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Daeth y ddyletswydd economaidd-gymdeithsol i rym ar 31ain Mawrth 2021. Wrth wneud penderfyniadau strategol fel penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, mae'r ddyletswydd yn gofyn i rai cyrff cyhoeddus ystyried y modd y gall eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar gredyd pensiwn.

## Atodiadau:

## Atodiad 1 – Llwybrau Gweithredol

LLWYBRAU GWEITHREDOL

Dynes briod 74 oed yw Mrs B. Mae hi wedi'i chofrestru â Nam Difrifol ar y Golwg (Dall), mae hi'n dioddef y ffurf 'wlyb' ar Ddirywiad Macwlaidd sy'n Gysylltiedig â Henaint. Er y bu'n derbyn pigiadau llygaid 'Lucentis' i leihau'r dirywiad, ni fu'r rhain yn llwyddiant. Mae Mr B yn dioddef dementia a phroblemau calon. Mae'r ddau wedi cefnogi ei gilydd yn y gorffennol, ond mae hyn yn dod yn fwy a mwy anodd oherwydd problemau cof Mr B. Mae'r teulu i gyd yn byw i ffwrdd: mae'r un agosaf yn byw 4 awr i ffwrdd mewn car. Maent yn byw mewn pentref anghysbell nad oes unrhyw siopau lleol.

Derbyniodd Mrs B gymorth gan ROVI yn dilyn asesiad o'i hanghenion. Mae gweithgareddau byw bob dydd wedi dod yn fwy a mwy anodd oherwydd cyflwr ei gwr. Mae'r bwyd yn yr oergell wedi'i labelu: ei gwr fyddai'n mynd i nôl y rhain yn flaenorol. Mae'r popty a'r ficrodon 'Combi' wedi'u marcio. Mae hyn yn helpu Mr B i gofio sut i'w rhoi ymlaen a'u diffodd. Mae'r peiriant golchi/sychu dillad wedi'i farcio erbyn hyn hefyd, sydd o fudd i'r ddau ohonynt. Gosodwyd goleuadau ychwanegol yn y gegin. Mae'r uchod i gyd wedi galluogi'r ddau i baratoi a choginio prydau heb gymorth ychwanegol.

Yn y gorffennol, bu Mrs B yn defnyddio darllenydd electronig 'Visum' i ddarllen ei phost, cylchgronau ac ati. Gan fod ei golwg wedi dirywio'n bellach, nid yw'n gallu defnyddio'r offer mwyach. Nid yw'n gallu dibynnu ar Mr B i ddarllen iddi. Ymwelodd Mrs B â diwrnod agored Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru lle cafodd arddangosiad o sganiwr 'Iris Vision Live' sy'n siarad, a ddilynwyd gan ymweliad gan y cwmni â'i chartref. Prynodd Mrs B yr offer, sydd o fudd mawr iddi.

Bu Mrs B yn derbyn ymyrraeth barhaus gan y Swyddog Adsefydlu (ROVI). Fe'i cyfeiriwyd ymlaen at wasanaeth budd-daliadau'r RNIB; gwnaeth gais am ostyngiad Treth Gyngor; mae ganddi sganiwr darllen arbenigol oherwydd ei hanabledd; cysylltwyd â'r cwmni pŵer i'w chofrestru'n anabl gan y bydd hyn yn golygu na fydd angen iddi ddarparu rhif ei chyfrif mewn argyfwng; maent yn mynd i glwb cinio sy'n caniatáu iddynt gael amser ar wahân fel bod y ddau'n cael cymdeithasu, ac mae cwmni preifat yn darparu gwasanaeth glanhau wythnosol. Mae Mrs B yn gwisgo colur. Roedd hi'n gofidio gan ei bod yn cael trafferth rhoi'r colur ynghyd â sychu/steilio ei gwallt. Bu modd i'r ROVI roi cyngor iddi ynghylch cael drych a oedd yn gweithio fel chwyddwydr, ynghyd â chael goleuadau addas ar gyfer yr ystafell wely. Mae'r cleient yn gwisgo tlysau bob amser ond nid oedd yn gallu dod o hyd i'r parau o glustdlysau a oedd ganddi. Dechreuodd ddefnyddio cynhwysydd tabledi a oedd yn ei galluogi i gadw parau o glustdlysau ar wahân fel nad oeddynt yn cymysgu. Bu hyn yn help iddi. Roedd yr uchod o bwys i Mrs B ac yn bwysig iawn o ran ei hunan-barch. Roedd yn gallu parhau i wneud hyn yn annibynnol.

Ar gais y ROVI, gosodwyd rhagor o ganllawiau gan yr awdurdod lleol, yn y gawod a'r tu allan i'r drws ffrynt.

Yn ystod y cyfnod clo, byddai'r Swyddog Adsefydlu'n ffonio'n rheolaidd i roi cymorth a gwybodaeth ynghylch gwasanaethau lleol fel siopa a chasglu presgripsiynau. Roedd hyn yn caniatáu i Mr B a Mrs B barhau i fod yn annibynnol yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Mae'r gwasanaeth a ddarparwyd gan y ROVI wedi caniatáu i'r ddau aros yn eu cartref eu hunain heb becyn gofal. Heb gymorth y ROVI, ni fyddai Mrs B yn gallu ymdopi â phethau'n annibynnol. Mae rhaglen adsefydlu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi caniatáu i Mrs B gynnal ei hannibyniaeth adref, gan gyflawni tasgau a pharhau i wneud y tasgau sy'n bwysig iddi. Ar hyn o bryd, mae Mr B yn dal i allu gyrru, felly maent yn dal i fynd allan yn y car weithiau er mwyn mynd am dro neu i rywle i gael cinio.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **8 Mawrth, 2022** |
| **Pwnc:** | **Cynllun ac Asesiadau Llesiant** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Adroddiad ar y cynnydd ar gyflawni'r Cynllun Llesiant, yr Asesiadau Llesiant a diweddariad ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Annwen Morgan, Prif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Sandra Thomas,**<br>**Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn**<br>**01286 679906**<br>**sandralynnethomas@gwynedd.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Dim yn berthnasol i unrhyw ward benodol** |

## 1 – Argymhelliad/Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini nodi a chynnig sylwadau ar yr amserlen arfaethedig i greu'r Cynllun Llesiant newydd sydd i'w gyhoeddi ym mis Mai 2023.

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini nodi a chynnig sylwadau i'r Asesiadau Llesiant drafft Ynys Môn. Yn ogystal, nodi'r wybodaeth sydd wedi ei gasglu am y chwe ardal ac ystyried a yw hyn yn adlewyrchiad teg o gyflwr llesiant yr ardal ac a oes unrhyw beth ar goll?

(Er gwybodaeth, bydd diweddariad ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Llesiant cyfredol (2018 - 2023) yn cael ei gyflwyno ar wahân, yn unol â'r amserlen a gytunwyd yng nghyfarfod Pwyllgor Sgriwtini a gynhaliwyd Tachwedd 2021).

## 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Cyngor yn darparu amrywiaeth o wasanaethau fydd yn cyflawni eu hamcanion llesiant unigol, yn ogystal â chyfrannu at, a chefnogi amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

## 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

i. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus, beth fydd y broses a'r amserlen wrth gwblhau'r asesiad llesiant terfynol ar gyfer y Sir?
ii. I ba raddau mae'r wybodaeth a gasglwyd hyd yma am y 6 ardal yn adlewyrchiad teg o gyflwr llesiant Ynys Môn?
iii. Sut mae ceisio barn trigolion a chymunedau lleol ar yr asesiadau llesiant lleol?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**5.1 Cyflwyniad a chyd-destun**

**5.1.1** Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn ym 2016, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yw gwella llesiant economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn amlygu saith nod llesiant a phum ffordd o weithio er mwyn rhoi pwrpas cyffredin i gyrff cyhoeddus. Y penderfyniad a wnaethpwyd gan Bwyllgor Gwaith Ynys Môn oedd sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i Ynys Môn fyddai'n *cydweithio* efo Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd.

**5.1.2** Er mwyn gosod blaenoriaethau ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus cynhaliwyd asesiadau Llesiant ar draws ardaloedd Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn ac yn sgîl hynny cafwyd cyfres o sesiynau ymgysylltu ac ymgynghori. Cyfrannodd yr holl waith hynny at gyhoeddi'r Cynllun Llesiant yn 2018.

**5.1.3** Ceir cadarnhad yn y Cynllun Llesiant o'r ddau amcan a chwe maes blaenoriaeth ble gytunwyd gall y Bwrdd gydweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau i drigolion Gwynedd ac Ynys Môn. Cytunwyd felly ar feysydd blaenoriaeth sy'n gyffredin yn y ddwy Sir a chyfrifoldeb y Bwrdd yw ymateb i'r materion yma ar y cyd ar draws y ddwy Sir.

**5.1.4** Pob 5 mlynedd, ac fel un o ofynion statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), mae'n rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei

ardal. Erbyn heddiw, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn ynghanol y broses o adolygu'r Asesiad Llesiant.

**5.1.5** Unwaith eto, mae'r asesiadau yn tynnu ynghyd ystod o wybodaeth am gymunedau Ynys Môn a Gwynedd. Rydym wedi edrych ar waith ymchwil, casglu data ac ymgysylltu hefo'n trigolion er mwyn canfod beth sy'n dda am ein cymunedau, a beth sydd ddim cystal. Mae'n gyfle hefyd i ystyried heriau a chyfleoedd ein cymunedau, gan roi ystyriaeth i effaith argyfwng Covid-19 a Brexit arnynt. Ceir adroddiad cynnydd ar y gwaith isod.

**5.1.6** Mae BGC Gwynedd a Môn wedi rhannu'r ddwy sir yn 14 o ardaloedd llai - 8 yng Ngwynedd a 6 ym Môn - ac wedi cynnal gwaith ymchwil ar yr ardaloedd hynny er mwyn deall yn well yr anghenion llesiant.

**5.1.7** Bydd y gwaith ymchwil, yr ymgynghoriad a chreu'r asesiad yn arwain yn y pendraw at greu'r Cynllun Llesiant newydd ar gyfer y ddwy sir, i'w gyhoeddi ym mis Mai 2023. Dyma'r amserlen arfaethedig (Tabl 1):

| Dyddiad | Gweithgaredd |
|---|---|
| Mawrth 2022 | • Cyfarfod Pwyllgor Sgrwtini Ynys Mon (08/03/22)<br>• **Ymgynghoriad Asesiadau Llesiant yn cau (15/03/22)**<br>• Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Mon (16/03/22) |
| Mai 2022 | • **Cyhoeddi'r Asesiadau Llesiant (31/05/22)** |
| Mehefin 2022 | • Gweithdy i gychwyn trafodaeth am y Cynllun Llesiant (dyddiad iw drefnu)<br>• Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Mon (15/03/22)<br>• Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol |
| Hydref 2022 | • **Cyhoeddi drafft o'r Cynllun Llesiant ar gyfer ymgynghori (14 wythnos yn statudol).**<br>*(Bydd angen cyflwyno'r Cynllun i'r **Pwyllgorau Sgriwtini,** Cabinet a Chyngor llawn y ddau awdurdod lleol)* |
| Chwefror 2023 | • **Ymgynghoriad ar y Cynllun Llesiant yn dod i ben** |
| Mai 2023 | • **Cyhoeddi'r Cynllun Llesiant** |

**5.2 Asesiadau Llesiant**

**5.2.1** Fel y nodwyd uchod mae gwaith ar droed i ddiweddaru'r asesiadau llesiant. Mae'r gwaith o ddadansoddi gwaith a chanfyddiadau ymgysylltu ein partneriaid wedi ei gwblhau ac roedd holiadur llesiant Ynys Môn wedi ei gylchredeg yn gyhoeddus yn fyw hyd y 11eg Hydref 2021. Yn ogystal, mae'r gwaith o ddiweddaru'r data ar gyfer yr asesiadau llesiant wedi cael ei gwblhau gan Dîm Ymchwil a Gwybodaeth Cyngor Gwynedd.

**5.2.2** Defnyddiwyd grant rhanbarthol y BGCau i gomisiynu Prifysgol Glyndŵr i gydweithio ar yr asesiadau llesiant yn y gogledd. Yn ogystal cynhaliwyd gweithdy rhanbarthol ar gyfer clywed gan y grwpiau na chlywir ganddynt yn aml, am faterion sy'n effeithio ar eu llesiant.

**5.2.3** Mae'r amserlen ar gyfer cwblhau'r Asesiadau Llesiant fel y nodwyd yn nhabl 1 uchod. Rydym nawr yn y cyfnod ymgynghori 12 wythnos ar yr asesiadau llesiant fydd yn dod i ben ar 15fed Mawrth 2022.

**5.2.4** Gwelwch yr asesiadau drafft unigol i chwe ardal Ynys Môn yn yr atodiadau isod.

**5.3 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**

**5.3.1** Fel yr amlygir yng Nghylch Gorchwyl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mae gan y Bwrdd bedwar aelod statudol, ynghyd â chyfranogwyr gwadd sy'n cyfrannu at ddyletswyddau'r Bwrdd.

**5.3.2** Mae'r Bwrdd wedi sefydlu is-grwpiau er mwyn ei gefnogi i weithredu ei swyddogaethau. Mae gan y Bwrdd bedwar is-grŵp sef yr Iaith Gymraeg, Newid Hinsawdd, Iechyd a Gofal a Chartrefi ar gyfer pobl leol. Rhoddwyd diweddariad y tro diwethaf i'r Pwyllgor Sgriwtini ar waith yr is-grwpiau.

**5.4 Monitro**

**5.4.1** Mae'r pedwar is-grŵp a nodwyd uchod yn atebol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â chyflawni unrhyw waith a gomisiynir. Mae'r is-grwpiau yn diweddaru'r Bwrdd ar gynnydd yn chwarterol, ac yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd ceir her a thrafodaeth ar yr adroddiadau o gynnydd maent yn eu cyflwyno.

**5.4.2** Mae gan dîm cefnogi'r Bwrdd hefyd rôl i'w chwarae rhwng cyfarfodydd y Bwrdd i gefnogi a chynnal gwaith yr is-grwpiau. Yn ogystal mae adroddiad blynyddol yn cael ei gyhoeddi gan y Bwrdd sy'n crynhoi cynnydd wrth i'r Bwrdd weithio tuag at gyflawni ei amcanion strategol.

**5.4.3** Dyma grynodeb o'r gwaith sydd ar y gweill gan yr is-grwpiau:

**5.4.3.1 Amcan 1 – Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir dymor:**

| Blaenoriaeth | Diweddariad ar waith yr is-grŵp | Beth mae'r is-grŵp yn ei gyflawni sy'n ychwanegu gwerth i gynlluniau presennol y cyrff cyhoeddus | Amserlen arfaethedig |
|---|---|---|---|
| **Yr Iaith Gymraeg** | Yn ystod cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi cymeradwywyd mewn egwyddor prosiect i hybu'r defnydd o'r Gymraeg wrth i'r cyhoedd ddefnyddio ein gwasanaethau cyswllt cyntaf. | Bydd cydweithio ar y prosiect yn gallu arwain at gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg (a'r awydd i'w defnyddio o ddewis) wrth ymwneud â ni fel sefydliadau cyhoeddus tra gall sefydliadau hefyd gynorthwyo ei gilydd. | Rhan 1 o'r gwaith i'w gwblhau erbyn haf 2022. |
| **Newid Hinsawdd** | Yn ystod cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi cytunwyd i gefnogi gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru o ymgysylltu efo trigolion Porthmadog ar faterion newid yn yr hinsawdd. Bydd yr is-grŵp yn blaenoriaethu Porthmadog fel un o'r ardaloedd cyntaf i weithio gyda hwy, gyda'r bwriad o symud ymlaen i weithio gyda chymunedau eraill yng Ngwynedd ac Ynys Môn sydd â risg o wynebu llifogydd i'r dyfodol. | Y deilliannau a ragwelir trwy gydweithio yw:<br>• Datblygu cymunedau sy'n gallu addasu, rheoli a lleihau effaith newid yn yr hinsawdd<br>• Newid y Ffocws i Newid yn yr Hinsawdd yn ehangach, nid llifogydd yn unig.<br>• Grwpiau amrywiol o bobl, asiantaethau, sefydliadau, partneriaid yn cydweithio.<br>• Sefydlu trefniadau cyfathrebu ddwy ffordd rhwng aelodau o'r gymuned a'r cyrff cyhoeddus. | Porthmadog y flaenoriaeth i'r grŵp fel man cychwyn ac yn parhau i weithio gyda'r ardaloedd eraill yn ystod 2022/23. |

**5.4.3.2 Amcan 2 – Trigolion sy'n Iach ac yn annibynnol gyda safon bywyd da**

Mae dau faes blaenoriaeth 'Iechyd a Gofal oedolion' a 'Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc' yn cyfarch amcan 2. Cytunwyd i sefydlu un is-grŵp i gyfarch y ddwy flaenoriaeth sef Grŵp integredig Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Gorllewin.

| Blaenoriaeth | Diweddariad ar waith yr is-grŵp | Beth mae'r is-grŵp yn ei gyflawni sy'n ychwanegu gwerth i gynlluniau presennol y cyrff cyhoeddus | Amserlen arfaethedig |
|---|---|---|---|
| **Iechyd a Gofal** | Pwrpas yr is-grŵp yw tynnu ynghyd partneriaid allweddol yn y maes iechyd a gofal i gydweithio ar ymateb i rwystrau sy'n eu hatal rhag gweithio'n integredig. Rydym eisoes wedi adrodd fod gan yr is-grŵp ffrydiau gwaith penodol sef oedolion, plant ac iechyd meddwl. Mae'r gwaith o ddiweddaru cylch gorchwyl y ffrydiau gwaith ar droed.<br>Mae'r gwaith trawsnewid o fewn y ffrydiau gwaith wedi cael eu hariannu gan gronfa Gofal Integredig (ICF) a'r<br>Gronfa Trawsnewid (TF). Mae cydnabyddiaeth bod y rhaglen drawsffurfio gymunedol sydd wedi cychwyn yn un hirdymor ac uchelgeisiol, a bydd angen adnodd a chapasiti sylweddol am flynyddoedd lawer i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau. Bydd gwaith cynllunio yn digwydd ar y cyd rhwng y partneriaid allweddol mewn paratoad ar gyfer y gwaith o lunio ceisiadau ar gyfer y rhaglen gyllido newydd. | Yn parhau i ddatblygu trefniadau o gydweithio | Oherwydd y<br>pwysau sydd wedi bod ar sefydliadau yn y maes oherwydd y pandemig bydd y ffrydiau gwaith yma'n ail sefydlu eu hunain/ cael trefn ar eu cynlluniau yn fuan yn 2022/23 |

**5.5 Trefniadau Craffu**

**5.5.1** Mae gwaith y Bwrdd yn cael ei wirio'n gyson gan Bwyllgorau Craffu / Sgriwtini Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

**5.5.2** Mae'r Ddeddf Llesiant a'r canllawiau cenedlaethol cysylltiedig yn nodi 3 rôl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini Awdurdodau Lleol wrth ddarparu atebolrwydd democrataidd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Adolygu trefniadau llywodraethu'r BGC
- Ymgynghorai statudol ar yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant
- Monitro cynnydd ymdrechion y BGC wrth weithredu'r Cynllun Llesiant

**5.5.3** Cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf ym mis Tachwedd 2021 y byddai'r pwyllgorau sgriwtini / craffu yn craffu gwaith y Bwrdd ddwywaith y flwyddyn i'r dyfodol yn hytrach na deirgwaith fel ag y gwnaed yn y gorffennol. Rhagwelir fod chwe mis rhwng adrodd yn amserlen sy'n caniatáu i'r Bwrdd wneud cynnydd sylweddol a chyflwyno adroddiadau manylach i'w craffu. Awgrymir felly y dylid cyflwyno'r adroddiad blynyddol ym Mai/Mehefin (yn ddibynnol ar amserlenni) ac yna adrodd ar gynnydd cyffredinol chwe mis wedyn.

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol ar ôl ei chwblhau ar yr AEC |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Mae Tim Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eisoes wedi rhoi ystyriaeth, ac yn cydnabod yr angen am asesiadau effaith(e.e. Iaith a Chydraddoldeb), a bydd asesiadau yn cael eu datblygu a'u defnyddio pan fydd y Bwrdd yn ymgysylltu a'n cymunedau ar bwyntiau penodol ac ar gyfer diweddaru'r Asesiadau Llesiant. |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| Dim |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| **Crynodeb Asesiadau Llesiant 6 ardal Ynys Mon:**<br>https://www.llesiantgwyneddamon.org/cy/Asesiad-Llesiant/Asesiad-Llesiant/<br><br>1. Beth sy'n bwysig yn ardal **Bro Aberffraw a Bro Rhosyr**:<br>3-4-3-32-2-Asesiad-Drafft-Bro-Aberffraw-a-Bro-Rhosyr.pdf (llesiantgwyneddamon.org)<br><br>2. Beth sy'n bwysig yn ardal **Aethwy a Seiriol**:<br>3-4-3-31-2-Asesiad-Drafft-Aethwy-a-Seiriol.pdf (llesiantgwyneddamon.org)<br><br>3. Beth sy'n bwysig yn ardal **Lligwy a Twrcelyn**:<br>3-4-3-35-2-Asesiad-Drafft-Lligwy-a-Twrcelyn.pdf (llesiantgwyneddamon.org)<br><br>4. Beth sy'n bwysig yn ardal **Canolbarth Mon a Llifon**:<br>3-4-3-34-2-Asesiad-Drafft-Canolbarth-M244n-a-Llifon.pdf (llesiantgwyneddamon.org)<br><br>5. Beth sy'n bwysig yn ardal **Talybolion**:<br>3-4-3-36-2-Asesiad-Drafft-Talybolion.pdf (llesiantgwyneddamon.org)<br><br>6. Beth sy'n bwysig yn ardal **Caergybi ac Ynys Cybi**:<br>3-4-3-112-2-Asesiad-Drafft-Caergybi-ac-Ynys-Cybi.pdf (llesiantgwyneddamon.org) |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| 1. Cofnodion Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio Ynys Mon ar 9fed Dachwedd 2021 |

# EICH ARDAL CHI BETH SY'N BWYSIG?

## ARDAL CAERGYBI AC YNYS CYBI



ASESIAD LLESIANT GWYNEDD A MÔN
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

2021

## Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i rym ar y 1af o Ebrill 2016. Pwrpas y ddeddf yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r ddeddf wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (y Bwrdd) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio efo'i gilydd i greu gwell dyfodol i bobl Cymru.

Ar gyfer Gwynedd a Môn mae'r ddau Fwrdd wedi dod at ei gilydd i gydweithio, ac mae'n bartneriaeth sy'n cynnwys y cynghorau sir, y gwasanaeth tân ac achub, y gwasanaeth iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â phartneriaid eraill o'r sector gyhoeddus a'r trydydd sector.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi rhannu'r ardal gyfan yn 14 o ardaloedd llai. Mae gwaith ymchwil wedi cael ei wneud ar ran y Bwrdd ar bob un o'r 14 ardal er mwyn deall a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny. Yn ogystal â'r data sydd ar gael rydym hefyd eisiau gwybod beth rydych chi yn feddwl am eich ardal a'ch cymuned. Mae partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ymgysylltu'n helaeth efo'n cymunedau yn ystod y misoedd diwethaf ac rydym yn cymryd i ystyriaeth canfyddiadau'r sesiynau hynny a'r prif negeseuon sydd wedi eu cyfleu am gyflwr llesiant ein cymunedau.

Mae'n bwysig nodi hefyd bod y gwaith ymchwil wedi amlygu rhai bylchau data a bod rhai ffigyrau yn seiliedig ar ddata'r Cyfrifiad 2011, sydd bellach dros 10 mlynedd oed. Ein bwriad fydd diweddaru'r data sydd yn y llyfryn hwn yn rheolaidd er mwyn casglu'r prif negeseuon sydd wedi eu cyfleu am gyflwr llesiant ein cymunedau, ac yn sail felly i greu'r Cynllun Llesiant fydd yn arwain gwaith y Bwrdd dros y blynyddoedd sydd i ddod.


Mae'r gwaith yma yn adeiladu ar yr Asesiad Llesiant a gynhaliwyd yn 2016 gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Fe arweiniodd yr asesiad yma at greu Cynllun Llesiant sydd wedi bod yn arwain gwaith y Bwrdd hyd yma. Ers yr asesiad diwethaf mae ein cymunedau wedi wynebu newidiadau sylweddol yn sgìl Brexit ac yn fwy diweddar y pandemig Covid-19. Mae delio â'r argyfwng wedi amlygu pwysigrwydd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y sector gwirfoddol a chyhoeddus i'n cymunedau, a phwysigrwydd y cydweithio sydd rhyngddynt. Hefyd, mae'r argyfwng wedi rhoi'r chwydd wydr ar faterion a oedd yn bodoli eisoes yn ein cymunedau gan amlygu rhai pynciau fel tlodi a chyflogaeth, iechyd meddwl, ail gartrefi, twristiaeth ac unigedd.

Yn ogystal mae'r cyfnod wedi amlygu pwysigrwydd ein hamgylchedd sy'n greiddiol i iechyd a lles ein pobl a'n heconomi lleol, gan ddenu ymwelwyr i'r ardal. Wrth i ni edrych tuag at ddilyn llwybr gwyrddach allan o bandemig Covid-19, mae'n gyfle i ni ail edrych ar sut rydym yn defnyddio ein hasedau naturiol i fynd i'r afael â bygythiadau argyfyngau'r hinsawdd a natur.

Bydd yr Asesiad Llesiant yn rhoi sylw pellach i'r materion hyn sy'n bwysig i gymunedau ein hardaloedd.

**DYMA'R WYBODAETH RYDYM WEDI EI GASGLU AR ARDAL CAERGYBI AC YNYS CYBI, TYBED YDI HYN YN ADLEWYRCHIAD TEG O GYFLWR LLESIANT EICH ARDAL CHI?**

# POBLOGAETH



# Pwy yw pobl Caergybi ac Ynys Cybi?

**Mae 14,133 o bobl yn byw yn ardal Caergybi ac Ynys Cybi** – mae hyn tua 20% o gyfanswm poblogaeth Ynys Môn.

O'i gymharu â gweddill Môn mae mwy o blant a phobl ifanc hyd at 34 oed yn ardal Caergybi ac Ynys Cybi, a llai o bobl dros 50 oed.


**Mae disgwyl i boblogaeth Caergybi ac Ynys Cybi godi 15% i 16,220 erbyn 2043**. Mae hyn yn wahanol i'r newid sydd yn cael ei ragdybio ar gyfer Ynys Môn lle mae disgwyl i'r boblogaeth aros yn eithaf cyson gyda lleihad o 0.7% rhwng 2019 a 2043.




Yng Nghaergybi ac Ynys Cybi mae disgwyl gweld cynnydd ymhob grŵp oedran, gyda'r cynnydd mwyaf o 43% yn y boblogaeth 75 oed a hŷn. Mae'r cynnydd yma yn y boblogaeth 75 oed a hŷn yn debyg i'r hyn a ddisgwylir ar draws Môn, ond mae disgwyl i bob grŵp oedran o dan 65 leihau ar draws Môn lle mae disgwyl gweld cynnydd yn y grwpiau yma yng Nghaergybi ac Ynys Cybi.

# Iaith

**Yn ôl cyfrifiad 2011 mae 42% o bobl Caergybi ac Ynys Cybi yn gallu siarad Cymraeg** – dyma'r ganran isaf o holl ardaloedd Ynys Môn. Mae niferoedd wedi gostwng o 52% yn 1981. Roedd gostyngiad i'w weld ar draws Ynys Môn lle'r oedd 57% yn gallu siarad Cymraeg yn 2011 a 62% yn 1981.




Mae ffigyrau mwyaf diweddar yn nodi bod 50% o bobl Ynys Môn yn defnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd, o'i gymharu â 10% yng Nghymru.

Roedd pryder am yr iaith Gymraeg yn thema oedd yn codi ymysg trigolion a theimlai rhai bod bellach rhaniad rhwng y siaradwyr Cymraeg a Saesneg. Un dangosydd oedd y defnydd o dermau Saesneg wrth gyfeirio at lwybrau neu deithiau yn ogystal â newid i enwau tai, ar draul hanes a diwylliant yr ardal. (Arolwg Cynllun Lle)

# AMGYLCHEDDOL



# Pa mor wyrdd yw'r ardal?




**Rhwng 2014/15 a 2020/21 fe gododd y canran o wastraff trefol wedi'i anfon i'w ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio yn Ynys Môn o 59.5% i 63%.** Mae hyn ychydig yn is na'r cynnydd o 60.2% i 65.1% a welwyd yng Nghymru gyfan dros yr un cyfnod.

Mae'r achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd i bob 1,000 o'r boblogaeth yn uwch yn Ynys Môn na Chymru gyfan, gyda 18.6 yn cael eu cofnodi ym Môn a 10.6 yng Nghymru yn 2019/2020.


# Pa mor lân yw'n strydoedd?

Mae glendid strydoedd yn cael ei archwilio yn flynyddol gan Cadw Cymru'n Daclus.

Yn 2019/20 gafodd 65 stryd yn Ynys Môn ei archwilio, ac roedd 97% o safon glendid uchel neu dderbyniol, hynny yw Gradd B neu uwch. Mae hyn yn debyg i ddata 2015/16 lle'r oedd 95% o strydoedd Môn o'r un safon.

**O fewn ardal Caergybi ac Ynys Cybi fe gafodd 11 stryd ei archwilio, ac fe wnaeth 100% o'r rhain dderbyn Gradd B neu uwch yn 2019/20.** Mae'r canran yma'r un fath a'r canran a gafodd Gradd B neu uwch yn 2015/16.

100% o strydoedd Caergybi ac Ynys Cybi yn cyrraedd safon glendid uchel neu dderbyniol



# Amgylchedd naturiol

## Môr a rhostiroedd



Mae'r amodau morol cymhleth o amgylch Ynys Cybi yn rhoi bodolaeth i gynefinoedd amrywiol, gan gynnwys creigwely, sy'n gartref i boblogaethau cimychiaid a chrancod o bwys masnachol.

Mae cysgod cymharol Bae Rhoscolyn yn cefnogi cymuned morwellt islanwol, gyda sawl rhywogaeth algâu, cramenogion, molysgiaid, pysgod, sbyngau ac anemonïau. Mae llamhidyddion a dolffiniaid i'w gweld yn aml yn y dyfroedd.

Mae rhostir ac adar môr o bwys rhyngwladol yn Ynys Lawd, dan ofal yr RSPB, yn enwedig i warchod y frân goesgoch ble mae arfordir creigiog gorllewinol Ynys Cybi yn ddelfrydol i'w cynnal.

Mae Caergybi yn gartref nythfa bridio adar y môr o bwys rhyngwladol. Mae'r stribedi morfeydd a'r gwlâu morwellt hyn wedi'u dynodi yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac mae'r cynefinoedd hyn yn cefnogi ystod eang o adar sy'n mudo dros y gaeaf. Mae yma ardaloedd twyni rhostir prin ac mae'r ardal gyfan yn cefnogi ystod o blanhigion prin megis lafant-y-môr, corfrwynen a chedowydd suddlon.



## Tir a chorsydd

Corsydd Môn yw rhai o'r gwlypdiroedd pwysicaf yn Ewrop, sef Cors Erddreiniog (y fwyaf), Cors Bodeilio a Chors Goch. Gyda'i gilydd maent yn rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae'r rhain yn ardaloedd pwysig i ymwelwyr ac yn denu pobl i'r ardal.

Ychydig iawn o Ynys Môn sydd wedi'i gorchuddio gan goetiroedd, dim ond 4.3% ohoni o'i gymharu ag 14% ledled Cymru ar gyfartaledd.

Mae Ynys Môn o dan bwysau amaethyddol cymharol uchel. Amaethyddiaeth yw'r prif ddefnydd tir ar Fôn, gan gyfrif am oddeutu 92% o arwynebedd y tir ar yr ynys. Mae hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o oddeutu 88%.

"(Mae'r ardal yn) dawel gyda digonedd o flodau gwyllt, coed, adar ac anifeiliaid gwyllt."
(Unigolyn o Ardal Caergybi ac Ynys Cybi, Arolwg Llesiant Môn)

# Gwydnwch ecosystemau

Mae bywyd gwyllt Cymru yn dirywio, gyda'r canfyddiadau diweddaraf yn dangos bod un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu. Yn 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng natur a galwodd am osod targedau i atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Ymysg yr heriau sy'n wynebu rhywogaethau yw diffyg tir pori, mewnbynnau maethol gwasgaredig yng nghefn gwlad, tir hanesyddol, a rheoli dŵr. Mae ansawdd y dŵr dan bwysau oherwydd effeithiau megis cyfoethogi maetholion, arferion rheoli tir dwys, gollyngiadau o ffynonellau carthffosiaeth a dŵr gwastraff a chloddio metel hanesyddol o Fynydd Parys.

Er hyn, mae'r wiwer goch a llygoden y dŵr yn ffynnu ar Ynys Môn.

# Newid hinsawdd a llifogydd

Mae'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur yn un o'r prif heriau sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Dros y ganrif ddiwethaf, mae'r tymheredd wedi cynyddu, mae lefelau'r môr wedi codi, ac mae patrymau tywydd wedi newid yn sylweddol.

Yng Ngogledd-orllewin Cymru ac awdurdod lleol Ynys Môn, mae yna nifer o gymunedau mewn perygl o lifogydd, fel y nodwyd gan Gofrestr Cymunedau mewn Perygl (2019).

Yn ôl Asesiad Perygl Llifogydd Cymru, yn Ynys Môn mae yna **2,826 o eiddo mewn perygl o lifogydd dŵr afonydd, môr ac arwyneb.**



**2,826**

**o dai Môn mewn perygl o lifogydd**

# Awyr iach

Mae crynodiad NO2 yn un modd o fesur ansawdd aer, ac mae'n cael ei gyfleu fel microgramau (µg) cyfartalog am bob m3. Yn 2019 roedd mesur cyfartalog o 5.1 $\mu g/m^3$ NO2 mewn lleoliadau anheddau preswyl yn Ynys Môn. Roedd hyn llawer is na mesur cyfartalog Cymru o 9.2 $\mu g/m^3$.

# CYMDEITHASOL



# Iechyd da?



**Yn ardal Caergybi ac Ynys Cybi yn 2020-2021 roedd amser ymateb ambiwlans ar gyfer galwad 'coch', hynny yw y math mwyaf difrifol, ar gyfartaledd 10 munud.** Mae hyn wedi codi dros y blynyddoedd diwethaf o 06:22 munud yn 2018-2019 a 07:12 munud yn 2019-2020.





Mae amser teithio cyhoeddus a preifat dwyffordd i *feddygfa* yn uwch yn Ynys Môn na Chymru, gydag amser cyfartalog o 47 munud a 8 munud  i gymharu gyda 40 munud a 7 munud.

Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer teithio i *fferyllfa* lle mae teithio dwyffordd cyhoeddus cyfartalog yn cymryd 48 munud a preifat 10 munud i gymharu gyda 38 munud a 7 munud ar gyfer Cymru.

O fewn ardal Caergybi ac Ynys Cybi mae amrywiaeth o fewn yr amser teithio, lle mae ardaloedd gan gynnwys Trearddur 1 a Trearddur 2 gydag amser teithio cyhoeddus uwch na hyn a nodwyd ar gyfer Môn, ond fod ardaloedd gan gynnwys Tref Caergybi a London Road gyda rhai o'r amseroedd teithio cyhoeddus i fferyllfa a meddygfa leiaf ar yr ynys.

Mae ffigyrau iechyd poblogaeth bellach ar gael ar gyfer Ynys Môn, i roi syniad o gyflwr a phatrymau iechyd y sir.

**Mae disgwyliad oes dyn adeg ei eni yn Ynys Môn yn 79.3 oed, tra bod disgwyliad oes merch adeg ei geni yn 82.9 oed.** Mae hyn ychydig yn uwch na ffigyrau Cymru lle bod disgwyliad oes dyn adeg ei eni yn 78.3 a merch 82.1.




Yn ôl ffigyrau 2017/18-2019/20 mae 37% o oedolion 16 i 64 gyda phwysau iach yn Ynys Môn, mae hyn yn debyg i ganran Cymru sef 38%. Mae hyn yn codi i 46% mewn oedolion 65 oed a hŷn yn Ynys Môn, sydd yn uwch na chanran Cymru o 38%, ac yn y canran uchaf o bob awdurdod lleol yng Nghymru.




Ffactorau eraill sy'n effeithio ar ein hiechyd yw ysmygu ac yfed alcohol. **Mae 18% o bobl 16 oed neu'n hŷn ym Môn yn dweud eu bod yn ysmygu,** canran tebyg iawn i Gymru gyfan le mae ychydig dros 17% yn ysmygu. Mae 14% o oedolion Ynys Môn yn nodi eu bod yn yfed mwy na 14 uned o alcohol yr wythnos, ffigwr is na'r 19% o Gymru gyfan.

Mae iechyd meddwl yn rhan bwysig o lesiant ac iechyd. Mae data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru o 2018-19 sydd yn nodi lles meddyliol ymysg oedolion (16 a hŷn) ar ffurf sgoriau safonedig oed. 51.8 yw sgôr Ynys Môn sydd ychydig bach yn uwch, ond yn gymharol, gyda sgôr Cymru sef 51.4.

Mae data gan Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2018/19-2019/20 yn nodi fod 10% o oedolion Ynys Môn gydag anhwylderau'r meddwl, yr un canran a gweddill Cymru.

# Iechyd plant a pobl ifanc

Mae ystadegau iechyd sbesiffig ar gyfer plant hefyd ar gael ar gyfer Ynys Môn.

Mae'r canran genedigaethau unigol byw pwysau geni isel yn is yn Ynys Môn na Chymru gyfan, gyda chanran o 4.9% a 5.9% yn y drefn honno. Mae'r canran ar gyfer Môn wedi aros yn gyson rhwng 2017 a 2019.

Mae canran yr holl blant wedi eu himiwneiddio'n llawn yn ôl yr amserlen erbyn pedair oed wedi cynyddu yn Ynys Môn o 90.4% yn 2017 i 93.7% yn 2019. Mae'r canran yma wedi bod yn gyson uwch na chanran Cymru gyfan le cafodd 88% eu himiwneiddio'n llawn yn 2019.


**Mae ffigyrau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2018/19 yn dangos yn Ynys Môn mae 29% o blant 4-5 oed dros eu pwysau neu yn ordew** – sydd ychydig bach yn uwch na ffigwr Cymru o 27%.

Yn ôl data o 2017/18 mae tua 8% o blant 11-16 oed Ynys Môn yn yfed alcohol a 5% yn ysmygu. Mae hyn yn cymharu gyda 8% a bron i 4% ar gyfer Cymru gyfan.



# Cadw'n ddiogel





**74** achos tân yn ardal Caergybi ac Ynys Cybi


Mae cyfradd troseddau fesul 1,000 person (16 a hŷn) ardal Caergybi ac Ynys Cybi wedi codi ers yr asesiad llesiant diwethaf, o 148 yn 2015 i 176 yn 2020. Hwn yw'r gyfradd troseddau uchaf o ardaloedd llesiant Môn.

Mae 61% o bobl Ynys Môn yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu, ffigwr llawer uwch na'r 46% ar gyfer Cymru gyfan.

Ar gyfartaledd rhwng 2017/18-2019/20 roedd **27 achos tân bwriadol y flwyddyn yn ardal Caergybi ac Ynys Cybi,** mae hyn yn is na'r nifer a nodwyd yn yr asesiad llesiant diwethaf. Yn yr un cyfnod roedd **47 achos tân damweiniol**, sydd mwy neu lai yn gyfartal i'r hyn nodwyd yn yr asesiad llesiant diwethaf.

Mae'r achosion tân bwriadol a damweiniol cyfartalog blynyddol yn Ynys Môn wedi lleihau ers yr asesiad llesiant diwethaf.

# Cadw mewn cysylltiad



**68%** o gartrefi gyda char neu fan yn ardal Caergybi ac Ynys Cybi

Yn ôl Cyfrifiad 2011, **mae gan 68% o gartrefi yn ardal Caergybi ac Ynys Cybi gar neu fan** – mae hyn yn isel o gymharu â gweddill Môn, ble mae 82% o gartrefi gyda char neu fan.

Mae hyn yn cyd-fynd â phryderon sydd wedi ei fynegi am drafnidiaeth gyhoeddus annibynadwy ac annigonol. Mae wedi codi fel un o'r prif themau wrth holi barn trigolion yr ardal, gyda phobl Caergybi ac Ynys Cybi yn nodi bod hyn yn creu rhwystr wrth geisio cyrraedd cyfleusterau allweddol fel siopau a'r feddygfa. (Arolwg Cynllunio Lle ac Arolwg Llesiant Môn)

Mae amser teithio cyhoeddus dwyffordd i siop fwyd yn uwch yn Ynys Môn na Chymru gyfan, gydag amser cyfartalog o 38 munud

i gymharu gyda 32 munud. Mae amser teithio preifat dwyffordd yn debyg ar gyfer Ynys Môn a Chymru gydag amser cyfartalog o 5 munud a 4 munud yn y drefn honno.

> "Dim ond un gwasanaeth bws sy'n mynd rhwng Llaingoch a Caergybi - arferai fod yn llawer mwy cyn Covid er mwyn gallu mynd i siopau ac i'r ganolfan hamdden."
> (Unigolyn o Ardal Caergybi ac Ynys Cybi, Arolwg Llesiant Môn)

Mae ffigyrau o 2019 yn dangos fod gan Ynys Môn ganran uwch o ddiffyg argaeledd canrannol band eang ar 30Mb/e na Chymru gyfan, sef 10% i gymharu gyda 7%.

Yn 2019 roedd bron 12% o bobl Ynys Môn yn unig, mae hyn wedi gostwng ers 2016 lle'r oedd 16% yn unig. Mae'r ffigwr yma yn is na Chymru gyfan le'r oedd 15% yn unig yn 2019.

# Helpu'n gilydd

Yn ôl y Cyfrifiad yn 2011 mae 11% o'r boblogaeth yn ardal Caergybi ac Ynys Cybi yn rhoi o leiaf un awr yr wythnos o ofal di-dâl. Mae'r ffigwr yma yn debyg i ardaloedd eraill yng Nghymru ac Ynys Môn.

Mae ffigyrau cyn-pandemig yn dangos bod y canran o bobl sy'n gwirfoddoli yn Ynys Môn wedi disgyn rhywfaint o 31% yn 2016 i 28% yn 2019 a gwelwyd gostyngiad tebyg yng Nghymru o 28% yn 2016 i 26%, gyda llai o bobl yn gwirfoddoli ar draws Cymru na Môn. Mae'n debyg fod Covid-19 wedi golygu cynnydd yn y nifer sy'n gwirfoddoli, fodd bynnag, nid oedd data fesul ardal ar gael.

Yn ôl trigolion ardal Cybi ac Ynys Cybi, roedd cyfeillgarwch a'r ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned yn un o'r prif nodweddion oedd yn gwneud yr ardal yn le da i fyw. (Arolwg Llesiant Môn)

> "Mae'n gymuned gyfeillgar ac mae pobl yn edrych allan am ei gilydd."
> (Unigolyn o Ardal Caergybi ac Ynys Cybi, Arolwg Llesiant Môn)



# ECONOMAIDD



# Tai ac ail gartrefi

**Yn 2020, roedd canolrif pris tŷ yn ardal Caergybi ac Ynys Cybi tua £140,000, sef cynnydd o £30,000 ers yr asesiad diwethaf yn 2015.** Dyma'r canolrif isaf o ardaloedd Môn.




Mae canolrif incwm teuluoedd Caergybi ac Ynys Cybi tua £24,576 ond mae angen o leiaf £26,429 i fforddio prynu tŷ pris lefel mynediad i'r farchnad.

Mae hyn yn golygu bod 54% o aelwydydd Caergybi ac Ynys Cybi wedi eu prisio allan o'r farchnad. Mae hyn yn is ar y cyfan na gweddill ardaloedd Ynys Môn sy'n 62% a Chymru sy'n 56%.

Fodd bynnag, mae'n debyg nad yw ffigyrau 2020 yn dangos llawn effaith y pandemig ar brisiau tai yr ardal, ac bydd yr rhain yn cael ei diweddaru pan fydd y data ar gael.

Amlygwyd materion yn ymwneud a thai ac ail gartrefi wrth holi trigolion fel rhan o'r arolwg Cynllunio Lle. Roedd y sylwadau yn ymwneud â phobl ifanc a theuluoedd yn methu fforddio tai yn yr ardal, diffyg tai rhent a hefyd pryderon am niferoedd ail gartrefi ac Air BnBs yn cynyddu yng Nghaergybi ac Ynys Cybi.

# Beth yw gwaith pobl Caergybi ac Ynys Cybi?



Mae data'r Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 15% o'r o bobl sydd mewn gwaith yn ardal Caergybi ac Ynys Cybi  yn gweithio yn y maes gofalu, hamdden a galwedigaethau gwasanaethau eraill. Ar y llaw arall, dim ond 12% sy'n gweithio yn y crefftau medrus –sy'n is na'r canran ymhob ardal arall Môn.

Tra bod 17% o'r rhai sydd heb gymhwyster yn gweithio fel gweithredwyr prosesau, offer a pheiriannau, dim ond 0.5% sy'n gweithio i'r galwedigaethau proffesiynol. Mae hyn yn ffigwr tebyg i weddill Ynys Môn a Chymru.

Nid oes data dibynadwy ar gael am feysydd gwaith fesul ardal leol wedi 2011, a gwelir felly bwlch data sylweddol.

# Cyflog

**Mae canolrif cyflog wythnosol yn etholaeth Ynys Môn tua £506 yr wythnos.** Mae'r swm yma 27% yn uwch na Gwynedd (£386 yr wythnos), a 8% yn uwch na Chymru gyfan (£469 yr wythnos).

Yn Ynys Môn mae cyflogau merched 6% yn uwch na chyflog dynion yn yr ardal. Mae hyn yn wahanol iawn i'r sefyllfa yng Ngwynedd, lle mae cyflogau merched 32% yn llai na chyflog dynion a Chymru 31% yn llai.




£506 canolrif cyflog wythnosol

# Diweithdra

Mae 80% o drigolion Ynys Môn rhwng 16 a 64 oed mewn gwaith neu addysg, sy'n uwch na Chymru, sef 76%.

Ar gyfartaledd, roedd canran y bobl 16-64 oed oedd yn **hawlio'r Lwfans Ceisio Gwaith yn ardal Caergybi ac Ynys Cybi rhwng Tachwedd 2020 a Hydref 2021 yn 8.3%,** sy'n uwch na chanran Môn am yr un cyfnod (5.3%).

Roedd y ffigwr ar ei uchaf fis Tachwedd 2020 (9%) ac ar ei isaf Hydref 2021 (7.1%), sy'n awgrymu bod cyfnod clo Covid-19 wedi cael effaith ar y niferoedd.



8.3%
o bobl yn hawlio lwfans ceisio gwaith

> "Angen mwy o swyddi sydd ddim yn dymhorol neu sy'n cynnig yr un oriau o waith bob wythnos."
> (Unigolyn o Ardal Caergybi ac Ynys Cybi, Arolwg Llesiant Môn)


# Busnesau

Yn 2020, roedd cyfanswm o 2,155 o fusnesau wedi cofrestru yn Ynys Môn. Mae cyfradd busnesau newydd sy'n cychwyn yn Ynys Môn yn uwch na Gwynedd, ond yn llai na Gogledd Cymru a Chymru.

Mae 59% o gwmnïau yn Ynys Môn yn aros mewn busnes am o leiaf tair blynedd neu fwy. Mae hyn yn uwch na Chymru sydd ar 54%.

Mae'r gyfradd o'r busnesau sy'n methu hefyd yn is yn Ynys Môn o'i gymharu â Gogledd Cymru a Chymru.

# Sgiliau am oes



O 2018/19 mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno set newydd o fesurau perfformiad sy'n cynnwys y sgôr pwyntiau Llythrennedd, y sgôr pwyntiau Rhifedd a'r sgôr pwyntiau Gwyddoniaeth. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd cymharu o flwyddyn i flwyddyn dros y blynyddoedd diwethaf a nid oes dadansoddiad fesul sir ers 2018/19.

Fodd bynnag, mae ffigyrau ar gael am y nifer o adawyr ysgol blwyddyn 11 y gwyddys sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Yn Ynys Môn mae'r ganran am 2020 yn 4.7%, sy'n gynnydd sylweddol o 2018, pan oedd y ffigwr yn 1.1%. Mae'r ganran yma hefyd yn uwch na ffigwr Cymru gyfan ar gyfer 2020 sef 1.7%.

# Yr arian yn ein poced

**Mae incwm sydd ar gael i'w wario ar ôl costau talu am gartref a threthi gan bobl yn Ynys Môn yn £17,529 y pen y flwyddyn**, sydd yn £266 yn fwy na Chymru gyfan.

Yn ardal Caergybi ac Ynys Cybi, mae 25% o ddisgyblion ysgol gynradd yn hawlio prydau ysgol am ddim sef y canran uchaf o holl ardaloedd llesiant Môn. Mae hyn yn wir hefyd am y nifer o ddisgyblion ysgol uwchradd, gyda 23% yn hawlio prydau ysgol am ddim, sydd hefyd yn uwch na'r 16% ar gyfer Ynys Môn.

£17,529

incwm ar ôl talu costau cartref a treth



Yn ôl ffigyrau cyn-bandemig, mae bron i 23% o aelwydydd yn ardal Caergybi ac Ynys Cybi mewn tlodi tanwydd, dyma'r uchaf yn Ynys Môn sydd â chyfartaledd o 18%. O'r holl gartrefi yn yr ardal, mae 5% heb wres canolog, sy'n debyg i weddill Ynys Môn ond yn uwch na Chymru sydd ar 2%.

Fodd bynnag, gyda'r cynnydd diweddar mewn prisiau tanwydd mae'r ffigwr hwn yn debygol o fod yn llawer uwch na'r amcangyfrif yn 2018, ond yn anffodus roedd dod o hyd i ddata dibynadwy yn y maes hwn yn broblem.

# DIWYLLIANNOL









# Cadw'n heini

Yn ôl Arolwg Chwaraeon Ysgol ddiweddaraf Chwaraeon Cymru mae mwy o blant Ynys Môn yn cymryd rhan mewn chwaraeon tri neu fwy o weithiau'r wythnos na sydd ar draws Cymru.

**Yn 2018, roedd bron i 56% o ddisgyblion Môn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon tri neu fwy o weithiau yr wythnos,** i gymharu gyda 48% yng Nghymru.



**56%**

**o blant yn cymryd rhan mewn chwaraeon 3+ gwaith yr wythnos**

Erbyn hyn mae darlun tebyg ar gyfer oedolion Ynys Môn. Yn 2016 roedd 28% o bobl yn cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos yn Ynys Môn a 29% ar draws Cymru, erbyn 2019 fe gynyddodd y nifer yn Ynys Môn i 34% i gymharu gyda 32% ar gyfer Cymru gyfan.

Mae amser teithio cyhoeddus a preifat dwyffordd i gyfleuster chwaraeon yn uwch yn Ynys Môn na Chymru, gydag amser cyfartalog o 70 munud a 13 munud i gymharu gyda 55 munud a 10 munud yn y drefn honno. Unwaith eto mae amrywiaeth i'w weld o fewn yr ardal, lle mae Tref Caergybi, Porthyfelin 1 a Porthyfelin 2 gyda rhai o'r amseroedd teithio cyhoeddus byrraf ar yr ynys a mae Trearddur 1 a Trearddur 2 gydag amser teithio cyhoeddus uwch na'r hyn a nodir ar gyfer Ynys Môn. Mae amrywiaeth hefyd i'w weld wrth edrych ar deithio preifat, lle mae amser cyfartalog Kingsland, Porthyfelin 1 a Porthyfelin 2 yn rhai o'r byrraf ar yr ynys, ac amser Trearddur 1 yn hirach na Môn.

# Amser hamdden

Mae amser cyfartalog teithio dwyffordd cyhoeddus a preifat i lyfrgell gyhoeddus yn uwch yn Ynys Môn na Chymru gyfan, gydag amser cyfartalog o 53 munud a 13 munud i gymharu gyda 45 munud a 10 munud.

Mae amrywiaeth o fewn ardal Caergybi ac Ynys Cybi lle mae Tref Caergybi, London Road, Porthyfelin 1 a Porthyfelin 2 efo rhai o'r amseroedd teithio cyhoeddus byrraf ar yr ynys ac mae amser teithio cyhoeddus

Trearddur 1 a 2 yn uwch na Môn. Mae amser teithio cyfartalog preifat Porthyfelin 1 a Porthyfelin 2 hefyd yn rhai o'r byrraf ar yr ynys.




Mae ffigyrau amser hamdden ar gael ar gyfer y cyfnod cyn y pandemig. Roedd **66% o oedolion yn Ynys Môn wedi mynychu digwyddiad celfyddydol yn ystod y flwyddyn 2019-20.** Mae hyn yn debyg i Wynedd ac ychydig yn is na weddill Cymru.

Yn 2016-17 roedd 68% o oedolion Ynys Môn yn datgan eu bod wedi mynychu mannau hanesyddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ffigwr yma yn uwch na Wynedd a Cjymru gyfan le a welwyd 47% a 58% yn datgan eu bod wedi mynychu yn y drefn honno.

Mae effaith y pandemig ar y celfyddydau a diwylliant yn amlwg, gyda theatr a sinemau yn gorfod cau dros gyfnod y clo a chyfyngiadau yn y niferoedd sy'n cael mynychu digwyddiad wedi hynny. Fodd bynnag, nid oedd ffigurau dibynadwy fesul ardal leol i fesur hyn ar gael.

# Mannau gwyrdd

Mae cysylltiad rhwng llesiant diwylliannol a threulio amser mewn mannau gwyrdd a natur, ac mae agosatrwydd at fan gwyrdd naturiol yn un ffurf o asesu amgylchedd ffisegol ardal.

Er bod sgôr ar gyfer agosatrwydd at Fan Gwyrdd Naturiol Hygyrch yn is ar gyfer Ynys Môn na Chymru gyfan, sef 65% i gymharu gyda 77%, o fewn Caergybi ac Ynys Cybi mae rhai ardaloedd gyda'r sgorau goraf ar yr ynys gan gynnwys 97% ar gyfer London Road a Morawelon a 95% ar gyfer Porthyfelin 1 a Porthyfelin 2.

> "Mae'r gallu i gerdded o stepen y drws i fyny'r mynydd neu i barc Morglawdd a'r arfordir creigiog yn bwysig iawn i mi"
> (Unigolyn o Ardal Caergybi ac Ynys Cybi Arolwg Llesiant Môn)




# AM FWY O WYBODAETH...

www.LlesiantGwyneddaMon.org
post@llesiantgwyneddamon.org
01766 771000
Gofynnwch am Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn

This page is intentionally left blank

# EICH ARDAL CHI BETH SY'N BWYSIG?

## ARDAL TALYBOLION



ASESIAD LLESIANT GWYNEDD A MÔN
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

2021

**Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i rym ar y 1af o Ebrill 2016. Pwrpas y ddeddf yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.**

Mae'r ddeddf wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (y Bwrdd) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio efo'i gilydd i greu gwell dyfodol i bobl Cymru.

Ar gyfer Gwynedd a Môn mae'r ddau Fwrdd wedi dod at ei gilydd i gydweithio, ac mae'n bartneriaeth sy'n cynnwys y cynghorau sir, y gwasanaeth tân ac achub, y gwasanaeth iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â phartneriaid eraill o'r sector gyhoeddus a'r trydydd sector.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi rhannu'r ardal gyfan yn 14 o ardaloedd llai. Mae gwaith ymchwil wedi cael ei wneud ar ran y Bwrdd ar bob un o'r 14 ardal er mwyn deall a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny. Yn ogystal â'r data sydd ar gael rydym hefyd eisiau gwybod beth rydych chi yn feddwl am eich ardal a'ch cymuned. Mae partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ymgysylltu'n helaeth efo'n cymunedau yn ystod y misoedd diwethaf ac rydym yn cymryd i ystyriaeth canfyddiadau'r sesiynau hynny a'r prif negeseuon sydd wedi eu cyfleu am gyflwr llesiant ein cymunedau.

Mae'n bwysig nodi hefyd bod y gwaith ymchwil wedi amlygu rhai bylchau data a bod rhai ffigyrau yn seiliedig ar ddata'r Cyfrifiad 2011, sydd bellach dros 10 mlynedd oed. Ein bwriad fydd diweddaru'r data sydd yn y llyfryn hwn yn rheolaidd er mwyn casglu'r prif negeseuon sydd wedi eu cyfleu am gyflwr llesiant ein cymunedau, ac yn sail felly i greu'r Cynllun Llesiant fydd yn arwain gwaith y Bwrdd dros y blynyddoedd sydd i ddod.


Mae'r gwaith yma yn adeiladu ar yr Asesiad Llesiant a gynhaliwyd yn 2016 gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Fe arweiniodd yr asesiad yma at greu Cynllun Llesiant sydd wedi bod yn arwain gwaith y Bwrdd hyd yma. Ers yr asesiad diwethaf mae ein cymunedau wedi wynebu newidiadau sylweddol yn sgìl Brexit ac yn fwy diweddar y pandemig Covid-19. Mae delio â'r argyfwng wedi amlygu pwysigrwydd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y sector gwirfoddol a chyhoeddus i'n cymunedau, a phwysigrwydd y cydweithio sydd rhyngddynt. Hefyd, mae'r argyfwng wedi rhoi'r chwydd wydr ar faterion a oedd yn bodoli eisoes yn ein cymunedau gan amlygu rhai pynciau fel tlodi a chyflogaeth, iechyd meddwl, ail gartrefi, twristiaeth ac unigedd.

Yn ogystal mae'r cyfnod wedi amlygu pwysigrwydd ein hamgylchedd sy'n greiddiol i iechyd a lles ein pobl a'n heconomi lleol, gan ddenu ymwelwyr i'r ardal. Wrth i ni edrych tuag at ddilyn llwybr gwyrddach allan o bandemig Covid-19, mae'n gyfle i ni ail edrych ar sut rydym yn defnyddio ein hasedau naturiol i fynd i'r afael â bygythiadau argyfyngau'r hinsawdd a natur.

Bydd yr Asesiad Llesiant yn rhoi sylw pellach i'r materion hyn sy'n bwysig i gymunedau ein hardaloedd.

**DYMA'R WYBODAETH RYDYM WEDI EI GASGLU AR ARDAL TALYBOLION, TYBED YDI HYN YN ADLEWYRCHIAD TEG O GYFLWR LLESIANT EICH ARDAL CHI?**

# POBLOGAETH



# Pwy yw pobl ardal Talybolion?


**Mae 6,471 o bobl yn byw yn ardal Talybolion** – mae hyn tua 9% o gyfanswm poblogaeth Ynys Môn.

**Mae disgwyl i boblogaeth Talybolion godi 6% i 6,783 erbyn 2043.** Mae hyn yn wahanol i'r newid sydd yn cael ei ragdybio ar gyfer Ynys Môn lle mae disgwyl i'r boblogaeth aros yn eithaf cyson gyda lleihad o 0.7% rhwng 2019 a 2043.




Yng Nhalybolion ceir y cynnydd canrannol mwyaf o 84.1% yn y boblogaeth 75 oed a hŷn. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer Ynys Môn a Chymru lle mae cynnydd yn y boblogaeth 75 oed a hŷn o 47.9% a 60.3% yn cael ei ragdybio yn y drefn honno.

# Iaith






Yn ôl cyfrifiad 2011 mae **66% o bobl Talybolion yn gallu siarad Cymraeg** – sy'n uwch na'r canran sy'n siarad Cymraeg ar draws Ynys Môn. Mae'r ganran yn Talybolion wedi gostwng ers 1981 lle'r oedd 71% yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn debyg i Ynys Môn gyfan sydd wedi gostwng o 62% i 57% yn yr un cyfnod.

Mae ffigyrau mwyaf diweddar yn nodi bod 50% o bobl Ynys Môn yn defnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd, o'i gymharu â 10% yng Nghymru.

Roedd yr iaith Gymraeg wedi nodi fel un o'r pum prif beth da am yr ardal pan ofynnwyd i drigolion beth oeddent yn hoffi am Talybolion. (Arolwg Llesiant Môn)

# AMGYLCHEDDOL



# Pa mor wyrdd yw'r ardal?

**Rhwng 2014/15 a 2020/21 fe gododd y canran o wastraff trefol wedi'i anfon i'w ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio yn Ynys Môn o 59.5% i 63%.** Mae hyn ychydig yn is na'r cynnydd o 60.2% i 65.1% a welwyd yng Nghymru gyfan dros yr un cyfnod.

Mae'r achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd i bob 1,000 o'r boblogaeth yn uwch yn Ynys Môn na Chymru gyfan, gyda 18.6 yn cael eu cofnodi ym Môn a 10.6 yng Nghymru yn 2019/2020.




# Pa mor lân yw'n strydoedd?

Mae glendid strydoedd yn cael ei archwilio yn flynyddol gan Cadw Cymru'n Daclus.

Yn 2019/20 fe gafodd 65 stryd yn Ynys Môn ei archwilio, ac roedd **97% o safon glendid uchel neu dderbyniol, hynny yw Gradd B neu uwch**. Mae hyn yn debyg i ddata 2015/16 lle'r oedd 95% o strydoedd Môn o'r un safon.

Doedd strydoedd Talybolion heb eu cynnwys yn yr archwiliad yn 2019/20.



# Amgylchedd naturiol

## Beth sy'n unigryw am Talybolion?



Yn Warchodfa natur Cemlyn, ceir yr unig boblogaeth nythu o'r Fôr-wennol Bigddu yng Nghymru ac mae'n olygfa drawiadol iawn ym myd natur.

Yn Nhalybolion ceri hefyd Fae Cemaes, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol sy'n eiddo'n rhannol i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.



## Corsydd Môn

Corsydd Môn yw rhai o'r gwlypdiroedd pwysicaf yn Ewrop, sef Cors Erddreiniog (y fwyaf), Cors Bodeilio a Chors Goch. Gyda'i gilydd maent yn rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig. Amlygwyd y Prosiect Ffeniau am Byth fel cyfle i archwilio dull gwell o reoli cynefinoedd a mynediad at ffeniau Môn, gan gyd-weithio efo cymunedau a busnesau lleol.

Yn fyd-eang, mae mewndiroedd yn storio mwy o garbon na choedwigoedd glaw'r byd. Pan ystyrir bod mewndiroedd iach yn cyfrannu at lu o wasanaethau naturiol, fel dŵr glân a lleihau llifogydd, mae'r achos dros eu hadfer yn cryfhau.

## Coed a thir

Ychydig iawn o Ynys Môn sydd wedi'i gorchuddio gan goetiroedd, dim ond 4.3% ohoni o'i gymharu ag 14% ledled Cymru ar gyfartaledd.

Mae Ynys Môn o dan bwysau amaethyddol cymharol uchel. Amaethyddiaeth yw'r prif ddefnydd tir ar Fôn, gan gyfrif am oddeutu 92% o arwynebedd y tir ar yr ynys. Mae hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o oddeutu 88%.



"Yr ardal ei hun, y traethau, y glendid, yr amgylchedd a'r bobl yn bethau da am yr ardal."
(Unigolyn o Talybolion, Arolwg Llesiant Môn)

# Gwydnwch ecosystemau

Mae bywyd gwyllt Cymru yn dirywio, gyda'r canfyddiadau diweddaraf yn dangos bod un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu. Yn 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng natur a galwodd am osod targedau i atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Ymysg yr heriau sy'n wynebu rhywogaethau yw diffyg tir pori, mewnbynnau maethol gwasgaredig yng nghefn gwlad, tir hanesyddol, a rheoli dŵr. Mae ansawdd y dŵr dan bwysau oherwydd effeithiau megis cyfoethogi maetholion, arferion rheoli tir dwys, gollyngiadau o ffynonellau carthffosiaeth a dŵr gwastraff a chloddio metel hanesyddol o Fynydd Parys.

Er hyn, mae'r wiwer goch a llygoden y dŵr yn ffynnu ar Ynys Môn.

# Newid hinsawdd a llifogydd



**2,826**

**o dai Môn mewn perygl o lifogydd**

Mae'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur yn brif heriau sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Dros y ganrif ddiwethaf, mae'r tymheredd wedi cynyddu, mae lefelau'r môr wedi codi, ac mae patrymau tywydd wedi newid yn sylweddol.

Yng Ngogledd-orllewin Cymru ac awdurdod lleol Ynys Môn, mae yna nifer o gymunedau mewn perygl o lifogydd, fel y nodwyd gan Gofrestr Cymunedau mewn Perygl (2019).

Yn ôl Asesiad Perygl Llifogydd Cymru, **yn Ynys Môn mae yna 2,826 o eiddo mewn perygl o lifogydd dŵr afonydd, môr ac arwyneb.**

# Awyr iach

Mae crynodiad NO2 yn un modd o fesur ansawdd aer, ac mae'n cael ei gyfleu fel microgramau (µg) cyfartalog am bob m3. Yn 2019 roedd mesur cyfartalog o 5.1 $\mu g/m^3$ NO2 mewn lleoliadau anheddau preswyl yn Ynys Môn. Roedd hyn llawer is na mesur cyfartalog Cymru o 9.2 $\mu g/m^3$.

# CYMDEITHASOL



# Iechyd da?



**Yn ardal Talybolion yn 2020-2021 roedd amser ymateb ambiwlans ar gyfer galwad 'coch', hynny yw y math mwyaf difrifol, ar gyfartaledd 11:22 munud.** Mae hyn i gymharu gyda 10:27 munud yn 2018-2019 a 11:10 munud yn 2019-2020.





Mae amser teithio cyhoeddus a preifat dwyffordd i *feddygfa* yn uwch yn Ynys Môn na Chymru, gydag amser cyfartalog o 47 munud a 8 munud  i gymharu gyda 40 munud a 7 munud.

Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer teithio i *fferyllfa* lle mae teithio dwyffordd cyhoeddus cyfartalog yn cymryd 48 munud a preifat 10 munud i gymharu gyda 38 munud a 7 munud ar gyfer Cymru.

O fewn ardal Talybolion, mae amser teithio cyhoeddus dwyffordd i feddygfa yn Llanfaethlu a Mechell yn rhai o'r amseroedd cyfartalog uchaf ar yr ynys. Mae gan y ddwy ardal yma, yn ogystal â Llanerch-y-medd, rhai o amseroedd teithio cyhoeddus dwyffordd i fferyllfa hiraf ar yr ynys hefyd.

Mae ffigyrau iechyd poblogaeth bellach ar gael ar gyfer Ynys Môn, i roi syniad o gyflwr a phatrymau iechyd y sir.

**Mae disgwyliad oes dyn adeg ei eni yn Ynys Môn yn 79.3 oed, tra bod disgwyliad oes merch adeg ei geni yn 82.9 oed.** Mae hyn ychydig yn uwch na ffigyrau Cymru lle bod disgwyliad oes dyn adeg ei eni yn 78.3 a merch 82.1.




Yn ôl ffigyrau 2017/18-2019/20 mae 37% o oedolion 16 i 64 gyda phwysau iach yn Ynys Môn, mae hyn yn debyg i ganran Cymru sef 38%. Mae hyn yn codi i 46% mewn oedolion 65 oed a hŷn yn Ynys Môn, sydd yn uwch na chanran Cymru o 38%, ac yn y canran uchaf o bob awdurdod lleol yng Nghymru.




Ffactorau eraill sy'n effeithio ar ein hiechyd yw ysmygu ac yfed alcohol. **Mae 18% o bobl 16 oed neu'n hŷn ym Môn yn dweud eu bod yn ysmygu,** canran tebyg iawn i Gymru gyfan le mae ychydig dros 17% yn ysmygu. Mae 14% o oedolion Ynys Môn yn nodi eu bod yn yfed mwy na 14 uned o alcohol yr wythnos, ffigwr is na'r 19% o Gymru gyfan.

Mae iechyd meddwl yn rhan bwysig o lesiant ac iechyd. Mae data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru o 2018-19 sydd yn nodi lles meddyliol ymysg oedolion (16 a hŷn) ar ffurf sgoriau safonedig oed. 51.8 yw sgôr Ynys Môn sydd ychydig bach yn uwch, ond yn gymharol, gyda sgôr Cymru sef 51.4.

Mae data gan Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2018/19-2019/20 yn nodi fod 10% o oedolion Ynys Môn gydag anhwylderau'r meddwl, yr un canran a gweddill Cymru.

# Iechyd plant a pobl ifanc

Mae ystadegau iechyd sbesiffig ar gyfer plant hefyd ar gael ar gyfer Ynys Môn.

Mae'r canran genedigaethau unigol byw pwysau geni isel yn is yn Ynys Môn na Chymru gyfan, gyda chanran o 4.9% a 5.9% yn y drefn honno. Mae'r canran ar gyfer Môn wedi aros yn gyson rhwng 2017 a 2019.

Mae canran yr holl blant wedi eu himiwneiddio'n llawn yn ôl yr amserlen erbyn pedair oed wedi cynyddu yn Ynys Môn o 90.4% yn 2017 i 93.7% yn 2019. Mae'r canran yma wedi bod yn gyson uwch na chanran Cymru gyfan le cafodd 88% eu himiwneiddio'n llawn yn 2019.


**Mae ffigyrau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2018/19 yn dangos yn Ynys Môn mae 29% o blant 4-5 oed dros eu pwysau neu yn ordew** – sydd ychydig bach yn uwch na ffigwr Cymru o 27%.

Yn ôl data o 2017/18 mae tua 8% o blant 11-16 oed Ynys Môn yn yfed alcohol a 5% yn ysmygu. Mae hyn yn cymharu gyda 8% a bron i 4% ar gyfer Cymru gyfan.



# Cadw'n ddiogel





**16** achos tân yn ardal Talybolion

Mae cyfradd troseddau fesul 1,000 person (16 a hŷn) yn ardal Talybolion wedi codi ers yr asesiad llesiant diwethaf, o 46 yn 2015 i 55 yn 2020. Er hyn mae'r ardal yn parhau i gael y cyfradd isaf o droseddau o ardaloedd llesiant Ynys Môn.

Mae 61% o bobl Ynys Môn yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu, ffigwr llawer uwch na'r 46% ar gyfer Cymru gyfan.

Ar gyfartaledd rhwng 2017/18-2019/20 roedd **1 achos tân bwriadol a 15 tân damweiniol y flwyddyn** yn ardal Talybolion, mae hyn yn is na'r nifer a nodwyd yn yr asesiad llesiant diwethaf.

Mae'r achosion tân bwriadol a damweiniol cyfartalog blynyddol yn Ynys Môn hefyd wedi lleihau ers yr asesiad llesiant diwethaf.

# Cadw mewn cysylltiad



**90%** o gartrefi gyda char neu fan yn ardal Talybolion

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae gan **90% o gartrefi yn ardal Talybolion gar neu fan** – mae hyn yn uchel o gymharu â gweddill Môn, ble mae 82% o gartrefi gyda char neu fan.

Mae amser teithio cyhoeddus dwyffordd i siop fwyd yn uwch yn Ynys Môn na Chymru gyfan, gydag amser cyfartalog o 38 munud i gymharu gyda 32 munud. Mae amser teithio preifat dwyffordd yn debyg ar gyfer Ynys Môn a Chymru gydag amser cyfartalog o 5 munud a 4 munud yn y drefn honno.

O fewn ardal Talybolion, mae amser teithio cyhoeddus cyfartalog Llanfaethlu, Llanerch-y-medd a Mechell yn rhai o amseroedd hiraf yr ynys. Mae amser cyfartalog preifat Mechell hefyd yn un o'r uchaf ar yr ynys.





**Mae ffigyrau o 2019 yn dangos fod gan Ynys Môn ganran uwch o ddiffyg argaeledd canrannol band eang ar 30Mb/e na Chymru gyfan, sef 10% i gymharu gyda 7%.**

Yn 2019 roedd bron 12% o bobl Ynys Môn yn unig, mae hyn wedi gostwng ers 2016 le'r oedd 16% yn unig. Mae'r ffigwr yma yn is na Chymru gyfan lle'r oedd 15% yn unig yn 2019.

# Helpu'n gilydd

Yn ôl y Cyfrifiad yn 2011 mae 12% o'r boblogaeth yn ardal Talybolion yn rhoi o leiaf un awr yr wythnos o ofal di-dâl. Mae'r ffigwr yma yn debyg i ardaloedd eraill yng Nghymru ac Ynys Môn.

Mae ffigyrau cyn-pandemig yn dangos bod y canran o bobl sy'n gwirfoddoli yn Ynys Môn wedi disgyn rhywfaint o 31% yn 2016 i 28% yn 2019 a gwelwyd gostyngiad tebyg yng Nghymru o 28% yn 2016 i 26%, gyda llai o bobl yn gwirfoddoli ar draws Cymru na Môn. Mae'n debyg fod Covid-19 wedi golygu cynnydd yn y nifer sy'n gwirfoddoli, fodd bynnag, nid oedd data fesul ardal ar gael.



# ECONOMAIDD



# Tai ac ail gartrefi

**Yn 2020, roedd pris tŷ yn ardal Talybolion yn £186,000, sef cynnydd o £36,000 ers yr asesiad diwethaf yn 2015.**




Mae canolrif incwm teuluoedd Talybolion tua £28,020 ond mae angen o leiaf £31,643 i fforddio prynu tŷ pris lefel mynediad i'r farchnad. Mae hyn yn golygu bod 55% o aelwydydd Talybolion wedi eu prisio allan o'r farchnad. Mae hyn yn is ar y cyfan na gweddill ardaloedd Ynys Môn sy'n 62% a Chymru sy'n 56%. Fodd bynnag, mae'n debyg nad yw ffigyrau 2020 yn dangos llawn effaith y pandemig ar brisiau tai yr ardal, ac bydd yr rhain yn cael ei diweddaru pan fydd y data ar gael.

Amlygwyd materion yn ymwneud a thai ac ail gartrefi wrth holi trigolion fel rhan o'r Arolwg Llesiant Môn.

> "Ymlacio rheolau cynllunio i bobl leol adeiladu cartrefi yn hytrach na chartrefi gwyliau - ni all pobl leol fforddio prynu." (Unigolyn o Talybolion, Arolwg Llesiant Môn)

# Beth yw gwaith pobl Talybolion?

Mae data'r Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 29% o bobl Talybolion sydd mewn gwaith, ond heb unrhyw gymhwyster, yn gweithio yn y crefftau medrus – mae hyn yn wahanol i weddill yr ynys ble mae'r rhan fwyaf o'r grŵp yma yn gweithio yn y galwedigaethau elfennol.

Dim ond 7% o'r rhai sydd heb gymhwyster sy'n gweithio fel rheolwyr neu gyfarwyddwyr. Mae'r 39% o bobl sydd â chymhwyster gradd neu gyfatebol yn gweithio yn y maes proffesiynol. Mae hyn yn ffigwr ychydig yn uwch na gweddill Môn (36%) ond yn is na Chymru (43%). Nid oes data dibynadwy ar gael am feysydd gwaith fesul ardal leol wedi 2011, a gwelir felly bwlch data sylweddol.



# Cyflog

**Mae canolrif cyflog wythnosol yn etholaeth Ynys Môn tua £506 yr wythnos.** Mae'r swm yma 27% yn uwch na Gwynedd (£386 yr wythnos), a 8% yn uwch na Chymru gyfan (£469 yr wythnos).

Yn Ynys Môn mae cyflogau merched 6% yn uwch na chyflog dynion yn yr ardal. Mae hyn yn wahanol iawn i'r sefyllfa yng Ngwynedd, lle mae cyflogau merched 32% yn llai na chyflog dynion a Chymru 31% yn llai.




£506 canolrif cyflog wythnosol

# Diweithdra

Mae 80% o drigolion Ynys Môn rhwng 16 a 64 oed mewn gwaith neu addysg, sy'n uwch na Chymru, sef 76%.

Ar gyfartaledd, **roedd canran y bobl 16-64 oed a hawliodd Lwfans Ceisio Gwaith yn ardal Talybolion rhwng Tachwedd 2020 a Hydref 2021 yn 4.7%,** sy'n is nag Ynys Môn am yr un cyfnod (5.3%).

Roedd y ffigwr ar ei uchaf ym mis Chwefror - Ebrill 2021 (5.1%) ac ar ei isaf ym mis Medi 2021 (4%), gan awgrymu bod cyfnod clo Covid-19 wedi cael effaith ar y ffigyrau.




# Busnesau



59% o gwmnïau yn goroesi 3+ blwyddyn

Yn 2020, roedd cyfanswm o 2,155 o fusnesau wedi cofrestru yn Ynys Môn. Mae cyfradd busnesau newydd sy'n cychwyn yn Ynys Môn yn uwch na Gwynedd, ond yn llai na Gogledd Cymru a Chymru.

**Mae 59% o gwmnïau yn Ynys Môn yn aros mewn busnes am o leiaf tair blynedd neu fwy.** Mae hyn yn uwch na Chymru sydd ar 54%.

Mae'r gyfradd o'r busnesau sy'n methu hefyd yn is yn Ynys Môn o'i gymharu â Gogledd Cymru a Chymru.

# Sgiliau am oes




O 2018/19 mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno set newydd o fesurau perfformiad sy'n cynnwys y sgôr pwyntiau Llythrennedd, y sgôr pwyntiau Rhifedd a'r sgôr pwyntiau Gwyddoniaeth. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd cymharu o flwyddyn i flwyddyn dros y blynyddoedd diwethaf a nid oes dadansoddiad fesul sir ers 2018/19.

Fodd bynnag, mae ffigyrau ar gael am y nifer o adawyr ysgol blwyddyn 11 y gwyddys sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Yn Ynys Môn mae'r ganran am 2020 yn 4.7%, sy'n gynnydd sylweddol o 2018, pan oedd y ffigwr yn 1.1%.  Mae'r ganran yma hefyd yn uwch na ffigwr Cymru gyfan ar gyfer 2020 sef 1.7%.

# Yr arian yn ein poced

**Mae incwm sydd ar gael i'w wario ar ôl costau talu am gartref a threthi gan bobl yn Ynys Môn, yn £17,529 y pen y flwyddyn,** sydd yn £266 yn fwy na Chymru gyfan.




Yn ardal Talybolion, mae 15% o ddisgyblion ysgol gynradd yn hawlio prydau ysgol am ddim sydd yn is na chanran Môn, sef 18%. Mae'r canran o ddisgyblion ysgol uwchradd Talybolion sy'n hawlio prydau ysgol am ddim yn codi rhywfaint i 16%, sydd yn debyg iawn i ffigwr Ynys Môn.

Yn ôl ffigyrau cyn-bandemig, mae 18% o aelwydydd yn ardal Talybolion mewn tlodi tanwydd, sydd yr un faint â ffigwr Ynys Môn, ond yn uwch na Chymru (14%).

Fodd bynnag, gyda'r cynnydd diweddar mewn prisiau tanwydd mae'r ffigwr hwn yn debygol o fod yn llawer uwch na'r amcangyfrif yn 2018, ond yn anffodus roedd dod o hyd i ddata dibynadwy yn y maes hwn yn broblem.

# DIWYLLIANNOL









# Cadw'n heini

Yn ôl Arolwg Chwaraeon Ysgol ddiweddaraf Chwaraeon Cymru mae mwy o blant Ynys Môn yn cymryd rhan mewn chwaraeon tri neu fwy o weithiau'r wythnos na sydd ar draws Cymru.

Yn 2018 roedd bron i **56% o ddisgyblion Môn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon tri neu fwy o weithiau yr wythnos,** i gymharu gyda 48% yng Nghymru.



56%

o blant yn cymryd rhan mewn chwaraeon 3+ gwaith yr wythnos


Erbyn hyn mae darlun tebyg ar gyfer oedolion Ynys Môn. Yn 2016 roedd 28% o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos yn Ynys Môn a 29% ar draws Cymru, erbyn 2019 fe gynyddodd y nifer yn Ynys Môn i 34% i gymharu gyda 32% ar gyfer Cymru gyfan.

Mae amser teithio cyhoeddus a preifat dwyffordd i gyfleuster chwaraeon yn uwch yn Ynys Môn na Chymru, gydag amser cyfartalog o 70 munud a 13 munud i gymharu gyda 55 munud a 10 munud yn y drefn honno. O fewn ardal Talybolion, mae'r amseroedd teithio cyhoeddus a preifat dwyffordd yn Llanfaethlu, Llanerch-y-medd a Mechell ac yn rhai o'r amseroedd hiraf ar yr ynys.

# Amser hamdden

Mae amser cyfartalog teithio dwyffordd cyhoeddus a preifat i lyfrgell gyhoeddus yn uwch yn Ynys Môn na Chymru gyfan, gydag amser cyfartalog o 53 munud a 13 munud i gymharu gyda 45 munud a 10 munud.

O fewn ardal Talybolion, mae amser teithio cyhoeddus cyfartalog Llanfaethlu, Llanerch-y-medd a Mechell yn rhai o'r amseroedd hiraf ar yr ynys.





**66%**

**wedi mynychu digwyddiad celfyddydol**

Mae ffigyrau amser hamdden ar gael ar gyfer y cyfnod cyn-bandemig. **Roedd 66% o oedolion yn Ynys Môn wedi mynychu digwyddiad celfyddydol yn ystod y flwyddyn 2019-20.** Mae hyn yn debyg i Wynedd ac ychydig yn is na weddill Cymru.

Yn 2016-17 roedd 68% o oedolion Ynys Môn yn datgan eu bod wedi mynychu mannau hanesyddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ffigwr yma yn uwch na Wynedd a Chymru gyfan gyda 47% a 58% yn datgan eu bod wedi mynychu yn y drefn honno.

Mae effaith y pandemig ar y celfyddydau a diwylliant yn amlwg, gyda theatr a sinemau yn gorfod cau dros gyfnod y clo a chyfyngiadau yn y niferoedd sy'n cael mynychu digwyddiad wedi hynny. Fodd bynnag, nid oedd ffigurau dibynadwy fesul ardal leol i fesur hyn ar gael.

Roedd diffyg gweithgareddau hamdden i blant a phobl ifanc yn un thema oedd wedi codi pan ofynnwyd i drigolion beth oedd ddim mor dda am ardal Talybolion. (Arolwg Llesiant Môn).

> "Mae diffyg cyfleusterau i blant a phobl ifanc, er enghraifft, dirywiad clybiau ieuenctid a chlybiau Ffermwyr Ifanc."
> (Unigolyn o Talybolion, Arolwg Llesiant Môn)

# Mannau gwyrdd

Mae cysylltiad rhwng llesiant diwylliannol a threulio amser mewn mannau gwyrdd a natur, ac mae agosatrwydd at fan gwyrdd naturiol yn un ffurf o asesu amgylchedd ffisegol ardal.

Mae sgôr ar gyfer agosatrwydd at Fan Gwyrdd Naturiol Hygyrch yn is ar gyfer Ynys Môn na Chymru gyfan, sef 65% i gymharu gyda 77%.

Mae amrywiaeth o sgoriau o fewn ardal Talybolion a mae gan Mechell un o'r sgoriau isaf ym Môn.



## AM FWY O WYBODAETH...

www.LlesiantGwyneddaMon.org
post@llesiantgwyneddamon.org
01766 771000
Gofynnwch am Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn

This page is intentionally left blank

# EICH ARDAL CHI BETH SY'N BWYSIG?

## ARDAL CANOLBARTH MÔN A LLIFON



ASESIAD LLESIANT GWYNEDD A MÔN
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

2021

## Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i rym ar y 1af o Ebrill 2016. Pwrpas y ddeddf yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r ddeddf wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (y Bwrdd) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio efo'i gilydd i greu gwell dyfodol i bobl Cymru.

Ar gyfer Gwynedd a Môn mae'r ddau Fwrdd wedi dod at ei gilydd i gydweithio, ac mae'n bartneriaeth sy'n cynnwys y cynghorau sir, y gwasanaeth tân ac achub, y gwasanaeth iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â phartneriaid eraill o'r sector gyhoeddus a'r trydydd sector.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi rhannu'r ardal gyfan yn 14 o ardaloedd llai. Mae gwaith ymchwil wedi cael ei wneud ar ran y Bwrdd ar bob un o'r 14 ardal er mwyn deall a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny. Yn ogystal â'r data sydd ar gael rydym hefyd eisiau gwybod beth rydych chi yn feddwl am eich ardal a'ch cymuned. Mae partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ymgysylltu'n helaeth efo'n cymunedau yn ystod y misoedd diwethaf ac rydym yn cymryd i ystyriaeth canfyddiadau'r sesiynau hynny a'r prif negeseuon sydd wedi eu cyfleu am gyflwr llesiant ein cymunedau.

Mae'n bwysig nodi hefyd bod y gwaith ymchwil wedi amlygu rhai bylchau data a bod rhai ffigyrau yn seiliedig ar ddata'r Cyfrifiad 2011, sydd bellach dros 10 mlynedd oed. Ein bwriad fydd diweddaru'r data sydd yn y llyfryn hwn yn rheolaidd er mwyn casglu'r prif negeseuon sydd wedi eu cyfleu am gyflwr llesiant ein cymunedau, ac yn sail felly i greu'r Cynllun Llesiant fydd yn arwain gwaith y Bwrdd dros y blynyddoedd sydd i ddod.


Mae'r gwaith yma yn adeiladu ar yr Asesiad Llesiant a gynhaliwyd yn 2016 gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Fe arweiniodd yr asesiad yma at greu Cynllun Llesiant sydd wedi bod yn arwain gwaith y Bwrdd hyd yma. Ers yr asesiad diwethaf mae ein cymunedau wedi wynebu newidiadau sylweddol yn sgìl Brexit ac yn fwy diweddar y pandemig Covid-19. Mae delio â'r argyfwng wedi amlygu pwysigrwydd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y sector gwirfoddol a chyhoeddus i'n cymunedau, a phwysigrwydd y cydweithio sydd rhyngddynt. Hefyd, mae'r argyfwng wedi rhoi'r chwydd wydr ar faterion a oedd yn bodoli eisoes yn ein cymunedau gan amlygu rhai pynciau fel tlodi a chyflogaeth, iechyd meddwl, ail gartrefi, twristiaeth ac unigedd.

Yn ogystal mae'r cyfnod wedi amlygu pwysigrwydd ein hamgylchedd sy'n greiddiol i iechyd a lles ein pobl a'n heconomi lleol, gan ddenu ymwelwyr i'r ardal. Wrth i ni edrych tuag at ddilyn llwybr gwyrddach allan o bandemig Covid-19, mae'n gyfle i ni ail edrych ar sut rydym yn defnyddio ein hasedau naturiol i fynd i'r afael â bygythiadau argyfyngau'r hinsawdd a natur.

Bydd yr Asesiad Llesiant yn rhoi sylw pellach i'r materion hyn sy'n bwysig i gymunedau ein hardaloedd.

**DYMA'R WYBODAETH RYDYM WEDI EI GASGLU AR ARDAL CANOLBARTH MÔN A LLIFON, TYBED YDI HYN YN ADLEWYRCHIAD TEG O GYFLWR LLESIANT EICH ARDAL CHI?**

# POBLOGAETH



# Pwy yw pobl ardal Canolbarth Môn a Llifon?

**Mae 15,006 o bobl yn byw yn ardal Canolbarth Môn a Llifon** – mae hyn tua 21% o gyfanswm poblogaeth Ynys Môn.

**Mae disgwyl i boblogaeth Canolbarth Môn a Llifon gynnyddu 2% i 15,278 erbyn 2043**. Mae hyn yn wahanol i'r newid sydd yn cael ei ragdybio ar gyfer Ynys Môn lle mae disgwyl i'r boblogaeth aros yn eithaf cyson gyda lleihad o 0.7% rhwng 2019 a 2043.

**2020**
Poblogaeth Canolbarth Môn a Llifon
**15,006**

**2043**
Poblogaeth Canolbarth Môn a Llifon
**15,278**

Nid yw'r cynnydd sydd yn cael ei ragdybio yn unffurf ar draws y boblogaeth. Mae disgwyl gweld y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth 75 oed a hŷn, lle mae cynnydd o 55% yn cael ei ragdybio. Mae hyn yn cyd-fynd gyda ffigyrau Ynys Môn, lle mae disgwyl gweld y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth hefyd yn y grŵp oedran 75 oed a hŷn.

Mae hefyd disgwyl gweld lleihad mewn rhai grwpiau oed yng Nghanolbarth Môn a Llifon, gan gynnwys 24 oed ac iau a 40-64 oed.

# Iaith

Yn ôl cyfrifiad 2011 mae **65% o bobl Canolbarth Môn a Llifon yn gallu siarad Cymraeg.** Mae hyn i gymharu gyda 67% yn 1981. Mae hyn yn adlewyrchu'r patrwm ar gyfer gweddill y sir sydd wedi gweld gostyngiad mewn siaradwyr o 62% yn 1981 i 57% yn 2011.

**65%**
**o bobl Canolbarth Môn a Llifon yn gallu siarad Cymraeg**

Mae ffigyrau mwyaf diweddar yn nodi bod 50% o bobl Ynys Môn yn defnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd, o'i gymharu â 10% yng Nghymru.

Yn ôl trigolion Canolbarth Môn a Llifon, roedd yr iaith Gymraeg yn nodwedd oedd yn gwneud yr ardal yn le braf i fyw. (Arolwg Cynllunio Lle ac Arolwg Llesiant Môn)

# AMGYLCHEDDOL



# Pa mor wyrdd yw'r ardal?




**Rhwng 2014/15 a 2020/21 fe gododd y canran o wastraff trefol wedi'i anfon i'w ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio yn Ynys Môn o 59.5% i 63%.** Mae hyn ychydig yn is na'r cynnydd o 60.2% i 65.1% a welwyd yng Nghymru gyfan dros yr un cyfnod.

Mae'r achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd i bob 1,000 o'r boblogaeth yn uwch yn Ynys Môn na Chymru gyfan, gyda 18.6 yn cael eu cofnodi ym Môn a 10.6 yng Nghymru yn 2019/2020.

# Pa mor lân yw'n strydoedd?

Mae glendid strydoedd yn cael ei archwilio yn flynyddol gan Cadw Cymru'n Daclus.

Yn 2019/20 fe gafodd 65 stryd yn Ynys Môn ei archwilio, ac roedd 97% o safon glendid uchel neu dderbyniol, hynny yw Gradd B neu uwch. Mae hyn yn debyg i ddata 2015/16 lle'r oedd 95% o strydoedd Môn o'r un safon.

**O fewn ardal Canolbarth Môn a Llifon cafodd 15 stryd ei archwilio, ac fe wnaeth 100% o'r rhain dderbyn Gradd B neu uwch.** Mae hyn yr un canran a gafodd Gradd B neu uwch yn 2015.

100% o strydoedd Canolbarth Môn a Llifon yn cyrraedd safon glendid uchel neu dderbyniol



# Amgylchedd naturiol

## Corsydd Môn



Mae Ynys Môn yn meddu ar gyfoeth o safleoedd dynodedig a gwarchodedig sy'n rhychwantu'r môr, yr arfordir, corstir, aberoedd, rhostir a choetir. Mae'r rhain yn ardaloedd yn ardaloedd pwysig i ymwelwyr ac yn denu pobl i'r ardal.

Corsydd Môn yw rhai o'r gwlypdiroedd pwysicaf yn Ewrop, sef Cors Erddreiniog (y fwyaf), Cors Bodeilio a Chors Goch. Gyda'i gilydd maent yn rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig.

Amlygwyd y Prosiect Ffeniau am Byth fel cyfle i archwilio dull gwell o reoli cynefinoedd a mynediad at ffeniau Môn, gan gyd-weithio efo cymunedau a busnesau lleol.

Yn fyd-eang, mae mewndiroedd yn storio mwy o garbon na choedwigoedd glaw'r byd. Pan ystyrir bod mewndiroedd iach yn cyfrannu at lu o wasanaethau naturiol, fel dŵr glân a lleihau llifogydd, mae'r achos dros eu hadfer yn cryfhau.



## Coed a thir

Ychydig iawn o Ynys Môn sydd wedi'i gorchuddio gan goetiroedd, dim ond 4.3% ohoni o'i gymharu ag 14% ledled Cymru ar gyfartaledd.

Mae Ynys Môn o dan bwysau amaethyddol cymharol uchel. Amaethyddiaeth yw'r prif ddefnydd tir ar Môn, gan gyfrif am oddeutu 92% o arwynebedd y tir ar yr ynys. Mae hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o oddeutu 88%.

> "Ardal braf i gerdded ac ati - llwybrau'n cael eu cynnal yn dda gan y Cyngor Cymuned ac eraill. Llynnoedd braf hefyd."
> (Arolwg Cynllunio Lle)

# Gwydnwch ecosystemau

Mae bywyd gwyllt Cymru yn dirywio, gyda'r canfyddiadau diweddaraf yn dangos bod un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu. Yn 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng natur a galwodd am osod targedau i atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Ymysg yr heriau sy'n wynebu rhywogaethau yw diffyg tir pori, mewnbynnau maethol gwasgaredig yng nghefn gwlad, tir hanesyddol, a rheoli dŵr. Mae ansawdd y dŵr dan bwysau oherwydd effeithiau megis cyfoethogi maetholion, arferion rheoli tir dwys, gollyngiadau o ffynonellau carthffosiaeth a dŵr gwastraff a chloddio metel hanesyddol o Fynydd Parys.

Er hyn, mae'r wiwer goch a llygoden y dŵr yn ffynnu ar Ynys Môn.

# Newid hinsawdd a llifogydd

Mae'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur yn un o'r prif heriau sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Dros y ganrif ddiwethaf, mae'r tymheredd wedi cynyddu, mae lefelau'r môr wedi codi, ac mae patrymau tywydd wedi newid yn sylweddol.

Yng Ngogledd-orllewin Cymru ac awdurdod lleol Ynys Môn, mae yna nifer o gymunedau mewn perygl o lifogydd, fel y nodwyd gan Gofrestr Cymunedau mewn Perygl (2019).

Yn ôl Asesiad Perygl Llifogydd Cymru, **yn Ynys Môn mae yna 2,826 o eiddo mewn perygl o lifogydd dŵr afonydd, môr ac arwyneb.**

Yn ardal Canolbarth Môn a Llifon mae Llangefni yn un gymuned sydd wedi eu hadnabod fel lle sy'n wynebu risg uchel o lifogydd afonydd.



**2,826**

**o dai Môn mewn perygl o lifogydd**

# Awyr iach

Mae crynodiad NO2 yn un modd o fesur ansawdd aer, ac mae'n cael ei gyfleu fel microgramau (µg) cyfartalog am bob m3. Yn 2019 roedd mesur cyfartalog o 5.1 $\mu g/m^3$ NO2 mewn lleoliadau anheddau preswyl yn Ynys Môn. Roedd hyn llawer is na mesur cyfartalog Cymru o 9.2 $\mu g/m^3$.



# CYMDEITHASOL



# Iechyd da?



**Yn ardal Canolbarth Môn a Llifon yn 2020-2021 roedd amser ymateb ambiwlans ar gyfer galwad 'coch', hynny yw y math mwyaf difrifol, ar gyfartaledd 09:21 munud.** Mae hyn wedi codi o 06:04 munud yn 2018-2019 a 07:21 munud yn 2019-2020.





Mae amser teithio cyhoeddus a preifat dwyffordd i *feddygfa* yn uwch yn Ynys Môn na Chymru, gydag amser cyfartalog o 47 munud a 8 munud  i gymharu gyda 40 munud a 7 munud. Mae amrywiaeth mawr mewn amseroedd teithio dwyffordd cyhoeddus o fewn ardal Canolbarth Môn a Llifon, lle mae gan rhai ardaloedd fel Cefni a Cyngar amser teithio llawer is na Môn ond mae amser Aberffraw a Rhosneigr 1 (ardal sydd o hefyd fewn Bro Aberffraw a Bro Rhosyr) a Llanddyfnan (sydd hefyd o fewn Talybolion) yn rhai o'r hiraf ar yr ynys. Mae amrywiaeth hefyd o fewn amseroedd teithio preifat, lle mae amseroedd cyfartalog Bryngwran, Cefni a Cyngar yn rhai o'r byrraf ar yr ynys a Fali 1 a Fali 2 yn rhai o'r hiraf.

Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer teithio i *fferyllfa* lle mae teithio dwyffordd cyhoeddus cyfartalog yn cymryd 48 munud a preifat 10 munud i gymharu gyda 38 munud a 7 munud ar gyfer Cymru. Unwaith eto o fewn ardal Canolbarth Môn a Llifon, mae amrywiaeth mewn amseroedd dwyffordd cyhoeddus, lle mae gan rhai ardaloedd fel Fali 1 a Cefni amser trafaelio llawer is na Môn ond mae amser Llanddyfnan (sydd hefyd o fewn Talybolion) yn un o'r hiraf ar yr ynys.

Mae ffigyrau iechyd poblogaeth bellach ar gael ar gyfer Ynys Môn, i roi syniad o gyflwr a phatrymau iechyd y sir.

**Mae disgwyliad oes dyn adeg ei eni yn Ynys Môn yn 79.3 oed, tra bod disgwyliad oes merch adeg ei geni yn 82.9 oed.** Mae hyn ychydig yn uwch na ffigyrau Cymru lle bod disgwyliad oes dyn adeg ei eni yn 78.3 a merch 82.1.

Yn ôl ffigyrau 2017/18-2019/20 mae 37% o oedolion 16 i 64 gyda phwysau iach yn Ynys Môn, mae hyn yn  debyg i ganran Cymru sef 38%. Mae hyn yn codi i 46% mewn oedolion 65 oed a hŷn yn Ynys Môn, sydd yn uwch na chanran Cymru o 38%, ac yn y canran uchaf o bob awdurdod lleol yng Nghymru.






Ffactorau eraill sy'n effeithio ar ein hiechyd yw ysmygu ac yfed alcohol. **Mae 18% o bobl 16 oed neu'n hŷn ym Môn yn dweud eu bod yn ysmygu,** canran tebyg iawn i Gymru gyfan le mae ychydig dros 17% yn ysmygu. Mae 14% o oedolion Ynys Môn yn nodi eu bod yn yfed mwy na 14 uned o alcohol yr wythnos, ffigwr is na'r 19% o Gymru gyfan.

Mae iechyd meddwl yn rhan bwysig o lesiant ac iechyd. Mae data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru o 2018-19 sydd yn nodi lles meddyliol ymysg oedolion (16 a hŷn) ar ffurf sgoriau safonedig oed. 51.8 yw sgôr Ynys Môn sydd ychydig bach yn uwch, ond yn gymharol, gyda sgôr Cymru sef 51.4.

Mae data gan Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2018/19-2019/20 yn nodi fod 10% o oedolion Ynys Môn gydag anhwylderau'r meddwl, yr un canran a gweddill Cymru.

# Iechyd plant a pobl ifanc

Mae ystadegau iechyd sbesiffig ar gyfer plant hefyd ar gael ar gyfer Ynys Môn.

Mae'r canran genedigaethau unigol byw pwysau geni isel yn is yn Ynys Môn na Chymru gyfan, gyda chanran o 4.9% a 5.9% yn y drefn honno. Mae'r canran ar gyfer Môn wedi aros yn gyson rhwng 2017 a 2019.

Mae canran yr holl blant wedi eu himiwneiddio'n llawn yn ôl yr amserlen erbyn pedair oed wedi cynyddu yn Ynys Môn o 90.4% yn 2017 i 93.7% yn 2019. Mae'r canran yma wedi bod yn gyson uwch na chanran Cymru gyfan le cafodd 88% eu himiwneiddio'n llawn yn 2019.


**Mae ffigyrau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2018/19 yn dangos yn Ynys Môn mae 29% o blant 4-5 oed dros eu pwysau neu yn ordew** – sydd ychydig bach yn uwch na ffigwr Cymru o 27%.

Yn ôl data o 2017/18 mae tua 8% o blant 11-16 oed Ynys Môn yn yfed alcohol a 5% yn ysmygu. Mae hyn yn cymharu gyda 8% a bron i 4% ar gyfer Cymru gyfan.



# Cadw'n ddiogel







Mae cyfradd troseddau fesul 1,000 person (16 a hŷn) ardal Canolbarth Môn a Llifon wedi ei nodi fel 97 yn 2020, i gymharu gyda'r asesiad llesiant diwethaf lle nodwyd cyfradd o 94 yn 2015. Yn Ynys Môn mae cyfradd troseddau wedi codi o 83 yn 2015 i 93 yn 2020.


Mae 61% o bobl Ynys Môn yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu, ffigwr llawer uwch na'r 46% ar gyfer Cymru gyfan.

Ar gyfartaledd rhwng 2017/18-2019/20 roedd **12 achos tân fwriadol y flwyddyn yn ardal Canolbarth Môn a Llifon,** mae hyn yn uwch na'r nifer nodwyd yn yr asesiad llesiant diwethaf. Yn yr un cyfnod **roedd 25 tân damweiniol ar gyfartaledd,** mae hyn yn is na'r nifer a nodwyd yn yr asesiad llesiant diwethaf.

Mae'r achosion tan bwriadol a damweiniol cyfartalog blynyddol yn Ynys Môn wedi lleihau ers yr asesiad llesiant diwethaf.

# Cadw mewn cysylltiad

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae gan **84% o gartrefi yn ardal Canolbarth Môn a Llifon gar neu fan** – mae hyn ychydig yn uwch o gymharu â gweddill Môn, ble mae 82% o gartrefi gyda char neu fan.





Mae amser teithio cyhoeddus dwyffordd i siop fwyd yn uwch yn Ynys Môn na Chymru gyfan, gydag amser cyfartalog o 38 munud i gymharu gyda 32 munud. Mae amser teithio preifat dwyffordd yn debyg ar gyfer Ynys Môn a Chymru gydag amser cyfartalog o 5 munud a 4 munud yn y drefn honno.

Roedd pryderon ynghylch trafnidiaeth gyhoeddus a diffyg mynediad at y rhwydwaith bws yn rhai o brif bryderon trigolion. Fe'i nodwyd fel mater a oedd ag effaith negyddol ar y ffordd yr oedd pobl yn teimlo am ardal Canolbarth Môn a Llifon. (Arolwg Llesiant Môn ac Arolwg Cynllunio Lle)

> "Cysylltiadau bws gwael ...hollol ddibynnol ar drafnidiaeth breifat."
> (Unigolyn o Ganolbarth Môn a Llifon, Arolwg Llesiant Môn)




**Mae ffigyrau o 2019 yn dangos fod gan Ynys Môn ganran uwch o ddiffyg argaeledd canrannol band eang ar 30Mb/e na Chymru gyfan, sef 10% i gymharu gyda 7%.**

Yn 2019 roedd bron 12% o bobl Ynys Môn yn unig, mae hyn wedi gostwng ers 2016 le'r oedd 16% yn unig. Mae'r ffigwr yma yn is na Chymru gyfan lle'r oedd 15% yn unig yn 2019.

# Helpu'n gilydd

Yn ôl y Cyfrifiad yn 2011 mae bron i 11% o'r boblogaeth yn ardal Canolbarth Môn a Llifon yn rhoi o leiaf un awr yr wythnos o ofal di-dâl. Mae'r ffigwr yma yn debyg i ardaloedd eraill yng Nghymru ac Ynys Môn.

Mae ffigyrau cyn-pandemig yn dangos bod y canran o bobl sy'n gwirfoddoli yn Ynys Môn wedi disgyn rhywfaint o 31% yn 2016 i 28% yn 2019 a gwelwyd gostyngiad tebyg yng Nghymru o 28% yn 2016 i 26%, gyda llai o bobl yn gwirfoddoli ar draws Cymru na Môn. Mae'n debyg fod Covid-19 wedi golygu cynnydd yn y nifer sy'n gwirfoddoli, fodd bynnag, nid oedd data fesul ardal ar gael.

Mae cyfeillgarwch a'r ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned hefyd wedi cael ei adnabod gan drigolion fel un o'r prif nodweddion da am yr ardal. (Arolwg Llesiant Môn)



# ECONOMAIDD



# Tai ac ail gartrefi

**Yn 2020, roedd canolrif pris tŷ yn ardal Canolbarth Môn a Llifon yn £172,750, sef cynnydd o £14,750 ers yr asesiad diwethaf yn 2015.**




Mae canolrif incwm teuluoedd Canolbarth Môn a Llifon tua £28,670 ond mae angen o leiaf £34,286 i fforddio prynu tŷ pris lefel mynediad i'r farchnad. Mae hyn yn golygu bod 59% o aelwydydd Canolbarth Môn a Llifon wedi eu prisio allan o'r farchnad. Mae hyn yn is na ffigwr Môn (62%) ond yn uwch na ffigwr Cymru sy'n 56%. Fodd bynnag, mae'n debyg nad yw ffigyrau 2020 yn dangos llawn effaith y pandemig ar brisiau tai yr ardal, ac bydd yr rhain yn cael ei diweddaru pan fydd y data ar gael.

Amlygwyd materion yn ymwneud a diffyg tai fforddiadwy wrth ymgysylltu â thrigolion fel rhan o'r Arolwg Llesiant Môn ac Arolwg Cynllunio Lle. Roedd cyfarch anghenion pobl leol drwy ddarparu neu adeiladu rhagor o dai sy'n fforddiadwy yn un o'r prif faterion oedd trigolion am ei newid yn y 10-15 mlynedd nesaf.

> "(Angen) mwy o dai fforddiadwy i bobl o bob oed brynnu - llawer iawn yn rhentu."
> (Unigolyn o Ganolbarth Môn a Llifon, Arolwg Llesiant Môn)

# Beth yw gwaith pobl Canolbarth Môn a Llifon?

Mae data'r Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 27% o bobl sydd mewn gwaith, ond heb gymwysterau, yn gweithio yn y galwedigaethau elfennol yn ardal Canolbarth Môn a Llifon e.e. gwaith glanhau, casglu gwastraff, gweithio ar fferm, gweithio mewn ffatri. Mae hyn yn debyg iawn i'r patrwm ar draws yr ynys.

Crefftau medrus sy'n cyflogi'r mwyaf o weithwyr yn ardal Canolbarth Môn a Llifon - sef 17%. Mae 37% o bobl sydd â gradd neu gyfatebol yn gweithio yn y maes proffesiynol, mae'r patrwm yma yn debyg i weddill Môn a Gwynedd.

Nid oes data dibynadwy ar gael am feysydd gwaith fesul ardal leol wedi 2011, a gwelir felly bwlch data sylweddol.



# Cyflog

**Mae canolrif cyflog wythnosol yn etholaeth Ynys Môn tua £506 yr wythnos.** Mae'r swm yma 27% yn uwch na Gwynedd (£386 yr wythnos), a 8% yn uwch na Chymru gyfan (£469 yr wythnos).

Yn Ynys Môn mae cyflogau merched 6% yn uwch na chyflog dynion yn yr ardal. Mae hyn yn wahanol iawn i'r sefyllfa yng Ngwynedd, lle mae cyflogau merched 32% yn llai na chyflog dynion a Chymru 31% yn llai.



£506 canolrif cyflog wythnosol

# Diweithdra

Mae 80% o drigolion Ynys Môn rhwng 16 a 64 oed mewn gwaith neu addysg, sy'n uwch na Chymru, sef 76%.

Ar gyfartaledd, **roedd canran y bobl 16-64 oed a hawliodd Lwfans Ceisio Gwaith yn ardal Canolbarth Môn a Llifon rhwng Tachwedd 2020 a Hydref 2021 yn 4.9%,** sy'n is nag Ynys Môn am yr un cyfnod (5.3%).

Roedd y ffigwr ar ei uchaf ym mis Tachwedd-Rhagfyr 2020 a Chwefror 2021 (5.6%) ac ar ei isaf ym mis Medi - Hydref 2021 (3.9%), gan awgrymu bod cyfnod clo Covid-19 wedi cael effaith ar y ffigyrau.



4.9% yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith

# Busnesau



59% o gwmnïau yn goroesi 3+ blwyddyn

Yn 2020, roedd cyfanswm o 2,155 o fusnesau wedi cofrestru yn Ynys Môn. Mae cyfradd busnesau newydd sy'n cychwyn yn Ynys Môn yn uwch na Gwynedd, ond yn llai na Gogledd Cymru a Chymru.

**Mae 59% o gwmnïau yn Ynys Môn yn aros mewn busnes am o leiaf tair blynedd neu fwy.** Mae hyn yn uwch na Chymru sydd ar 54%.

Mae'r gyfradd o'r busnesau sy'n methu hefyd yn is yn Ynys Môn o'i gymharu â Gogledd

# Sgiliau am oes



O 2018/19 mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno set newydd o fesurau perfformiad sy'n cynnwys y sgôr pwyntiau Llythrennedd, y sgôr pwyntiau Rhifedd a'r sgôr pwyntiau Gwyddoniaeth. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd cymharu o flwyddyn i flwyddyn dros y blynyddoedd diwethaf a nid oes dadansoddiad fesul sir ers 2018/19.

Fodd bynnag, mae ffigyrau ar gael am y nifer o adawyr ysgol blwyddyn 11 y gwyddys sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Yn Ynys Môn mae'r ganran am 2020 yn 4.7%, sy'n gynnydd sylweddol o 2018, pan oedd y ffigwr yn 1.1%. Mae'r ganran yma hefyd yn uwch na ffigwr Cymru gyfan ar gyfer 2020 sef 1.7%.

# Yr arian yn ein poced

**Mae incwm sydd ar gael i'w wario ar ôl costau talu am gartref a threthi gan bobl yn Ynys Môn yn £17,529 y pen y flwyddyn,** sydd yn £266 yn fwy na Chymru gyfan.




Yn ardal Canolbarth Môn a Llifon, mae 19% o ddisgyblion ysgol gynradd yn hawlio prydau ysgol am ddim sydd yn ychydig yn uwch na chanran Môn, sef 18%. Mae'r canran o ddisgyblion ysgol uwchradd Canolbarth Môn a Llifon sy'n hawlio prydau ysgol am ddim yn gostwng i 16%, sydd yn debyg iawn i ffigwr Ynys Môn.

Yn ôl ffigyrau cyn-bandemig, mae 16% o aelwydydd yn ardal Canolbarth Môn a Llifon mewn tlodi tanwydd, yn is nag Ynys Môn (18%), ond yn uwch na Chymru (14%).

Fodd bynnag, gyda'r cynnydd diweddar mewn prisiau tanwydd mae'r ffigwr hwn yn debygol o fod yn llawer uwch na'r amcangyfrif yn 2018, ond yn anffodus roedd dod o hyd i ddata dibynadwy yn y maes hwn yn broblem.

# DIWYLLIANNOL



# Cadw'n heini

Yn ôl Arolwg Chwaraeon Ysgol ddiweddaraf Chwaraeon Cymru mae mwy o blant Ynys Môn yn cymryd rhan mewn chwaraeon tri neu fwy o weithiau'r wythnos na sydd ar draws Cymru.

Yn 2018 roedd bron i **56% o ddisgyblion Môn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon tri neu fwy o weithiau yr wythnos,** i gymharu gyda 48% yng Nghymru.



**56%**

**o blant yn cymryd rhan mewn chwaraeon 3+ gwaith yr wythnos**


Erbyn hyn mae darlun tebyg ar gyfer oedolion Ynys Môn. Yn 2016 roedd 28% o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos yn Ynys Môn a 29% ar draws Cymru, erbyn 2019 fe gynyddodd y nifer yn Ynys Môn i 34% i gymharu gyda 32% ar gyfer Cymru gyfan.


Mae amser teithio cyhoeddus a preifat dwyffordd i gyfleuster chwaraeon yn uwch yn Ynys Môn na Chymru, gydag amser cyfartalog o 70 munud a 13 munud i gymharu gyda 55 munud a 10 munud yn y drefn honno. O fewn ardal Canolbarth Môn a Llifon mae amrywiaeth yn yr amseroedd teithio cyfartalog, ac mae ardal Llanddyfnan (sydd hefyd o fewn ardal Lligwy a Twrcelyn) gydag un o amseroedd teithio cyhoeddus hiraf a Cefni gydag un o'r amseroedd teithio preifat byrraf ar yr Ynys.

# Amser hamdden

Mae amser cyfartalog teithio dwyffordd cyhoeddus a preifat i lyfrgell gyhoeddus yn uwch yn Ynys Môn na Chymru gyfan, gydag amser cyfartalog o 53 munud a 13 munud i gymharu gyda 45 munud a 10 munud.

O fewn ardal Canolbarth Môn a Llifon mae amrywiaeth yn yr amseroedd teithio cyfartalog i lyfrgell, ac mae ardal Llanddyfnan (sydd hefyd o fewn ardal Lligwy a Twrcelyn) gydag un o amseroedd teithio cyhoeddus hiraf ac ardaloedd Llanfair-yn-Neubwll 1 (sydd hefyd o fewn ardal Talybolion) a Llanfair-yn-Neubwll 2 gyda rhai o'r amseroedd teithio preifat hiraf ar yr Ynys.






Mae ffigyrau amser hamdden ar gael ar gyfer y cyfnod cyn y pandemig. Roedd **66% o oedolion yn Ynys Môn wedi mynychu digwyddiad celfyddydol yn ystod y flwyddyn 2019-20.** Mae hyn yn debyg i Wynedd ac ychydig yn is na weddill Cymru. Yn 2016-17 roedd 68% o oedolion Ynys Môn yn datgan eu bod wedi mynychu mannau hanesyddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ffigwr yma yn uwch na Wynedd a Chymru gyfan le a welwyd 47% a 58% yn datgan eu bod wedi mynychu yn y drefn honno.

Mae effaith y pandemig ar y celfyddydau a diwylliant yn amlwg, gyda theatr a sinemau yn gorfod cau dros gyfnod y clo a chyfyngiadau yn y niferoedd sy'n cael mynychu digwyddiad wedi hynny. Fodd bynnag, nid oedd ffigurau dibynadwy fesul ardal leol i fesur hyn ar gael.

Roedd diffyg gweithgareddau hamdden i blant a phobl ifanc hefyd yn un thema oedd wedi codi pan ofynnwyd i drigolion Canolbarth Môn a Llifon beth oedd ddim mor dda am yr ardal. (Arolwg Llesiant Môn)

# Mannau gwyrdd

Mae cysylltiad rhwng llesiant diwylliannol a threulio amser mewn mannau gwyrdd a natur, ac mae agosatrwydd at fan gwyrdd naturiol yn un ffurf o asesu amgylchedd ffisegol ardal. Mae sgôr ar gyfer agosatrwydd at Fan Gwyrdd Naturiol Hygyrch yn is ar gyfer Ynys Môn na Chymru gyfan, sef 65% i gymharu gyda 77%.

Roedd cael digon o lefydd awyr agored a llwybrau er mwyn gallu mynd am dro yn rhai o'r prif bethau oedd trigolion Canolbarth Môn a Llifon yn teimlo oedd yn cyfrannu at eu llesiant. (Arolwg Llesiant Môn ac Arolwg Cynllunio Lle)

> "Nant-y-Pandy, Llangefni - lle hyfryd i fynd am dro."
> (Unigolyn o Canolbarth Môn a Llifon, Arolwg Llesiant Môn)




## AM FWY O WYBODAETH...

www.LlesiantGwyneddaMon.org
post@llesiantgwyneddamon.org
01766 771000
Gofynnwch am Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn

This page is intentionally left blank

# EICH ARDAL CHI BETH SY'N BWYSIG?

## ARDAL LLIGWY A TWRCELYN



ASESIAD LLESIANT GWYNEDD A MÔN
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

2021

## Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i rym ar y 1af o Ebrill 2016. Pwrpas y ddeddf yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r ddeddf wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (y Bwrdd) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio efo'i gilydd i greu gwell dyfodol i bobl Cymru.

Ar gyfer Gwynedd a Môn mae'r ddau Fwrdd wedi dod at ei gilydd i gydweithio, ac mae'n bartneriaeth sy'n cynnwys y cynghorau sir, y gwasanaeth tân ac achub, y gwasanaeth iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â phartneriaid eraill o'r sector gyhoeddus a'r trydydd sector.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi rhannu'r ardal gyfan yn 14 o ardaloedd llai. Mae gwaith ymchwil wedi cael ei wneud ar ran y Bwrdd ar bob un o'r 14 ardal er mwyn deall a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny. Yn ogystal â'r data sydd ar gael rydym hefyd eisiau gwybod beth rydych chi yn feddwl am eich ardal a'ch cymuned. Mae partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ymgysylltu'n helaeth efo'n cymunedau yn ystod y misoedd diwethaf ac rydym yn cymryd i ystyriaeth canfyddiadau'r sesiynau hynny a'r prif negeseuon sydd wedi eu cyfleu am gyflwr llesiant ein cymunedau.

Mae'n bwysig nodi hefyd bod y gwaith ymchwil wedi amlygu rhai bylchau data a bod rhai ffigyrau yn seiliedig ar ddata'r Cyfrifiad 2011, sydd bellach dros 10 mlynedd oed. Ein bwriad fydd diweddaru'r data sydd yn y llyfryn hwn yn rheolaidd er mwyn casglu'r prif negeseuon sydd wedi eu cyfleu am gyflwr llesiant ein cymunedau, ac yn sail felly i greu'r Cynllun Llesiant fydd yn arwain gwaith y Bwrdd dros y blynyddoedd sydd i ddod.


Mae'r gwaith yma yn adeiladu ar yr  Asesiad Llesiant a gynhaliwyd yn 2016 gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.  Fe arweiniodd yr asesiad yma at greu Cynllun Llesiant sydd wedi bod yn arwain gwaith y Bwrdd hyd yma. Ers yr asesiad diwethaf mae ein cymunedau wedi wynebu newidiadau sylweddol yn sgìl Brexit ac yn fwy diweddar y pandemig Covid-19. Mae delio â'r argyfwng wedi amlygu pwysigrwydd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y sector gwirfoddol a chyhoeddus i'n cymunedau, a phwysigrwydd y cydweithio sydd rhyngddynt. Hefyd, mae'r argyfwng wedi rhoi'r chwydd wydr ar faterion a oedd yn bodoli eisoes yn ein cymunedau gan amlygu rhai pynciau fel tlodi a chyflogaeth, iechyd meddwl, ail gartrefi, twristiaeth ac unigedd.

Yn ogystal mae'r cyfnod wedi amlygu pwysigrwydd ein hamgylchedd sy'n greiddiol i iechyd a lles ein pobl a'n heconomi lleol, gan ddenu ymwelwyr i'r ardal. Wrth i ni edrych tuag at ddilyn llwybr gwyrddach allan o bandemig Covid-19, mae'n gyfle i ni ail edrych ar sut rydym yn defnyddio ein hasedau naturiol i fynd i'r afael â bygythiadau argyfyngau'r hinsawdd a natur.

Bydd yr Asesiad Llesiant yn rhoi sylw pellach i'r materion hyn sy'n bwysig i gymunedau ein hardaloedd.

**DYMA'R WYBODAETH RYDYM WEDI EI GASGLU AR ARDAL LLIGWY A TWRCELYN, TYBED YDI HYN YN ADLEWYRCHIAD TEG O GYFLWR LLESIANT EICH ARDAL CHI?**


# POBLOGAETH



# Pwy yw pobl ardal Lligwy a Twrcelyn?

**Mae 13,438 o bobl yn byw yn ardal Lligwy a Twrcelyn** – mae hyn tua 19% o gyfanswm poblogaeth Ynys Môn. Fel yr oedd yn yr asesiad diwethaf, mae poblogaeth ardal Lligwy a Twrcelyn yn hŷn yn gyffredinol na phoblogaeth Ynys Môn a Chymru gyfan.

**Mae disgwyl i boblogaeth Lligwy a Twrcelyn leihau 12% i 11,710 erbyn 2043.** Mae hyn yn wahanol i'r newid sydd yn cael ei ragdybio ar gyfer Ynys Môn lle mae disgwyl i'r boblogaeth aros yn eithaf cyson gyda lleihad o 0.7% rhwng 2019 a 2043.





Mae disgwyl gweld y lleihad yma ar draws pob grŵp oedran, heblaw am y boblogaeth 75 oed a hŷn lle mae disgwyl i'r niferoedd godi 36%. Mae'r lleihad mwyaf yn cael ei ragdybio yn y boblogaeth 25-39 oed, lle mae disgwyl i niferoedd leihau 31%.

# Iaith

Yn ôl cyfrifiad 2011 mae **55% o bobl Lligwy a Twrcelyn yn gallu siarad Cymraeg.** Mae hyn i gymharu gyda 57% ar draws Ynys Môn.

Mae ffigyrau mwyaf diweddar yn nodi bod 50% o bobl Ynys Môn yn defnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd, o'i gymharu â 10% yng Nghymru.



# AMGYLCHEDDOL



# Pa mor wyrdd yw'r ardal?

**Rhwng 2014/15 a 2020/21 fe gododd y canran o wastraff trefol wedi'i anfon i'w ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio yn Ynys Môn o 59.5% i 63%.** Mae hyn ychydig yn is na'r cynnydd o 60.2% i 65.1% a welwyd yng Nghymru gyfan dros yr un cyfnod.

Mae'r achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd i bob 1,000 o'r boblogaeth yn uwch yn Ynys Môn na Chymru gyfan, gyda 18.6 yn cael eu cofnodi ym Môn a 10.6 yng Nghymru yn 2019/2020.




# Pa mor lân yw'n strydoedd?

Mae glendid strydoedd yn cael ei archwilio yn flynyddol gan Cadw Cymru'n Daclus.

Yn 2019/20 fe gafodd 65 stryd yn Ynys Môn ei archwilio, ac roedd 97% o safon glendid uchel neu dderbyniol, hynny yw Gradd B neu uwch. Mae hyn yn debyg i ddata 2015/16 lle'r oedd 95% o strydoedd Môn o'r un safon.

**O fewn ardal Lligwy a Twrcelyn cafodd 16 stryd ei archwilio, ac fe wnaeth 100% o'r rhain dderbyn Gradd B neu uwch.** Mae'r canran yma ychydig yn uwch na'r canran a gafodd Gradd B neu uwch yn 2015.



# Amgylchedd naturiol

## Corsydd Môn



Mae Ynys Môn yn meddu ar gyfoeth o safleoedd dynodedig a gwarchodedig sy'n rhychwantu'r môr, yr arfordir, corstir, aberoedd, rhostir a choetir. Mae'r rhain yn ardaloedd yn ardaloedd pwysig i ymwelwyr ac yn denu pobl i'r ardal.

Corsydd Môn yw rhai o'r gwlypdiroedd pwysicaf yn Ewrop, sef Cors Erddreiniog (y fwyaf), Cors Bodeilio a Chors Goch. Gyda'i gilydd maent yn rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig.

Amlygwyd y Prosiect Ffeniau am Byth fel cyfle i archwilio dull gwell o reoli cynefinoedd a mynediad at ffeniau Môn, gan gyd-weithio efo cymunedau a busnesau lleol.

Yn fyd-eang, mae mewndiroedd yn storio mwy o garbon na choedwigoedd glaw'r byd. Pan ystyrir bod mewndiroedd iach yn cyfrannu at lu o wasanaethau naturiol, fel dŵr glân a lleihau llifogydd, mae'r achos dros eu hadfer yn cryfhau.



## Coed a thir

Ychydig iawn o Ynys Môn sydd wedi'i gorchuddio gan goetiroedd, dim ond 4.3% ohoni o'i gymharu ag 14% ledled Cymru ar gyfartaledd.

Mae Ynys Môn o dan bwysau amaethyddol cymharol uchel. Amaethyddiaeth yw'r prif ddefnydd tir ar Fôn, gan gyfrif am oddeutu 92% o arwynebedd y tir ar yr ynys. Mae hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o oddeutu 88%.

"Harddwch naturiol, llwybr troed arfordirol Ynys Môn ar garreg ein drws, a lleoliad heddychlon."
(Unigolyn o Lligwy a Twrcelyn, Arolwg Llesiant Môn)

# Gwydnwch ecosystemau

Mae bywyd gwyllt Cymru yn dirywio, gyda'r canfyddiadau diweddaraf yn dangos bod un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu. Yn 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng natur a galwodd am osod targedau i atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Ymysg yr heriau sy'n wynebu rhywogaethau yw diffyg tir pori, mewnbynnau maethol gwasgaredig yng nghefn gwlad, tir hanesyddol, a rheoli dŵr. Mae ansawdd y dŵr dan bwysau oherwydd effeithiau megis cyfoethogi maetholion, arferion rheoli tir dwys, gollyngiadau o ffynonellau carthffosiaeth a dŵr gwastraff a chloddio metel hanesyddol o Fynydd Parys.

Er hyn, mae'r wiwer goch a llygoden y dŵr yn ffynnu ar Ynys Môn.

# Newid hinsawdd a llifogydd

Mae'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur yn brif heriau sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Dros y ganrif ddiwethaf, mae'r tymheredd wedi cynyddu, mae lefelau'r môr wedi codi, ac mae patrymau tywydd wedi newid yn sylweddol.

Yng Ngogledd-orllewin Cymru ac awdurdod lleol Ynys Môn, mae yna nifer o gymunedau mewn perygl o lifogydd, fel y nodwyd gan Gofrestr Cymunedau mewn Perygl (2019).

Yn ôl Asesiad Perygl Llifogydd Cymru, **yn Ynys Môn mae yna 2,826 o eiddo mewn perygl o lifogydd dŵr afonydd, môr ac arwyneb.**



**2,826**

**o dai Môn mewn perygl o lifogydd**

# Awyr iach

Mae crynodiad NO2 yn un modd o fesur ansawdd aer, ac mae'n cael ei gyfleu fel microgramau (µg) cyfartalog am bob m3. Yn 2019 roedd mesur cyfartalog o 5.1 $\mu g/m^3$ NO2 mewn lleoliadau anheddau preswyl yn Ynys Môn. Roedd hyn llawer is na mesur cyfartalog Cymru o 9.2 $\mu g/m^3$.

# CYMDEITHASOL



# Iechyd da?



**Yn ardal Lligwy a Twrcelyn yn 2020-2021 roedd amser ymateb ambiwlans ar gyfer galwad 'coch', hynny yw y math mwyaf difrifol, ar gyfartaledd 11:06 munud.** Mae hyn wedi codi o 09:01 munud yn 2018-2019 a 10:13 munud yn 2019-2020.




Mae amser teithio cyhoeddus a preifat dwyffordd i *feddygfa* yn uwch yn Ynys Môn na Chymru, gydag amser cyfartalog o 47 munud a 8 munud  i gymharu gyda 40 munud a 7 munud.

Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer teithio i *fferyllfa* lle mae teithio dwyffordd cyhoeddus cyfartalog yn cymryd 48 munud a preifat 10 munud i gymharu gyda 38 munud a 7 munud ar gyfer Cymru.

Roedd sawl sylw yn ymwneud â'r gwasanaeth iechyd yn codi wrth drafod y pethau oedd yn negyddol am Lligwy a Twrcelyn, gan gynnwys diffyg doctoriaid yn lleol a'r angen i deithio yn bell er mwyn cael triniaeth i gyflyrau iechyd meddwl (Arolwg Cynllunio Lle).

Mae ffigyrau iechyd poblogaeth bellach ar gael ar gyfer Ynys Môn, i roi syniad o gyflwr a phatrymau iechyd y sir.

**Mae disgwyliad oes dyn adeg ei eni yn Ynys Môn yn 79.3 oed, tra bod disgwyliad oes merch adeg ei geni yn 82.9 oed.**  Mae hyn ychydig yn uwch na ffigyrau Cymru lle bod disgwyliad oes dyn adeg ei eni yn 78.3 a merch 82.1.




Yn ôl ffigyrau 2017/18-2019/20 mae 37% o oedolion 16 i 64 gyda phwysau iach yn Ynys Môn, mae hyn yn debyg i ganran Cymru sef 38%. Mae hyn yn codi i 46% mewn oedolion 65 oed a hŷn yn Ynys Môn, sydd yn uwch na chanran Cymru o 38%, ac yn y canran uchaf o bob awdurdod lleol yng Nghymru.




Ffactorau eraill sy'n effeithio ar ein hiechyd yw ysmygu ac yfed alcohol. **Mae 18% o bobl 16 oed neu'n hŷn ym Môn yn dweud eu bod yn ysmygu,** canran tebyg iawn i Gymru gyfan le mae ychydig dros 17% yn ysmygu. Mae 14% o oedolion Ynys Môn yn nodi eu bod yn yfed mwy na 14 uned o alcohol yr wythnos, ffigwr is na'r 19% o Gymru gyfan.

Mae iechyd meddwl yn rhan bwysig o lesiant ac iechyd. Mae data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru o 2018-19 sydd yn nodi lles meddyliol ymysg oedolion (16 a hŷn) ar ffurf sgoriau safonedig oed. 51.8 yw sgôr Ynys Môn sydd ychydig bach yn uwch, ond yn gymharol, gyda sgôr Cymru sef 51.4.

Mae data gan Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2018/19-2019/20 yn nodi fod 10% o oedolion Ynys Môn gydag anhwylderau'r meddwl, yr un canran a gweddill Cymru.

# Iechyd plant a pobl ifanc

Mae ystadegau iechyd sbesiffig ar gyfer plant hefyd ar gael ar gyfer Ynys Môn.

Mae'r canran genedigaethau unigol byw pwysau geni isel yn is yn Ynys Môn na Chymru gyfan, gyda chanran o 4.9% a 5.9% yn y drefn honno. Mae'r canran ar gyfer Môn wedi aros yn gyson rhwng 2017 a 2019.

Mae canran yr holl blant wedi eu himiwneiddio'n llawn yn ôl yr amserlen erbyn pedair oed wedi cynyddu yn Ynys Môn o 90.4% yn 2017 i 93.7% yn 2019. Mae'r canran yma wedi bod yn gyson uwch na chanran Cymru gyfan le cafodd 88% eu himiwneiddio'n llawn yn 2019.


**Mae ffigyrau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2018/19 yn dangos yn Ynys Môn mae 29% o blant 4-5 oed dros eu pwysau neu yn ordew** – sydd ychydig bach yn uwch na ffigwr Cymru o 27%.

Yn ôl data o 2017/18 mae tua 8% o blant 11-16 oed Ynys Môn yn yfed alcohol a 5% yn ysmygu. Mae hyn yn cymharu gyda 8% a bron i 4% ar gyfer Cymru gyfan.



# Cadw'n ddiogel





**34** achos tân yn ardal Lligwy a Twrcelyn

Mae cyfradd troseddau fesul 1,000 person (16 a hŷn) ardal Lligwy a Twrcelyn wedi ei nodi fel 56 yn 2020, i gymharu gyda'r asesiad llesiant diwethaf lle nodwyd cyfradd o 58 yn 2015. Yn Ynys Môn mae cyfradd troseddau wedi codi o 83 yn 2015 i 93 yn 2020.


Mae 61% o bobl Ynys Môn yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu, ffigwr llawer uwch na'r 46% ar gyfer Cymru gyfan.

Ar gyfartaledd rhwng 2017/18-2019/20 roedd **3 achos tân bwriadol a 31 tân damweiniol y flwyddyn yn ardal Lligwy a Twrcelyn.** Mae hyn yn is na'r nifer a nodwyd yn yr asesiad llesiant diwethaf.

Mae'r achosion tân bwriadol a damweiniol cyfartalog blynyddol yn Ynys Môn hefyd wedi lleihau ers yr asesiad llesiant diwethaf.

# Cadw mewn cysylltiad

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae gan **85% o gartrefi yn ardal Lligwy a Twrcelyn gar neu fan** – mae hyn ychydig yn uwch o gymharu â gweddill Môn, ble mae 82% o gartrefi gyda char neu fan.



**85%** o gartrefi gyda char neu fan yn ardal Lligwy a Twrcelyn

Roedd problemau yn ymwneud a thraffig a pharcio hefyd yn un o'r prif themâu i godi pan ofynwyd i drigolion beth oedd ddim cystal am ardal Lligwy a Twrcelyn (Arolwg Cynllunio Lle ac Arolwg Llesiant Môn).

Mae amser teithio cyhoeddus dwyffordd i siop fwyd yn uwch yn Ynys Môn na Chymru gyfan, gydag amser cyfartalog o 38 munud i gymharu gyda 32 munud. Mae amser teithio preifat dwyffordd yn debyg ar gyfer Ynys Môn a Chymru gydag amser cyfartalog o 5 munud a 4 munud yn y drefn honno.

> "Diffyg patrôl traffig a gorfodi llinellau melyn dwbl, gan arwain at anhrefn traffig a cholli refeniw maes parcio."
> (Unigolyn o Lligwy a Twrcelyn, Arolwg Llesiant Môn)




**Mae ffigyrau o 2019 yn dangos fod gan Ynys Môn ganran uwch o ddiffyg argaeledd canrannol band eang ar 30Mb/e na Chymru gyfan, sef 10% i gymharu gyda 7%.**

Yn 2019 roedd bron 12% o bobl Ynys Môn yn unig, mae hyn wedi gostwng ers 2016 le'r oedd 16% yn unig. Mae'r ffigwr yma yn is na Chymru gyfan lle'r oedd 15% yn unig yn 2019.

# Helpu'n gilydd

Yn ôl y Cyfrifiad yn 2011 mae bron i 13% o'r boblogaeth yn ardal Lligwy a Twrcelyn yn rhoi o leiaf un awr yr wythnos o ofal di-dâl. Mae'r ffigwr yma yn debyg i ardaloedd eraill yng Nghymru ac Ynys Môn.

Mae ffigyrau cyn-pandemig yn dangos bod y canran o bobl sy'n gwirfoddoli yn Ynys Môn wedi disgyn rhywfaint o 31% yn 2016 i 28% yn 2019 a gwelwyd gostyngiad tebyg yng Nghymru o 28% yn 2016 i 26%, gyda llai o bobl yn gwirfoddoli ar draws Cymru na Môn. Mae'n debyg fod Covid-19 wedi golygu cynnydd yn y nifer sy'n gwirfoddoli, fodd bynnag, nid oedd data fesul ardal ar gael.

Mae cyfeillgarwch a'r ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned hefyd wedi cael ei adnabod gan drigolion fel un o'r prif nodweddion da am yr ardal. (Arolwg Llesiant Môn)



# ECONOMAIDD



# Tai ac ail gartrefi

**Yn 2020, roedd canolrif pris tŷ yn ardal Lligwy a Twrcelyn yn £214,000, sef cynnydd o £44,750 ers yr asesiad diwethaf yn 2015.**




Mae canolrif incwm teuluoedd Lligwy a Twrcelyn tua £29,519 ond mae angen o leiaf £42,571 i fforddio prynu tŷ pris lefel mynediad i'r farchnad. Mae hyn yn golygu bod 69% o aelwydydd Lligwy a Twrcelyn wedi eu prisio allan o'r farchnad. Dyma'r ganran uchaf o holl ardaloedd Ynys Môn.  Mae hefyd yn llawer uwch na ffigwr Cymru sy'n 56%. Fodd bynnag, mae'n debyg nad yw ffigyrau 2020 yn dangos llawn effaith y pandemig ar brisiau tai yr ardal, ac bydd yr rhain yn cael ei diweddaru pan fydd y data ar gael.

Amlygwyd materion yn ymwneud a thai ac ail gartrefi wrth holi trigolion fel rhan o'r Arolwg Llesiant Môn.

> "Dim digon o ddatblygiadau tai newydd sy'n addas i deuluoedd (ac sydd ddim yn dai cymdeithasol). "
> (Unigolyn o Lligwy a Twrcelyn, Arolwg Llesiant Môn)

# Beth yw gwaith pobl Lligwy a Twrcelyn?



Mae data'r Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 40% o bobl sydd mewn gwaith, ond heb unrhyw gymhwyster yn ardal Lligwy a Twrcelyn yn gweithio yn y crefftau medrus.

Yn y maes proffesiynol mae 24% o bobl sydd â chymhwyster gradd neu gyfatebol yn gweithio, mae hyn yn debyg i weddill Môn a Chymru. Mae canran eithaf uchel, sef 20%, o bobl sydd â chymhwyster gradd neu gyfatebol yn yr ardal yn gweithio yn y crefftau medrus. Dyma'r ardal sydd â'r caran uchaf yn Ynys Môn o boblogaeth gyda chymhwyster prentisiaeth. Nid oes data dibynadwy ar gael am feysydd gwaith fesul ardal leol wedi 2011, a gwelir felly bwlch data.

# Cyflog

**Mae canolrif cyflog wythnosol yn etholaeth Ynys Môn tua £506 yr wythnos.** Mae'r swm yma 27% yn uwch na Gwynedd (£386 yr wythnos), a 8% yn uwch na Chymru gyfan (£469 yr wythnos).

Yn Ynys Môn mae cyflogau merched 6% yn uwch na chyflog dynion yn yr ardal. Mae hyn yn wahanol iawn i'r sefyllfa yng Ngwynedd, lle mae cyflogau merched 32% yn llai na chyflog dynion a Chymru 31% yn llai.



**£506** canolrif cyflog wythnosol

# Diweithdra

Mae 80% o drigolion Ynys Môn rhwng 16 a 64 oed mewn gwaith neu addysg, sy'n uwch na Chymru, sef 76%.

Ar gyfartaledd, **roedd canran y bobl 16-64 oed a hawliodd Lwfans Ceisio Gwaith yn ardal Lligwy a Twrcelyn rhwng Tachwedd 2020 a Hydref 2021 yn 5.4%,** sy'n debyg iawn i ffigwr Ynys Môn am yr un cyfnod (5.3%). Roedd y ffigwr ar ei uchaf ym mis Tachwedd 2020 (6.3%) ac ar ei isaf ym mis Hydref 2021 (4.1%), gan awgrymu bod cyfnod clo Covid-19 wedi cael effaith ar y ffigurau.

Roedd diffyg swyddi gwerth uchel a chyfleoedd hyfforddiant yn rhai o'r prif faterion oedd yn cael effaith negyddol ar y ffordd yr oedd trigolion yn teimlo am ardal Lligwy a Twrcelyn. (Arolwg Llesiant Môn)

> "Diweithdra a diffyg cyfleoedd i raddedigion ifanc aros yn yr ardal."
> (Unigolyn o Lligwy a Twrcelyn, Arolwg Llesiant Môn)

# Busnesau



**59%** o gwmnïau yn goroesi 3+ blwyddyn

Yn 2020, roedd cyfanswm o 2,155 o fusnesau wedi cofrestru yn Ynys Môn. Mae cyfradd busnesau newydd sy'n cychwyn yn Ynys Môn yn uwch na Gwynedd, ond yn llai na Gogledd Cymru a Chymru.

**Mae 59% o gwmnïau yn Ynys Môn yn aros mewn busnes am o leiaf tair blynedd neu fwy.** Mae hyn yn uwch na Chymru sydd ar 54%.

Mae'r gyfradd o'r busnesau sy'n methu hefyd yn is yn Ynys Môn o'i gymharu â Gogledd Cymru a Chymru.

# Sgiliau am oes



O 2018/19 mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno set newydd o fesurau perfformiad sy'n cynnwys y sgôr pwyntiau Llythrennedd, y sgôr pwyntiau Rhifedd a'r sgôr pwyntiau Gwyddoniaeth. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd cymharu o flwyddyn i flwyddyn dros y blynyddoedd diwethaf a nid oes dadansoddiad fesul sir ers 2018/19.

Fodd bynnag, mae ffigyrau ar gael am y nifer o adawyr ysgol blwyddyn 11 y gwyddys sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Yn Ynys Môn mae'r ganran am 2020 yn 4.7%, sy'n gynnydd sylweddol o 2018, pan oedd y ffigwr yn 1.1%. Mae'r ganran yma hefyd yn uwch na ffigwr Cymru gyfan ar gyfer 2020 sef 1.7%.

# Yr arian yn ein poced

**Mae incwm sydd ar gael i'w wario ar ôl costau talu am gartref a threthi gan bobl yn Ynys Môn yn £17,529 y pen y flwyddyn,** sydd yn £266 yn fwy na Chymru gyfan.




Yn ardal Lligwy a Twrcelyn, mae 17% o ddisgyblion ysgol gynradd yn hawlio prydau ysgol am ddim sydd ychydig yn is na chanran Môn, sef 18%.

Mae'r canran o ddisgyblion ysgol uwchradd ardal Lligwy a Twrcelyn sy'n hawlio prydau ysgol am ddim gostwng rhywfaint i i 15%, sydd eto ychydig yn is na chanran Ynys Môn (16%)

Yn ôl ffigyrau cyn-bandemig, mae 16% o aelwydydd yn ardal Lligwy a Twrcelyn mewn tlodi tanwydd, sy'n is na'r canran ar gyfer Ynys Môn gyfan, sef 18% ond ychydig yn uwch na ffigwr Cymru (14%).

Fodd bynnag, gyda'r cynnydd diweddar mewn prisiau tanwydd mae'r ffigwr hwn yn debygol o fod yn llawer uwch na'r amcangyfrif yn 2018, ond yn anffodus roedd dod o hyd i ddata dibynadwy yn y maes hwn yn broblem.

# DIWYLLIANNOL



# Cadw'n heini

Yn ôl Arolwg Chwaraeon Ysgol ddiweddaraf Chwaraeon Cymru mae mwy o blant Ynys Môn yn cymryd rhan mewn chwaraeon tri neu fwy o weithiau'r wythnos na sydd ar draws Cymru.

**Yn 2018 roedd bron i 56% o ddisgyblion Môn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon tri neu fwy o weithiau yr wythnos,** i gymharu gyda 48% yng Nghymru.



**56%**

**o blant yn cymryd rhan mewn chwaraeon 3+ gwaith yr wythnos**


Erbyn hyn mae darlun tebyg ar gyfer oedolion Ynys Môn. Yn 2016 roedd 28% o bobl yn cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos yn Ynys Môn a 29% ar draws Cymru, erbyn 2019 fe gynyddodd y nifer yn Ynys Môn i 34% i gymharu gyda 32% ar gyfer Cymru gyfan.

Mae amser teithio cyhoeddus a preifat dwyffordd i gyfleuster chwaraeon yn uwch yn Ynys Môn na Chymru, gydag amser cyfartalog o 70 munud a 13 munud i gymharu gyda 55 munud a 10 munud yn y drefn honno. Mae pob ardal o fewn Lligwy a Twrcelyn gydag amser teithio cyhoeddus dwyffordd hirach nag amser cyfartalog Môn, heblaw am Porth Amlwch sydd yn is. Mae amser teithio preifat cyfartalog hefyd yn hirach yn rhan fwyaf o ardaloedd Lligwy a Twrcelyn, heblaw am Llaneilian, Porth Amlwch ac Amlwch Wledig.

# Amser hamdden

Mae amser cyfartalog teithio dwyffordd cyhoeddus a preifat i lyfrgell gyhoeddus yn uwch yn Ynys Môn na Chymru gyfan, gydag amser cyfartalog o 53 munud a 13 munud i gymharu gyda 45 munud a 10 munud.

Mae amser cyfartalog teithio dwyffordd cyhoeddus i lyfrgell gyhoeddus yn is o fewn nifer o ardaloedd Lligwy a Twrcelyn nag amser Môn, gan gynnwys Porth Amlwch, Brynteg, Llanbadrig a Llanbedrgoch ond



yn hirach mewn rhai ardaloedd gan gynnwys Llaneilian a Llanddyfnan sydd rhannol o fewn ardal Lligwy a Twrcelyn. Mae amser teithio preifat Porth Amlwch a Llanbadrig yn rhai o'r byrraf ar yr ynys.




Mae ffigyrau amser hamdden ar gael ar gyfer y cyfnod cyn y pandemig. Roedd **66% o oedolion yn Ynys Môn wedi mynychu digwyddiad celfyddydol yn ystod y flwyddyn 2019-20.** Mae hyn yn debyg i Wynedd ac ychydig yn is na weddill Cymru.

Yn 2016-17 roedd 68% o oedolion Ynys Môn yn datgan eu bod wedi mynychu mannau hanesyddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ffigwr yma yn uwch na Wynedd a Chymru gyfan le gwelwyd 47% a 58% yn datgan eu bod wedi mynychu yn y drefn honno.

Mae effaith y pandemig ar y celfyddydau a diwylliant yn amlwg, gyda theatr a sinemau yn gorfod cau dros gyfnod y clo a chyfyngiadau yn y niferoedd sy'n cael mynychu digwyddiad wedi hynny. Fodd bynnag, nid oedd ffigurau dibynadwy fesul ardal leol i fesur hyn ar gael.

# Mannau gwyrdd

Mae cysylltiad rhwng llesiant diwylliannol a threulio amser mewn mannau gwyrdd a natur, ac mae agosatrwydd at fan gwyrdd naturiol yn un ffurf o asesu amgylchedd ffisegol ardal.

Mae sgôr ar gyfer agosatrwydd at Fan Gwyrdd Naturiol Hygyrch yn is ar gyfer Ynys Môn na Chymru gyfan, sef 65% i gymharu gyda 77%, ac yn amrywiol iawn o fewn ardal Lligwy a Twrcelyn. Mae gan ardal Brynteg un o sgorau isaf Môn, sef 23%, lle mae gan ardal Porth Amlwch, Llanbadrig a Moelfre sgorau llawer uwch na Môn sef 93%, 89% a 79% yn y drefn honno.

"Diffyg darpariaeth i bobl anabl gael mynediad i'r llwybr arfordirol neu'r llwybrau troed." (Unigolyn o Lligwy a Twrcelyn, Arolwg Llesiant Môn)



## AM FWY O WYBODAETH...

www.LlesiantGwyneddaMon.org
post@llesiantgwyneddamon.org
01766 771000
Gofynnwch am Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn

This page is intentionally left blank

# EICH ARDAL CHI BETH SY'N BWYSIG?

## ARDAL AETHWY A SEIRIOL



ASESIAD LLESIANT GWYNEDD A MÔN
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

2021

## Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i rym ar y 1af o Ebrill 2016. Pwrpas y ddeddf yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r ddeddf wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (y Bwrdd) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio efo'i gilydd i greu gwell dyfodol i bobl Cymru.

Ar gyfer Gwynedd a Môn mae'r ddau Fwrdd wedi dod at ei gilydd i gydweithio, ac mae'n bartneriaeth sy'n cynnwys y cynghorau sir, y gwasanaeth tân ac achub, y gwasanaeth iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â phartneriaid eraill o'r sector gyhoeddus a'r trydydd sector.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi rhannu'r ardal gyfan yn 14 o ardaloedd llai. Mae gwaith ymchwil wedi cael ei wneud ar ran y Bwrdd ar bob un o'r 14 ardal er mwyn deall a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny. Yn ogystal â'r data sydd ar gael rydym hefyd eisiau gwybod beth rydych chi yn feddwl am eich ardal a'ch cymuned. Mae partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ymgysylltu'n helaeth efo'n cymunedau yn ystod y misoedd diwethaf ac rydym yn cymryd i ystyriaeth canfyddiadau'r sesiynau hynny a'r prif negeseuon sydd wedi eu cyfleu am gyflwr llesiant ein cymunedau.

Mae'n bwysig nodi hefyd bod y gwaith ymchwil wedi amlygu rhai bylchau data a bod rhai ffigyrau yn seiliedig ar ddata'r Cyfrifiad 2011, sydd bellach dros 10 mlynedd oed. Ein bwriad fydd diweddaru'r data sydd yn y llyfryn hwn yn rheolaidd er mwyn casglu'r prif negeseuon sydd wedi eu cyfleu am gyflwr llesiant ein cymunedau, ac yn sail felly i greu'r Cynllun Llesiant fydd yn arwain gwaith y Bwrdd dros y blynyddoedd sydd i ddod.


Mae'r gwaith yma yn adeiladu ar yr  Asesiad Llesiant a gynhaliwyd yn 2016 gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.  Fe arweiniodd yr asesiad yma at greu Cynllun Llesiant sydd wedi bod yn arwain gwaith y Bwrdd hyd yma. Ers yr asesiad diwethaf mae ein cymunedau wedi wynebu newidiadau sylweddol yn sgìl Brexit ac yn fwy diweddar y pandemig Covid-19. Mae delio â'r argyfwng wedi amlygu pwysigrwydd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y sector gwirfoddol a chyhoeddus i'n cymunedau, a phwysigrwydd y cydweithio sydd rhyngddynt. Hefyd, mae'r argyfwng wedi rhoi'r chwydd wydr ar faterion a oedd yn bodoli eisoes yn ein cymunedau gan amlygu rhai pynciau fel tlodi a chyflogaeth, iechyd meddwl, ail gartrefi, twristiaeth ac unigedd.

Yn ogystal mae'r cyfnod wedi amlygu pwysigrwydd ein hamgylchedd sy'n greiddiol i iechyd a lles ein pobl a'n heconomi lleol, gan ddenu ymwelwyr i'r ardal. Wrth i ni edrych tuag at ddilyn llwybr gwyrddach allan o bandemig Covid-19, mae'n gyfle i ni ail edrych ar sut rydym yn defnyddio ein hasedau naturiol i fynd i'r afael â bygythiadau argyfyngau'r hinsawdd a natur.

Bydd yr Asesiad Llesiant yn rhoi sylw pellach i'r materion hyn sy'n bwysig i gymunedau ein hardaloedd.

**DYMA'R WYBODAETH RYDYM WEDI EI GASGLU AR ARDAL AETHWY A SEIRIOL, TYBED YDI HYN YN ADLEWYRCHIAD TEG O GYFLWR LLESIANT EICH ARDAL CHI?**

# POBLOGAETH



# Pwy yw pobl ardal Aethwy a Seiriol?

**Mae 12,573 o bobl yn byw yn ardal Aethwy a Seiriol** – mae hyn tua 18% o gyfanswm poblogaeth Ynys Môn.

**Mae disgwyl i boblogaeth Aethwy a Seiriol leihau 12% i 10,956 erbyn 2043.** Mae hyn yn wahanol i'r newid sydd yn cael ei ragdybio ar gyfer Ynys Môn lle mae disgwyl i'r boblogaeth aros yn eithaf cyson gyda lleihad o 0.7% rhwng 2019 a 2043.




Nid yw'r lleihad sydd yn cael ei ragdybio yn unffurf ar draws y boblogaeth. Mae disgwyl gweld cynnydd yn y boblogaeth 75 oed a hŷn, lle mae cynnydd o 36% yn cael ei ragdybio. Mae hyn yn cyd-fynd gyda ffigyrau Ynys Môn, lle mae disgwyl gweld y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth hefyd yn y grŵp oedran 75 oed a hŷn.

Mae disgwyl gweld lleihad ym mhob grŵp oedran arall yn Aethwy a Seiriol, gyda'r lleihad mwyaf (30%) yn cael ei ragdybio mewn plant o dan 15 oed ac oedolion 25-39 oed.

# Iaith

Yn ôl cyfrifiad 2011 **roedd 57% o bobl Aethwy a Seiriol yn gallu siarad Cymraeg** i gymharu gyda 60% oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2001. Mae'r ffigyrau hyn yn union yr un fath a rhai Ynys Môn am yr un cyfnod.




Mae ffigyrau mwyaf diweddar yn nodi bod 50% o bobl Ynys Môn yn defnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd, o'i gymharu â 10% yng Nghymru.

Yn ôl trigolion Aethwy a Seiriol, roedd byw mewn ardal gyfeillgar Gymreig yn nodwedd oedd yn gwneud yr ardal yn le braf i fyw. (Arolwg Llesiant Môn)

# AMGYLCHEDDOL



# Pa mor wyrdd yw'r ardal?




**Rhwng 2014/15 a 2020/21 fe gododd y canran o wastraff trefol wedi'i anfon i'w ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio yn Ynys Môn o 59.5% i 63%.** Mae hyn ychydig yn is na'r cynnydd o 60.2% i 65.1% a welwyd yng Nghymru gyfan dros yr un cyfnod.

Mae'r achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd i bob 1,000 o'r boblogaeth yn uwch yn Ynys Môn na Chymru gyfan, gyda 18.6 yn cael eu cofnodi ym Môn a 10.6 yng Nghymru yn 2019/2020.

# Pa mor lân yw'n strydoedd?

Mae glendid strydoedd yn cael ei archwilio yn flynyddol gan Cadw Cymru'n Daclus.

Yn 2019/20 fe gafodd 65 stryd yn Ynys Môn ei archwilio, ac roedd 97% o safon glendid uchel neu dderbyniol, hynny yw Gradd B neu uwch. Mae hyn yn debyg i ddata 2015/16 lle'r oedd 95% o strydoedd Môn o'r un safon.

**O fewn ardal Aethwy a Seiriol fe gafodd 13 stryd ei archwilio, ac fe wnaeth 92% o'r rhain dderbyn Gradd B neu uwch.** Mae hyn yr un canran a data'r ardal yn 2015.

92%

o strydoedd Aethwy a Seiriol yn cyrraedd safon glendid uchel neu dderbyniol



# Amgylchedd naturiol

## Corsydd Môn



Mae Ynys Môn yn meddu ar gyfoeth o safleoedd dynodedig a gwarchodedig sy'n rhychwantu'r môr, yr arfordir, corstir, aberoedd, rhostir a choetir. Mae'r rhain yn ardaloedd yn ardaloedd pwysig i ymwelwyr ac yn denu pobl i'r ardal.

Corsydd Môn yw rhai o'r gwlypdiroedd pwysicaf yn Ewrop, sef Cors Erddreiniog (y fwyaf), Cors Bodeilio a Chors Goch. Gyda'i gilydd maent yn rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig.

Amlygwyd y Prosiect Ffeniau am Byth fel cyfle i archwilio dull gwell o reoli cynefinoedd a mynediad at ffeniau Môn, gan gyd-weithio efo cymunedau a busnesau lleol.

Yn fyd-eang, mae mewndiroedd yn storio mwy o garbon na choedwigoedd glaw'r byd. Pan ystyrir bod mewndiroedd iach yn cyfrannu at lu o wasanaethau naturiol, fel dŵr glân a lleihau llifogydd, mae'r achos dros eu hadfer yn cryfhau.



## Coed a thir

Ychydig iawn o Ynys Môn sydd wedi'i gorchuddio gan goetiroedd, dim ond 4.3% ohoni o'i gymharu ag 14% ledled Cymru ar gyfartaledd.

Mae Ynys Môn o dan bwysau amaethyddol cymharol uchel. Amaethyddiaeth yw'r prif ddefnydd tir ar Fôn, gan gyfrif am oddeutu 92% o arwynebedd y tir ar yr ynys. Mae hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o oddeutu 88%.

"Heddychlon gyda sawl llwybr cylchol i fynd am dro yn yr ardal."
(Unigolyn o Aethwy a Seiriol, Arolwg Llesiant Môn)

# Gwydnwch ecosystemau

Mae bywyd gwyllt Cymru yn dirywio, gyda'r canfyddiadau diweddaraf yn dangos bod un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu. Yn 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng natur a galwodd am osod targedau i atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Ymysg yr heriau sy'n wynebu rhywogaethau yw diffyg tir pori, mewnbynnau maethol gwasgaredig yng nghefn gwlad, tir hanesyddol, a rheoli dŵr. Mae ansawdd y dŵr dan bwysau oherwydd effeithiau megis cyfoethogi maetholion, arferion rheoli tir dwys, gollyngiadau o ffynonellau carthffosiaeth a dŵr gwastraff a chloddio metel hanesyddol o Fynydd Parys.

Er hyn, mae'r wiwer goch a llygoden y dŵr yn ffynnu ar Ynys Môn.

# Newid hinsawdd a llifogydd

Mae'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur yn brif heriau sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Dros y ganrif ddiwethaf, mae'r tymheredd wedi cynyddu, mae lefelau'r môr wedi codi, ac mae patrymau tywydd wedi newid yn sylweddol.

Yng Ngogledd-orllewin Cymru ac awdurdod lleol Ynys Môn, mae yna nifer o gymunedau mewn perygl o lifogydd, fel y nodwyd gan Gofrestr Cymunedau mewn Perygl (2019).

Yn ôl Asesiad Perygl Llifogydd Cymru, yn Ynys Môn mae yna **2,826 o eiddo mewn perygl o lifogydd dŵr afonydd, môr ac arwyneb.**



**2,826**

**o dai Môn mewn perygl o lifogydd**

# Awyr iach

Mae crynodiad NO2 yn un modd o fesur ansawdd aer, ac mae'n cael ei gyfleu fel microgramau (µg) cyfartalog am bob m3. Yn 2019 roedd mesur cyfartalog o 5.1 µg/m$^3$ NO2 mewn lleoliadau anheddau preswyl yn Ynys Môn. Roedd hyn llawer is na mesur cyfartalog Cymru o 9.2 µg/m$^3$.




# CYMDEITHASOL



# Iechyd da?



**Yn ardal Aethwy a Seiriol yn 2020-2021 roedd amser ymateb ambiwlans ar gyfer galwad 'coch', hynny yw y math mwyaf difrifol, ar gyfartaledd 09:14 munud.** Mae hyn wedi codi o 07:40 munud yn 2018-2019 a 07:48 munud yn 2019-2020.




Mae amser teithio cyhoeddus a preifat dwyffordd i *feddygfa* yn uwch yn Ynys Môn na Chymru, gydag amser cyfartalog o 47 munud a 8 munud  i gymharu gyda 40 munud a 7 munud.

O fewn ardal Aethwy a Seiriol mae amrywiaeth o amseroedd teithio gyda rhai yn fyrrach a rhai yn hirach nag amser cyfartalog Môn. Mae gan ardal Cadnant a Braint rhai o amseroedd cyfartalog teithio cyhoeddus a preifat dwyffordd byrraf ar yr ynys sef 22 munud a 4 munud ac 23 a 3 munud yn y drefn honno. Ar y llaw arall, mae gan Pentraeth, sydd rhannol o fewn ardal Aethwy a Seiriol, un o'r amseroedd preifat hiraf sef 16 munud.

Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer teithio i *fferyllfa* lle mae teithio dwyffordd cyhoeddus cyfartalog yn cymryd 48 munud a preifat 10 munud i gymharu gyda 38 munud a 7 munud ar gyfer Cymru. Unwaith eto mae amrywiaeth o fewn ardal Aethwy a Seiriol gyda rhai yn hirach a byrrach nag amser cyfartalog Môn, ac mae gan Biwmaris, Braint a Cadnant rhai o amseroedd teithio dwyffordd preifat byrraf yr ynys.

Mae ffigyrau iechyd poblogaeth bellach ar gael ar gyfer Ynys Môn, i roi syniad o gyflwr a phatrymau iechyd y sir.

**Mae disgwyliad oes dyn adeg ei eni yn Ynys Môn yn 79.3 oed**, tra bod **disgwyliad oes merch adeg ei geni yn 82.9 oed.** Mae hyn ychydig yn uwch na ffigyrau Cymru lle bod disgwyliad oes dyn adeg ei eni yn 78.3 a merch 82.1.

Yn ôl ffigyrau 2017/18-2019/20 mae 37% o oedolion 16 i 64 gyda phwysau iach yn Ynys Môn, mae hyn yn debyg i ganran Cymru sef 38%. Mae hyn yn codi i 46% mewn oedolion 65 oed a hŷn yn Ynys Môn, sydd yn uwch na chanran Cymru o 38%, ac yn y canran uchaf o bob awdurdod lleol yng Nghymru.






Ffactorau eraill sy'n effeithio ar ein hiechyd yw ysmygu ac yfed alcohol. **Mae 18% o bobl 16 oed neu'n hŷn ym Môn yn dweud eu bod yn ysmygu,** canran tebyg iawn i Gymru gyfan le mae ychydig dros 17% yn ysmygu. Mae 14% o oedolion Ynys Môn yn nodi eu bod yn yfed mwy na 14 uned o alcohol yr wythnos, ffigwr is na'r 19% o Gymru gyfan.

Mae iechyd meddwl yn rhan bwysig o lesiant ac iechyd. Mae data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru o 2018-19 sydd yn nodi lles meddyliol ymysg oedolion (16 a hŷn) ar ffurf sgoriau safonedig oed. 51.8 yw sgôr Ynys Môn sydd ychydig bach yn uwch, ond yn gymharol, gyda sgôr Cymru sef 51.4.

Mae data gan Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2018/19-2019/20 yn nodi fod 10% o oedolion Ynys Môn gydag anhwylderau'r meddwl, yr un canran a gweddill Cymru.

# Iechyd plant a pobl ifanc

Mae ystadegau iechyd sbesiffig ar gyfer plant hefyd ar gael ar gyfer Ynys Môn.

Mae'r canran genedigaethau unigol byw pwysau geni isel yn is yn Ynys Môn na Chymru gyfan, gyda chanran o 4.9% a 5.9% yn y drefn honno. Mae'r canran ar gyfer Môn wedi aros yn gyson rhwng 2017 a 2019.

Mae canran yr holl blant wedi eu himiwneiddio'n llawn yn ôl yr amserlen erbyn pedair oed wedi cynyddu yn Ynys Môn o 90.4% yn 2017 i 93.7% yn 2019. Mae'r canran yma wedi bod yn gyson uwch na chanran Cymru gyfan le cafodd 88% eu himiwneiddio'n llawn yn 2019.


**Mae ffigyrau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2018/19 yn dangos yn Ynys Môn mae 29% o blant 4-5 oed dros eu pwysau neu yn ordew** – sydd ychydig bach yn uwch na ffigwr Cymru o 27%.

Yn ôl data o 2017/18 mae tua 8% o blant 11-16 oed Ynys Môn yn yfed alcohol a 5% yn ysmygu. Mae hyn yn cymharu gyda 8% a bron i 4% ar gyfer Cymru gyfan.



# Cadw'n ddiogel





**23** achos tân yn ardal Aethwy a Seiriol

Mae cyfradd troseddau fesul 1,000 person (16 a hŷn) ardal Aethwy a Seiriol wedi codi ers yr asesiad llesiant diwethaf, o 68 yn 2015 i 73 yn 2020. Mae hyn yn is na cyfradd Mon yn 2020, sef 93.


Mae 61% o bobl Ynys Môn yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu, ffigwr llawer uwch na'r 46% ar gyfer Cymru gyfan.

**Ar gyfartaledd rhwng 2017/18-2019/20 roedd 5 achos tan bwriadol y flwyddyn yn ardal Aethwy a Seiriol,** mae hyn yr un nifer a nodwyd yn yr asesiad llesiant diwethaf. **Yn yr un cyfnod roedd 18 tan damweiniol ar gyfartaledd,** mae hyn yn is na'r nifer a nodwyd yn yr asesiad llesiant diwethaf.

Mae'r achosion tan bwriadol a damweiniol cyfartalog blynyddol yn Ynys Môn wedi lleihau ers yr asesiad llesiant diwethaf.

# Cadw mewn cysylltiad

Yn ôl Cyfrifiad 2011, **mae gan 85% o gartrefi yn ardal Aethwy a Seiriol gar neu fan** – mae hyn ychydig yn uwch o gymharu â gweddill Môn, ble mae 82% o gartrefi gyda char neu fan.



**85%** o gartrefi gyda char neu fan yn ardal Aethwy a Seiriol

Mae amser teithio cyhoeddus dwyffordd i siop fwyd yn uwch yn Ynys Môn na Chymru gyfan, gydag amser cyfartalog o 38 munud i gymharu gyda 32 munud. Mae amser teithio preifat dwyffordd yn debyg ar gyfer Ynys Môn a Chymru gydag amser cyfartalog o 5 munud a 4 munud yn y drefn honno.

Roedd pryderon ynghylch parcio, cyflwr ffyrdd a'r pellter i siopau a mwynderau lleol yn themâu a godwyd fel pryderon gan drigolion. Fe'u nodwyd fel y pethau oedd ag effaith negyddol ar y ffordd yr oedd pobl yn teimlo am ardal Aethwy a Seiriol. (Arolwg Llesiant Môn ac Arolwg Cynllunio Lle)

> "Mae'r ffyrdd yn erchyll ac mae angen eu hail-wneud fel mater o frys."
> (Unigolyn o Aethwy a Seiriol, Arolwg Llesiant Môn)




**Mae ffigyrau o 2019 yn dangos fod gan Ynys Môn ganran uwch o ddiffyg argaeledd canrannol band eang ar 30Mb/e na Chymru gyfan, sef 10% i gymharu gyda 7%.**


Yn 2019 roedd bron 12% o bobl Ynys Môn yn unig, mae hyn wedi gostwng ers 2016 le'r oedd 16% yn unig. Mae'r ffigwr yma yn is na Chymru gyfan lle'r oedd 15% yn unig yn 2019.

# Helpu'n gilydd

Yn ôl y Cyfrifiad yn 2011 mae bron i 11% o'r boblogaeth yn ardal Aethwy a Seiriol yn rhoi o leiaf un awr yr wythnos o ofal di-dâl. Mae'r ffigwr yma yn debyg i ardaloedd eraill yng Nghymru ac Ynys Môn.

Mae ffigyrau cyn-pandemig yn dangos bod y canran o bobl sy'n gwirfoddoli yn Ynys Môn wedi disgyn rhywfaint o 31% yn 2016 i 28% yn 2019 a gwelwyd gostyngiad tebyg yng Nghymru o 28% yn 2016 i 26%, gyda llai o bobl yn gwirfoddoli ar draws Cymru na Môn. Mae'n debyg fod Covid-19 wedi golygu cynnydd yn y nifer sy'n gwirfoddoli, fodd bynnag, nid oedd data fesul ardal ar gael.

Mae cyfeillgarwch a'r ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned hefyd wedi cael ei adnabod gan drigolion fel un o'r prif nodweddion da am yr ardal. (Arolwg Llesiant Môn)



# ECONOMAIDD



# Tai ac ail gartrefi

**Yn 2020, roedd canolrif pris tŷ yn ardal Aethwy a Seiriol tua £225,000, sef cynnydd o £35,000 ers yr asesiad diwethaf yn 2015.** Dyma hefyd y canolrif pris uchaf o holl ardaloedd Môn.




Mae canolrif incwm teuluoedd Aethwy a Seiriol tua £34,012 ond mae angen o leiaf £48,000 i fforddio prynu tŷ pris lefel mynediad i'r farchnad. Mae hyn yn golygu bod 68% o aelwydydd Aethwy a Seiriol wedi eu prisio allan o'r farchnad. Mae hyn yn uwch na ffigwr Môn (62%) a Chymru sy'n 56%. Fodd bynnag, mae'n debyg nad yw ffigyrau 2020 yn dangos llawn effaith y pandemig ar brisiau tai yr ardal, ac bydd yr rhain yn cael ei diweddaru pan fydd y data ar gael.

Pan ofynnwyd i drigolion ardal Aethwy a Seiriol am y newidiadau yr hoffent eu gweld dros y 10 i 15 mlynedd nesaf, y brif thema i godi oedd bod angen rhagor o dai sy'n fforddiadwy i bobl leol. (Arolwg Llesiant Môn)

> "Stopio gwerthu tai i bobl o du allan i'r ardal/twristiaid/prynu i osod a chartrefi gwyliau. Dyma ddylai fod yn brif flaenoriaeth y Cyngor."
> (Unigolyn o Aethwy a Seiriol, Arolwg Llesiant Môn)

# Beth yw gwaith pobl Aethwy a Seiriol?



Mae data'r Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 28% o bobl sydd mewn gwaith, ond heb gymwysterau, yn gweithio yn y galwedigaethau elfennol yn ardal Aethwy a Seiriol e.e. glanhau, gweithio mewn ffatri, casglu gwastraff, gweithio ar fferm – mae hyn yn dilyn patrwm tebyg ar draws yr ynys. Hefyd, o ran y rhai sydd heb gymhwyster, mae gan ardal Aethwy a Seiriol y canran uchaf sy'n gweithio fel rheolwyr a chyfarwyddwyr (11%).

Y crefftau medrus sy'n cyflogi'r mwyaf o weithwyr yn yr ardal hon, sef 20% - mae hyn yn batrwm ar draws Môn a Gwynedd. Mae'r 38% o bobl sydd â gradd neu gyfatebol yn gweithio yn y maes proffesiynol, mae hyn hefyd yn debyg i'r patrwm ar draws y ddwy sir. Nid oes data dibynadwy ar gael am feysydd gwaith fesul ardal leol wedi 2011, a gwelir felly bwlch data sylweddol.

# Cyflog

**Mae canolrif cyflog wythnosol yn etholaeth Ynys Môn tua £506 yr wythnos.** Mae'r swm yma 27% yn uwch na Gwynedd (£386 yr wythnos), a 8% yn uwch na Chymru gyfan (£469 yr wythnos).

Yn Ynys Môn mae cyflogau merched 6% yn uwch na chyflog dynion yn yr ardal. Mae hyn yn wahanol iawn i'r sefyllfa yng Ngwynedd, lle mae cyflogau merched 32% yn llai na chyflog dynion a Chymru 31% yn llai.




**£506** canolrif cyflog wythnosol

# Diweithdra

Mae 80% o drigolion Ynys Môn rhwng 16 a 64 oed mewn gwaith neu addysg, sy'n uwch na Chymru, sef 76%.

**Ar gyfartaledd, roedd canran y bobl 16-64 oed a hawliodd Lwfans Ceisio Gwaith yn ardal Aethwy a Seiriol rhwng Tachwedd 2020 a Hydref 2021 yn 4.2%,** sy'n is nag Ynys Môn am yr un cyfnod (5.3%).

Roedd y ffigwr ar ei uchaf ym mis Mawrth 2021, (5%) ac ar ei isaf ym mis Hydref 2021 (3%), gan awgrymu bod cyfnod clo Covid-19 wedi cael effaith ar y ffigurau.



**4.2%** yn hawlio lwfans ceisio gwaith

# Busnesau



**59%** o gwmnïau yn goroesi 3+ blwyddyn

Yn 2020, roedd cyfanswm o 2,155 o fusnesau wedi cofrestru yn Ynys Môn. Mae cyfradd busnesau newydd sy'n cychwyn yn Ynys Môn yn uwch na Gwynedd, ond yn llai na Gogledd Cymru a Chymru.

**Mae 59% o gwmnïau yn Ynys Môn yn aros mewn busnes am o leiaf tair blynedd neu fwy.** Mae hyn yn uwch na Chymru sydd ar 54%.

Mae'r gyfradd o'r busnesau sy'n methu hefyd yn is yn Ynys Môn o'i gymharu â Gogledd Cymru a Chymru.

# Sgiliau am oes



O 2018/19 mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno set newydd o fesurau perfformiad sy'n cynnwys y sgôr pwyntiau Llythrennedd, y sgôr pwyntiau Rhifedd a'r sgôr pwyntiau Gwyddoniaeth. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd cymharu o flwyddyn i flwyddyn dros y blynyddoedd diwethaf a nid oes dadansoddiad fesul sir ers 2018/19.

Fodd bynnag, mae ffigyrau ar gael am y nifer o adawyr ysgol blwyddyn 11 y gwyddys sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Yn Ynys Môn mae'r ganran am 2020 yn 4.7%, sy'n gynnydd sylweddol o 2018, pan oedd y ffigwr yn 1.1%. Mae'r ganran yma hefyd yn uwch na ffigwr Cymru gyfan ar gyfer 2020 sef 1.7%.

# Yr arian yn ein poced

**Mae incwm sydd ar gael i'w wario ar ôl costau talu am gartref a threthi gan bobl yn Ynys Môn, yn £17,529 y pen y flwyddyn,** sydd yn £266 yn fwy na Chymru gyfan.




Yn ardal Aethwy a Seiriol, mae 11% o ddisgyblion ysgol gynradd yn hawlio prydau ysgol am ddim. Dyma'r canran isaf o holl ardaloedd Ynys Môn. Mae'r canran o ddisgyblion ysgol uwchradd Aethwy a Seiriol sy'n hawlio prydau ysgol am ddim yn gostwng i 9%, sydd unwaith eto y canran isaf o holl ardaloedd Ynys Môn.

Yn ôl ffigyrau cyn-bandemig, mae 16% o aelwydydd yn ardal Aethwy a Seiriol mewn tlodi tanwydd, sy'n is nag Ynys Môn (18%), ond yn uwch na Chymru (14%).


Fodd bynnag, gyda'r cynnydd diweddar mewn prisiau tanwydd mae'r ffigwr hwn yn debygol o fod yn llawer uwch na'r amcangyfrif yn 2018, ond yn anffodus roedd dod o hyd i ddata dibynadwy yn y maes hwn yn broblem.

# DIWYLLIANNOL



# Cadw'n heini

Yn ôl Arolwg Chwaraeon Ysgol ddiweddaraf Chwaraeon Cymru mae mwy o blant Ynys Môn yn cymryd rhan mewn chwaraeon tri neu fwy o weithiau'r wythnos na sydd ar draws Cymru.





**Yn 2018 roedd bron i 56% o ddisgyblion Môn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon tri neu fwy o weithiau yr wythnos,** i gymharu gyda 48% yng Nghymru.

Erbyn hyn mae darlun tebyg ar gyfer oedolion Ynys Môn. Yn 2016 roedd 28% o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos yn Ynys Môn a 29% ar draws Cymru, erbyn 2019 fe gynyddodd y nifer yn Ynys Môn i 34% i gymharu gyda 32% ar gyfer Cymru gyfan.

Mae amser teithio cyhoeddus a preifat dwyffordd i gyfleuster chwaraeon yn uwch yn Ynys Môn na Chymru, gydag amser cyfartalog o 70 munud a 13 munud i gymharu gyda 55 munud a 10 munud yn y drefn honno. Unwaith eto mae amrywiaeth i'w weld o fewn yr ardal gyda rhai yn hirach a rhai yn fyrrach nag amser cyfartalog Môn, ac mae gan Biwmaris un o'r amseroedd teithio cyfartalog cyhoeddus preifat dwyffordd byrraf ar yr ynys sef 26 munud a 4 munud yn y drefn honno. Mae gan Tysilio hefyd un o'r amseroedd cyhoeddus byrraf ar yr ynys sef 27 munud.

# Amser hamdden

Mae amser cyfartalog teithio dwyffordd cyhoeddus a preifat i lyfrgell gyhoeddus yn uwch yn Ynys Môn na Chymru gyfan, gydag amser cyfartalog o 53 munud a 13 munud i gymharu gyda 45 munud a 10 munud.



Mae amrywiaeth o fewn ardal Aethwy a Seiriol gyda rhai yn hirach a rhai yn fyrrach na amser cyfartalog Mon, a mae gan Cadnant un o'r amseroedd teithio cyfartalog cyhoeddus a preifat dwyffordd byrraf ar yr ynys sef 20 munud a 3 munud yn y drefn honno.




Mae ffigyrau amser hamdden ar gael ar gyfer y cyfnod cyn-bandemig. **Roedd 66% o oedolion yn Ynys Môn wedi mynychu digwyddiad celfyddydol yn ystod y flwyddyn 2019-20.** Mae hyn yn debyg i Wynedd ac ychydig yn is na weddill Cymru. Yn 2016-17 roedd 68% o oedolion Ynys Môn yn datgan eu bod wedi mynychu mannau hanesyddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ffigwr yma yn uwch na Wynedd a Chymru gyfan gyda 47% a 58% yn datgan eu bod wedi mynychu yn y drefn honno.


Mae effaith y pandemig ar y celfyddydau a diwylliant yn amlwg, gyda theatr a sinemau yn gorfod cau dros gyfnod y clo a chyfyngiadau yn y niferoedd sy'n cael mynychu digwyddiad wedi hynny. Fodd bynnag, nid oedd ffigurau dibynadwy fesul ardal leol i fesur hyn ar gael.

# Mannau gwyrdd

Mae cysylltiad rhwng llesiant diwylliannol a threulio amser mewn mannau gwyrdd a natur, ac mae agosatrwydd at fan gwyrdd naturiol yn un ffurf o asesu amgylchedd ffisegol ardal.

Mae sgôr ar gyfer agosatrwydd at Fan Gwyrdd Naturiol Hygyrch yn is ar gyfer Ynys Môn na Chymru gyfan, sef 65% i gymharu gyda 77%. O fewn Aethwy a Seiriol mae amrywiaeth o sgoriau, gan gynnwys Gwyngyll sydd gyda un o'r sgoriau isaf ar yr ynys sef 35%, a Cadnant sydd gyda'r sgôr uchel o 94%.

Roedd cael digon o lefydd awyr agored a llwybrau er mwyn gallu mynd am dro yn rhai o'r prif bethau oedd trigolion Aethwy a Seiriol yn teimlo oedd yn cyfrannu at eu llesiant. (Arolwg Llesiant Môn ac Arolwg Cynllunio Lle)




## AM FWY O WYBODAETH...

www.LlesiantGwyneddaMon.org
post@llesiantgwyneddamon.org
01766 771000
Gofynnwch am Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn

This page is intentionally left blank

# EICH ARDAL CHI BETH SY'N BWYSIG?

## ARDAL BRO ABERFFRAW A BRO RHOSYR



ASESIAD LLESIANT GWYNEDD A MÔN
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

2021

## Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i rym ar y 1af o Ebrill 2016. Pwrpas y ddeddf yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r ddeddf wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (y Bwrdd) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio efo'i gilydd i greu gwell dyfodol i bobl Cymru.

Ar gyfer Gwynedd a Môn mae'r ddau Fwrdd wedi dod at ei gilydd i gydweithio, ac mae'n bartneriaeth sy'n cynnwys y cynghorau sir, y gwasanaeth tân ac achub, y gwasanaeth iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â phartneriaid eraill o'r sector gyhoeddus a'r trydydd sector.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi rhannu'r ardal gyfan yn 14 o ardaloedd llai. Mae gwaith ymchwil wedi cael ei wneud ar ran y Bwrdd ar bob un o'r 14 ardal er mwyn deall a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny. Yn ogystal â'r data sydd ar gael rydym hefyd eisiau gwybod beth rydych chi yn feddwl am eich ardal a'ch cymuned. Mae partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ymgysylltu'n helaeth efo'n cymunedau yn ystod y misoedd diwethaf ac rydym yn cymryd i ystyriaeth canfyddiadau'r sesiynau hynny a'r prif negeseuon sydd wedi eu cyfleu am gyflwr llesiant ein cymunedau.

Mae'n bwysig nodi hefyd bod y gwaith ymchwil wedi amlygu rhai bylchau data a bod rhai ffigyrau yn seiliedig ar ddata'r Cyfrifiad 2011, sydd bellach dros 10 mlynedd oed. Ein bwriad fydd diweddaru'r data sydd yn y llyfryn hwn yn rheolaidd er mwyn casglu'r prif negeseuon sydd wedi eu cyfleu am gyflwr llesiant ein cymunedau, ac yn sail felly i greu'r Cynllun Llesiant fydd yn arwain gwaith y Bwrdd dros y blynyddoedd sydd i ddod.


Mae'r gwaith yma yn adeiladu ar yr Asesiad Llesiant a gynhaliwyd yn 2016 gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Fe arweiniodd yr asesiad yma at greu Cynllun Llesiant sydd wedi bod yn arwain gwaith y Bwrdd hyd yma. Ers yr asesiad diwethaf mae ein cymunedau wedi wynebu newidiadau sylweddol yn sgìl Brexit ac yn fwy diweddar y pandemig Covid-19. Mae delio â'r argyfwng wedi amlygu pwysigrwydd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y sector gwirfoddol a chyhoeddus i'n cymunedau, a phwysigrwydd y cydweithio sydd rhyngddynt. Hefyd, mae'r argyfwng wedi rhoi'r chwydd wydr ar faterion a oedd yn bodoli eisoes yn ein cymunedau gan amlygu rhai pynciau fel tlodi a chyflogaeth, iechyd meddwl, ail gartrefi, twristiaeth ac unigedd.

Yn ogystal mae'r cyfnod wedi amlygu pwysigrwydd ein hamgylchedd sy'n greiddiol i iechyd a lles ein pobl a'n heconomi lleol, gan ddenu ymwelwyr i'r ardal. Wrth i ni edrych tuag at ddilyn llwybr gwyrddach allan o bandemig Covid-19, mae'n gyfle i ni ail edrych ar sut rydym yn defnyddio ein hasedau naturiol i fynd i'r afael â bygythiadau argyfyngau'r hinsawdd a natur.

Bydd yr Asesiad Llesiant yn rhoi sylw pellach i'r materion hyn sy'n bwysig i gymunedau ein hardaloedd.

DYMA'R WYBODAETH RYDYM WEDI EI GASGLU AR ARDAL BRO ABERFFRAW A BRO RHOSYR, TYBED YDI HYN YN ADLEWYRCHIAD TEG O GYFLWR LLESIANT EICH ARDAL CHI?

# POBLOGAETH



# Pwy yw pobl ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr?

**Mae 8,819 o bobl yn byw yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr** – mae hyn tua 13% o gyfanswm poblogaeth Ynys Môn.

**Mae disgwyl i boblogaeth Bro Aberffraw a Bro Rhosyr leihau ychydig dros 1% i 8,628 erbyn 2043.** Mae hyn yn eithaf tebyg i'r hyn sydd yn cael ei ragdybio ar gyfer Ynys Môn lle mae disgwyl i'r boblogaeth aros yn eithaf cyson gyda lleihad o 0.7% rhwng 2019 a 2043.





Nid yw'r newid sydd yn cael ei ragdybio yn unffurf ar draws y boblogaeth. Mae disgwyl gweld cynnydd yn y boblogaeth 65-74 oed a 75 oed a hŷn (cynnydd o 5% a 66% yn y drefn honno). Mae hyn yn debyg i ffigyrau Ynys Môn, lle mae disgwyl i'r boblogaeth 65-74 oed aros yn eithaf cyson a'r boblogaeth 75 oed a hŷn gynyddu o 48%.

Mae disgwyl i weddill grwpiau oedran Bro Aberffraw a Bro Rhosyr leihau, gyda'r lleihad mwyaf o 15% yn cael ei ragdybio yn y boblogaeth o dan 15 oed a 40-64 oed.

# Iaith

Yn ôl cyfrifiad 2011 roedd **67% o bobl Bro Aberffraw a Bro Rhosyr yn gallu siarad Cymraeg**. Mae hyn wedi gostwng o 78% yn 1981.

Roedd mwy o bobl yn gallu siarad Cymraeg yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr nag oedd yn Ynys Môn gyfan, lle'r oedd 57% yn gallu siarad Cymraeg yn 2011.




Mae ffigyrau mwyaf diweddar yn nodi bod 50% o bobl Ynys Môn yn defnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd, o'i gymharu â 10% yng Nghymru.

# AMGYLCHEDDOL



# Pa mor wyrdd yw'r ardal?




**Rhwng 2014/15 a 2020/21 fe gododd y canran o wastraff trefol wedi'i anfon i'w ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio yn Ynys Môn o 59.5% i 63%.** Mae hyn ychydig yn is na'r cynnydd o 60.2% i 65.1% a welwyd yng Nghymru gyfan dros yr un cyfnod.

Mae'r achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd i bob 1,000 o'r boblogaeth yn uwch yn Ynys Môn na Chymru gyfan, gyda 18.6 yn cael eu cofnodi ym Môn a 10.6 yng Nghymru yn 2019/2020.

# Pa mor lân yw'n strydoedd?

Mae glendid strydoedd yn cael ei archwilio yn flynyddol gan Cadw Cymru'n Daclus.

Yn 2019/20 fe gafodd 65 stryd yn Ynys Môn ei archwilio, ac roedd 97% o safon glendid uchel neu dderbyniol, hynny yw Gradd B neu uwch. Mae hyn yn debyg i ddata 2015/16 lle'r oedd 95% o strydoedd Môn o'r un safon.

**O fewn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr cafodd 10 stryd ei archwilio, ac fe wnaeth 90% o'r rhain dderbyn Gradd B neu uwch.** Mae hyn yn debyg iawn i ddata'r ardal yn 2015.



# Amgylchedd naturiol

## Gwarchodfa Natur a Choedwig Genedlaethol Niwbwrch



Mae Gwarchodfa Natur a Choedwig Genedlaethol Niwbwrch yn safle rhagorol a chymhleth sy'n rhychwantu rheoli coedwigaeth, cynhyrchu pren a thwyni tywod o bwys rhyngwladol.

Yn Niwbwrch mae un o'r safleoedd twyni tywod mwyaf yn Ewrop. Mae safleoedd, megis Tywyn Niwbwrch, wedi eu dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig, yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac yn un o'r Gwarchodfeydd Natur Genedlaethol oherwydd eu nodweddion daearyddol a biolegol unigryw. Yma mae cynefin twyni a morfeydd heli, ynghyd â phresenoldeb trigfan bwysig i adar hirgoes ac adar dŵr yn ystod y gaeaf.

Dyma un o leoliadau fwyaf poblogaidd ar yr Ynys ac yn denu oddeutu 450,000 o ymwelwyr y flwyddyn, sydd yn golygu mwy o bwysau ar adnoddau a chostau cynnal a chadw sylweddol.



## Corsydd Môn

Corsydd Môn yw rhai o'r gwlypdiroedd pwysicaf yn Ewrop, sef Cors Erddreiniog (y fwyaf), Cors Bodeilio a Chors Goch. Gyda'i gilydd maent yn rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig. Amlygwyd y Prosiect Ffeniau am Byth fel cyfle i archwilio dull gwell o reoli cynefinoedd a mynediad at ffeniau Môn, gan gyd-weithio efo cymunedau a busnesau lleol.

Yn fyd-eang, mae mewndiroedd yn storio mwy o garbon na choedwigoedd glaw'r byd. Pan ystyrir bod mewndiroedd iach yn cyfrannu at lu o wasanaethau naturiol, fel dŵr glân a lleihau llifogydd, mae'r achos dros eu hadfer yn cryfhau.

## Tir amaethyddol

Mae Ynys Môn o dan bwysau amaethyddol cymharol uchel. Amaethyddiaeth yw'r prif ddefnydd tir ar Fôn, gan gyfrif am oddeutu 92% o arwynebedd y tir ar yr ynys. Mae hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o oddeutu 88%.

# Gwydnwch ecosystemau

Mae bywyd gwyllt Cymru yn dirywio, gyda’r canfyddiadau diweddaraf yn dangos bod un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu. Yn 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng natur a galwodd am osod targedau i atal a gwrthdroi’r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Ymysg yr heriau sy’n wynebu rhywogaethau yw diffyg tir pori, mewnbynnau maethol gwasgaredig yng nghefn gwlad, tir hanesyddol, a rheoli dŵr. Mae ansawdd y dŵr dan bwysau oherwydd effeithiau megis cyfoethogi maetholion, arferion rheoli tir dwys, gollyngiadau o ffynonellau carthffosiaeth a dŵr gwastraff a chloddio metel hanesyddol o Fynydd Parys.

Er hyn, mae’r wiwer goch a llygoden y dŵr yn ffynnu ar Ynys Môn.

# Newid hinsawdd a llifogydd

Mae’r argyfwng yn yr hinsawdd a natur yn un o’r prif heriau sy’n wynebu cenedlaethau’r dyfodol. Dros y ganrif ddiwethaf, mae’r tymheredd wedi cynyddu, mae lefelau’r môr wedi codi, ac mae patrymau tywydd wedi newid yn sylweddol.

Yng Ngogledd-orllewin Cymru ac awdurdod lleol Ynys Môn, mae yna nifer o gymunedau mewn perygl o lifogydd, fel y nodwyd gan Gofrestr Cymunedau mewn Perygl (2019).

Yn ôl Asesiad Perygl Llifogydd Cymru, yn Ynys Môn mae yna **2,826 o eiddo mewn perygl o lifogydd dŵr afonydd, môr ac arwyneb.**



**2,826**

**o dai Môn mewn perygl o lifogydd**

# Awyr iach

Mae crynodiad NO2 yn un modd o fesur ansawdd aer, ac mae’n cael ei gyfleu fel microgramau (µg) cyfartalog am bob m3. Yn 2019 roedd mesur cyfartalog o 5.1 $\mu g/m^3$ NO2 mewn lleoliadau anheddau preswyl yn Ynys Môn. Roedd hyn llawer is na mesur cyfartalog Cymru o 9.2 $\mu g/m^3$.



# CYMDEITHASOL



# Iechyd da?



**Yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr yn 2020-2021 roedd amser ymateb ambiwlans ar gyfer galwad 'coch', hynny yw y math mwyaf difrifol, ar gyfartaledd 10:14 munud.** Mae hyn wedi codi o 10:00 munud yn 2018-2019 a 09:47 munud yn 2019-2020.



Amser ymateb ambiwlans:

10:14 munud

Mae amser teithio cyhoeddus a preifat dwyffordd i *feddygfa* yn uwch yn Ynys Môn na Chymru, gydag amser cyfartalog o 47 munud a 8 munud  i gymharu gyda 40 munud a 7 munud.

Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer teithio i *fferyllfa* lle mae teithio dwyffordd cyhoeddus cyfartalog yn cymryd 48 munud a preifat 10 munud i gymharu gyda 38 munud a 7 munud ar gyfer Cymru.

Mae ffigyrau iechyd poblogaeth bellach ar gael ar gyfer Ynys Môn, i roi syniad o gyflwr a phatrymau iechyd y sir.

Mae **disgwyliad oes dyn adeg ei eni yn Ynys Môn yn 79.3 oed**, tra bod **disgwyliad oes merch adeg ei geni yn 82.9 oed.** Mae hyn ychydig yn uwch na ffigyrau Cymru lle bod disgwyliad oes dyn adeg ei eni yn 78.3 a merch 82.1.

Yn ôl ffigyrau 2017/18-2019/20 mae 37% o oedolion 16 i 64 gyda phwysau iach yn Ynys Môn, mae hyn yn  debyg i ganran Cymru sef 38%. Mae hyn yn codi i 46% mewn oedolion 65 oed a hŷn yn Ynys Môn, sydd yn uwch na chanran Cymru o 38%, ac yn y canran uchaf o bob awdurdod lleol yng Nghymru.






Ffactorau eraill sy'n effeithio ar ein hiechyd yw ysmygu ac yfed alcohol. **Mae 18% o bobl 16 oed neu'n hŷn ym Môn yn dweud eu bod yn ysmygu,** canran tebyg iawn i Gymru gyfan le mae ychydig dros 17% yn ysmygu. Mae 14% o oedolion Ynys Môn yn nodi eu bod yn yfed mwy na 14 uned o alcohol yr wythnos, ffigwr is na'r 19% o Gymru gyfan.

Mae iechyd meddwl yn rhan bwysig o lesiant ac iechyd. Mae data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru o 2018-19 sydd yn nodi lles meddyliol ymysg oedolion (16 a hŷn) ar ffurf sgoriau safonedig oed. 51.8 yw sgôr Ynys Môn sydd ychydig bach yn uwch, ond yn gymharol, gyda sgôr Cymru sef 51.4.

Mae data gan Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2018/19-2019/20 yn nodi fod 10% o oedolion Ynys Môn gydag anhwylderau'r meddwl, yr un canran a gweddill Cymru.

# Iechyd plant a pobl ifanc

Mae ystadegau iechyd sbesiffig ar gyfer plant hefyd ar gael ar gyfer Ynys Môn.

Mae'r canran genedigaethau unigol byw pwysau geni isel yn is yn Ynys Môn na Chymru gyfan, gyda chanran o 4.9% a 5.9% yn y drefn honno. Mae'r canran ar gyfer Môn wedi aros yn gyson rhwng 2017 a 2019.

Mae canran yr holl blant wedi eu himiwneiddio'n llawn yn ôl yr amserlen erbyn pedair oed wedi cynyddu yn Ynys Môn o 90.4% yn 2017 i 93.7% yn 2019. Mae'r canran yma wedi bod yn gyson uwch na chanran Cymru gyfan le cafodd 88% eu himiwneiddio'n llawn yn 2019.


**Mae ffigyrau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2018/19 yn dangos yn Ynys Môn mae 29% o blant 4-5 oed dros eu pwysau neu yn ordew** – sydd ychydig bach yn uwch na ffigwr Cymru o 27%.

Yn ôl data o 2017/18 mae tua 8% o blant 11-16 oed Ynys Môn yn yfed alcohol a 5% yn ysmygu. Mae hyn yn cymharu gyda 8% a bron i 4% ar gyfer Cymru gyfan.



# Cadw'n ddiogel





**23** achos tân yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr

Mae cyfradd troseddau fesul 1,000 person (16 a hŷn) ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr wedi codi ers yr asesiad llesiant diwethaf, o 57 yn 2015 i 68 yn 2020. Mae hyn yn is na chyfradd Môn yn 2020, sef 93.


Mae 61% o bobl Ynys Môn yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu, ffigwr llawer uwch na'r 46% ar gyfer Cymru gyfan.

**Ar gyfartaledd rhwng 2017/18-2019/20 roedd 1 achos tân bwriadol y flwyddyn yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr,** mae hyn yn is na'r 2 a nodwyd yn yr asesiad llesiant diwethaf. **Yn yr un cyfnod roedd 22 tân damweiniol ar gyfartaledd,** mae hyn ychydig yn uwch na'r 19 a nodwyd yn yr asesiad llesiant diwethaf.

Mae'r achosion tân bwriadol a damweiniol cyfartalog blynyddol yn Ynys Môn wedi lleihau ers yr asesiad llesiant diwethaf.

# Cadw mewn cysylltiad

**Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae gan 89% o gartrefi yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr gar neu fan** – mae hyn yn uwch o gymharu â gweddill Môn, ble mae 82% o gartrefi gyda char neu fan.



**89%** o gartrefi gyda char neu fan yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr

Mae amser teithio cyhoeddus dwyffordd i siop fwyd yn uwch yn Ynys Môn na Chymru gyfan, gydag amser cyfartalog o 38 munud i gymharu gyda 32 munud. Mae amser teithio preifat dwyffordd yn debyg ar gyfer Ynys Môn a Chymru gydag amser cyfartalog o 5 munud a 4 munud yn y drefn honno.

Roedd pryderon ynghylch parcio, cyflwr ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus annigonol yn themâu a godwyd fel pryder gan drigolion. Fe'u nodwyd fel y pethau oedd ag effaith negyddol ar y ffordd yr oedd pobl yn teimlo am ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr. (Arolwg Llesiant Môn ac Arolwg Cynllunio Lle)

> "Pobl yn dibynnu ar geir - trafnidiaeth gyhoeddus ddim yn addas a dim digon o wasanaethau."
> (Arolwg Cynllunio Lle)



# 10%

diffyg argaeledd canrannol band eang

**Mae ffigyrau o 2019 yn dangos fod gan Ynys Môn ganran uwch o ddiffyg argaeledd canrannol band eang ar 30Mb/e na Chymru gyfan, sef 10% i gymharu gyda 7%.**


Yn 2019 roedd bron 12% o bobl Ynys Môn yn unig, mae hyn wedi gostwng ers 2016 lle'r oedd 16% yn unig. Mae'r ffigwr yma yn is na Chymru gyfan lle'r oedd 15% yn unig yn 2019.

# Helpu'n gilydd

Yn ôl y Cyfrifiad yn 2011 mae bron i 12% o'r boblogaeth yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr yn rhoi o leiaf un awr yr wythnos o ofal di-dâl. Mae'r ffigwr yma yn debyg i ardaloedd eraill yng Nghymru ac Ynys Môn.

Mae ffigyrau cyn-pandemig yn dangos bod y canran o bobl sy'n gwirfoddoli yn Ynys Môn wedi disgyn rhywfaint o 31% yn 2016 i 28% yn 2019 a gwelwyd gostyngiad tebyg yng Nghymru o 28% yn 2016 i 26%, gyda llai o bobl yn gwirfoddoli ar draws Cymru na Môn. Mae'n debyg fod Covid-19 wedi golygu cynnydd yn y nifer sy'n gwirfoddoli, fodd bynnag, nid oedd data fesul ardal ar gael.

Mae cyfeillgarwch a'r ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned hefyd wedi cael e adnabod gan drigolion fel un o'r prif nodweddion da am yr ardal. (Arolwg Llesiant Môn)



# ECONOMAIDD



# Tai ac ail gartrefi

**Yn 2020, roedd canolrif pris tŷ yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr yn £174,000, sef cynnydd o £36,000 ers yr asesiad diwethaf yn 2015.**




Mae canolrif incwm teuluoedd Bro Aberffraw a Bro Rhosyr tua £30,555 ond mae angen o leiaf £39,179 i fforddio prynu tŷ pris lefel mynediad i'r farchnad. Mae hyn yn golygu bod 63% o aelwydydd Bro Aberffraw a Bro Rhosyr wedi eu prisio allan o'r farchnad. Mae hyn ychydig yn uwch na ffigwr Môn (62%) a Chymru sy'n 56%. Fodd bynnag, mae'n debyg nad yw ffigyrau 2020 yn dangos llawn effaith y pandemig ar brisiau tai yr ardal, ac bydd yr rhain yn cael ei diweddaru pan fydd y data ar gael.

Amlygwyd materion yn ymwneud a thai ac ail gartrefi wrth ymgysylltu â thrigolion fel rhan o'r Arolwg Llesiant Môn a'r Arolwg Cynllunio Lle.

> "Gormod o ail gartrefi yn golygu fod y pentref yn wag lot o'r flwyddyn - effaith hyn ar y Gymraeg a diwylliant wrth i'r ardal fod â llai o blant a phobl ifanc."
> (Arolwg Cynllunio Lle)

# Beth yw gwaith pobl Bro Aberffraw a Bro Rhosyr?

Mae data'r Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 27% o bobl sydd mewn gwaith a heb unrhyw gymhwyster, yn gweithio yn y galwedigaethau elfennol yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr e.e. gweithio mewn siop, glanhau, casglu gwastraff, gweithio ar fferm. Hefyd o ran y rhai sydd heb gymhwyster o gwbl mae 25% yn gweithio fel gweithredwyr offer a pheiriannau yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr – dyma'r canran uchaf yn Ynys Môn.



Yn y crefftau medrus mae'r canran uchaf o bobl yn yr ardal yn gweithio, sef 25%. Mae 29% sydd â gradd neu debyg yn gweithio yn y maes proffesiynol, ffigwr sy'n debyg i'r patrwm ar draws gweddill Ynys Môn a Gwynedd. Nid oes data dibynadwy ar gael am feysydd gwaith fesul ardal leol wedi 2011, a gwelir felly bwlch data sylweddol.

# Cyflog

**Mae canolrif cyflog wythnosol yn etholaeth Ynys Môn tua £506 yr wythnos.** Mae'r swm yma 27% yn uwch na Gwynedd (£386 yr wythnos), a 8% yn uwch na Chymru gyfan (£469 yr wythnos).

Yn Ynys Môn mae cyflogau merched 6% yn uwch na chyflog dynion yn yr ardal. Mae hyn yn wahanol iawn i'r sefyllfa yng Ngwynedd, lle mae cyflogau merched 32% yn llai na chyflog dynion a Chymru 31% yn llai.



£506 canolrif cyflog wythnosol

# Diweithdra

Mae 80% o drigolion Ynys Môn rhwng 16 a 64 oed mewn gwaith neu addysg, sy'n uwch na Chymru, sef 76%.

Ar gyfartaledd, **roedd canran y bobl 16-64 oed a hawliodd Lwfans Ceisio Gwaith yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr rhwng Tachwedd 2020 a Hydref 2021 yn 3.6%,** sef yr isaf o holl ardaloedd llesiant Môn.

Roedd y ffigwr ar ei uchaf ym mis Chwefror 2021, (4.4%) ac ar ei isaf ym mis Medi a Hydref 2021 (3%), gan awgrymu bod cyfnod clo Covid-19 wedi cael effaith ar y ffigurau.



3.6% yn hawlio lwfans ceisio gwaith

# Busnesau



59% o gwmnïau yn goroesi 3+ blwyddyn

Yn 2020, roedd cyfanswm o 2,155 o fusnesau wedi cofrestru yn Ynys Môn. Mae cyfradd busnesau newydd sy'n cychwyn yn Ynys Môn yn uwch na Gwynedd, ond yn llai na Gogledd Cymru a Chymru.

**Mae 59% o gwmnïau yn Ynys Môn yn aros mewn busnes am o leiaf tair blynedd neu fwy.** Mae hyn yn uwch na Chymru sydd ar 54%.

Mae'r gyfradd o'r busnesau sy'n methu hefyd yn is yn Ynys Môn o'i gymharu â Gogledd Cymru a Chymru.

# Sgiliau am oes



O 2018/19 mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno set newydd o fesurau perfformiad sy'n cynnwys y sgôr pwyntiau Llythrennedd, y sgôr pwyntiau Rhifedd a'r sgôr pwyntiau Gwyddoniaeth. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd cymharu o flwyddyn i flwyddyn dros y blynyddoedd diwethaf a nid oes dadansoddiad fesul sir ers 2018/19.

Fodd bynnag, mae ffigyrau ar gael am y nifer o adawyr ysgol blwyddyn 11 y gwyddys sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Yn Ynys Môn mae'r ganran am 2020 yn 4.7%, sy'n gynnydd sylweddol o 2018, pan oedd y ffigwr yn 1.1%. Mae'r ganran yma hefyd yn uwch na ffigwr Cymru gyfan ar gyfer 2020 sef 1.7%.

# Yr arian yn ein poced

**Mae incwm sydd ar gael i'w wario ar ôl costau talu am gartref a threthi gan bobl yn Ynys Môn, yn £17,529 y pen y flwyddyn,** sydd yn £266 yn fwy na Chymru gyfan.




Yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr, mae 14% o ddisgyblion ysgol gynradd yn hawlio prydau ysgol am ddim, sydd yn is na chanran Môn, sef 18%. Mae'r canran o ddisgyblion ysgol uwchradd Bro Aberffraw a Bro Rhosyr sy'n hawlio prydau ysgol am ddim yn gostwng i 10%, sydd unwaith eto yn is na chanran Môn, sef 16%.

Yn ôl ffigyrau cyn-bandemig, mae 18% o aelwydydd yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr mewn tlodi tanwydd, sydd yn debyg i ffigwr Môn ond yn uwch na Chymru (14%).

Fodd bynnag, gyda'r cynnydd diweddar mewn prisiau tanwydd mae'r ffigwr hwn yn debygol o fod yn llawer uwch na'r amcangyfrif yn 2018, ond yn anffodus roedd dod o hyd i ddata dibynadwy yn y maes hwn yn broblem.

# DIWYLLIANNOL



# Cadw'n heini

Yn ôl Arolwg Chwaraeon Ysgol ddiweddaraf Chwaraeon Cymru mae mwy o blant Ynys Môn yn cymryd rhan mewn chwaraeon tri neu fwy o weithiau'r wythnos na sydd ar draws Cymru.



56%

o blant yn cymryd rhan mewn chwaraeon 3+ gwaith yr wythnos

**Yn 2018, roedd bron i 56% o ddisgyblion Môn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon tri neu fwy o weithiau yr wythnos,** i gymharu gyda 48% yng Nghymru.


Erbyn hyn mae darlun tebyg ar gyfer oedolion Ynys Môn. Yn 2016 roedd 28% o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos yn Ynys Môn a 29% ar draws Cymru, erbyn 2019 fe gynyddodd y nifer yn Ynys Môn i 34% i gymharu gyda 32% ar gyfer Cymru gyfan.


Mae amser teithio cyhoeddus a preifat dwyffordd i gyfleuster chwaraeon yn uwch yn Ynys Môn na Chymru, gydag amser cyfartalog o 70 munud a 13 munud i gymharu gyda 55 munud a 10 munud yn y drefn honno. Unwaith eto mae amrywiaeth i'w weld o fewn yr ardal, a mae'r amser cyfartalog preifat ardal Rhosyr yn un o'r hiraf ar yr ynys.

# Amser hamdden

Mae amser cyfartalog teithio dwyffordd cyhoeddus a preifat i lyfrgell gyhoeddus yn uwch yn Ynys Môn na Chymru gyfan, gydag amser cyfartalog o 53 munud a 13 munud i gymharu gyda 45 munud a 10 munud.

Mae amrywiaeth o fewn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr, a mae'r amser cyfartalog preifat ardal Rhosyr yn un o'r hiraf ar yr ynys.






Mae ffigyrau amser hamdden ar gael ar gyfer y cyfnod cyn-bandemig. **Roedd 66% o oedolion yn Ynys Môn wedi mynychu digwyddiad celfyddydol yn ystod y flwyddyn 2019-20.** Mae hyn yn debyg i Wynedd ac ychydig yn is na weddill Cymru.

Yn 2016-17 roedd 68% o oedolion Ynys Môn yn datgan eu bod wedi mynychu mannau hanesyddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ffigwr yma yn uwch na Wynedd a Chymru gyfan gyda 47% a 58% yn datgan eu bod wedi mynychu yn y drefn honno.

Mae effaith y pandemig ar y celfyddydau a diwylliant yn amlwg, gyda theatr a sinemau yn gorfod cau dros gyfnod y clo a chyfyngiadau yn y niferoedd sy'n cael mynychu digwyddiad wedi hynny. Fodd bynnag, nid oedd ffigurau dibynadwy fesul ardal leol i fesur hyn ar gael.


# Mannau gwyrdd

Mae cysylltiad rhwng llesiant diwylliannol a threulio amser mewn mannau gwyrdd a natur, ac mae agosatrwydd at fan gwyrdd naturiol yn un ffurf o asesu amgylchedd ffisegol ardal.

Mae sgôr ar gyfer agosatrwydd at Fan Gwyrdd Naturiol Hygyrch yn is ar gyfer Ynys Môn na Chymru gyfan, sef 65% i gymharu gyda 77%. O fewn ardal llesiant Bro Aberffraw a Bro Rhosyr mae amrywiaeth o sgoriau a mae gan ardal Bodorgan un o sgoriau isaf yr ynys.

Roedd cael digon o lefydd awyr agored a llwybrau er mwyn gallu mynd am dro yn rhai o'r prif bethau oedd trigolion Bro Aberffraw a Bro Rhosyr yn teimlo oedd yn cyfrannu tuag at eu llesiant. (Arolwg Llesiant Môn ac Arolwg Cynllunio Lle)

> "Digon o fannau gwyrdd, llwybrau cerdded a'r llwybr feicio lon las yn mynd i Llangefni neu Malltraeth."
> (Unigolyn o Bro Aberffraw a Bro Rhosyr, Arolwg Llesiant Môn)



## AM FWY O WYBODAETH...

www.LlesiantGwyneddaMon.org
post@llesiantgwyneddamon.org
01766 771000
Gofynnwch am Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
# Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **8 Mawrth 2022** |
| **Pwnc:** | **Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru (GCARh-CGC)** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Adroddiad Blynyddol 2021/22** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Y Cynghorydd Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod Portffolio:** | **Y Cynghorydd Llinos Medi Huws** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dylan Williams, Dirprwy Brif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Helen Kilgannon, Rheolwr Rhanbarthol GCARh-CGC** **Helen.Kilgannon@nwc-reps.org.uk**<br><br>**Susan Owen Jones, Rheolwr Gweithredol (UDA)** **SusanJones4@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Mae'n berthnasol i'r holl Aelodau** |

| **1 – Argymhelliad/argymhellion** |
|---|
| 1.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnydd gwaith Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru hyd yma. |

| **2 – Cyswllt â Chynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| 2.1 Mae gan y Cyngor ddyletswyddau mewn perthynas â chynllunio ar gyfer argyfyngau ac ymateb iddynt o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, Rheoliadau (Parodrwydd a Gwybodaeth Gyhoeddus) Argyfyngau Ymbelydrol 2001, a Rheoliadau Diogelwch Piblinellau 1996.<br><br>2.2 Mae'r Cyngor yn brif ymatebydd ac mae'n cyflawni ei rwymedigaethau trwy gydweithio ag Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru trwy Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru (GCARh-CGC).<br><br>2.3 Mae'n ofynnol i Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru gyflwyno adroddiad bob blwyddyn i'r pwyllgor hwn trwy gyfrwng Adroddiad Blynyddol. |

| **3 – Egwyddorion fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **I gynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r mater yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[canolbwyntio ar y cwsmer/dinesydd]** |

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[canolbwyntio ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[canolbwyntio ar risg]**

**3.4** Sgrwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[canolbwyntio ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[canolbwyntio ar lesiant]**

| **4 – Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
|---|
| 4.1 I ba raddau y cyflawnodd y gwasanaeth rhanbarthol ei swyddogaethau a'i nodau allweddol ar gyfer 2020/21 (yn ystod cyfnod y pandemig)? |
| 4.2 Beth yw blaenoriaethau allweddol uniongyrchol y gwasanaeth er mwyn cefnogi'r Cyngor a Gogledd Cymru wrth inni, gobeithio, ddod allan o gyfnod y pandemig? |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

5.1 Mae gan y Cyngor ddyletswyddau mewn perthynas â chynllunio ar gyfer argyfyngau ac ymateb iddynt o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, Rheoliadau (Parodrwydd a Gwybodaeth Gyhoeddus) Argyfyngau Ymbelydrol 2001, a Rheoliadau Diogelwch Piblinellau 1996.

5.2 Mae'r Cyngor yn brif ymatebydd ac mae'n cyflawni ei rwymedigaethau trwy gydweithio ag Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru trwy Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru (GCARh-CGC), a Chyngor Sir y Fflint yw'r awdurdod lletyol ar gyfer y gwasanaeth.

5.3 Gogledd Cymru yw'r rhanbarth gyntaf yng Nghymru i ffurfio gwasanaeth hollol integredig i gynorthwyo pob cyngor i gyflawni eu dyletswyddau. Mae'n cael ei gefnogi gan Fwrdd Gweithredol sy'n cynnwys y chwe Chyngor. Mae hyn yn cael ei ategu gan Gytundeb Lefel Gwasanaeth a Chytundeb Rhyng-Awdurdodau.

5.4 O fewn y Cyngor, mae cyfrifoldebau am gynllunio at argyfyngau ac ymateb iddynt yn cael eu rhannu ymysg y gwasanaethau ac mae cynrychiolwyr gwasanaeth dynodedig yn cael eu nodi o fewn strwythur y Tîm Rheoli Ymateb i Argyfwng.

5.5 Er bod llawer o gynnydd wedi'i wneud, mae gwaith yn mynd rhagddo i atgyfnerthu ymhellach y dull o gyflawni'r gweithgareddau a ddarperir gan y gwasanaeth, yn arbennig trwy gryfhau trefniadau rheoli perfformiad a chyflwyno hyfforddiant. Bydd hyn yn caniatáu i'r gwasanaeth flaenoriaethu meysydd gwaith a dyrannu adnoddau yn fwy effeithiol, yn

ogystal â sicrhau bod cynghorau'n manteisio'n llawn ar yr ystod o arbenigedd a geir o fewn y gwasanaeth.

**Gweithgareddau Rhanbarthol**

5.6 Y Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol (GCARh-CGC) yw'r prif gyswllt rhwng y Cyngor a Fforwm Lleol Cymru Gydnerth y Gogledd (FfLlCG), ac mae cyfraniadau gan staff y gwasanaeth yn hanfodol i grwpiau amlasiantaethol, digwyddiadau, prosesau a chynlluniau.

5.7 Adolygu ac adnewyddu Cytundeb Gwasanaeth 4 x 4 Gogledd Cymru. Mae hwn yn gytundeb ffurfiol rhwng y chwe awdurdod a Gwasanaeth 4 x 4 Cymru ac mae'n disgrifio'r mecanweithiau i'w dilyn pe byddai angen cymorth ar unrhyw awdurdod i ddarparu gwasanaethau. Mae'r gwasanaeth gwirfoddol wedi bod yn bartner amhrisiadwy wrth gynorthwyo mewn tywydd garw ac maent wedi cynorthwyo i achub pobl o'u cartrefi neu adeiladau eraill yn ystod llifogydd a chludo staff gofal i ardaloedd anghysbell nad oedd modd eu cyrraedd mewn car oherwydd eira trwm.

5.8 Gan fod y pandemig wedi cyfyngu ar hyfforddiant ystafell ddosbarth, mae'r Grŵp Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol wedi arallgyfeirio er mwyn sicrhau fod staff yn parhau i fod yn gymwys yn eu rolau cynllunio at argyfwng ac ymateb i ddigwyddiadau. Mae'r Gwasanaeth wedi dylunio a chyflwyno nifer o fodiwlau e-ddysgu, gan gynnwys Rheolaeth Strategol, Rheolaeth Dactegol a Hyfforddiant i staff Canolfannau Gorffwys. Ar hyn o bryd, mae'r modiwlau hyn yn cael eu hychwanegu at borth Cronfa Ddysgu fewnol Cyngor Sir Ynys Môn.

5.9 Mae'r Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol yn parhau i ddarparu cymorth tu allan i oriau i'r awdurdod lleol a gwasanaethau brys mewn ymateb i ymholiadau a digwyddiadau 24 awr y dydd, 356 diwrnod y flwyddyn. I brofi ymatebion mewn awdurdodau lleol mae'r Gwasanaeth Cynlluni at Argyfwng Rhanbarthol yn cynnal Ymarfer Cooper bob chwarter i brofi'r manylion cyswllt sydd gennym ac argaeledd staff allweddol tu allan i oriau gwaith arferol.

**Gweithgareddau o fewn y Cyngor**

5.10 Mae'r strwythur Tîm Rheoli Ymateb i Argyfwng o fewn y Cyngor yn hwyluso'r gwaith o gydlynu digwyddiadau sydd ag oblygiadau Parhad Busnes i'r awdurdod. Bydd y Tîm Rheoli Ymateb i Argyfwng yn cydlynu'r ymateb i unrhyw ddigwyddiadau amlasiantaethol ar ran y Cyngor.

5.11 Mae'r Tîm Rheoli Ymateb i Argyfwng yn darparu mecanwaith cadarn ar gyfer darparu swyddogaethau cynllunio ac ymateb. Mae timau'n cyfarfod yn rheolaidd i adolygu'r trefniadau sydd ar waith a nodi unrhyw weithgareddau yn y dyfodol. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn goruchwylio'r gwaith.

5.12 Mae'r Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol yn cefnogi'r Tîm Rheoli Ymateb i Argyfwng trwy gynrychioli Awdurdodau Lleol yn y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth a'r is-grwpiau. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol yn cynorthwyo'r awdurdod trwy ysgrifennu, ymarfer a phrofi cynlluniau argyfwng fel y manylir isod:

5.13 Datblygwyd Cynllun Canolfannau Gorffwys mewn Argyfwng Rhanbarthol ar gyfer y Cyngor. Mae hyfforddiant i staff y Ganolfan Orffwys yn cael ei gefnogi ymhellach trwy ychwanegu modiwl e-ddysgu. Mae hyn hefyd yn cefnogi ceisiadau gan awdurdodau lleol eraill am gefnogaeth gan y naill a'r llall gan fod y cynllun yn un generig i'r chwe Chyngor yng Ngogledd Cymru erbyn hyn.

5.14 Cynlluniau Parhad Busnes – Ar ddechrau'r Pandemig, rhoddwyd cynlluniau Parhad Busnes ar waith er mwyn i'r Cyngor nodi a blaenoriaethu gwasanaethau holl bwysig a gwaith angenrheidiol i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal. Trwy gydol y pandemig, dosbarthodd y Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol holiadur i gael dealltwriaeth o sut roedd y cynlluniau'n cael eu defnyddio yn ystod y pandemig ac i nodi unrhyw welliannau hefyd. Mae bod â chynlluniau Parhad Busnes ar waith yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Mae templed y cynllun yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a sefydlwyd grŵp tasg a gorffen rhanbarthol i gyflawni'r gwaith hwn. Pan fydd y templed wedi'i gwblhau, bydd adolygiad o gynlluniau ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth yn dechrau o fewn y Cyngor.

5.15 Trefniadau ar gyfer Argyfyngau Mawr – mae'r Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol wedi cwblhau templed ar gyfer Trefniadau Argyfyngau Mawr. Pan fydd y templed yn cael ei roi ar waith, bydd swyddogion yn gallu cynllunio ar gyfer argyfyngau ac ymateb i unrhyw argyfwng neu argyfwng posib o fewn y Sir yn effeithiol ac yn effeithlon mewn dull cydlynus. Mae drafft o'r templed wedi'i gwblhau ac mae'n cael ei adolygu.

**COVID-19**

5.16 Mae Cynllunio Argyfwng ar gyfer y pandemig coronafeirws yn gyfrifoldeb o dan ddeddfwriaeth Argyfyngau Sifil Posibl ac mae'n cael ei arwain ar lefel genedlaethol gan lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Ar lefel Gogledd Cymru, mae hyn yn cael ei gydlynu a'i arwain gan y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth (lle mae'r sector cyhoeddus yn cydweithio), trwy'r Grŵp Cydgysylltu Strategol (GCS) argyfyngau.

**Gweithgareddau Rhanbarthol**

5.17 Ar ddechrau'r pandemig COVID-19, roedd cyfarfodydd aml-asiantaethol yn cael eu cynnal yn ddyddiol. Derbyniodd y Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol un cais am gymorth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Er bod nifer o wasanaethau iechyd ledled Cymru wedi'u hatal, roedd rhaid cynnal gwasanaethau bydwreigiaeth a oedd yn cynnwys apwyntiadau arferol ac ymweliadau cyn ac ar ôl geni.

5.18 Wrth i achosion COVID-19 gynyddu led Gogledd Cymru, ac wrth i gleifion gael eu derbyn i ysbytai cymunedol lleol, nid oedd BIPBC yn gallu gofyn i gleientiaid ddod i adeiladau lle'r oedd cleifion COVID-19 yn cael eu trin ar gyfer eu hapwyntiadau cyn ac ar ôl geni. Trwy weithio ar y cyd ac yn effeithiol, cwblhawyd gwaith gan y Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol i nodi adeiladau amgen addas, ar y cyd â BIPBC ac Awdurdodau Lleol. Trawsnewidiwyd Canolfannau Hamdden, Ysgolion a neuaddau cymuned ledled Gogledd Cymru yn lleoliadau clinigol er mwyn caniatáu i fydwragedd gynnal eu gwasanaethau a sicrhau bod eu cleientiaid yn parhau i dderbyn y gofal a'r sylw yr oedd ei angen arnynt yn ystod y pandemig.

5.19 Canolfannau Brechu Torfol a Chanolfannau Brechu Lleol:
Parhaodd y gwaith aml-asiantaethol pan gytunodd cynrychiolwyr y Grŵp Cydlynu Strategol ar leoliad tair Canolfan Frechu Dorfol fawr yng Ngogledd Cymru. Byddai hyn yn caniatáu i'r cyhoedd gael eu brechu yn erbyn COVID-19.
Parhaodd y Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol i weithio mewn partneriaeth agos â BIPBC a'r Awdurdodau Lleol i nodi lleoliadau ar gyfer Canolfannau Brechu 'Lleol' llai. Mae'r canolfannau hyn wedi'u lleoli mewn cymunedau er mwyn darparu ar gyfer y gymuned leol a chynorthwyo i sicrhau bod mwy o bobl yn derbyn y brechiad. Cynhaliwyd nifer o ymweliadau safle ledled Gogledd Cymru, i asesu addasrwydd a hygyrchedd neuaddau Cymuned, Canolfannau Hamdden a Theatrau. Cynorthwyodd Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Gogledd Cymru i nodi 21 o Ganolfannau Brechu Lleol ledled y Rhanbarth ac ymatebodd yn effeithiol i'r holl heriau a'r ceisiadau a dderbyniwyd gan BIPBC.

5.20 Cynllun Profi Ychwanegol
Addaswyd y cynllun hwn o dempled Cyngor Sir y Fflint. Bwriad strategol y cynllun hwn oedd nodi a rheoli lledaeniad amrywiolion o bryder COVID-19 yn y gymuned. Roedd y cynllun yn cynorthwyo'r Cyngor, ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, i gynnal 'profion ychwanegol' yn lleol. Roedd hyn yn rhan o'r gefnogaeth a gynigiwyd i'r Cyngor mewn ymateb i'r pandemig Covid-19.

**Gweithgareddau o fewn y Cyngor**

5.21 Roedd y Cyngor yn gyfrifol am benderfyniadau lleol a gweithredu deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol perthnasol. Nodwyd yr achos positif cyntaf o Covid-19 ar Ynys Môn ar 11 Mawrth 2020. Yn dilyn cyngor gan Lywodraeth y DU y dylai pawb yn y DU osgoi unrhyw deithiau nad oeddent yn hanfodol ac osgoi cyswllt dianghenraid ag eraill, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Tîm Rheoli Ymateb i Argyfwng ar 18 Mawrth 2020. Mae'r Tîm wedi parhau i gyfarfod yn rhithiol trwy gydol cyfnod y pandemig. Roedd y Tîm yn sicrhau bod y penderfyniadau yn rhai amserol, yn seiliedig ar dystiolaeth a'u bod yn cael eu gweithredu'n gyson mewn ymateb i'r prif faterion a risgiau.

5.22 Mae delio â'r argyfwng Covid-19 wedi bod yn her sylweddol i'r Cyngor; nid yn unig cynnal gwasanaethau rheng flaen a busnes arferol lle bo hynny'n bosib, ond hefyd sicrhau fod trefniadau iechyd a diogelwch ar waith i amddiffyn staff y Cyngor wrth iddynt ddarparu'r gwasanaethau hynny. Ar ddechrau'r pandemig, diwygiwyd trefniadau llywodraethiant er mwyn gweithredu o dan amodau argyfwng. Gofynnwyd i staff a oedd wedi eu lleoli yn y swyddfeydd weithio gartref lle bynnag yr oedd hynny'n bosib ac adleolwyd llawer o staff o bob un gwasanaeth i gyflawni gwaith ychwanegol hanfodol a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig Covid-19.

Yn anochel, oherwydd hyn, roedd rhaid atal neu ganslo rhywfaint o waith dydd i ddydd. Yn ystod y cyfnod rhoddwyd blaenoriaeth i'r canlynol:

a) Cynnal gwasanaethau rheng flaen statudol
b) Cyflwyno gwasanaethau newydd i ymateb yn uniongyrchol i'r argyfwng
c) Amddiffyn a diogelu gweithlu'r Cyngor

d) Amddiffyn a chefnogi unigolion bregus a phlant gweithwyr allweddol yn yr Hybiau Gofal
e) Rhoi canllawiau cenedlaethol ar waith
f) Gweinyddu grantiau cenedlaethol e.e. cymorth busnes; taliadau uniongyrchol ar gyfer prydau ysgol am ddim
g) Addasu'r gweithlu er mwyn caniatáu ffyrdd gwahanol o weithio
h) Ail-ddyrannu dyletswyddau staff er mwyn gweithio ar y cynllun Profi, Olrhain ac Amddiffyn (TTP)
i) Delio gyda nifer o heriau a oedd yn gysylltiedig â chlystyrau COVID-19 a chynnydd mewn achosion
j) Cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn rheolaidd
k) Cydweithio'n effeithiol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, a
l) Cefnogi BIPBC wrth iddynt gyflwyno'r cynllun Brechu Rhanbarthol ledled y Sir

5.23 Mae gwaith dydd i ddydd (busnes fel arfer) wedi parhau yn ystod y pandemig, ac mae ymrwymiad, gwytnwch ac anhunanoldeb darparwyr gwasanaeth rheng flaen mewn nifer o wasanaethau wedi cael eu haddasu er mwyn cadw'r gweithlu a thrigolion yr ynys yn ddiogel.

5.24 Cyfraniad blynyddol Cyngor Sir Ynys Môn i'r gwasanaeth yw £61,844. Mae'r cyfraniad yn seiliedig ar gyfran o 10.472% tuag at gyllideb flynyddol y gwasanaeth.

| **Awdurdod** | **Cyfraniad Blynyddol %** |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 10.472% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 16.940% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 14.865% |
| Cyngor Sir y Fflint | 19.348% |
| Cyngor Gwynedd | 17.979% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 20.396% |
| Cyfanswm | 100% |

**6 – Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb** **[yn cynnwys effaith ar y Gymraeg]**

**6.1 Yr effeithiau posib ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

**Amherthnasol**

**6.2 Yr effeithiau posib ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)**

**Amherthnasol**

**6.3 Yr effeithiau posib ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

| |
|---|
| **Amherthnasol** |
| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
| 7.1 Nid yw'r adroddiad yn nodi unrhyw oblygiadau ariannol penodol i'r Cyngor.<br>7.2 Cyfraniad blynyddol y Cyngor i'r gwasanaeth yw £61,844. |

| **8 – Atodiadau:** |
|---|
| Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru – Adroddiad Blynyddol 2020/21. |

| **9 – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |



Tudalen 360

# Adroddiad Blynyddol 2020/21

Cynghorau Gogledd Cymru
Argyfwng Rhanbarthol
Gwasanaeth Cynllunio

enquiries@nwc-reps.org.uk
01352 702124



## Gwasanaeth Cynllunio At Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru (GCARh - CGC).

Mae Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir Y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cydweithio mewn partneriaeth ers sefydlu'r Gwasanaeth Cynllunio At Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru yn 2014. Mae'r Gwasanaeth hwn yn cyflawni swyddogaethau'r Cynghorau o ran argyfyngau sifil posibl ac yn atebol i Fwrdd Gweithredol sy'n cynnwys uwch swyddogion o'r Cynghorau hynny. Mae GCARh – CGC yn darparu gwasanaeth i sicrhau fod Awdurdodau Lleol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ganlynol: -

- Deddf Argyfyngau Sifil Posibl, 2004
- Rheoliadau Peryglon Damweiniau Mawr, 2015
- Rheoliadau Diogelwch Piblinellau, 1996
- Rheoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth i'r Cyhoedd), 2019

Dyma adroddiad blynyddol Gwasanaeth Cynllunio At Argyfwng Rhanbarthol - Cynghorau Gogledd Cymru (GCARh - CGC) ar gyfer blwyddyn 2020-2021. Mae'n cynnwys gwaith a wnaed gan GCARh - CGC ar draws y chwe awdurdod lleol yn y rhanbarth yn ogystal â'r gweithgareddau aml-asiantaeth a gyflawnwyd i gefnogi Fforwm Gwytnwch Lleol Gogledd Cymru.

Amcanion y Gwasanaeth yw:

- Lleihau dyblygu ac ailadrodd tasgau
- Gwella'r broses o gysoni gwaith a gwytnwch timau
- Gwella'r broses o drefnu adnoddau sydd ar gael drwy rannu cefnogaeth arbenigol a thasgau cyffredinol
- Gwella cysondeb o ran ymateb rhwng awdurdodau
- Gwella sianeli cyfathrebu rhwng Fforwm Gwytnwch Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol



## RHEOLI DIGWYDDIAD

Mae gan GCARh - CGC Swyddog ar Ddyletswydd 24/7 y flwyddyn i weithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymateb i argyfwng.

Yn 2020/21, roedd GCARh - CGC wedi helpu gyda'r rôl yn y ffyrdd canlynol:

- Derbyn, ac asesu 152 o Hysbysiadau am Lifogydd a 9 Rhybuddion o Lifogydd.
- Derbyn, ac asesu 28 o Rybuddion Tywydd – wedi'u cyflwyno gan Y Swyddfa Dywydd
- Derbyn, ac ymateb i nifer o adroddiadau o achosion oedd yn cynnwys: -
  - Achos Cemegau Ardagh Group, Ebrill 2020
  - Tân ar Safle Dirlenwi Hafod, 2020
  - Criw o Unigolion ar Feiciau Modur Mai 2020
  - Storm Francis, Awst 2020
  - Storm Christoph, Ionawr 2021
  - Rhybudd rhag llifogydd, Afon Cefni, Llangefni, Chwefror 2021

Bu'n rhaid i'r Cynghorau perthnasol agor Canolfannau Gorffwys mewn Argyfwng ar gyfer 2 o'r achosion hyn gyda chefnogaeth GCARh – CGC. Dyma ni'n ymateb i achosion eraill ond defnyddiwyd gwestai yn hytrach na chanolfannau gorffwys oherwydd y cyfyngiadau gyda Covid a diogelwch y cyhoedd. Dros y flwyddyn mae GCARh – CGC wedi cynrychioli a chefnogi awdurdodau lleol mewn Grwpiau Cydlyniant Tactegol Aml-Asiantaeth ar gyfer nifer o'r achosion uchod.



## RHEOLI DIGWYDDIAD

O Ebrill 2020, ac yn dal i fodoli ar hyn o bryd, y mae gweithgareddau sy'n ymwneud ag ymateb aml-asiantaeth i bandemig COVID-19. Mae'n golygu adleoliad gweithredol o'r tîm i amryw ffrydiau gwaith sydd wedi cynnwys:

- Cefnogi Cynghorau gyda'u trefniadau wrth ymateb i argyfwng mewnol
- Cynghori Cynghorau ar faterion Parhad Busnes/Gwasanaeth
- Cefnogi partneriaid gydag atebion i'w anghenion parhad busnes
- Cymryd rhan mewn ffrydiau gwaith y Grŵp Cydgysylltu Strategol aml-asiantaeth a'r Grŵp Cydlyniant Tactegol
- Cydlynu'r gwaith o ddosbarthu data lleol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cynghorau mewn perthynas â'r cynllun Gwarchod
- Mae staff GCARh – CGC yn parhau i ddarparu cymorth prosiectau i Atal COVID-19 a grwpiau Gwyliadwriaeth fel rhan o ffrydiau gwaith statudol lleol yr awdurdodau i gydymffurfio ag afiechydon heintus;
- Cadeirio Grŵp Marwolaethau Ychwanegol Gogledd Cymru, ac
    1. Arwain ar brofi Cynllun Ymateb i Farwolaethau Ychwanegol yn benodol i Covid-19
    2. Cadeirio is-grŵp Cyswllt Cyfarwyddwyr Angladdau
    3. Darparu gwybodaeth wythnosol ar alluoedd storio cyrff
    4. Cyfathrebu gyda thîm Llywodraeth Cymru sy'n ymateb i farwolaethau ychwanegol ar draws Cymru
    5. Briffio'r Grŵp Cydlynu Strategol ar ôl tynnu adnoddau storio cyrff rhanbarthol yn ôl



## GWEITHIO GYDA'N GILYDD

Yn y cyfnodau cynnar o bandemig COVID-19 roedd cyfarfodydd Aml Asiantaeth yn cael eu cynnal yn ddyddiol. Daeth un cais cyffredin am gymorth y GCARh - CGC gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Tra bod llawer o wasanaethau Iechyd ar draws y wlad wedi stopio, roedd yn rhaid i wasanaethau bydwragedd barhau i gynnal apwyntiadau rheolaidd, ac archwiliadau cyn-geni ac ôl-enedigol.

Wrth i achosion o COVID-19 godi ar draws Gogledd Cymru a chleifion yn cael eu hanfon i ysbytai cymunedol lleol ni allai BIPBC ofyn i'w cleientiaid cyn-geni ac ôl-enedigol fynychu llefydd gyda chleifion a oedd yn sâl efo COVID-19. Drwy weithio ar y cyd, a gwneud hynny'n effeithiol, fe hwylusodd GCARh – CGC y gwaith ar y ddaear i adnabod adeiladau addas eraill a hynny mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a'r Awdurdodau Lleol. Trawsnewidiwyd Canolfannau Hamdden, Ysgolion a Neuaddau Cymunedol ledled Gogledd Cymru yn lleoliadau clinigol i alluogi bydwragedd i gynnal eu gwasanaethau ac i sicrhau fod cleientiaid yn parhau i dderbyn y gofal a'r sylw oedd ei hangen arnynt yn ystod y pandemig.

## Canolfannau Brechu Torfol a Chanolfannau Brechu Lleol

Parhawyd gyda'r gwaith aml asiantaeth wrth i gynrychiolwyr GCS gytuno ar leoliad tri Chanolfan Frechu Torfol mawr yng Ngogledd Cymru. Byddai hynny'n rhoi mynediad i'r cyhoedd i gael eu brechu yn erbyn COVID-19.

Parhaodd GCARh – CGC i weithio mewn partneriaeth agos â BIPBC a'r Awdurdodau Lleol i adnabod Canolfannau Brechu 'Lleol' llai. Mae'r canolfannau hyn wedi'u lleoli yn y cymunedau i wasanaethu'r gymuned leol ac i helpu cyflenwi'r brechiad i nifer fwy o bobl. Mae sawl ymweliad safle wedi'i gwneud ar draws Gogledd Cymru i asesu pa mor addas a hygyrch yw Neuaddau Cymunedol, Canolfannau Hamdden a Theatrau. Yn ei gyfanswm mae GCARh - CGC wedi helpu i sefydlu 21 o Ganolfannau Brechu Lleol ar draws y rhanbarth ac wedi ymateb yn effeithiol i'r holl heriau a gofynion BIPBC.



*"Ymarfer gwych, da iawn chi"*

*"Realistig. Mae rhai ymarferion wedi'u 'gor-wneud' ac mae hyn yn fwy tebygol o beth fyddai wedi digwydd mewn realiti."*

## DYSGU A DATBLYGU

Lleihawyd Dysgu a Datblygu 2020/21 gan fod staff yr Awdurdod Lleol yn blaenoriaethu ymateb i COVID-19. Oherwydd hynny fe drefnodd GCARh – CGC hyfforddiant ac ymarferion ar gyfer anghenion penodol. Gweler manylion o'r Ymarferion yr ydym wedi'u cyflawni yn ystod yr amser hwn isod. Fel tîm rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar symud i blatfform ar-lein i allu cyflenwi hyfforddiant trwy dysgu ar yr we nes y gellir cynnal hyfforddiant wyneb yn wyneb yn ddiogel. Mae Swyddog Cynllunio At Argyfwng wedi bod yn rhan gyfannol o hyfforddiant JESIP i ddarparu gwybodaeth ar safbwynt Awdurdodau Lleol wrth ddelio gydag achosion.

### Ymarfer Argae Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (ar gyfer FMC Agro Ltd, Glannau Dyfrdwy)

Cyflenwyd cyfres statudol o ymarferion yn Awst a Medi 2020 i ddilysu cynllun argyfyngau allanol Cyngor Sir Y Fflint ar gyfer y manwerthwr cemegau amaethyddol yng Nglannau Dyfrdwy; cydlynodd GCARh - CGC y gwaith aml-asiantaeth sydd ei angen i gynnal a phrofi'r cynllun argyfwng oddi ar safle ar ran yr awdurdod, fel ei fod yn parhau i gydymffurfio o dan ddeddfwriaeth Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 2015. Cyflenwyd yr Ymarferion Argae ar-lein gan ddiweddu'r cyfan ar 4 Medi 2020 mewn ymarfer bwrdd gwaith gyda'r holl asiantaethau i wneud eu hunain yn gyfarwydd â'r safle/i ddelio â senario o ddamwain. Cwblhawyd yr ymarfer o fewn amserlenni statudol ac felly'n cyflawni gofynion cydymffurfio â deddfwriaeth yr awdurdod.



### Ymarfer Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr ar yr Awyr (ar gyfer Synthite Ltd, Yr Wyddgrug)

Dechreuwyd y gwaith o gynllunio ar gyfer cyfres statudol o ymarferion i ddilysu cynllun argyfyngau allanol Cyngor Sir Y Fflint ar gyfer y manwerthwr cemegau yn Yr Wyddgrug yn Nhachwedd 2020; cydlynodd GCARh - CGC y gwaith aml-asiantaeth sydd ei angen i gynnal a phrofi'r cynllun argyfwng oddi ar safle ar ran yr awdurdod, fel ei fod yn parhau i gydymffurfio o dan ddeddfwriaeth Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 2015. Bydd Ymarfer Awyr yn cael ei gyflenwi dros dri dyddiad rhwng Mawrth a Mai 2021.



## Datblygu a phrofi Cynllun Argyfyngau Allanol ar gyfer Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (ar gyfer Great Bear Distribution Ltd, Glannau Dyfrdwy)


Wrth ymateb i'r galw sy'n cael ei roi ar ddiwydiant cemegau'r DU gan bandemig COVID-19, mae yna alw cynyddol wedi bod mewn cyflenwad cenedlaethol am gannu gradd defnyddiwr. Mae'r galw hwn yn golygu bod safle warws Dosbarth Great Bear yng Nglannau Dyfrdwy wedi symud i statws Haen Uchaf ar gyfer Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr, er mwyn storio stoc gynyddol o'r cynnyrch.

Mae'r gwasanaeth wedi cyflenwi sesiwn ymgyfarwyddo â'r safle ar-lein a sesiwn briffio datganiad ar ddamwain mawr ar-lein dros ddau ddyddiad yn Chwarter 4 o 2020 ar gyfer personél iechyd a diogelwch safleoedd allweddol, er mwyn dechrau gwaith cynllunio ac ymarfer ar gyfer argyfwng.

Mae'r gwasanaeth yn disgwyl cwblhau'r gwaith o ddatblygu cynllun argyfyngau allanol ar gyfer y safle a'i ddilysu trwy ddau ymarfer argyfwng ar-lein gyda phartneriaid aml-asiantaeth yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn sicrhau fod yr awdurdod yn cydymffurfio â deddfwriaeth Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr.

## Ymarfer Tîm Gweithrediadau Cyngor Sir Ddinbych

Ar 13 Ionawr 2021 fe gynhaliodd GCARh - CGC ymarfer tîm gweithrediadau i edrych ar effaith COVID-19 yn ystod achos o dywydd garw.
Roedd yr ymarfer yn profi sut y byddan nhw'n sicrhau fod ganddyn nhw gyfanswm digonol o staff i helpu mewn tywydd garw, a gallu'r staff i gadw pellter cymdeithasol wrth gyflawni eu gwaith.



## Ymarfer Cooper

Trwy gydol y flwyddyn mae GCARh - CGC wedi sicrhau fod cyfansoddiad critigol o allu'r Cynghorau i ymateb - bod y Cyfeiriadur Cysylltiadau mewn Argyfwng - yn cael ei gynnal a'i ddiweddaru. Un o'r ffyrdd y mae hyn wedi cael ei wneud yw profi'r cynnwys drwy alw'r rhifau yn y Cyfeiriaduron. Cafodd y prawf ei wneud tu allan i oriau gwaith arferol.

Wrth wneud y prawf cafwyd asesiad o'r gallu i ddarparu ymateb effeithiol, gyda chanlyniadau'r profion hyn yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cynghorau. Cynhaliwyd prawf Ymarfer Cooper yn Hydref 2020.

Gwiriwyd 41 o gysylltiadau yn y Cyfeiriadur yn ystod y profion hyn a bydd y profion ar raglen Ymarfer Cooper yn parhau i gael eu cynnal yn 2021/22. Byddan nhw'n cael eu cyflawni bob chwarter gan gynnwys ein Cyfeiriadur Allanol. Mae amseroedd a dyddiadau a rhifau yn cael eu dewis ar hap o adrannau gwahanol yn y Cyfeiriaduron Cysylltiadau mewn Argyfwng.



## Gweithgareddau datblygu mewn cynllunio

- Cynllun Canolfan Orffwys - mae'r cynllun aml-asiantaeth i gwrdd ag anghenion y 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn ei gamau olaf o ddatblygiad ar hyn o bryd.
- Arwain ar gyflawni Cynllun Ymateb i Farwolaethau Ychwanegol Gogledd Cymru ar y Grŵp Marwolaethau Ychwanegol Gogledd Cymru
- Cwblhau canllawiau/cynlluniau/polisi ymateb i argyfwng corfforaethol yr Awdurdod Lleol

## Edrych tuag at y Dyfodol

Cymorth ar y cyd rhwng Awdurdodau Lleol sydd ar y ffin ag awdurdodau lleol Gogledd Cymru.

Ymarfer Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr ar gyfer Great Bear Distribution Ltd

Cyhoeddi Modiwlau eDdysgu

Adolygiad o Barhad Busnes/Gwasanaeth

Adolygiad o Gynllun Argyfwng Mawr

Yr Hyn sy'n cael ei Ddysgu o Covid-19

Rhaglen Dysgu a Datblygu



This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **8 Mawrth, 2022** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Cynnydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Chwarter 3: 2021/22** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cyflwyno adroddiad cynnydd Chwarter 2: 2021/22 y Cynllun Twf yn unol â Chytundeb Terfynol y Cynllun Twf** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng Llinos Medi Huws, Arweinydd y Cyngor**<br><br>**Cyng Carwyn Jones, Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu'r Economi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Annwen Morgan, Prif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Annwen Morgan, Prif Weithredwr**<br>**01248 752102**<br>**AnnwenMorgan2@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor:

**A1** nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod Chwarter 3 (2021/22).

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn gysylltiedig ag Amcan 1 yng Nghynllun y Cyngor 2017/22:

- Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir – Swyddi a chyfleoedd gwaith
- Chydweithio â chynghorau eraill yng Ngogledd Cymru er mwyn denu buddsoddiad a sicrhau bod prosiectau allweddol sy'n cynnig cyflogaeth leol yn mynd yn eu blaenau.

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor

- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

### 1. Cefndir

1.1 Ym mis Rhagfyr, 2020 fe wnaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

1.2 Mae adrodd yn rheolaidd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Atodir Adroddiad Perfformiad Cynllun Twf Gogledd Cymru Chwarter 3: 2021/22 (**Atodiad 1**).

### 2. Cynnydd Chwarter

**2.1** Mae adroddiad perfformiad Chwarter 3 yn darparu trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf.

**2.2** Y chwarter hwn, gwelwyd Cynllun Busnes Llawn (FBC) cyntaf Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cael ei gymeradwyo. Cymeradwywyd y prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) gyda Phrifysgol Bangor ym mis Rhagfyr 2021 yn dilyn cwblhau'r broses caffael. Mae'r Ganolfan DSP wedi sicrhau cyllid o £3m drwy'r Cynllun Twf i fuddsoddi mewn offer arloesol a fydd yn datblygu'r cyfleuster ynghyd â chefnogi creu hyd at 40 o swyddi newydd. Mae Llywodraethau Cymru a'r DU yn cydnabod bod y prosiect yn hanfodol i ddatblygiad a dyfodol y Gogledd a'r economi ehangach.

**2.3** Mae dau brosiect pellach wedi cwblhau eu hadolygiadau sicrwydd Porth 2 yn llwyddiannus yn ystod y chwarter hwn. Fe wnaeth prosiect Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych gwblhau ei adolygiad ym mis Hydref, 2021 gyda phrosiect Fferm Sero Net Llysfasi yn cwblhau ei adolygiad ym mis Tachwedd 2021. Mae'r ddau brosiect yn gweithio i roi sylw i'r argymhellion fel rhan o'r gwaith o ddatblygu eu hachosion busnes.

2.4 Yn sgil mabwysiadu diweddariad 2021 i Achos Busnes y Portffolio ym mis Medi, fe wnaethom gyflwyno'r diweddariad i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol. Roedd hyn yn cynnwys

cyflwyniad i fwrdd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y cyd ym mis Rhagfyr 2021.

2.5 Fe wnaethom lansio ein brand newydd 'Uchelgais Gogledd Cymru' a'n gwefan newydd - https://uchelgaisgogledd.cymru ym mis Tachwedd 2021. Bydd y brand a'r wefan newydd yn declynnau ymgysylltu allweddol ar gyfer y Cynllun Twf wrth symud ymlaen, yn benodol wrth i ni gynyddu ein gweithgareddau ymgysylltu gyda busnesau a buddsoddwyr posib yn y rhanbarth. Ym mis Rhagfyr, fe wnaethom lansio cyhoeddiad 'Adolygiad Rhanbarthol' law yn llaw â Rhanbarth Dinas Caerdydd, Bargen Ddinesig Bae Abertawe a Thyfu Canolbarth Cymru gan arddangos uchafbwyntiau 2021 ar draws y pedair bargen ddinesig/twf yng Nghymru.

2.6 Cwblhawyd gweithgareddau recriwtio yn ystod y chwarter hwn gyda'r tair swydd olaf yn y tîm wedi derbyn penodiadau ac wedi cychwyn yn eu swyddi ym mis Ionawr 2022. Mae Buddug Owen yn ymuno fel y Rheolwr Prosiect Sgiliau a Chyflogadwyedd, Angharad Williams a Harry Bennett fel Swyddogion Cefnogi Rhaglen. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio bellach wedi'i llenwi ac yn barod i gyflawni ein rhaglen uchelgeisiol.

2.7 Ym mis Rhagfyr 2021, fe wnaethom gynnal ein digwyddiad ymgysylltu'n gynnar â'r farchnad gyda busnesau yn y rhanbarth, a oedd wedi'i dargedu at fentrau bach a chanolig i ddysgu mwy am y Cynllun Twf, ein blaenoriaethau a'r cyfleoedd ar gyfer busnesau dros y blynyddoedd nesaf. Cafodd y digwyddiad dderbyniad da ac esgorodd ar drafodaeth pellach yn 2022.

2.8 Mae diweddariad Chwarter 3 yn dangos prosiectau yn adrodd yn erbyn proffil cyflawni Achos Busnes diwygiedig y Portffolio ar gyfer 2021 a gymeradwywyd gan y Bwrdd Uchelgais ym mis Medi 2021. Mae pedwar prosiect yn adrodd yn Goch ar hyn o bryd naill yn sgil risgiau i sgôp y prosiectau, neu oedi sylweddol i amserlenni'r prosiectau:

- Prosiect Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel - prosiect yn cael ei adolygu yn sgil cais i newid y rhagamcanion cyfalaf a refeniw
- Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan (Y Rhaglen Tir ac Eiddo) - mae caniatâd cynllunio amlinellol ar y safle wedi llithro a bydd angen adolygu'r prosiect pan fydd y polisi cynllunio newydd ar gyfer y safle wedi'i sefydlu
- Prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter - prosiect yn cael ei adolygu yn sgil cais i newid y rhagamcanion cyfalaf a refeniw
- Prosiect Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol - prosiect yn cael ei adolygu yn sgil cais i newid y rhagamcanion cyfalaf a refeniw.

2.9 Ar hyn o bryd, yr unig gwariant hyd yma yw tynnu arian i lawr yn erbyn y dyraniad 1.5% ar gyfer costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio. Yn dilyn cymeradwyaeth o’r Achos Busnes Llawn cyntaf yn Rhagfyr 2021, disgwylir gwariant mewn perthynas â phrosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol yn Chwarter 4.

**3. Cofrestr Risg y Portffolio – Ionawr, 2022**

3.1 Caiff Cofrestr Risg y Portffolio ei diweddaru'n rheolaidd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'i hadolygu gan y Bwrdd Portffolio (y Grŵp Swyddogion Gweithredol) a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn chwarterol.

**3.2** Mae'r gofrestr risg wedi'i diweddaru'n llawn gyda nifer o newidiadau wedi'u cofnodi yn y dogfennau, yn cynnwys disgrifiadau risg wedi'u diwygio, sgorio a chamau lliniaru diwygiedig ac mae'r sylwadau wedi'u diweddaru ar gyfer yr holl risgiau.

**3.3** Mae tair gradd risg gweddilliol wedi newid y chwarter hwn 1) risg capasiti wedi lleihau nawr bod gweithgareddau recriwtio'r PMO wedi eu cwblhau, 2) buddsoddiad sector cyhoeddus a 3) amcanion gwario. Mae 2) a 3) wedi codi yn sgil y ffaith bod nifer o geisiadau i newid prosiectau yn cael eu hystyried.

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |
| |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Mae'r adroddiad perfformiad chwarterol yn darparu trosolwg o broffil gwariant cyfalaf disgwyliedig cyllid y Cynllun Twf. Yr unig gwariant hyd yma yw yn sgil tynnu arian i lawr yn erbyn y dyraniad 1.5% ar gyfer costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio. Yn y dyfodol, bydd fersiynau o'r adroddiad hwn yn cynnwys adrodd ar wariant ariannol yn dilyn cymeradwyo achos busnes y prosiectau. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Adroddiad Perfformiad Cynllun Twf Gogledd Cymru Chwarter 3: 2021/22. |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |

# Cynllun Twf Gogledd Cymru

Chwarter 3 2021-22

(Hydref i Ragfyr 2021)

Adroddiad Perfformiad

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
UK Government
Llywodraeth y DU
Office of the Secretary of State for Wales
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

1. Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio ........ 3

2. Perfformiad Cyffredinol y Portffolio ........ 4

3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol ........ 5

4. Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel ........ 7

5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo ........ 10

6. Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth ........ 13

7. Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel ........ 15

8. Piblinell Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 2021 ........ 17

9. Tabl Olrhain Amcanion Gwario Prosiectau'r Cynllun Twf - Trosolwg o gyflawni ........ 18

10. Proffil Gwariant Grant y Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 2021 ........ 19

ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau'r Cynllun Twf ........ 21

Y chwarter hwn, gwelwyd Cynllun Busnes Llawn (FBC) cyntaf Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cael ei gymeradwyo. Cymeradwywyd y prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) gyda Phrifysgol Bangor ym mis Rhagfyr 2021 yn dilyn cwblhau'r broses caffael. Mae'r Ganolfan DSP wedi sicrhau cyllid o £3m drwy'r Cynllun Twf i fuddsoddi mewn offer arloesol a fydd yn datblygu'r cyfleuster ynghyd â chefnogi creu hyd at 40 o swyddi newydd. Mae Llywodraethau Cymru a'r DU yn cydnabod bod y prosiect yn hanfodol i ddatblygiad a dyfodol y Gogledd a'r economi ehangach

Edrychwn ymlaen yn awr i weld y Ganolfan DSP yn rhoi Gogledd Cymru ar y map yn nhermau ei waith arloesol yn y sector . Mae'n bwysig hefyd y gall ein partneriaid, ein busnesau a'r cyhoedd ledled y rhanbarth ddechrau gweld y cyfleoedd gwirioneddol a'r buddion pendant a ddaw o gyllid y Cynllun Twf.



Mae dau brosiect pellach wedi cwblhau eu hadolygiadau sicrwydd Porth 2 yn llwyddiannus yn ystod y chwarter hwn. Fe wnaeth prosiect **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych** gwblhau ei adolygiad ym mis Hydref 2021 gyda phrosiect **Fferm Sero Net Llysfasi** yn cwblhau ei adolygiad ym mis Tachwedd 2021. Mae'r ddau brosiect yn gweithio ar roi sylw i'r argymhellion fel rhan o'r gwaith o ddatblygu eu hachosion busnes.

Yn sgil mabwysiadu diweddariad 2021 i Achos Busnes y Portffolio ym mis Medi, fe wnaethom gyflwyno'r diweddariad i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyniad i fwrdd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y cyd ym mis Rhagfyr 2021.

Fe wnaethom lansio ein brand newydd 'Uchelgais Gogledd Cymru' a'n gwefan newydd - https://uchelgaisgogledd.cymru ym mis Tachwedd 2021. Bydd y brand a'r wefan newydd yn declynnau ymgysylltu allweddol ar gyfer y Cynllun Twf wrth symud ymlaen, yn benodol wrth i ni gynyddu ein gweithgareddau ymgysylltu gyda busnesau a buddsoddwyr posib yn y rhanbarth. Ym mis Rhagfyr, fe wnaethom lansio cyhoeddiad 'Adolygiad Rhanbarthol' law yn llaw â Rhanbarth Dinas Caerdydd, Bargen Ddinesig Bae Abertawe a Thyfu Canolbarth Cymru gan arddangos uchafbwyntiau 2021 ar draws y pedair bargen ddinesig/twf yng Nghymru.

**Cwblhawyd gweithgareddau recriwtio yn ystod y chwarter hwn** gyda'r tair swydd olaf yn y tîm wedi derbyn penodiadau ac wedi cychwyn yn eu swyddi ym mis Ionawr 2022. Mae Buddug Owen yn ymuno fel y Rheolwr Prosiect Sgiliau a Chyflogadwyedd, Angharad Williams a Harry Bennett fel Swyddogion Cefnogi Rhaglen. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio bellach wedi'i llenwi ac yn barod i gyflawni ein rhaglen uchelgeisiol.

Yn olaf, fe wnaethom gynnal ein digwyddiad ymgysylltu'n gynnar â'r farchnad gyda busnesau yn y rhanbarth ym mis Rhagfyr, a oedd wedi'i dargedu at fentrau bach a chanolig i ddysgu mwy am y Cynllun Twf, ein blaenoriaethau a'r cyfleoedd ar gyfer busnesau dros y blynyddoedd nesaf. Cafodd y digwyddiad dderbyniad da ac esgorodd ar drafodaeth pellach yn 2022



*Alwen Williams*

**Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio**

| Themâu | Statws RAG | Sylwadau |
|---|---|---|
| Achos Busnes y Portffolio | Gwyrdd | Ystyriodd a chymeradwyodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Bwrdd Uchelgais" neu "y Bwrdd") ddiweddariad 2021 Achos Busnes y Portffolio ym mis Medi a chaiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am gymeradwyaeth fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Portffolio a'r Rheolwr Gweithrediadau i fwrdd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y cyd ym mis Rhagfyr fel rhan o'r broses hon. |
| Piblinell Cyflawni | Gwyrdd | Mae amserlen ddiwygiedig wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am gymeradwyaeth fel rhan o ddiweddariad 2021 i Achos Busnes y Portffolio. Mae'r holl brosiectau bellach yn adrodd yn erbyn y proffil diwygiedig. |
| Llywodraethu | Gwyrdd | Cymeradwywyd Cytundeb Llywodraethu 2 gan yr holl bartneriaid ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r Fframwaith Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau bellach wedi'i sefydlu gyda'r Bwrdd Portffolio a'r pum Bwrdd Rhaglen yn gweithredu'n effeithiol. Mae'r broses Gwrthdaro Buddiannau wedi'i chyflwyno i'r Bwrdd Cyflawni Busnes, y Bwrdd Portffolio a'r Byrddau Rhaglen ac mae'n cael ei chyflwyno i'r Byrddau Prosiect ar hyn o bryd. |
| Sicrwydd | Gwyrdd | Cynhaliwyd yr adolygiad sicrwydd blynyddol o'r Cynllun Twf (Adolygiad Sicrwydd Rhaglen) ym mis Awst 2021 gan gyflawni gradd hyder o Ambr-Gwyrdd, sy'n welliant ar y radd Ambr a dderbyniwyd yn 2020. |
| Adnoddau a Chapasiti | Gwyrdd | Mae'r holl swyddi o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolio bellach wedi'u llenwi gyda thri aelod olaf y tîm yn dechrau ym mis Ionawr 2022. |
| Cyllid | Ambr | Mae'r unig wariant hyd yma yn sgil tynnu arian i lawr yn erbyn y dyraniad 1.5% ar gyfer costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio. Cymeradwywyd yr achos busnes llawn cyntaf ym mis Rhagfyr 2021, y Ganolfan Prosesu Signal Digidol gyda Phrifysgol Bangor gyda disgwyl i wariant cyfalaf ar gyfer gwedd 1 fod o fewn blwyddyn ariannol 2021-22. Mae proffil gwariant diwygiedig grant y Cynllun Twf yn seiliedig ar Achos Busnes diwygiedig y Portffolio 2021 wedi'i gynnwys gyda'r adroddiad hwn. Mae sicrhau'r buddsoddiad sector cyhoeddus a phreifat sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun Twf yn parhau i fod y risg fwyaf ar draws y portffolio ac mae strategaeth buddsoddi yn cael ei datblygu i gefnogi'r tîm i fodloni'r targedau buddsoddi. |
| Risg | Ambr | Mae dwy risg weddilliol wedi newid y chwarter hwn - 1) mae'r risg o amgylch capasiti wedi gostwng yn dilyn cwblhau'r recriwtio i'r Swyddfa Rheoli Portffolio a 2) mae'r risg o amgylch buddsoddiad sector cyhoeddus wedi cynyddu yn sgil materion ariannu ar lefel prosiect (e.e. Morlais) a cheisiadau parhaus i newid prosiectau yn cynnig diwygiadau i ragamcanion buddsoddiad cyfalaf. |
| Monitro a Gwerthuso | Gwyrdd | Mae Cynllun Monitro a Gwerthuso diwygiedig wedi'i gyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fel rhan o ddiweddariad blynyddol Achos Busnes Portffolio 2021. |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Gwyrdd | Y chwarter hwn, fe wnaethom lansio ein brand newydd 'Uchelgais Gogledd Cymru' a'n gwefan newydd - https://uchelgaisgogledd.cymru. Bydd y brand a'r wefan newydd yn declynnau ymgysylltu allweddol ar gyfer y Cynllun Twf wrth symud ymlaen. Ym mis Rhagfyr, fe wnaethom lansio cyhoeddiad 'Adolygiad Rhanbarthol' law yn llaw â Rhanbarth Dinas Caerdydd, Bargen Ddinesig Bae Abertawe a Thyfu Canolbarth Cymru gan arddangos uchafbwyntiau 2021 ar draws y pedair bargen ddinesig/twf yng Nghymru. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | Ambr | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | Coch | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus. | 380 | £158m | £41.7m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Mae pob Bwrdd Prosiect bellach yn ei le ar gyfer y pum prosiect digidol gyda'r prosiect Prosesu Signal Digidol (DSP) bellach yn cyflawni yn dilyn cymeradwyaeth i'r Achos Busnes Llawn (FBC) ym mis Rhagfyr 2021. Mae cymeradwyo FBC y DSP yn garreg filltir fawr i'r Rhaglen Ddigidol a Chynllun Twf Gogledd Cymru fel y cyntaf o holl brosiectau'r Cynllun Twf i gyrraedd y cam cymeradwyo terfynol.<br>• Mae cyflawni'r Achosion Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiectau yr Ychydig % Olaf (band eang tra chyflym) a Coridorau Cysylltiedig (cysyllted symudol ar lwybrau trafnidiaeth) ar y trywydd cywir gyda chefnogaeth allanol wedi'i dwyn i mewn i ddarparu arbenigedd a chapasiti.<br>• Ar ôl cael eu hoedi i ganiatáu i'r rhaglen ganolbwyntio ar y tri achos busnes cychwynnol, mae'r ddau brosiect Campws Cysylltiedig a Ffibr Llawn mewn safleoedd allweddol bellach yn y camau Achos Busnes Strategol, gydag Achosion Busnes Amlinellol i ddilyn yn 2022. |





Mark Pritchard
Aelod Arweiniol



Sioned Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Stuart Whitfield
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Prosesu Signal Digidol** Prifysgol Bangor | Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo | • Caffael wedi'i gwblhau gyda'r holl eitemau yng ngwedd 1 o fewn y gylildeb<br>• Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais a sicrwydd wedi'i gymeradwyo gan Lywodraethau Cymru a'r DU | • Cyflawni gwedd gyntaf yr offer<br>• Adolygiad Porth 4 ('Parodrwydd am y Gwasanaeth')<br>• Dechrau gweithgareddau Ymchwil a Datblygu sy'n gysylltiedig â buddsoddiad y Cynllun Twf. | | • Cynnydd ar y trywydd iawn heb unrhyw rwystrau wedi'u hadnabod |
| **Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Datblygu sgôp y prosiect, amcanion gwario, adnabod risgiau a buddion y prosiect a'r opsiynau cyflawni | • Cwblhau Achos Busnes Amlinellol<br>• Adolygiad Porth 2 ('Strategaeth Cyflawni')<br>• Adolygiad y Bwrdd Rhaglen<br>• Deilliant Adolygiad Marchnad Agored Llywodraeth Cymru | | • Gwaith datblygu'r Achos Busnes Amlinellol ar y trywydd cywir a disgwylir deilliant Adolygiad Marchnad Agored Llywodraeth Cymru yn gynnar yn Chwarter 4. |
| **Coridorau Cysylltiedig**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Achos Amlinellol Strategol wedi'i ddatblygu<br>• Datblygu sgôp y prosiect, amcanion gwario, adnabod risgiau a buddion y prosiect a'r opsiynau cyflawni | • Ymarfer gwaelodlin darpariaeth<br>• Datblygiad Achos Busnes Amlinellol | | • Cwblhau Achos Busnes Amlinellol yn ddarostyngedig i gyflawni ymarferiad gwaelodol i adnabod meysydd ar gyfer ymyrraeth. |
| **Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Bwrdd Prosiect ac Uwch Berchennog Cyfrifol wedi'u penodi<br>• Adolygiad cychwynnol o sgôp ac amcanion y rhaglen | • Datblygu Achos Amlinellol Strategol<br>• Caffael cefnogaeth allanol i ddarparu arbenigedd a chapasiti technegol | | • Bydd cynnydd yn Chwarter 4 yn ddibynnol ar gaffael cefnogaeth arbenigol allanol yn llwyddiannus |
| **Campysau Cysylltiedig**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Bwrdd Prosiect ac Uwch Berchennog Cyfrifol wedi'u penodi<br>• Adolygiad cychwynnol o sgôp ac amcanion y rhaglen | • Datblygu Achos Amlinellol Strategol<br>• Caffael cefnogaeth allanol i ddarparu arbenigedd a chapasiti technegol | | • Bydd cynnydd yn Chwarter 4 yn ddibynnol ar gaffael cefnogaeth arbenigol allanol yn llwyddiannus |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi. | 980 | £530m | £668.5m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| Ambr | • RAG Ambr oherwydd oedi i achosion busnes Datgarboneiddio Trafnidiaeth ac Egni ac effeithiau posibl ceisiadau am newid Egni a Morlais ar Amcanion Gwariant Rhaglenni<br>• Caniatâd yn ei le ar gyfer Morlais, gan ganiatáu i benderfyniadau ariannu a buddsoddi terfynol gael eu gwneud y chwarter nesaf. Bydd Menter Môn yn cyflwyno cais i newid yn gynnar yn 2022, gan esbonio'r newidiadau arfaethedig i'r modd y caiff £9m o gyllid y Cynllun Twf a ddyrennir i'r prosiect ar hyn o bryd ei wario<br>• Y ffordd arfaethedig ymlaen ar gyfer y Prosiect Datgarboneiddio Trafnidiaeth a gymeradwywyd gan y Bwrdd Prosiect. Yn amodol ar gefnogaeth y Bwrdd Uchelgais, mae'r gwaith cynllunio ar gyfer y wedd nesaf o gyflawni wedi dechrau. Mae hyn yn golygu caffael partner masnachol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni canolfan hydrogen werdd<br>• Prosiect Egni yn rhedeg 3 mis y tu ôl i'r amserlen gyda gostyngiadau arfaethedig mewn amcanestyniadau gwariant cyfalaf. Bydd newidiadau'n cael eu hystyried fel rhan o'r broses adolygu achosion busnes.<br>• Prosiect Ynni Lleol Blaengar a Thrawsfynydd ar y trywydd iawn ar hyn o bryd heb unrhyw risgiau na phroblemau sylweddol<br>• Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r Rhaglen Ynni Carbon Isel yn ystod Sioe Deithiol Ranbarthol COP26 Cymru ym mis Tachwedd |





Y Cynghorydd Llinos Medi
Aelod Arweiniol



Dylan Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Henry Aron
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | Ambr | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | Coch | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Morlais**<br>Menter Môn | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth a Gwaith a Thrwydded Morol wedi'u sicrhau<br>• Achos busnes wedi'i gyflwyno i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru<br>• Caffael prif gontractwyr ar gyfer y wedd adeiladu<br>• Gwnaeth Menter Môn newidiadau i gwmpas a threfniadau ariannu'r prosiect Isadeiledd. Bydd Cais i Newid yn cael ei gyflwyno'r chwarter nesaf, gan roi esboniad llawn o achosoldeb a goblygiadau'r newidiadau. | • Penderfyniad buddsoddi Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru<br>• Penderfyniad terfynol Menter Môn i fuddsoddi<br>• Clirio amodau caniatâd cyn adeiladu a chychwyn adeiladu - yn amodol ar ddim her gyfreithiol lwyddiannus i benderfyniad cydsyniad<br>• Cais i Newid a gyflwynwyd i'w ystyried gan y Bwrdd Uchelgais<br>• Contractau ar gyfer Gwahaniaeth Arwerthiant Rownd 4 ceisiadau wedi'u cyflwyno gan ddatblygwyr | Ambr | • Mae risgiau prosiectau wedi gostwng yn dilyn penderfyniadau cydsyniad cadarnhaol a chyhoeddiadau Llywodraeth y DU ar ynni'r llanw<br>• Bydd y Cais i Newid yn effeithio ar gyllid y Cynllun Twf gwerth £9m a ddyrennir ar hyn o bryd i'r prosiect ac Amcanion Gwariant y Rhaglen. Caiff hyn ei ystyried gan y Bwrdd Uchelgais yn ystod y chwarter nesaf |
| **Datgarboneiddio Trafnidiaeth (Prosiect Hydrogen)**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Y ffordd arfaethedig ymlaen wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd Prosiect. Bydd y cam cyntaf yn canolbwyntio cynhyrchu hydrogen gwyrdd yn y rhanbarth gyda chymorth gan bartner masnachol. Bydd yr ail gam yn canolbwyntio ar ranbartholi drwy alw am drafnidiaeth yn y sector cyhoeddus a/neu ddosbarthiad rhanbarthol<br>• Mae datblygu'r Achos Busnes Amlinellol wedi parhau, gan gynnwys gweithdy gyda'r Bwrdd Prosiect a rhanddeiliaid ehangach | • Cwblhau cam cyntaf yr Achos Busnes Amlinellol a chael cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer y ffordd arfaethedig ymlaen<br>• Cynllun ar gyfer cyflawni'r cam cyflawni nesaf - caffael partner masnachol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a darparu canolfan hydrogen werdd | Ambr | • Bydd oedi wrth gymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol er mwyn caniatáu caffael partner masnachol (yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd i'r dull arfaethedig) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | Ambr | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | Coch | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni)**<br>Prifysgol Bangor | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Recriwtio rheolwr prosiect newydd<br>• Ystyriodd y Bwrdd Uchelgais gais am newid ar gyfer amcanestyniadau cyfalaf is a'r effaith ar Amcanion Gwariant Rhaglenni | • Amlinelliad o Gynnydd Gweithdai Achos Busnes a datblygu drafft llawn ar gyfer adolygiad y Swyddfa Rheoli Portffolio<br>• Datrys y cais i newid<br>• Trefnu Adolygiad Porth 2 ar gyfer Ebrill/Mai 2022<br>• Caffael cam cyntaf cyflawni prosiectau - dymchwel adeiladau presennol i wneud lle ar gyfer adeilad newydd Egni | Coch | • Cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol wedi'i oedi o 3 mis<br>• Cais i newid ac effaith ar Amcanion Gwariant Rhaglenni i'w hystyried ymhellach |
| **Ynni Lleol Blaengar**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Amlinellol Strategol | • Cymeradwywyd yr Achos Amlinellol Strategol gan y Bwrdd Prosiect<br>• Sicrhawyd £387,000 drwy'r Gronfa Adnewyddu Cymunedol tuag at astudiaethau dichonoldeb. Cânt eu cynnal ar lefel ardal Awdurdod Lleol a bydd yn ceisio adnabod safleoedd peilot posib ar gyfer prosiectau System Ynni Lleol Blaengar. | • Cymeradwyo Achos Amlinellol Strategol gan y Bwrdd Rhaglen a Phortffolio.<br>• Dechrau datblygu'r Achos Busnes Amlinellol<br>• Bwrw ymlaen â chyflawni astudiaethau Cronfa Adfywio Cymunedol | Gwyrdd | • Prosiect ar y trywydd iawn heb unrhyw risgiau / problemau sylweddol |
| **Trawsfynydd**<br>Cwmni Egino | Disgwylir i'r broses achos busnes ddechrau yn 2022 | • Datblygu achos busnes ar gyfer datblygu Cwmni Egino ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol<br>• Caffael staff Cwmni Egino<br>• Gweithdai gwireddu buddiannau a digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'u cyflawni<br>• Roedd Strategaeth Sero Net Llywodraeth y DU yn cynnwys cyllid ar gyfer datblygu Adweithyddion Modiwlaidd Bach ac Uwch | • Canolbwyntio ar sefydlu systemau Cwmni Egino ac ymgysylltu â pherchennog a gweithredwr y safle. Cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid lleol allweddol yn parhau<br>• Cwmni Egino i'w wahodd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Rhaglen a Phortffolio<br>• Recriwtio staff Cwmni Egino a chyfarwyddwyr anweithredol ymhellach | Gwyrdd | • Prosiect ar y trywydd iawn heb unrhyw risgiau / problemau sylweddol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | Ambr | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | Coch | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Hwyluso rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael. | 2280 | £1.29bn | £355.4m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| (Ambr) | • Mae datganiad sefyllfa'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ar leihad o ran carbon gweithredol ac ymgorfforedig a gwelliannau bioamrywiaeth yn cael ei asesu o ran yr effaith ar brosiectau, ac mae hyn yn cael ei drafod o safbwynt prosiectau Parc Bryn Cegin, Bangor a chyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych.<br>• Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cael cyllid i ddatblygu Uwchgynllun ar gyfer safle Prosiect Porth y Gorllewin ac i gefnogi sylwadau'r Cynghorau i Banel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o gymeradwyo uwchraddio Cyffordd yr A483.<br>• Warren Hall, Brychdyn - mae'r Arolygydd Cynllunio wedi cadarnhau na chaniateir y clustnodiad polisi preswyl ar safle'r prosiect. Roedd disgwyl adroddiad ar Archwiliad Cyhoeddus y Cynllun Datblygu Lleol ddiwedd mis Rhagfyr 2021.<br>• Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych - Mae'r argymhellion ar gyfer Adolygiad Porth 2 yn cael eu gweithredu. Mae achos busnes amlinellol wedi'i ddarparu gan Avison Young ar ran Jones Bros ac mae hyn yn cael ei adolygu. Darparwyd arfarniad datblygu diwygiedig ac mae trafodaethau'n parhau.<br>• Mae cwmpas y prosiect wedi'i egluro, a chadarnhawyd bod gwaith adnewyddu'r Morglawdd y tu hwnt i gwmpas cyllid y Cynllun Twf. Mae trafodaethau Gwella Capasiti Porthladdoedd sy'n cynnwys Stena, Uchelgais Gogledd Cymru, Cyngor Ynys Môn a Llywodraeth Cymru yn parhau. |



Y Cynghorydd Hugh Evans
Aelod Arweiniol



Andrew Farrow
Uwch Berchennog Cyfrifol



David Mathews
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (Gwyrdd) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | (Ambr) | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | (Coch) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Porth y Gorllewin, Wrecsam**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae prosiect Cyffordd yr A483 wedi'i gynnwys yn Adolygiad Rhaglen Gyfalaf Priffyrdd Llywodraeth Cymru i'w adrodd yng nghanol 2022.<br>• Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth amlinellol rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a'r Cyngor yn cael ei ddatblygu. | • Cyllid ar gyfer prif gynllunio prosiect Porth y Gorllewin i'w sicrhau.<br>• Cwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Cyngor.<br>• Y Cyngor i gyflwyno sylwadau ffurfiol i Banel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru. | | Rhaglen diweddaru cyffordd yr A483 fydd yn pennu'r amserlenni ar gyfer cyflawni'r prosiect. |
| **Warren Hall, Brychdyn**<br>Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae'r Arolygydd Cynllunio wedi cadarnhau na fydd y clustnodiad polisi preswyl o fewn Warren Hall yn bwrw ymlaen o fewn y Cynllun Datblygu Lleol. | • Cytuno ar broses cymeradwyo achos busnes a llywodraethu i ganiatáu Cynllun Cyflawni Eiddo Llywodraeth Cymru ei hun.<br>• Disgwylir adroddiad yr Arolygwyr Cynllunio ar Gynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint yn gynnar yn 2022. | | • Mae amserlen Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol wedi'i drefnu ar gyfer 2022 ac yn dilyn hynny bydd angen cymeradwyo newid y prosiect. |
| **Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae swyddogion Uchelgais Gogledd Cymru wedi darparu eu hasesiad o'r prosiect cyfredol i Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer eu hadolygiad mewnol. | • Penderfyniad gan y Cyngor ynghylch sut byddai prosiect adolygu posib yn eistedd o fewn y Cynllun Datblygu Lleol adneuo. | | • Bydd polisi'r Cynllun Datblygu Lleol cyfredol yn cael ei adolygu erbyn 2023 a pholisi newydd yn cael ei fabwysiadu a allai newid cwmpas y prosiect yn faterol. |
| **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych**<br>Jones Bros (Ruthin) Limited / Cyngor Sir Ddinbych | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Achos Busnes Prosiect Amlinellol wedi'i ddrafftio gan ymgynghorwyr Jones Bros.<br>• Mae trafodaethau ac opsiynau i liniaru'r risg o ddatblygu yn parhau.<br>• Mae argymhellion Adolygiad Porth 2 yn cael eu gweithredu. | • Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol i i'w gymeradwyo gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.<br>• Cytuno ar yr holl gysylltiadau cytundebol a materion caffael gyda Jones Bros a Chyngor Sir Ddinbych. | | • Risg yn adlewyrchu costau adeiladu a chostau anarferol yr effeithir arnynt gan gynnydd mewn costau adeiladu. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Parc Bryn Cegin, Bangor**<br>Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Cytuno â Llywodraeth Cymru ar sgôp prosiect ar gyfer cyflwyno eiddo cyflogaeth carbon isel newydd i fodloni datganiad safbwynt y bwrdd ar garbon isel.<br>• Mae'r defnydd o egwyddorion Dylunio ar gyfer Gweithgynhyrchu a Chydosod yn cael ei drafod gydag Eiddo Llywodraeth Cymru. | • Cwblhau'r Cytundeb Menter ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru.<br>• Ffurfioli'r broses gymeradwyo ar gyfer cyllid y Cynllun Twf gan ddefnyddio achos busnes cyflawni eiddo Llywodraeth Cymru fel Achos Amlinellol Strategol. | | • Mae galw gan feddianwyr posib yn ymddangos yn gryf.<br>• Perchennog tir parod<br>• Defnydd arfaethedig sy'n cydymmfurfio a Pholisi Cynllunio. |
| **Porth Caergybi**<br>Stena Line Ports Limited | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Cymeradwywyd Cais i Newid Prosiect i eithrio adnewyddu Morglawdd Caergybi gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ym mis Hydref.<br>• Mae Stena, Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn ac Uchelgais Gogledd Cymru y Bwrdd Uchelgais yn cynnal trafodaethau parhaus i gyflawni'r buddsoddiad yn yr harbwr. | • Caiff cyllid adnewyddu'r morglawdd ei gymeradwyo gan y partïon perthnasol.<br>• Cytuno gyda Stena ynghylch cyflawni Achos Busnes Amlinellol ar gyfer cyflawni gwaith ehangu capasiti'r porthladd ac amserlen ar gyfer cyflawni'r prosiect.<br>• Datblygu'r cysylltiadau ehangach ar gyfer buddsoddi yn y porthladd er mwyn i Stena ymrwymo cyllid cyfalaf sylweddol yn y porthladd. | | • Mae eglurhad ynghylch y cwmpas wedi cael gwared ar risg sylweddol o fewn y prosiect<br>• Mae risgiau masnachol eraill yn parhau sy'n gofyn am fesurau lliniaru i indemnio buddsoddiad y sector preifat yn y porthladd.<br>• Mae graddfa risg y prosiect yn adlewyrchu cydbwysedd o'r uchod. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Adeiladu economi sylfaen mwy cynaliadwy, bywiog a gwydn o fewn y rhanbarth, gan wneud y gorau o gyfleoedd am gyflogaeth a ffyniant drwy ein hamgylchedd a'n tirwedd. | 380 | £281m | £41.3m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| (Ambr) | • Mae Bwrdd Prosiect wedi'i sefydlu ar gyfer y Rhwydwaith Talent Twristiaeth fel bod yr holl Fyrddau Prosiect yn cyfarfod yn fisol gyda rheolwyr prosiect penodedig yn eu swyddi ar gyfer pob un o'r tri phrosiect.<br>• Mae gweithdai wedi'u cwblhau ar gyfer prosiectau Glynllifon a Llysfasi; mae gweithdy 1 wedi'i gyflawni gyda'r Rhwydwaith Talent Twristiaeth gyda gweithdai eraill wedi'u trefnu ar gyfer dechrau 2022<br>• Mae Achos Busnes Amlinellol wedi'i gymeradwyo ar gyfer prosiect Glynllifon; derbyniodd prosiect Llysfasi raddfa Adolygiad Porth Ambr-Gwyrdd (yr ail uchaf) calonogol ym mis Tachwedd<br>• Tri phrosiect Datgarboneiddio drwy Ymchwil Busnesau i'r System Gyfan (WBRID) peilot wedi symud ymlaen i Wedd 2 cystadleuaeth busnes Fferm Sero Net Llysfasi gan arddangos system treulio anaerobig y gellir ei ehangu, cefnogaeth drôn ar gyfer tasgau fferm a datblygu llwyfan ôl-troed carbon ar gyfer ffermwyr da byw Cymru.<br>• Cynnydd ar fidiau arian cyfatebol i gefnogi'r Rhwydwaith Talent Twristiaeth drwy raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, Llywodraeth Cymru, a Chronfa Adfer Cymunedol y DU. |





Cyng Charlie McCoubrey
Aelod Arweiniol



Jane Richardson
Uwch Berchennog Cyfrifol



Robyn Lovelock
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (Gwyrdd) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | (Ambr) | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | (Coch) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon**<br>Grŵp Llandrillo Menai | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Gwerthusiad opsiynau wedi'i gwblhau i adnabod llwybrau mynediad i'r canolbwynt<br>• Paratoi cais cyn-gynllunio gan roi sylw i adborth gan Cynllunio<br>• Ymchwiliadau amgylcheddol parhaus<br>• Cyflwyniadau prosiect i Weinidog Llywodraeth Cymru, Lesley Griffiths AS, gydag arweinwyr busnes | • Cwblhau a chyflwyno cais cyn-gynllunio a rhoi sylw i adborth<br>• Ymgysylltu â Grŵp Defnyddwyr Prosiect i ddatblygu cynllun gwireddu buddion ymhellach | Ambr | • Opsiynau lleoliad a mynediad a ffafrir i'w cwblhau<br>• Caniatâd cynllunio i'w sicrhau. |
| **Fferm Sero Net Llysfasi**<br>Coleg Cambria | Cwblhau'r Achos Busnes Amlinellol | • Yr holl weithdai achos busnes wedi'u cwblhau<br>• Adroddiad draff wedi'i gwblhau ar lwybr Fferm Llysfasi i sero net<br>• Adolygiad Achos Busnes Amlinellol Porth 2 wedi'i gwblhau gyda gradd Ambr-Gwyrdd<br>• Cyflwyniadau prosiect i Weinidog Llywodraeth Cymru, Lee Waters | • Cwblhau Achos Busnes Amlinellol gan ymgorffori argymhellion y Swyddfa Rheoli Portffolio a'r Adolygiad Porth<br>• Cwblhau'r broses gymeradwyo - rhagwelir ystyriaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd o'r Achos Busnes Amlinellol ym mis Gorffennaf 2022 | Ambr | • Datblygiad yr achos busnes yn rhedeg ar ôl yr amserlen wreiddiol.<br>• Caniatâd cynllunio i'w sicrhau.<br>• Mae angen datblygu cynllun buddsoddi'r sector preifat a'r prosiect ymhellach er mwyn rhoi manylion ynghylch sut caiff y targedau swyddi a buddsoddiad eu cyflawni<br>• Uchelgais newid hinsawdd i'w bennu |
| **Rhwydwaith Talent Twristiaeth**<br>Grŵp Llandrillo Menai | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Bwrdd Prosiect wedi'i sefydlu ac yn cyfarfod yn fisol<br>• Cynhaliwyd y gweithdy achos busnes cyntaf ym mis Rhagfyr 2021 | • Cwblhau'r Achos Economaidd yn cynnwys gweithdy<br>• Achos Amlinellol Strategol wedi'i ddrafftio a'i adolygu | Ambr | • Angen datblygu rôl y sector preifat er mwyn cyflawni targedau swyddi a buddsoddi<br>• Nifer o fidiau perthnasol yn cael eu rheoli ar gyfer llwyddiant<br>• Strwythur cyfreithiol ac ariannol y model prif ganolfan a lloerennau i'w gytuno |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | Ambr | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | Coch | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Cyfnerthu lleoliad Gogledd Cymru fel clwstwr gweithgynhyrchu gwerth uchel pwerus ac arloesol, sy'n adeiladu ar arbenigedd presennol ac arbenigedd byd-eang i greu sail economaidd gwerth uwch, mwy amrywiol sy'n cefnogi trosglwyddo i economi carbon isel. | 180 | £114m | £39.5m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| (Coch) | • Y ddau brosiect yn cael eu hadolygu gan y Bwrdd Portffolio yn sgil newidiadau i ragamcanion cyfalaf a refeniw.<br>• Swyddfa Rheoli Portffolio a Bwrdd Rhaglen wedi cwblhau adolygiadau achos busnes o brosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter Prifysgol Glyndŵr.<br>• Achos busnes amlinellol Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter Glyndŵr (yn ymgorffori newidiadau cyfalaf / refeniw ac adborth yr adolygiad) yn rhagweld ystyriaeth y Bwrdd Uchelgais ym mis Mawrth 2022<br>• Ymchwil sefyllfa strategol ar gyfer prosiect Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol Bangor wedi'i gwblhau<br>• Achos Amlinellol Strategol (yn ymgorffori newidiadau cyfalaf / refeniw) ar gyfer Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol Bangor gydag Adolygiad Porth 1 wedi'i gynllunio ar gyfer mis Chwefror 2022 |





Cyng. Dyfrig Siencyn
Aelod Arweiniol



Paul Bevan
Uwch Berchennog Cyfrifol




Robyn Lovelock
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (Gwyrdd) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | (Ambr) | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | (Coch) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter**<br>Prifysgol Glyndŵr | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Newid i ragamcanion cyfalaf a refeniw wedi'i adnabod yn ystod diweddariad blynyddol achos busnes y rhaglen<br>• Ail adolygiad o'r Achos Busnes Amlinellol gan y Swyddfa Rheoli Portffolio - pedwar maes pellach i dderbyn sylw: cryfhau eglurder yr achos dros newid; diweddaru achosion economaidd ac ariannol o ystyried y newidiadau cyllid cyfatebol; cryfhau'r dull cylchol o gynhyrchu; cryfhau rheoli risg. | • Datrys y cais i newid ar gyfer rhagamcanion cyfalaf a refeniw<br>• Gwneud diwygiadau terfybol i'r Achos Busnes Amlinellol<br>• Cwblhau'r broses gymeradwyo - Rhagwelir ystyriaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd o'r Achos Busnes Amlinellol ym mis Mawrth 2022. | | • Datblygiad yr achos busnes yn rhedeg ar ôl yr atodlen wreiddiol.<br>• Cais i newid ar gyfer rhagamcanion cyfalaf a refeniw |
| **Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol**<br>Prifysgol Bangor | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Newid i ragamcanion cyfalaf a refeniw wedi'i adnabod yn ystod diweddariad blynyddol achos busnes y rhaglen<br>• Ymchwil sefyllfa strategol ar gyfer prosiect Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol Bangor wedi'i gwblhau<br>• Achos Amlinellol Strategol bron wedi'i gwblhau<br>• Trafodaethau mewnol parhaus i gadarnhau sgôp y prosiect yn unol â blaenoriaethau biotechnoleg rhanbarthol/cenedlaethol sydd ar ddyfod. | • Datrys y cais i newid ar gyfer rhagamcanion cyfalaf a refeniw<br>• Gwneud diwygiadau terfynol i'r Achos Amlinellol Strategol<br>• Parhau i ymgysylltu â rhan-ddeiliaid<br>• Paratoi ar gyfer adolygiadau'r PMO a'r bwrdd rhaglen ym mis Ionawr 2022 ac adolygiad Porth 1 ym mis Chwefror 2022<br>• Cyflawni gweddill y gweithdai achos busnes | | • Newid Rheolwr Prosiect (dros dro, yn disgwyl recriwtio)<br>• Angen gwaith pellach er mwyn diffinio sgôp y prosiect, gan arwain at oediad parhaus<br>• Cais i newid ar gyfer rhagamcanion cyfalaf a refeniw |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |




| | OBC | Cychwyn ar safle | Prosiect wedi cwblhau |
|---|---|---|---|
| Canolfan Prosesu Signal Digidol | 08/21 | 01/22 | 12/23 |
| Cysylltedd Cystadleuol( Ffibr Llawn) | 07/22 | 12/22 | 02/24 |
| Coridor Cysylltiedig | 04/22 | 11/22 | 05/24 |
| Campws Cysylltiedig | 07/22 | 12/22 | 02/25 |
| Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | 02/22 | 09/22 | 05/24 |
| Morlais | 05/21 | 02/22 | 06/23 |
| Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | 06/23 | 06/24 | 04/27 |
| Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | 04/22 | 06/23 | 06/25 |
| Ynni Lleol Blaengar | 09/22 | 06/23 | 2028 |
| Datgarboneiddio Trafnidiaeth | 04/22 | 10/23 | 10/24 |
| Porth Caergybi | 06/22 | 03/23 | 06/26 |
| Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | 02/22 | 06/22 | 03/26 |
| Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan | 09/24 | 09/25 | 03/27 |
| Porth Y Gorllewin, Wrecsam | 12/22 | 10/23 | 03/25 |
| Warren Hall, Brychdyn | 09/22 | 10/23 | 09/24 |
| Parc Bryn Cegin, Bangor | 01/23 | 10/23 | 06/24 |
| Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | 08/21 | 01/23 | 03/24 |
| Fferm Sero Net Llysfasi | 02/22 | 08/22 | 09/23 |
| Rhwydwaith Talent Twristiaeth | 06/22 | 10/23 | 10/24 |
| Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | 04/22 | 06/23 | 06/25 |
| Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | 02/22 | 08/22 | 04/24 |

*Proffil cyflawni yn unol ag Achos Busnes y Portffolio 2021. Os yw Achos Busnes Amlinellol neu Achos Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo mae'r ffigyrau wedi'u diweddaru gyda'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 9. Tabl Olrhain Amcanion Gwario Prosiectau'r Cynllun Twf - Trosolwg o gyflawni

| | | Targedau Achos Busnes y Portffolio 2020 | | | Targedau Achosion Busnes y Prosiectau sydd wedi'u | | | | Gwahaniaeth | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | GVA (£M) | Swyddi a grëir (net) | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* | OBC/FBC** | GVA (£M) | Swyddi a grëir (net) | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* | GVA (£M) | Swyddi a grëir | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* |
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | 50 | 80 | 7.3 | FBC | 12 | 33 | 3.0 | -38 | - 47 | - 4.3 |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | 35 | 150 | 4 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Coridor Cysylltiedig | 25 | 0 | 2.2 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Ffibr llawn mewn Safleoedd Allweddol | 20 | 120 | 7.2 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Campysau Cysylltiedig | 35 | 0 | 21 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | 50 | 100 | 36 | OBC | 79 | 210 | 34 | +29 | +110 | - 2 |
| | Datgarboneiddio Trafnidiaeth | 60 | 90 | 28.6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | 20 | 20 | 97.7 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Ynni Lleol Blaengar | 120 | 180 | 106.2 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | 230 | 510 | 400 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | 220 | 360 | 43.4 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Warren Hall, Brychdyn | 235 | 440 | 70 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan | 125 | 250 | 82 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | 20 | 50 | 74 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | 30 | 50 | 6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Porth Caergybi | 545 | 930 | 80 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | 25 | 40 | 13 | OBC | 45 | 96 | 13 | +20 | +56 | 0 |
| | Fferm Sero Net Llysfasi | 215 | 310 | 15.4 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | 20 | 0 | 12.9 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | 45 | 70 | 29.9 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | 60 | 90 | 9.6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| **Cyfanswm Portffolio'r Cynllun Twf** | | 2,185 | 3,830 | 1,146 | 2 OBC<br>1 FBC | 136 | 342 | 50 | +49 | +119 | - 6.3 |

* Cyfanswm buddsoddiad yn cynnwys 1.5% o gostau'r Swyddfa Rheoli Portffolio   ** OBC - Achos Busnes Amlinellol, FBC - Achos Busnes Llawn

# 10. Proffil Gwariant Grant y Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 2021

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | 2021/22 £m | 2022/23 £m | 2023/24 £m | 2024/25 £m | 2025/26 £m | 2026/27 £m | 2027/28 £m | 2028/29 £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol** | Prifysgol Bangor | 1.82 | 0.70 | 0.44 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.69 | 1.97 | 1.28 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 |
| | Coridor Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.49 | 1.18 | 0.50 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.17 |
| | Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.49 | 3.05 | 3.16 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.70 |
| | Campysau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 0.30 | 3.84 | 5.81 | 5.81 | 4.92 | 0.00 | 20.68 |
| Ynni Carbon Isel | Morlais** | Menter Môn | 0.00 | 4.93 | 3.94 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| | Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 3.94 | 3.94 | 3.35 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.23 |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | Prifysgol Bangor | 0.00 | 1.18 | 8.47 | 9.36 | 1.67 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 20.68 |
| | Ynni Lleol Blaengar | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 1.23 | 1.97 | 6.16 | 6.16 | 6.16 | 2.95 | 24.63 |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | 0.00 | 0.00 | 4.93 | 9.85 | 4.92 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 19.70 |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 4.04 | 4.92 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.96 |
| | Warren Hall, Brychdyn | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.30 | 1.18 | 5.91 | 7.38 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 14.77 |
| | Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.49 | 0.99 | 5.42 | 2.95 | 0.00 | 9.85 |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.99 | 0.99 | 0.98 | 0.98 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.25 | 2.71 | 2.95 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.91 |
| | Porth Caergybi | Stenaline | 0.00 | 0.00 | 11.33 | 13.79 | 9.35 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 34.47 |
| Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon** | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 6.90 | 2.95 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 9.85 |
| | Fferm Sero Net Llysfasi | Coleg Cambria | 0.00 | 4.93 | 4.92 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 9.85 |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.48 | 1.48 | 1.47 | 0.00 | 0.00 | 4.43 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | 0.00 | 6.40 | 3.15 | 0.30 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 9.85 |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 1.23 | 1.73 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| | | | | | | | | | | Costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio (1.5%) | 3.60 |
| | | | | | | | | | | Cyfanswm | 240.00 |

* Mae proffil dyraniad cyllid cyfalaf y Cynllun Twf yn seiliedig ar Achos Busnes Portffolio 2021.
** Os yw Achos Busnes Amlinellol neu Achos Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo mae'r ffigyrau wedi'u diweddaru gyda'r wybodaeth ddiweddaraf.

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | Proffil 21/22 (£m) | YTD Gwirioneddol | Amrywiad (£m)* | Sail Resymegol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol | Prifysgol Bangor | 1.82 | 0.00 | -1.82 | Achos Busnes Llawn cyntaf wedi'i gymeradwyo ym mis Rhagfyr 2021. Disgwylir i'r gwariant fod yn unol â phroffil Achos Busnes diwygiedig y Portffolio 2021 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Coridor Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Campysau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2021 Achos Busnes y Portffolio. |
| | Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Ynni Lleol Blaengar | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2021 Achos Busnes y Portffolio. |
| | Warren Hall, Brychdyn | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Porth Caergybi | Stenaline | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2021 Achos Busnes y Portffolio. |
| | Fferm Sero Net Llysfasi | Coleg Cambria | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2021 Achos Busnes y Portffolio. |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | | **Costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio (1.5%)** | **0.384** | **0.219** | **-0.165** | **Gwariant ychydig yn is nag a ragwelwyd** |
| | | **Total** | **2.204** | **0.219** | **-1.985** | **Gweler uchod** |

* Amrywiaeth yw'r gwahaniaeth rhwng y proffil a gynlluniwyd (Achos Busnes y Portffolio 2021) a gwariant Gwirioneddol y Flwyddyn Hyd Yma (YTD). Ffigyrau YTD hyd at ddiwedd Rhagfyr 2021.

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | Prifysgol Bangor | Bydd y prosiect yn galluogi i'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol ymestyn ei bresenoldeb a'i gylch gwaith, gan integreiddio'n llawn â'r Prosiect Strategaeth Cenedlaethol a galluogi datblygu asedau allweddol ar raddfa, gan gynnwys prawf-wely 5G, capasiti ymchwil ac offer o'r radd flaenaf. |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Mae'r prosiect hwn yn targedu gwasanaeth cyflym iawn hollgynhwysol ar draws y Gogledd, nad ydynt yn cael eu gwasanaethu hyd yma gan ddulliau eraill ac na allant gyflawni cyflymder o 30Mbps (lawrlwytho) o leiaf ar hyn o bryd. |
| | Coridor Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cyflwyno darpariaeth symudol lled band uchel ar rwydweithiau trafnidiaeth ffyrdd a rheilffyrdd gyda defnydd yn cyd-fynd â tharged Llywodraeth y DU, neu cyn hynny. Y ffocws cyfredol yw darpariaeth 4G safon uchel a hwyluso defnyddio 5G. Darpariaeth ar draws yr A55, yr A483 a'r A5. |
| | Ffibr llawn mewn safleoedd allweddol | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Bydd y prosiect hwn yn cyflawni cysylltedd ffeibr llawn (addas ar gyfer gigabit) gyda ffocws cyfredol ar 28 o safleoedd busnes allweddol ar draws y Gogledd. |
| | Campysau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Bydd y prosiect yn ceisio cyflymu datblygiad ystod o opsiynau cysylltedd digidol gyda ffocws cyfredol ar 18 o safleoedd economaidd rhanbarthol allweddol. |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | Menter Môn | Adeiladu'r seilwaith sy'n cysylltu Parth Morlais â'r system grid trydan, gan baratoi'r safle ar gyfer datblygwyr sector preifat i lesu rhannau o'r parth ar gyfer defnyddio technolegau ynni llanwol. |
| | Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cefnogi cyflawni prosiect arddangos sy'n ymwneud â chynhyrchu hydrogen gwyrdd o ffynonellau ynni carbon isel a'i ddefnydd o fewn rhwydweithiau trafnidiaeth rhanbarthol. |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | Prifysgol Bangor | Buddsoddi mewn datblygu'r isadeiledd ym Mhrifysgol Bangor a Pharc Gwyddoniaeth Menai, gwella galluedd y Gogledd a'r DU ar gyfer arloesedd mewn ynni carbon isel a meysydd cysylltiedig, gan helpu i greu'r amodau ar gyfer mewnfuddsoddiad newydd a thwf busnes yn y gadwyn gyflenwi ynni carbon isel yn y Gogledd |
| | Ynni Lleol Blaengar | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Er mwyn helpu i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol, bydd y prosiect yn cefnogi prosiectau hwyluso arloesol ac arddangoswyr sy'n goresgyn methiannau'r farchnad a datgloi buddsoddiad sector preifat a chymunedol mewn datrysiadau ynni lleol blaengar. |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | Mae'r safle wedi'i leoli'n unigryw ar gyfer gwneud defnydd 'Cyntaf o'i Fath' o Adweithydd Modwlar Bychan (SMR) neu Adweithydd Modwlar Uwch (AMR). Ar y cyd â'r sector cyhoeddus a phreifat, bydd y Cynllun Twf yn cyfrannu cyllid tuag at isadeiledd galluogi ar gyfer y datblygiad hwn. |

Tudalen 394

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cyflwyno'r prif wasanaethau fel bod modd dod â'r safle i'r farchnad i'w werthu a'i ddatblygu. |
| | Warren Hall, Brychdyn | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cyflwyno prif wasanaethau fel bod modd i'r safle defnydd cymysg 65 hectar gael ei roi ar y farchnad ar werth ac yna gael ei ddatblygu gan y sector preifat. |
| | Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cyflwyno'r prif wasanaethau fel bod modd dod â'r safle datblygu preswyl a masnachol defnydd cymysg i'r farchnad i'w werthu a'i ddatblygu. |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Darparu arwynebedd llawr diwydiannol i fodloni'r galw hysbys am unedau. |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Bydd arian y Cynllun Twf yn cynorthwyo yng nghyflwyniad safle wedi'i glirio a'i adfer gyda phrif wasanaethau er mwyn dwyn ymlaen datblygiad preswyl a masnachol defnydd cymysg |
| | Porth Caergybi | Stena Line | Sicrhau dyfodol porthladd Caergybi drwy ddarparu cyfleusterau mordeithio a llwytho trwm dŵr dwfn, gwella mynediad cerbydol, gwarantu dyfodol y morglawdd a darparu ar gyfer galwadau prosiectau ynni rhanbarthol. |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | Y weledigaeth yw creu Canolbwynt Economi Gwledig arbennig o'r radd flaenaf yng Nglynllifon, sy'n cynnig ystod o gyfleusterau a gwasanaethau i gryfhau a gwella'r economi rhanbarthol, yn benodol drwy dyfu'r sector bwyd a diod. |
| | Fferm Sero Net Llysfasi | Coleg Cambria | Nod Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi yw arwain y Gogledd at ddyfodol gwydn lle mae rheolaeth tir carbon niwtral yn ganolog i sector ynni adnewyddadwy datblygol sy'n cefnogi cymuned gynaliadwy, ffyniannus ac iach sy'n cwmpasu cymysgfa wledig/trefol y rhanbarth. |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | Sicrhau dyfodol yr ystod o ddarpariaeth sgiliau a chynyddu buddion masnachol o un o'r sectorau mwyaf sefydledig yn y rhanbarth. Bydd y rhwydwaith talent yn ysgogi cydweithrediad cyhoeddus-preifat i gydlynu gweithrediad ar sgiliau a datblygu cynnyrch i drawsnewid a sbarduno twf y sector twristiaeth a lletygarwch yn y rhanbarth. |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (CEB) | Prifysgol Bangor | Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn ganolfan gyda'r gorau yn y byd o ran canfod a nodweddu ensymau newydd o bwys diwydiannol. Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn darparu sylfaen gref ar gyfer denu ymchwilwyr blaenllaw ar lefel fyd-eang, cyllid ymchwil cyhoeddus a masnachol arwyddocaol a mewnfuddsoddiad i Gymru. |
| | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | Bydd y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn darparu cyfleusterau sydd wedi'u targedu i roi hwb i ddatblygu sgiliau lefel uchel i'r rhanbarth a galluogi i fusnesau bach a chanolig eu maint a busnesau mawr weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam ar ymchwil a datblygu opteg, cyfansoddion a thanwydd cell hydrogen sy'n cael ei yrru'n fasnachol. |